# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 16/03/2016

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
1. Questions to the Minister for Finance and Government Business

2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
2. Questions to the Minister for Public Services

3. Datganiad: Bargeinion Dinesig
3. Statement: City Deals

4. Cyfnod 4 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)
4. Stage 4 of the Public Health (Wales) Bill

5. Cynnig i Benodi Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
5. Motion to Appoint the National Assembly for Wales Commissioner for Standards

6., 7. & 8. Cynnig i Ddiwygio Rheol Sefydlog 26 mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad, Cynnig i Ddiwygio Rheol Sefydlog 26A mewn perthynas â Deddfau Preifat y Cynulliad a Rheol Sefydlog 26B mewn perthynas â Deddfau Hybrid y Cynulliad, a Chynnig i Ddiwygio Rheolau Sefydlog 18 a 30A mewn perthynas â Gwelliannau Amrywiol
6., 7. & 8. Motion to Amend Standing Order 26 in relation to Acts of the Assembly, Motion to Amend Standing Order 26A in relation to Private Acts of the Assembly and Standing Order 26B in relation to Hybrid Acts of the Assembly, and Motion to Amend Standing Orders 18 and 30A in relation to Miscellaneous Changes

9. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar ei Ymchwiliad i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio
9. Debate on the Public Accounts Committee's Report on its Inquiry into the Regeneration Investment Fund for Wales

10. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ei Ymchwiliad i Adolygiad Siarter y BBC
10. Debate on the Communities, Equality and Local Government Committee's Report on its Inquiry into the BBC Charter Review

11. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd: 'Dyfodol Ynni Craffach i Gymru'
11. Debate on the Environment and Sustainability Committee's Report: 'A Smarter Energy Future for Wales'

12. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
12. Welsh Liberal Democrats Debate: The National Health Service

13. Dadl Fer: Caerfyrddin 1966 a 2016: 50 Mlynedd Sydd Wedi Newid Cymru
13. Short Debate: Carmarthen 1966 and 2016: 50 Years That Have Changed Wales

14. Cyfnod Pleidleisio
14. Voting Time

15. Datganiadau i Gloi a Chludo'r Byrllysg o'r Siambr
15. Closing Statements and Removal of the Mace


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

## 1. Questions to the Minister for Finance and Government Business

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The first item this afternoon is questions to the Minister for Finance and Government Business, and question 1 is from Julie Morgan.

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yw'r eitem gyntaf y prynhawn yma, a daw cwestiwn 1 gan Julie Morgan.

## Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd

## The European Union Referendum

13:30

### Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*1. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'i chymheiriaid yn y gwledydd datganoledig am oblygiadau cyllido tynnu allan o'r UE? OAQ(4)0684(FIN)*

*1. What discussions has the Minister had with her counterparts in the devolved countries about the funding implications of withdrawal from the EU? OAQ(4)0684(FIN)*

### Altaf Hussain [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*4. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y bydd refferendwm yr UE yn ei chael ar gyllid Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0678(FIN)*

*4. What assessment has the Minister made of the impact that the EU referendum will have on Welsh Government funding? OAQ(4)0678(FIN)*

### Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*10. Beth yw'r goblygiadau ar gyfer cronfeydd strwythurol yng Nghymru os bydd y DU yn penderfynu gadael yr UE yn y refferendwm sydd i ddod? OAQ(4)0685(FIN)*

*10. What are the implications for structural funds in Wales if the UK decides to leave the EU in the forthcoming referendum? OAQ(4)0685(FIN)*

13:30

### Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Presiding Officer, I understand you have given permission for questions 1, 4 and 10 to be grouped.

Lywydd, deallaf eich bod wedi rhoi caniatâd i gwestiynau 1, 4 a 10 gael eu grwpio.

On Monday, I attended the joint ministerial council on Europe in London, where we discussed the UK Government's EU referendum and the damaging impact an exit would have on the economy and security of regions across the UK.

Ddydd Llun, mynychais gyd-bwyllgor y gweinidogion ar Ewrop yn Llundain, lle y buom yn trafod refferendwm Llywodraeth y DU ar yr UE, a'r effaith niweidiol y byddai gadael yn ei chael ar economi a diogelwch rhanbarthau ledled y DU.

13:30

### Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank the Minister for that response. One of the major concerns expressed to me in Cardiff about possible withdrawal from the EU is the huge impact this will have on university research, which, of course, adds a huge amount of value to the Welsh economy. I know Cardiff University, for example, receives funding from the EU Horizon 2020 fund, in particular. So, does the Minister share the concerns over what will happen to university research funding, and does she know whether this is shared by the other devolved bodies?

Diolch i'r Gweinidog am ei hymateb. Un o'r prif bryderon a fynegwyd wrthyf yng Nghaerdydd ynghylch y posibilrwydd o adael yr UE yw'r effaith enfawr a gaiff hyn ar ymchwil prifysgol, sydd, wrth gwrs, yn ychwanegu llawer iawn o werth i economi Cymru. Gwn fod Prifysgol Caerdydd, er enghraifft, yn cael arian o gronfa Horizon 2020 yr UE yn benodol. Felly, a yw'r Gweinidog yn rhannu'r pryderon ynglŷn â'r hyn a fydd yn digwydd i'r cyllid ar gyfer ymchwil prifysgol, ac a yw'n gwybod a yw'r cyrff datganoledig eraill yn rhannu'r un pryderon?

13:31

### Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank Julie Morgan for that question. I totally share the concerns, and, in addition to specific EU funds allocated, worth £500 million annually, to Wales, of course, as you say, funding streams like Horizon 2020 do provide Wales with very important opportunities for research and innovation. I am attending a Horizon 2020 event tomorrow, to celebrate the success of Welsh businesses and universities, including Cardiff, securing £30 million of Horizon 2020 funds so far, to support innovative and scientific breakthroughs and to develop world-class products and services.

Diolch i Julie Morgan am ei chwestiwn. Rhannaf y pryderon hyn yn gyfan gwbl, ac yn ychwanegol at yr arian penodol a ddyrannir gan yr UE, sy'n werth £500 miliwn y flwyddyn i Gymru, fel y dywedwch, wrth gwrs, mae ffrydiau ariannu fel Horizon 2020 yn darparu cyfleoedd pwysig iawn ar gyfer ymchwil ac arloesi. Byddaf yn mynychu digwyddiad Horizon 2020 yfory, i ddathlu llwyddiant busnesau a phrifysgolion Cymru, gan gynnwys Caerdydd, o ran sicrhau £30 miliwn o gyllid Horizon 2020 hyd yn hyn, i gefnogi datblygiadau arloesol a gwyddonol ac i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau o'r radd flaenaf.

13:32 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the EU referendum is one of the biggest decisions the people of Wales will have to make this century. It is therefore vital that they are equipped with the facts about the impact of their decision. Will you ensure that your department, in the run-up to the referendum, publishes clear information about the impact of remaining in the EU, as well as the impact of leaving, and avoid relying on political rhetoric about the dangers of leaving or remaining in the EU? Thank you.

Weinidog, mae refferendwm yr UE yn un o'r penderfyniadau mwyaf y bydd yn rhaid i bobl Cymru eu gwneud yn ystod y ganrif hon. Mae'n hanfodol, felly, eu bod yn ymwybodol o'r ffeithiau ynghylch effaith eu penderfyniad. A wnewch chi sicrhau bod eich adran, yn y cyfnod sy'n arwain at y refferendwm, yn cyhoeddi gwybodaeth glir ynghylch effaith aros yn yr UE, yn ogystal ag effaith gadael, gan osgoi dibynnu ar rethreg wleidyddol am beryglon gadael neu aros yn yr UE? Diolch.

13:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Member very much for that question? I think one of the most important points, as a pro-business Welsh Government, is that we strongly believe that leaving the EU would leave Wales worse off. By being in the EU, Wales currently has a seven-year guarantee of EU funds—from 2014 to 2020—together with income support payments to farmers, worth over £500 million annually in Wales, and it is clear that this information has to be shared. On Monday—again, to put on the record—I visited Cardiff University's School of Engineering to announce £15 million of EU funds for the Flex-E flexible integrated systems project. That is a collaboration, involving not just Welsh universities—Cardiff University, Swansea University, the University of South Wales, Aberystwyth University, and Bangor University—but businesses as well, engaging with industry, developing world-class research that can meet modern-day and low-carbon energy opportunities.

A gaf fi ddiolch yn fawr iawn i'r Aelod am y cwestiwn? Credaf mai un o'r pwyntiau pwysicaf yw ein bod ni, fel Llywodraeth sydd o blaid busnes, yn credu'n gryf y byddai gadael yr UE yn golygu y byddai Cymru yn waeth ei byd. Drwy fod yn yr UE, ar hyn o bryd mae gan Gymru warant saith mlynedd o arian yr UE—o 2014 i 2020—ynghyd â thaliadau cymorth incwm i ffermwyr, sy'n werth dros £500 miliwn y flwyddyn yng Nghymru, ac mae'n amlwg fod yn rhaid rhannu'r wybodaeth hon. Ddydd Llun—i'w gofnodi unwaith eto—bûm yn ymweld ag Ysgol Beirianneg Prifysgol Caerdydd i gyhoeddi £15 miliwn o arian yr UE ar gyfer prosiect systemau integredig hyblyg Flex-E. Mae'n waith cydweithredol, sydd nid yn unig yn cynnwys prifysgolion Cymreig—Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Aberystwyth, a Phrifysgol Bangor—ond busnesau yn ogystal, gan ymgysylltu â diwydiant, a datblygu ymchwil o'r radd flaenaf sy'n darparu cyfleoedd ynni modern a charbon isel.

But, of course, the facts are that, for example, the EU projects that have benefited include Cardiff-based TrakCel's €420,000 investment from Horizon 2020, which I've just mentioned is a key source of funding particularly for our universities and business. I think we've got to recognise that the Welsh Government, in supporting continued membership of the EU, believes that a UK exit would leave Wales worse off and that the economic and social impact on businesses, people's jobs, our prosperity and on our security would be absolutely devastating.

Ond wrth gwrs, y ffaith amdani yw bod prosiectau'r UE sydd wedi elwa, er enghraifft, yn cynnwys buddsoddiad o €420,000 yn TrakCel o Gaerdydd gan Horizon 2020, sydd fel y crybwyllais yn ffynhonnell allweddol o gyllid yn enwedig ar gyfer ein prifysgolion a'n busnesau. Credaf fod yn rhaid i ni gydnabod bod Llywodraeth Cymru, wrth gefnogi aros yn rhan o'r UE, yn credu y byddai Cymru'n waeth ei byd pe bai'r DU yn gadael ac y byddai'r effaith economaidd a chymdeithasol ar fusnesau, swyddi pobl, ein ffyniant a'n diogelwch yn hollol ddinistriol.

13:34 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I recently visited the Cardiff University Brain Research Imaging Centre, which has had millions of pounds from the European Union, and it's causing great anxiety amongst their European partners as to how this multimillion-pound, huge, worldwide, significant project is going to go forward were Britain to leave the EU. So, obviously, the quicker we get the referendum over and done with, the better.

Yn ddiweddar, ymwelais â Chanolfan Delweddu Prifysgol Caerdydd er Ymchwil yr Ymennydd, sydd wedi derbyn miliynau o bunnoedd gan yr Undeb Ewropeaidd, ac mae'n peri pryder mawr ymysg eu partneriaid Ewropeaidd o ran sut y byddai'r prosiect enfawr, arwyddocaol, byd-enwog hwn sy'n werth miliynau o bunnoedd yn parhau pe bai Prydain yn gadael yr UE. Felly, yn amlwg, gorau po gyntaf y cawn y refferendwm allan o'r ffordd.

I just want to reflect on a slightly different aspect of the success of the European Union, which is that it is 100 years nearly since the battle of the Somme, when a million people died for reasons that we cannot any longer remember and it is now 70 years since we've had no substantial war in Europe. I would have thought that this was one of the most important aspects of being part of the European Union. I just wondered if you could tell us what the Welsh Government's intentions are in the way we're going to celebrate Europe Day this year to highlight this point.

Hoffwn ystyried agwedd ychydig yn wahanol ar lwyddiant yr Undeb Ewropeaidd, sef bod bron i 100 mlynedd wedi bod ers brwydr y Somme, pan fu farw miliwn o bobl am resymau na allwn eu cofio erbyn hyn, a bod 70 mlynedd wedi bod bellach ers unrhyw ryfel sylweddol yn Ewrop. Byddwn wedi meddwl mai dyma un o'r agweddau pwysicaf o fod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd. Tybed a allech ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud o ran y ffordd y byddwn yn dathlu Diwrnod Ewrop eleni i dynnu sylw at y pwynt hwn.

13:35 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I'm very grateful to Jenny Rathbone for widening this discussion to important, wider impacts and devastation in terms of leaving the EU, not just in terms of the impact on single market business, universities and on our people and communities, but on the wider understanding of what it means to have been part of Europe and part of the European Union. Of course, Europe Day does provide us with that opportunity to widely recognise that cultural, as well as historical—. I think the exhibition, promoted by our Llywydd, in terms of recognising the role of our relatives across the Senedd in the two world wars—the great wars—and our impact and our relationship with Europe, of course, also recognises that those exchanges that we create with young people are so important in terms of their wider understanding.

Rwy'n ddiolchgar iawn i Jenny Rathbone am ehangu'r drafodaeth hon i gynnwys effeithiau ehangach pwysig a difrod gadael yr UE, nid yn unig o ran yr effaith ar fusnes y farchnad sengl, prifysgolion a'n pobl a'n cymunedau, ond ar y ddealltwriaeth ehangach o'r hyn roedd bod yn rhan o Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd yn ei olygu. Wrth gwrs, mae Diwrnod Ewrop yn rhoi cyfle i ni gydnabod yn eang y cysylltiad diwylliannol, yn ogystal â hanesyddol—. Credaf fod yr arddangosfa, a hyrwyddwyd gan ein Llywydd i gydnabod rôl ein perthnasau ar draws y Senedd yn y ddau ryfel byd—y rhyfeloedd mawr—a'n heffaith a'n perthynas ag Ewrop, wrth gwrs, hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y cyfathrebu a wnawn gyda phobl ifanc o ran eu dealltwriaeth ehangach.

Senedd.tv
Fideo Video

13:36 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, mae gan Gymru botensial enfawr o ran datblygu ynni morol nid yn unig yng nghyd-destun y cynllun presennol yn Abertawe, ond mae yna gynlluniau arfaethedig eraill yng Nghasnewydd, yn y Fro ac ym Mae Colwyn hefyd. A allwch chi gadarnhau y bydd hi'n llawer iawn anoddach i ddatblygu'r prosiectau yma oddi allan i'r Undeb Ewropeaidd nag y byddai hi o fewn yr Undeb Ewropeaidd?

Minister, Wales has huge potential in terms of developing marine energy, and not just in the context of the current scheme in Swansea, as there are proposed schemes in Newport, in the Vale and in Colwyn Bay. Can you confirm that it would be much more difficult to develop these projects outside of the European Union than it would be within the European Union?

Senedd.tv
Fideo Video

13:37 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I certainly can confirm that, Rhodri Glyn Thomas. Of course, again, promoting marine energy, I was in Brussels only very recently, talking about the opportunities. Also, of course, we can benefit from the funding available, including £12 million for renewable energy through Deep Green in Anglesey and Wave Hub off the coast of Pembrokeshire as one example of where that links to marine energy. So, this is something where Wales would lose out, and clearly I'm very pleased that, as to the Swansea bay tidal lagoon proposition, on which we hope we will see some response from the UK Government, but I haven't heard the whole of the budget in terms of my questions, the European Investment Bank sees that as the sort of project that they would like to support.

Gallaf gadarnhau hynny, yn sicr, Rhodri Glyn Thomas. Wrth gwrs, roeddwn yn hyrwyddo ynni morol ym Mrwsel yn ddiweddar iawn, yn siarad am y cyfleoedd. Gallwn elwa hefyd, wrth gwrs, o'r cyllid sydd ar gael, gan gynnwys £12 miliwn ar gyfer ynni adnewyddadwy drwy Deep Green ar Ynys Môn a Wave Hub oddi ar arfordir Sir Benfro fel un enghraifft o ble mae hynny'n cysylltu ag ynni morol. Felly, mae hyn yn rhywbeth y byddai Cymru'n ei golli, ac o ran cynnig y morlyn llanw ym mae Abertawe, y gobeithiwn gael ymateb yn ei gylch gan Lywodraeth y DU, ond nid wyf wedi clywed y gyllideb yn llawn o ran fy nghwestiynau, rwy'n falch iawn bod Banc Buddsoddi Ewrop yn ei weld fel y math o brosiect y byddent yn hoffi ei gefnogi.

Senedd.tv
Fideo Video

## Y Portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## The Health and Social Services Portfolio

13:38 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

*2. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael am y dyraniad cyllidebol i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(4)0676(FIN)[W]*

*2. What discussions has the Minister had regarding the budget allocation to the health and social services portfolio? OAQ(4)0676(FIN)[W]*

Senedd.tv
Fideo Video

13:38 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Fe wnes i ymgynghori yn eang wrth ddatblygu'r gyllideb 'Cymru Decach, Cymru Well—Buddsoddi at y Dyfodol' a gafodd ei phasio yr wythnos diwethaf.

I consulted widely in developing the budget 'Fairer, Better Wales—Investing for the Future', which was passed last week.

Senedd.tv
Fideo Video

13:38 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog. Pa ddarpariaeth sydd yn eich paratoadau cyllidebol ar gyfer newidiadau gan fyrddau iechyd? Y prynhawn yma, fe fues yn cyflwyno deiseb, ar y cyd â Paul Davies, o dros 20,000 o enwau ar gyfer adfer gwasanaethau pediatrig i Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg yn sir Benfro. Ar ôl trafod gyda phrif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, rwy'n ymwybodol eu bod nhw'n cael cadw'r gwasanaethau hyn o dan adolygiad o hyd ac yn ystyried sut y gallan nhw wella'r gwasanaethau gan eu bod mor bwysig i'r gwasanaeth brys a damweiniau yn yr ysbyty hefyd. Beth fyddwch chi'n ei wneud, felly, wrth drafod gyda byrddau iechyd os ydyn nhw am adfer gwasanaethau sydd wedi cael eu symud ymaith?

Thank you, Minister. What provision has been made in your budget for changes by health boards? This afternoon, I presented a petition jointly with Paul Davies, with over 20,000 signatures, on restoring paediatric services to Withybush General Hospital in Pembrokeshire. Having discussed this with the chief executive of Hywel Dda Local Health Board, I have been made aware that they are keeping these services under review and are considering how they can improve the services as they are so important to the accident and emergency department within the hospital too. So, what will you do, in discussion with health boards, if they want to restore services that have been moved elsewhere?

13:39 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, the final budget for next year, for 2016-17, provides for additional investment in healthcare of over £300 million—£260 million revenue and £53 million capital. The additional funding does mean that the budget is now the largest it's ever been and will account for 48 per cent of the funding allocated to Welsh Government departments for the next financial year. Of course, if you look at that in terms of spend per head, it's an additional £262 per head on health. But that does enable our health boards to respond to the needs of their local communities and their health populations. And, of course, it does also mean that we can invest, particularly in terms of capital, in those all-important resources, which I know you have been raising, such as the need for investment in diagnostics, linear accelerator infrastructure and cath lab replacement.

Yn amlwg, mae'r gyllideb derfynol ar gyfer y flwyddyn nesaf, ar gyfer 2016-17, yn darparu ar gyfer buddsoddiad ychwanegol o dros £300 miliwn mewn gofal iechyd—refeniw o £260 miliwn a £53 miliwn o gyfalaf. Mae'r cyllid ychwanegol yn golygu bod y gyllideb yn fwy nag erioed yn awr ac yn 48 y cant o'r arian a fydd yn cael ei ddyrannu i adrannau Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Wrth gwrs, os edrychwch ar hynny yn nhermau gwariant y pen, mae'n wariant o £262 yn ychwanegol y pen ar iechyd. Ond mae hynny'n galluogi ein byrddau iechyd i ymateb i anghenion eu cymunedau lleol a'u poblogaethau iechyd. Ac wrth gwrs, mae hynny hefyd yn golygu y gallwn fuddsoddi, yn enwedig mewn perthynas â chyfalaf, yn yr adnoddau hollbwysig hynny y gwn eich bod wedi eu crybwyll, megis yr angen i fuddsoddi mewn diagnosteg, seilwaith cyflymyddion llinellol a labordai cathetreiddio newydd.

13:40 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I listened to your answer very carefully. You did nothing to acknowledge that yours is the only Government that will ever be ending a term where NHS spending is lower in real terms than when you started. That is the reality of the matter. It's an absolutely shameful record that has caused crippling problems in our health service, which are manifesting across the length and breadth of the country. Can you tell us, do you regret the record-breaking cuts that your Government has imposed on the Welsh NHS and the impact that that has had on patients and hard-working staff?

Weinidog, gwrandewais ar eich ateb yn ofalus iawn. Ni wnaethoch ddim i gydnabod mai eich Llywodraeth chi yw'r unig un erioed a fydd yn gorffen tymor gyda gwariant y GIG yn is mewn termau real na phan ddechreuoch. Dyna realiti'r mater. Mae'n record hollol gywilyddus sydd wedi achosi problemau andwyol yn ein gwasanaeth iechyd, problemau sydd i'w gweld ledled y wlad. A allwch ddweud wrthym a ydych yn gresynu at y toriadau mwyaf erioed a wnaed i GIG Cymru gan eich Llywodraeth ac effaith hynny ar gleifion ac ar staff gweithgar?

13:41 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm very surprised, Darren Millar, that you're not prepared to look at and take account of the official figures published by your UK Government, which show that spending per head on health is higher in Wales and has increased faster than in any other part of the UK. Don't you want the public to know that in your constituency? [Interruption.] Again, the Conservative UK Government shows that the amount of money—[Interruption.]

Wel, rwy'n synnu, Darren Millar, nad ydych yn barod i ystyried ac edrych ar y ffigurau swyddogol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, a ddangosai fod gwariant y pen ar iechyd yn uwch yng Nghymru ac wedi cynyddu'n gyflymach nag mewn unrhyw ran arall o'r DU. Onid ydych am i'r cyhoedd wybod hynny yn eich etholaeth chi? [Torri ar draws.] Unwaith eto, mae Llywodraeth Geidwadol y DU yn dangos bod y swm o arian—[Torri ar draws.]

13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Darren Millar.

Darren Millar.

13:41 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—that the Welsh Government spends per head on health in Wales was 1 per cent higher than in England in 2014-15, grew faster in Wales in that year than in any other of the UK countries, and spending per head on health and social services combined is £172—7 per cent per head higher than in England. And I think it is important, again, to acknowledge the Organisation for Economic Co-operation and Development report on health services in the UK, which said last month that—the report shows how the health services operate in the four countries in the UK and acknowledged the deeply established and widely shared commitment of the NHS in Wales to continuously improve the quality of care it provides.

[Yn parhau.]—y mae Llywodraeth Cymru yn ei wario y pen ar iechyd yng Nghymru 1 y cant yn uwch nag yn Lloegr yn 2014-15, ei fod wedi tyfu'n gyflymach yng Nghymru yn y flwyddyn honno nag yn unrhyw un arall o wledydd y DU, a bod gwariant y pen ar iechyd ynghyd â gwasanaethau cymdeithasol yn £172—7 y cant y pen yn uwch nag yn Lloegr. A chredaf ei bod yn bwysig cydnabod, unwaith eto, adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar wasanaethau iechyd yn y DU, a ddywedodd fis diwethaf fod—mae'r adroddiad yn dangos sut y mae'r gwasanaethau iechyd yn gweithredu ym mhedair gwlad y DU ac roedd yn cydnabod ymrwymiad hirsefydlog ac eang y GIG yng Nghymru i wella ansawdd y gofal y mae'n ei ddarparu yn barhaus.

13:42 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ym mis Ionawr, Weinidog, fe ddywedodd eich Gweinidog iechyd chi nad oedd arian ychwanegol ar gael ar gyfer byrddau iechyd. Mae bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr erbyn hyn yn nodi bod yna orwariant o ryw £20 miliwn. A allwch chi gadarnhau a ydy'r Llywodraeth wedi cytuno cynllun tair blynedd efo bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr erbyn hyn, ac, os nad ydynt, a ydych chi'n fodlon efo rheolaeth ariannol o fewn y bwrdd iechyd, wrth ystyried eu bod nhw'n gwrthod cyfeirio cleifion at ysbytai yn Lloegr, megis Gobowen, erbyn hyn, o achos prinder arian?

In January, Minister, your health Minister said that there was no additional funding available for health boards. Betsi Cadwaladr health board has now believes that there is an overspend of £20 million. Can you confirm whether the Government has agreed a three-year plan with Betsi Cadwaladr health board at this point, and, if they haven't, are you content with financial management within the health board, given the fact that they refuse to refer patients to hospitals in England, such as Gobowen, because of a lack of money?

13:42 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, it is important, Aled Roberts, that we recognise the additional allocations that I have made during this financial year to assist health boards. In September last year, I announced an additional funding package of £58.8 million to support the NHS in Wales, and funding of £45 million to drive up a number of initiatives within the service, targeted at improving performance in the service in 2015-16, and, of course, I announced an additional £45 million from reserves to address winter pressures on 8 February this year, all of which will assist health boards like Betsi Cadwaladr in meeting their needs and demands.

Wel, mae'n bwysig, Aled Roberts, ein bod yn cydnabod y dyraniadau ychwanegol a wneuthum yn ystod y flwyddyn ariannol hon i gynorthwyo byrddau iechyd. Ym mis Medi y llynedd, cyhoeddais becyn cyllid ychwanegol o £58.8 miliwn i gefnogi'r GIG yng Nghymru, a chyllid o £45 miliwn i wella nifer o fentrau yn y gwasanaeth, gyda'r bwriad o wella perfformiad yn y gwasanaeth yn 2015-16, ac wrth gwrs, cyhoeddais £45 miliwn yn ychwanegol o'r cronfeydd i ymdopi â phwysau'r gaeaf ar 8 Chwefror eleni, a bydd hyn oll yn cynorthwyo byrddau iechyd fel Betsi Cadwaladr i ddiwallu eu hanghenion a'u gofynion.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party spokespeople and, first this afternoon, the Welsh Conservative spokesperson, Nick Ramsay.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau, a llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Nick Ramsay, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:43 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Minister, I'm sure you will join me in welcoming today's budget, the halving of the Severn bridge tolls when they return to public ownership in a few years' time and also, of course, the city deal funding, which was announced yesterday—a great example of a UK Conservative Government delivering for Wales and working in co-ordination with the Welsh Government. Minister, we have long called for a Barnett floor to address the problem of the fairness of funding to Wales. We know that the Chancellor and the Treasury have agreed to that now. What discussions have you had with his officials regarding the implementation of that floor?

Diolch. Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno â mi i groesawu'r gyllideb heddiw, haneru tollau pont Hafren pan fyddant yn dychwelyd i berchnogaeth gyhoeddus mewn ychydig flynyddoedd, a chyllid y fargen ddinesig, wrth gwrs, a gyhoeddwyd ddoe—enghraifft wych o Lywodraeth Geidwadol y DU yn darparu ar gyfer Cymru ac yn gweithio mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru. Weinidog, rydym wedi galw ers amser am lawr Barnett i fynd i'r afael â phroblem cyllid teg i Gymru. Gwyddom fod y Canghellor a'r Trysorlys wedi cytuno ar hynny yn awr. Pa drafodaethau a gawsoch gyda'i swyddogion ynglŷn â rhoi'r cyllid gwaelodol hwnnw ar waith?

13:44 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I also am very glad that the UK Government listened to my call in terms of—. I wanted to scrap, of course, the tolls on the Severn bridge. They've heeded my call and cut them, which of course I welcome. They're not quite far enough, but that is a step in the right direction. I was also very pleased indeed to take part in the announcement—which was UK Government, Welsh Government and 10 local authorities coming together in partnership—to welcome the Cardiff capital region city deal. But your question is very important in terms of the long-term, robust underpinning of our finances in Wales. In terms of the funding floor and the Barnett formula, I very much welcome, I would have to say at this point, the Finance Committee's report on future funding for Wales. In fact, I have written to the Chair of the Finance Committee—I hope she has received my letter—to say that I accept every one of your recommendations because they do reflect the challenges we are under. In terms of the floor itself, yes, of course, we have worked hard to secure that floor, but it has to be a funding floor—and you recognised this cross-party, as the Finance Committee—for the future, not just for this spending review.

Wel, rwyf innau hefyd yn falch iawn fod Llywodraeth y DU wedi gwrando ar fy ngalwadau o ran—. Roeddwn am gael gwared ar y tollau ar bont Hafren, wrth gwrs. Maent wedi gwrando ar fy ngalwad ac wedi'u torri, a chroesawaf hynny wrth gwrs. Nid ydynt wedi mynd yn ddigon pell, ond mae'n gam i'r cyfeiriad cywir. Roeddwn hefyd yn falch iawn o fod yn rhan o'r cyhoeddiad—Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a 10 awdurdod lleol yn dod at ei gilydd mewn partneriaeth—i groesawu bargen ddinesig prifddinas-ranbarth Caerdydd. Ond mae eich cwestiwn yn bwysig iawn o ran gosod sylfaen gadarn, hirdymor i'n cyllid yng Nghymru. O ran y cyllid gwaelodol a fformiwla Barnett, mae'n rhaid i mi ddweud ar y pwynt hwn fy mod yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar gyllid i Gymru yn y dyfodol. Yn wir, rwyf wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid—gobeithiaf ei bod wedi cael fy llythyr—i ddweud fy mod yn derbyn pob un o'ch argymhellion gan eu bod yn adlewyrchu'r heriau a wynebwn. O ran y cyllid gwaelodol ei hun, do, wrth gwrs, rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau'r cyllid gwaelodol hwnnw, ond mae'n rhaid iddo fod yn gyllid gwaelodol—ac rydych wedi cydnabod hyn yn drawsbleidiol, fel y Pwyllgor Cyllid—ar gyfer y dyfodol, nid ar gyfer yr adolygiad hwn o wariant yn unig.

13:45 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, Minister, I quite agree with you that a floor is vital, as is early implementation of that floor, but also the mechanics of how you set it. I agree with you that it shouldn't be reset; it maybe should be reviewed over years to come, but it shouldn't be reset.

Ydi, Weinidog, cytunaf yn llwyr â chi fod cyllid gwaelodol yn hollbwysig, fel y mae gweithredu'r cyllid gwaelodol hwnnw'n gynnar, ond mae mecanwaith sut rydych yn ei osod yn hollbwysig hefyd. Cytunaf â chi na ddylid ei ailosod; efallai y dylid ei adolygu yn ystod y blynyddoedd i ddod, ond ni ddylid ei ailosod.

You mentioned the Finance Committee report, which, sadly, we have not had time to debate because of the lateness of its launch. You've seen the recommendations. One of those is for an independent body to determine the amount of funding that Wales gets in the future, particularly with regard to deductions to compensate for devolved taxation. Do you agree with the need for an independent body, and, again, what discussions have you had with the Treasury about how that body might be formed?

Fe sonioch am adroddiad y Pwyllgor Cyllid, nad ydym, yn anffodus, wedi cael amser i'w drafod gan iddo gael ei lansio mor hwyr. Rydych wedi gweld yr argymhellion. Mae un ohonynt yn argymell corff annibynnol i bennu'r swm o arian y bydd Cymru'n ei gael yn y dyfodol, yn enwedig o ran didyniadau i wneud iawn am drethi datganoledig. A ydych yn cytuno bod angen corff annibynnol, ac unwaith eto, pa drafodaethau a gawsoch gyda'r Trysorlys ynglŷn â sut y gellid ffurfio'r corff hwnnw?

13:46 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, again, I welcome and have accepted that recommendation, and I think it's important that I put that on record as your finance Minister, in response to the Finance Committee's very helpful report on future funding for Wales. In fact, I wrote to the chief secretary today, Greg Hands, who I also met yesterday afternoon, to share with him your report and to say that I agreed with all the recommendations and that I hoped that he would too, because it's critical that the UK Government comes on board. Particularly, I mentioned the fact that we did, as I also raised with him, very much welcome your recommendation in terms of having an independent review process built in. As has been done with the Scottish fiscal framework, we expect the same independent arbitration and the same degree of independence to apply to the Welsh fiscal framework.

Wel, unwaith eto, rwy'n croesawu ac wedi derbyn yr argymhelliad hwnnw, a chredaf ei bod yn bwysig fy mod yn cofnodi hynny fel eich Gweinidog cyllid, mewn ymateb i adroddiad defnyddiol iawn y Pwyllgor Cyllid ar gyllid i Gymru yn y dyfodol. Yn wir, ysgrifennais heddiw at y prif ysgrifennydd, Greg Hands, y cyfarfûm ag ef hefyd brynhawn ddoe, i rannu eich adroddiad gydag ef ac i ddweud fy mod yn cytuno â'r holl argymhellion ac yn gobeithio ei fod ef hefyd yn cytuno, am ei bod yn hanfodol fod Llywodraeth y DU yn cytuno hefyd. Yn benodol, soniais am y ffaith ein bod yn croesawu eich argymhelliad yn fawr, fel y dywedais wrtho, o ran cael proses adolygu annibynnol yn rhan o'r drefn. Fel y gwnaed gyda fframwaith cyllidol yr Alban, rydym yn disgwyl i'r un cyflafareddu annibynnol a'r un graddau o annibyniaeth fod yn berthnasol i fframwaith cyllidol Cymru.

13:47 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, this is the last time I will question you before this Assembly dissolves in a couple of weeks' time, so can I take this opportunity to thank you and your officials for your close co-operation with me over the last couple of years on the finance brief? That has been most helpful to me and, I know, to the Finance Committee as well.

Weinidog, dyma'r tro olaf y byddaf yn eich holi cyn diddymu'r Cynulliad hwn mewn ychydig wythnosau, felly a gaf fi fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a'ch swyddogion am eich cydweithrediad agos dros y ddwy flynedd ddiwethaf ar y briff cyllid? Mae hynny wedi bod yn llawer o gymorth i mi ac i'r Pwyllgor Cyllid hefyd.

Minister, you fully recognise the principle of fairness in terms of funding for Wales and reviewing the Barnett formula. I have made many pleas over the last—however long it's been—couple of years for fairness of funding within Wales. We have the public services Minister here today as well, and he will know full well that I have called for reassessment of a local government funding formula that delivers for Wales. Will you agree to look at this in the next Assembly, or your successors, and will you agree with me that it's not fair that rural authorities within Wales don't get that funding that they need to cope with issues such as sparsity and delivering public services over a large area? I know you've refused to do this in the past, but, for the sake of rural Wales, please will you look at this again?

Weinidog, rydych yn llwyr gydnabod yr egwyddor o gyllid teg i Gymru ac adolygu fformiwla Barnett. Rwyf wedi apelio sawl tro dros y—pa faint bynnag y bu—y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf am gyllid teg i Gymru. Mae'r Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus yma heddiw hefyd, ac fe fydd yn gwybod yn iawn fy mod wedi galw am ailasesu fformiwla ariannu llywodraeth leol sy'n darparu ar gyfer Cymru. A wnewch chi gytuno y byddwch chi neu eich olynwyr yn ystyried hyn yn y Cynulliad nesaf, ac a wnewch chi gytuno â mi nad yw'n deg nad yw awdurdodau gwledig yng Nghymru yn cael y cyllid sydd ei angen arnynt i ymdopi â materion fel teneurwydd poblogaeth a darparu gwasanaethau dros ardal fawr? Gwn eich bod wedi gwrthod gwneud hyn yn y gorffennol, ond er lles y Gymru wledig, a wnewch chi ystyried hyn eto, os gwelwch yn dda?

13:48 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I very much would like to thank Nick Ramsay for his kind words and to exchange those courtesies in terms of having the opportunity to work with you as well as to be scrutinised by you as the finance spokesperson for the opposition. I think it has served us well that we have worked on this cross-party basis, following on from the Holtham commission recommendations through to the Silk commission, and then on the way we have taken forward our calls for fairer funding in Wales. I would say that I would also accept and support your recommendation in terms of the Barnett formula and strengthening not just the commitment to the funding floor, but that we should look for the necessity of a needs-based formula. We very much strongly believe that in terms of the Barnett formula.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Nick Ramsay am ei eiriau caredig a hoffwn fynegi'r un diolchiadau am gael y cyfle i weithio gyda chi yn ogystal â chael fy nghraffu gennych fel llefarydd cyllid yr wrthblaid. Credaf ein bod wedi elwa o weithio ar sail drawsbleidiol, yn dilyn argymhellion comisiwn Holtham ymlaen at gomisiwn Silk, ac yna'r ffordd rydym wedi bwrw ymlaen â'n galwadau am gyllid tecach i Gymru. Rwy'n derbyn ac yn cefnogi eich argymhelliad ynghylch fformiwla Barnett a chryfhau nid yn unig yr ymrwymiad i'r cyllid gwaelodol, ond hefyd y dylem edrych ar reidrwydd cael fformiwla ar sail anghenion. Rydym yn credu hynny'n gryf mewn perthynas â fformiwla Barnett.

But, of course, in terms of the wider issues, I am sure you will take the opportunity to raise these questions with the Minister for Public Services, in relation to local government. Of course, also, the Minister has himself instigated his own independent review of finances for local government and, indeed, so has Welsh local government. So, it's clearly very much open for discussion and debate.

Ond wrth gwrs, o ran y materion ehangach, rwy'n siŵr y byddwch yn manteisio ar y cyfle i ofyn y cwestiynau hyn i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, mewn perthynas â llywodraeth leol. Wrth gwrs, mae'r Gweinidog hefyd wedi cychwyn ei adolygiad annibynnol ei hun o gyllid ar gyfer llywodraeth leol, fel y mae llywodraeth leol yng Nghymru wedi'i wneud. Felly, mae'n destun sy'n amlwg iawn yn agored i drafodaeth a dadl.

13:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

13:49

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Minister, can I also echo Nick Ramsay's words in thanking you for the work that you have done with the Finance Committee and with me as the Welsh Liberal Democrat finance spokesperson over the last five years? I think we've worked very well together in partnership on delivering good benefits for Wales and for parts of Wales. I think that the work we've done as a Finance Committee and with you has actually helped to advance the devolution process as well. So, thank you for that.

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, a gaf finnau hefyd adleisio geiriau Nick Ramsay wrth ddiolch i chi am y gwaith a wnaethoch gyda'r Pwyllgor Cyllid a chyda mi fel llefarydd cyllid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru dros y pum mlynedd ddiwethaf? Credaf ein bod wedi gweithio'n dda iawn gyda'n gilydd mewn partneriaeth i sicrhau manteision da i Gymru ac i rannau o Gymru. Credaf fod y gwaith a wnaethom fel Pwyllgor Cyllid a chyda chi wedi helpu i hybu'r broses ddatganoli yn ogystal. Felly, diolch i chi am hynny.

Minister, you've referred to the 'Future Funding for Wales' report of the Finance Committee, which, as Nick Ramsay said, we'll not have time to debate in this Chamber. Recommendation 6 of that report says that,

Weinidog, rydych wedi cyfeirio at adroddiad y Pwyllgor Cyllid, 'Dyfodol Cyllido Cymru', na fydd amser gennym i'w drafod yn y Siambr hon, fel y dywedodd Nick Ramsay. Mae argymhelliad 6 o'r adroddiad hwnnw'n dweud,

'as a minimum, there must be a principled decision taken on how the block grant will be reduced before taxes are devolved.'

'fel gofyniad lleiaf, fod rhaid gwneud penderfyniad egwyddorol ar sut y caiff y grant bloc ei leihau cyn datganoli trethi.'

I wonder if you could give us an update on the talks between the Welsh Government and the Treasury in terms of getting that mechanism in place, as it has already been put in place in Scotland.

Tybed a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trysorlys ynglŷn â sicrhau bod y mecanwaith hwnnw ar waith, gan ei fod eisoes wedi ei roi ar waith yn yr Alban.

13:50

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I would also like to thank Peter Black for his contribution and also for the ways in which we've worked together, and his responses to my requests as well as my responses to his, in terms of taking the important public finances for Wales forward on a fairer basis. I believe that will have an impact in terms of our record of this Assembly session.

Wel, hoffwn innau ddiolch i Peter Black am ei gyfraniad ac am y ffordd rydym wedi gweithio gyda'n gilydd, a'i ymatebion i fy ngheisiadau yn ogystal â fy ymatebion i'w geisiadau yntau, o ran ceisio sicrhau sail decach i gyllid cyhoeddus pwysig Cymru. Credaf y bydd hynny'n effeithio ar ein cofnod o'r tymor Cynulliad hwn.

I would say that, in terms of recommendation 6, this is critically important. This is a recommendation that there should be that principled decision taken on how the block grant will be reduced before taxes are devolved. There are a number of approaches to how the Welsh block grant could be reduced in exchange for the tax revenue that will flow to Wales following tax devolution. It would be grossly unfair if some of the suggested ways in which that could have been done with the Scottish Government would be applied to Wales, so we have to make sure that that doesn't happen. We have said, and the First Minister has said, that we feel that we should follow the route that the discussions have taken with the Scottish Government and the Treasury of the UK Government to secure a fiscal framework that suits Wales in advance of fiscal devolution.

Byddwn yn dweud bod hyn yn hanfodol bwysig o ran argymhelliad 6. Mae'n argymell y dylid gwneud penderfyniad egwyddorol ynglŷn â sut y bydd y grant bloc yn cael ei leihau cyn datganoli trethi. Ceir nifer o ddulliau y gellid lleihau grant bloc Cymru yn gyfnewid am y refeniw treth a fydd yn llifo i Gymru ar ôl datganoli trethi. Byddai'n annheg iawn pe bai rhai o'r ffyrdd yr awgrymwyd y gellid bod wedi gwneud hynny gyda Llywodraeth yr Alban yn cael eu defnyddio yng Nghymru, felly mae'n rhaid i ni sicrhau nad yw hynny'n digwydd. Rydym wedi dweud, ac mae'r Prif Weinidog wedi dweud, ein bod yn teimlo y dylem ddilyn yr un llwybr â'r trafodaethau â Llywodraeth yr Alban a Thrysorlys Llywodraeth y DU i sicrhau fframwaith cyllidol sy'n addas i Gymru cyn datganoli cyllidol.

I would like to take the opportunity to say that I am disappointed that the Chief Secretary has not agreed to a meeting since I met with him in December, despite repeated requests. And I hope this Assembly today, across parties, will support me in urging that meeting before dissolution.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddweud fy mod yn siomedig nad yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cytuno i gyfarfod ers i mi ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, er i ni ofyn sawl gwaith. Ac rwy'n gobeithio y bydd y Cynulliad hwn heddiw, ar draws y pleidiau, yn cefnogi fy awydd i sicrhau bod y cyfarfod hwnnw'n digwydd cyn diddymu'r Cynulliad.

13:52

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. Recommendation 7 starts with a marvellous piece of understatement, I think, when it says:

'The Committee firmly believes the relationship between the UK Government and Welsh Government needs to improve.'

Would the Minister—? You've already referred to the failure of the Chief Secretary to the Treasury to meet with you, and I understand also there have been issues around the quadrilaterals between finance Ministers not taking place as frequently as you would have liked. Can I ask, when you met with the Chief Secretary to the Treasury yesterday, whether he gave you any indication that this was likely to change and that he would now engage more vigorously with the Welsh Government in terms of putting these fiscal frameworks into place?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Credaf fod argymhelliad 7 yn dechrau'n fendigedig o gynnil, rwy'n credu, pan ddywed:

'Cred y Pwyllgor yn bendant fod angen i'r berthynas rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wella.'

A fyddai'r Gweinidog—? Rydych eisoes wedi cyfeirio at fethiant Prif Ysgrifennydd y Trysorlys i gyfarfod â chi, ac rwy'n deall hefyd fod problemau wedi bod ynglŷn â'r ffaith na chynhaliwyd cyfarfodydd pedairochrog rhwng y Gweinidogion cyllid mor aml ag y byddech wedi'i hoffi. A gaf fi ofyn, pan gawsoch gyfarfod gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ddoe, a roddodd unrhyw arwydd i chi fod hyn yn debygol o newid, ac y byddai ef yn awr yn ymgysylltu'n fwy brwd gyda Llywodraeth Cymru o ran rhoi'r fframweithiau cyllidol hyn ar waith?

13:53

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, clearly, we had a very cordial exchange yesterday, as we welcomed the groundbreaking city deal for the Cardiff capital region. As I said to him, as I wrote to him today, yesterday's signing—this is in my letter to him today—of the Cardiff capital region city deal is an excellent demonstration of what can be achieved when Welsh Government and UK Government work together. This needs to be reflected in our continuing to make progress with the fiscal framework for Wales. So, again, on the record today, that is what I've called for, in acknowledgement that we can work together comprehensively and coherently.

Wel, yn amlwg, cawsom drafodaeth ddymunol iawn ddoe, wrth i ni groesawu'r fargen ddinesig arloesol ar gyfer prifddinas-ranbarth Caerdydd. Fel y dywedais wrtho, fel yr ysgrifennais ato heddiw, roedd arwyddo bargen ddinesig prifddinas-ranbarth Caerdydd ddoe—roedd hyn yn fy llythyr ato heddiw—yn enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni pan fo Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'i gilydd. Mae angen adlewyrchu hyn wrth i ni barhau i wneud cynnydd gyda'r fframwaith cyllidol i Gymru. Felly, unwaith eto, i'w gofnodi heddiw, dyna rwyf wedi galw amdano, gan gydnabod y gallwn weithio gyda'n gilydd yn gynhwysfawr ac yn gydlynol.

13:53

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, thank you for that answer, Minister. The taxes that are due to be devolved to us are due to come in 2018. Scotland effectively had their deal done almost at the last minute, although it is quite a reasonable deal for them. But I was just wondering, what's the timetable now in terms of getting the deal together with the Treasury so that we can meet the deadline of 2018 and actually start implementing our own tax regime from that time?

Unwaith eto, diolch am eich ateb, Weinidog. Mae'r trethi sydd ar fin cael eu datganoli i ni i fod i ddod yn weithredol yn 2018. Sicrhawyd cytundeb yr Alban ar y funud olaf i bob pwrpas, er eu bod yn cael cytundeb eithaf rhesymol. Ond tybed beth yw'r amserlen yn awr o ran llunio'r cytundeb gyda'r Trysorlys er mwyn i ni allu ei gwblhau cyn y dyddiad terfynol yn 2018, a dechrau gweithredu ein cyfundrefn dreth ein hunain o hynny ymlaen?

13:54

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We need to get on with this now—the clock is ticking. With the support, I'm sure, of the Assembly today, I anticipate that those negotiations will now proceed at speed.

Mae'n rhaid i ni fwrw ymlaen â hyn yn awr—mae'r cloc yn tician. Gyda chefnogaeth y Cynulliad heddiw, rwy'n siŵr, rwy'n rhagweld y bydd y trafodaethau hynny'n symud ymlaen yn gyflym yn awr.

13:54

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones.

13:54 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr. Gan mai dyma'r tro olaf y caf i gyfle i'ch holi chi, Weinidog, a gaf innau ddiolch i chi am eich cydweithrediad parod? Rwy'n mynd i ofyn nifer o gwestiynau hawdd sy'n seiliedig ar adroddiad y pwyllgor.

Thank you very much. As this is the final chance I'll have to question you, Minister, may I thank you for your willing co-operation? I'm going to ask a number of easy questions now that are based on the committee's report.

Senedd.tv Fideo Video

A ydych chi'n cytuno ag argymhelliad y pwyllgor y dylid cytuno ar newidiadau i'r datganiad polisi ariannu rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig ac y dylent gael eu cofnodi'n dryloyw?

Do you agree with the committee's recommendation that changes to the statement of funding policy between the UK Government and the devolved administrations should be agreed and that they should be recorded transparently?

13:55 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I certainly do agree. We would very much welcome a more transparent approach by the UK Government to funding devolved government. I do want to repeat again, in response to your question, Alun Ffred Jones, that we should have an independent body to assess allocation, better scrutiny and an improved dispute mechanism.

Cytunaf yn llwyr. Byddem yn sicr yn croesawu ymagwedd fwy tryloyw gan Lywodraeth y DU o ran ariannu llywodraeth ddatganoledig. Rwyf am ailadrodd eto, mewn ymateb i'ch cwestiwn, Alun Ffred Jones, y dylem gael corff annibynnol i asesu'r dyraniad, craffu gwell a mecanwaith anghydfod gwell.

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr. A ydych chi'n cytuno hefyd ag argymhelliad 5, y dylai'r broses i ddosbarthu'r grant bloc fod â sail statudol gadarn, ac na ddylai fod ar ddisgresiwn y Gweinidog?

Thank you very much. Do you also agree with recommendation 5 that the process to distribute the block grant should be on a statutory basis, and it shouldn't be at the discretion of the Minister?

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I do agree with that and I think that the fact that we are still calling on the UK Government to outline the details of a long-term funding floor that addresses the issue of funding actually does fall very much in line with accepting that recommendation. Can I also say how thankful I am to Alun Ffred Jones for his courtesy in engagement, and robust scrutiny, over the time in which I've been finance Minister and he's been finance spokesperson for Plaid Cymru?

Cytunaf â hynny, a chredaf fod y ffaith ein bod yn dal i alw ar Lywodraeth y DU i amlinellu manylion cyllid gwaelodol hirdymor sy'n mynd i'r afael â mater cyllido yn cyd-fynd i raddau helaeth â derbyn yr argymhelliad hwnnw mewn gwirionedd. A gaf fi ddweud hefyd pa mor ddiolchgar rwyf fi i Alun Ffred Jones am ei ymwneud cwrtais, a'i graffu grymus, dros yr amser y bûm yn Weinidog cyllid ac yntau'n llefarydd cyllid i Blaid Cymru?

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr. Rwy'n deall bod George Osborne wedi cyhoeddi heddiw y bydd yn bwrw ymlaen â threth ar ddiodydd gorfelys—treth a gynigiwyd yn wreiddiol yma gan Blaid Cymru ac, wrth gwrs, a gafodd ei dilorni braidd, yn anffodus, gan y Prif Weinidog, Carwyn Jones. A ydych chi'n croesawu'r cyhoeddiad hwn gan George Osborne heddiw?

Thank you very much. I understand that George Osborne has announced today that he will proceed with a tax on sugary drinks—a tax originally proposed here by Plaid Cymru and which, of course, was derided, somewhat unfortunately, by the First Minister, Carwyn Jones. Do you welcome this announcement by George Osborne today?

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Not only did I respond, if you recall, Alun Ffred Jones, but I actually responded to the debate that you put forward and welcomed and indeed, as you'll recall, supported the—[Interruption.] The Welsh Government supported that debate. But, also, I do want to say that it's very important that we recognise that work is being done by the Bevan Foundation, looking at all the opportunities for new taxes that we need to consider and at the evidence base, obviously recognising that in terms of some of those taxes, such as the sugar tax, or around the issue of sugar, we'd have to look at this in terms of a UK basis and I know that this is welcome news that this might be taken forward.

Nid yn unig fy mod wedi ymateb, os cofiwch, Alun Ffred Jones, ond fe ymatebais i'r ddadl a gyflwynoch ac fe groesawais, ac yn wir, fel y byddwch yn ei gofio, fe gefnogais y—[Torri ar draws.] Cefnogodd Llywodraeth Cymru'r ddadl honno. Ond hefyd, rwyf am ddweud ei bod yn bwysig iawn i ni gydnabod bod gwaith yn cael ei wneud gan Sefydliad Bevan, sy'n edrych ar yr holl gyfleoedd ar gyfer trethi newydd y mae angen i ni eu hystyried, ac ar y sylfaen dystiolaeth, gan gydnabod wrth gwrs y byddai'n rhaid edrych ar rai o'r trethi hynny, megis y dreth ar siwgr, neu'n ymwneud â siwgr, ar sail y DU, a gwn ei fod yn newyddion da y gallai hyn gael ei ddatblygu.

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We now move back to questions on the paper and question 3 is Rhodri Glyn Thomas.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur, a daw cwestiwn 3 gan Rhodri Glyn Thomas.

**Cefnogi Sefydliadau Cenedlaethol**

**Supporting National Institutions**

13:57 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*3. Pa gyllid ychwanegol y bydd y Gweinidog yn ei ddarparu i gefnogi sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru er mwyn sicrhau eu dyfodol? OAQ(4)0680(FIN)[R]*

*3. What additional funding will the Minister provide to support national institutions in Wales in order to secure their future? OAQ(4)0680(FIN)[R]*

13:57 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The 2016-17 funding allocations for Welsh Government sponsored bodies, including our national institutions, were included in the final budget on 8 March.

Roedd y dyraniadau cyllid ar gyfer 2016-17 ar gyfer cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys ein sefydliadau cenedlaethol, wedi'u cynnwys yn y gyllideb derfynol ar 8 Mawrth.

13:57 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Fe ddylwn i ddatgan diddordeb gan fod fy nghyfnod i fel llywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn dechrau ar 6 Ebrill, ond mae'r cwestiwn yma yn ymwneud â sefydliadau cenedlaethol yn gyffredinol yng Nghymru. Mae'n ymddangos i mi ein bod ni, dros y bum mlynedd diwethaf, wedi bod, wrth sôn am gefnogaeth o'r pwrs cyhoeddus i sefydliadau, yn sôn yn barhaus am y cwtogi sydd yn digwydd o San Steffan. Rwy'n mawr obeithio na fydd hynny'n digwydd am y 10 mlynedd nesaf, ond ein bod ni'n cydnabod y cyfyngiadau ariannol sydd gennym ni a bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru er mwyn gwneud y gorau o'r arian cyhoeddus sydd ar gael, er mwyn sicrhau partneriaethau a hefyd cydweithio rhwng y sefydliadau yma er mwyn sicrhau eu dyfodol nhw. Oherwydd mae'r sefydliadau yma yn hollbwysig i ddyfodol Cymru.

I should declare an interest because my period as chair of the National Library of Wales starts on 6 April, but this question relates to national institutions in general in Wales. It appears to me that, over the past five years, when mentioning support from the public purse for institutions, we have been talking continuously about the cuts that have been coming from Westminster. I greatly hope that that won't be happening for the next 10 years, but that we acknowledge the financial restrictions that we're facing and that the Welsh Government works with national institutions in Wales to make the best use possible of the public funding that's available, to ensure that there are partnerships and collaborations between these institutions to secure their future. Because these institutions are vitally important to the future of Wales.

13:58 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Can I also declare an interest that my husband is a trustee of the National Library of Wales?

A gaf finnau hefyd ddatgan buddiant fod fy ngŵr yn un o ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru?

13:58 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes, I know that. [Laughter.]

Ydy, rwy'n gwybod hynny. [Chwerthin.]

13:58 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I think it's important in terms of a response to your question that free entry to the national library and National Museum Wales is a key plank of our programme for government commitments, also recognising the valuable contribution that those bodies make to much wider strategic priorities, including tackling issues relating to poverty and increasing engagement from people in disadvantaged communities, and that we see, as indeed the Deputy Minister for Culture and Sport and Tourism sees, that the sponsored bodies in his portfolio really can attract further investment from other sources in order to supplement their grant-in-aid budgets.

Credaf ei bod yn bwysig, o ran ymateb i'ch cwestiwn, fod mynediad am ddim i'r llyfrgell genedlaethol ac i Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn rhan allweddol o ymrwymiadau ein rhaglen lywodraethu, gan gydnabod cyfraniad gwerthfawr y cyrff hynny i flaenoriaethau strategol llawer ehangach, gan gynnwys mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thlodi a chynyddu ymgysylltiad pobl mewn cymunedau difreintiedig, a'n bod yn gweld, fel y mae'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn gweld, fod y cyrff a noddir yn ei bortffolio yn wir yn gallu denu buddsoddiad pellach o ffynonellau eraill er mwyn ychwanegu at eu cyllidebau cymorth grant.

13:59 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, while I appreciate Rhodri Glyn Thomas's concerns for the national institutions, I'd be interested to know what you might be able to do to creatively encourage a trickle-down of funding to some of the smaller institutions throughout Wales. We do not want to be left in a situation where we have a large tree surrounded by weak saplings. A great many of these smaller organisations, such as Tenby and Narberth museums—and there are many throughout Wales—are much more able to engage effectively with their local communities because they really understand them, and really, really chime with them. The concern that I and a number of other people have is that, because times are slightly tighter, all the funding is going to the big organisations, and the smaller ones are being gently starved.

Weinidog, er fy mod yn cydnabod pryderon Rhodri Glyn Thomas ynghylch y sefydliadau cenedlaethol, hoffwn wybod beth y gallech ei wneud yn greadigol i annog cyllid o'r brig i lawr i sefydliadau llai ledled Cymru. Nid ydym yn dymuno bod mewn sefyllfa lle y mae gennym goeden fawr wedi'i hamgylchynu gan goed ifanc gwan. Gall nifer o'r sefydliadau llai hyn, fel amgueddfeydd Dinbych-y-pysgod ac Arberth—ac mae llawer ohonynt ledled Cymru—ymgysylltu'n fwy effeithiol â'u cymunedau lleol am eu bod yn eu deall yn iawn, ac yn wir, ar yr un donfedd â hwy. Fy mhryder i a nifer o bobl eraill, am fod arian yn brin, yw bod yr holl gyllid yn mynd i'r sefydliadau mawr, ac mae'r rhai llai yn graddol lwgu.

**Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, I wouldn't say that was the case, and, of course, in terms of the loan contribution of our Heritage Lottery Fund and other sources, those can assist those smaller, very important bodies and institutions, as you say, Angela Burns. But we are still facing the fact—indeed, even with this budget today—that we have suffered six years of austerity, six years of cuts to our Welsh Government budget. But I'm very proud of the fact that we were able to ameliorate and alleviate the cuts to local government substantively in my final budget for the next financial year, and, of course, that will also help our local authorities support those important local cultural bodies.

Wel, ni fyddwn yn cytuno â hynny, ac wrth gwrs, o ran cyfraniad benthyciadau Cronfa Dreftadaeth y Loteri a ffynonellau eraill, gall y rheini gynorthwyo'r cyrff a'r sefydliadau llai o faint a phwysig iawn hynny, fel y dywedwch, Angela Burns. Ond rydym yn dal i wynebu'r ffaith—yn wir, hyd yn oed gyda'r gyllideb hon heddiw—ein bod wedi dioddef chwe blynedd o galedi, chwe blynedd o doriadau i gyllideb Llywodraeth Cymru. Ond rwy'n falch iawn o'r ffaith ein bod wedi gallu lleihau a lliniaru'r toriadau i lywodraeth leol yn sylweddol yn fy nghyllideb derfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ac wrth gwrs, bydd hynny hefyd yn helpu ein hawdurdodau lleol i gefnogi'r cyrff diwylliannol lleol pwysig hynny.

14:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Question 4 was grouped with a question earlier. We now move to question 5, which is Keith Davies.

Grwpiwyd cwestiwn 4 gyda chwestiwn cynharach. Symudwn yn awr at gwestiwn 5, gan Keith Davies.

## Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

## European Structural Funds

14:01 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar etholaeth Llanelli? OAQ(4)0677(FIN)[W]*

*5. Will the Minister make a statement on the impact of European structural funds on the Llanelli constituency? OAQ(4)0677(FIN)[W]*

14:01 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

EU funds have supported key multimillion-pound developments to help boost jobs and growth in Llanelli, including The Works cultural and arts centre, the Llanelly House community heritage centre, and many town-centre improvements.

Mae arian yr UE wedi cefnogi datblygiadau allweddol gwerth miliynau o bunnoedd i helpu i hybu swyddi a thwf yn Llanelli, gan gynnwys canolfan ddiwylliannol a chelfyddydau Y Gwaith, canolfan dreftadaeth gymunedol Plas Llanelly, a llawer o welliannau yng nghanol y dref.

14:01 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Gallaf weld y gwahaniaeth sylweddol mae cyllid Ewropeaidd wedi'i wneud o fewn yr etholaeth. Mae cyllid Ewropeaidd wedi ariannu project adfywio mawr yng nghanol y dref, yn chwarter East Gate, sydd yn cynnwys Theatr y Ffwrnes, ac wedi cefnogi cymunedau a busnesau lleol, ac, wrth gwrs, mae Parc Arfordirol y Mileniwm gyda ni. A ydych yn cytuno â mi ei bod yn fudd i etholaeth Llanelli i'r Deyrnas Unedig barhau i fod yn aelod wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd?

Thank you. I can see the significant difference that European funding has made within the constituency. European funding has funded a major regeneration project in the town centre, in the East Gate quarter, which includes the Ffwrnes Theatre, and has supported a number of local businesses and communities, and we also have the Millennium Coastal Park, of course. Would you agree with me that it is of benefit to the Llanelli constituency for the UK to continue to be a member state of the European Union?

14:02 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, Keith Davies, and I thank you for the question, we are strongly supporting the UK's continuing membership of the EU—vital to our economy, jobs and security, and our town centres, like Llanelli, seeing the regeneration of those town centres. I was particularly pleased to visit the grade I listed Llanelly House—£7 million of restoration, supported by £2.5 million of EU funds. It's now, as you of course know, the premier heritage visitor attraction in Llanelli. And also the EU-backed Theatr y Ffwrnes, The Works—creating a new multicultural and arts centre in Llanelli—those would not have happened without EU funding. And across the whole of Carmarthenshire—back to the facts and figures—EU projects since 2007 have helped 13,600 people gain qualifications and over 4,000 people into work, created over 1,800 jobs and over 500 enterprises.

Wel, wrth gwrs, Keith Davies, a diolch i chi am eich cwestiwn, rydym yn cefnogi aelodaeth y DU o'r UE yn gryf—mae'n hanfodol i'n heconomi, ein swyddi a'n diogelwch, a chanol ein trefi, fel Llanelli, a gweld adfywio canol y trefi hynny. Roeddwn yn arbennig o falch o ymweld â Phlas Llanelly, sy'n adeilad rhestredig gradd I— £7 miliwn o waith adfer, a gefnogwyd gan £2.5 miliwn o arian yr UE. Erbyn hyn, fel y gwyddoch wrth gwrs, dyna'r prif atyniad treftadaeth i ymwelwyr yn Llanelli. A Theatr y Ffwrnes, a gefnogir gan yr UE, Y Gwaith—creu canolfan amlddiwylliannol a chelfyddydol newydd yn Llanelli—ni fyddai'r rheini wedi bod yn bosibl heb arian yr UE. Ac ar draws Sir Gaerfyrddin gyfan—yn ôl at y ffeithiau a'r ffigurau—mae prosiectau'r UE ers 2007 wedi helpu 13,600 o bobl i ennill cymwysterau a thros 4,000 o bobl i mewn i waith, ac wedi creu dros 1,800 o swyddi a thros 500 o fentrau.

14:03 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful that my friend Keith Davies has raised this important issue. Carmarthenshire and Llanelli have indeed, Minister, as you've outlined, benefited very significantly from European investments, both through the rural development programme and the rural hinterland but also through the structural funds. Particularly, I would ask you to consider the benefits of the Bwcabus system, which has provided socialisation and support for people in the rural hinterlands, giving them access to Llanelli and further afield. Minister, do you agree with me, and indeed with the respected Conservative Member of the European Parliament Dr Kay Swinburne, that it would be a catastrophe if we were to lose our membership of the European Union in the referendum on 23 June?

Rwy'n ddiolchgar iawn i fy ffrind Keith Davies am nodi'r mater pwysig hwn. Mae Sir Gaerfyrddin a Llanelli, fel y dywedoch, Weinidog, wedi elwa'n sylweddol iawn o fuddsoddiadau Ewropeaidd, drwy'r rhaglen datblygu gwledig a chefn gwlad ond hefyd drwy'r cronfeydd strwythurol. Yn benodol, hoffwn ofyn i chi ystyried manteision y system Bwcabus, sydd wedi darparu cyfrwng cymdeithasu a chymorth i bobl yn yr ardaloedd gwledig, gan roi mynediad iddynt i Lanelli a thu hwnt. Weinidog, a ydych yn cytuno â mi, ac yn wir gyda'r Aelod Ceidwadol uchel ei pharch o Senedd Ewrop, Dr Kay Swinburne, y byddai'n drychineb pe baem yn colli ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn y refferendwm ar 23 Mehefin?

14:04 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I did meet with Kay Swinburne and indeed Derek Vaughan when I was in Brussels only a couple of weeks ago, and we were just sharing very much those sentiments, clearly, together. I think it is important that you draw attention to the importance of Bwcabus. I was pleased to go to the event that took stock of how Bwcabus had made a contribution to communities, enabling people to access work, training, and leisure opportunities in a rural community. But I think also it is very important to look at business as well, and, in Carmarthenshire, for example, just looking at the leading independent food wholesaler, Castell Howell, it's setting to benefit from accredited work-based learning programmes through the EU-backed growing workforces through learning and development, GWLAD, led by the University of Wales Trinity St David.

Bûm yn cyfarfod â Kay Swinburne, ac yn wir â Derek Vaughan, pan oeddwn ym Mrwsel wythnos neu ddwy yn ôl, ac roeddem yn rhannu'r farn honno'n bendant. Credaf ei bod yn bwysig eich bod yn tynnu sylw at bwysigrwydd Bwcabus. Roeddwn yn falch o fynychu'r digwyddiad a oedd yn pwyso a mesur y cyfraniad y mae Bwcabus wedi'i wneud i gymunedau, gan alluogi pobl i gael mynediad i waith, hyfforddiant, a chyfleoedd hamdden mewn cymuned wledig. Ond credaf hefyd ei bod yn bwysig edrych ar fusnesau yn ogystal, ac yn Sir Gaerfyrddin, er enghraifft, o edrych yn unig ar y cyfanwerthwr bwyd annibynnol blaenllaw, Castell Howell, bydd yn elwa o raglenni dysgu seiliedig ar waith achredig drwy brosiect tyfu gweithluoedd drwy ddysgu a datblygu, GWLAD, dan arweiniad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, sef rhaglenni a gefnogir gan yr UE.

## Effaith Cyllid Ewropeaidd (Torfaen)

## European Funding Impact (Torfaen)

14:05

### Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith cyllid Ewropeaidd ar Dorfaen? OAQ(4)0682(FIN)*

*6. Will the Minister make a statement on the impact of European funding on Torfaen? OAQ(4)0682(FIN)*

14:05

### Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Since 2007, EU projects delivering in Torfaen, such as Bridges into Work and new business start-ups, have created 1,380 jobs, 430 enterprises, supported over 15,700 people to gain qualifications and 3,675 people into work.

Ers 2007, mae prosiectau'r UE yn Nhorfaen, megis Pontydd i Waith a busnesau newydd, wedi creu 1,380 o swyddi, 430 o fentrau, wedi cynorthwyo dros 15,700 o bobl i ennill cymwysterau a 3,675 o bobl i mewn i waith.

14:05

### Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, and thank you for highlighting the excellent record that European funding has for creating jobs and ensuring prosperity in my constituency. As you know, Wales is a net beneficiary of EU funding, and the Valleys have benefited from strategic regeneration and projects to get people into work. Yet, we know that the Prime Minister has said he cannot confirm that funding would be replaced if we were to leave the European Union. In this Apprenticeship Week, an area where only last year we saw £144 million-worth of Welsh Government and EU funding in south Wales, would you agree with me that these funding opportunities are absolutely vital to ensure prosperity in our communities? And will you restate your commitment to fighting to continue to keep us in the EU?

Diolch, Weinidog, a diolch am dynnu sylw at record ardderchog cyllid Ewropeaidd o ran creu swyddi a sicrhau ffyniant yn fy etholaeth. Fel y gwyddoch, mae Cymru wedi gwneud elw net o arian yr UE, a'r Cymoedd wedi elwa o adfywio strategol a phrosiectau i gael pobl i mewn i waith. Er hyn, gwyddom fod y Prif Weinidog wedi dweud na all gadarnhau y byddai arian ar gael yn lle cyllid yr UE pe baem yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Yn ystod yr Wythnos Prentisiaethau hon, maes lle y gwelwyd gwerth £144 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru a'r UE i dde Cymru y llynedd, a fyddech yn cytuno fod y cyfleoedd cyllido hyn yn gwbl hanfodol i sicrhau ffyniant yn ein cymunedau? Ac a wnewch chi ailddatgan eich ymrwymiad i ymladd i sicrhau ein bod yn aros yn yr UE?

14:06

### Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I certainly thank the Member for Torfaen for her question. In fact, I thank all Members for raising these questions today so that we have an opportunity before the end of this Assembly session to put on record our concerns at the risk that we face if we were to leave the European Union. And I think, particularly in Apprenticeship Week, if we look at the EU-backed Bridges into Work project—of course, the Member, Lynne Neagle, was at the event where we took stock of the impact on people's lives of that project in terms of the next one for enhancing skills and job prospects—and recognise that for every apprenticeship that we funded—and, of course, over the past five years that apprenticeship has been backed by European funding —and also to recognise that this is not just about apprenticeships, it's about traineeships, the Wales business fund, STEM Cymru and active inclusion.

Diolch yn fawr i'r Aelod dros Dorfaen am ei chwestiwn. Yn wir, diolch i'r holl Aelodau am ofyn y cwestiynau hyn heddiw er mwyn i ni gael cyfle cyn diwedd y tymor Cynulliad hwn i gofnodi ein pryderon ynghylch y perygl a fyddai yn ein hwynebu pe baem yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. A chredaf, yn enwedig yn ystod yr Wythnos Prentisiaethau, os edrychwn ar y prosiect Pontydd i Waith a gefnogir gan yr UE—wrth gwrs, roedd yr Aelod, Lynne Neagle, yn y digwyddiad lle buom yn pwyso a mesur effaith y prosiect hwnnw ar fywydau pobl mewn perthynas â'r prosiect nesaf ar gyfer gwella sgiliau a rhagolygon gwaith—a chydnabod hynny ar gyfer pob prentisiaeth a ariannwyd gennym—ac wrth gwrs, cefnogwyd y prentisiaethau hynny gan gyllid Ewropeaidd dros y pum mlynedd diwethaf—a chydnabod hefyd nad yw hyn yn ymwneud â phrentisiaethau yn unig, mae'n ymwneud â hyfforddiaethau, cronfa busnes Cymru, STEM Cymru a chynhwysiant gweithredol.

14:07

### William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Though I would agree with much of what the questioner has said, what I ask the Minister today is to say when she thinks that the Valleys will no longer need to qualify for these handouts from the European Union.

Er y byddwn yn cytuno â llawer o'r hyn a ddywedodd yr holwr, gofynnaf heddiw i'r Gweinidog ddweud pa bryd y mae hi'n credu na fydd angen i'r Cymoedd fod yn gymwys i gael yr arian hwn gan yr Undeb Ewropeaidd.

14:07 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, the fact that we have today some of the best figures as far as our labour markets statistics are concerned shows that Wales is making great progress, as a result of a Welsh Labour Government, of course, and membership of the European Union. If you look at today's labour market figures, they show a sharp decline in the rate of unemployment in Wales, and employment rates at a historic record high. And the fact that the labour market in Wales continues to outperform the UK as a whole, and that the Welsh economy is going from strength to strength, I think shows the way we are heading in terms of our economic recovery. And the city deal, of course, is yet another bit of good news that I know you will share.

Yn amlwg, mae'r ffaith fod gennym heddiw rai o'r ffigurau gorau o ran ystadegau'r farchnad lafur yn dangos bod Cymru'n gwneud cynnydd mawr, o ganlyniad i Lywodraeth Lafur Cymru, wrth gwrs, ac oherwydd ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Os edrychwch ar ffigurau'r farchnad lafur heddiw, maent yn dangos gostyngiad sydyn yn y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru, ac mae cyfraddau cyflogaeth ar lefel uwch nag erioed o'r blaen. A chredaf fod y ffaith fod y farchnad lafur yng Nghymru yn parhau i berfformio'n well na'r DU yn gyffredinol, a bod economi Cymru yn mynd o nerth i nerth, yn dangos y cyfeiriad rydym yn anelu tuag ato o ran ein hadferiad economaidd. Ac mae'r fargen ddinesig, wrth gwrs, yn rhagor o newyddion da y gwn y byddwch yn ei rannu.

## Cyllidebau Gwariant Cyfalaf

## Capital Spending Budgets

14:08 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllidebau gwariant cyfalaf yn y dyfodol? OAQ(4)0674(FIN)*

*7. Will the Minister make a statement on future capital spending budgets? OAQ(4)0674(FIN)*

14:08 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Building on the additional £4 billion of new investment in Wales levered through the Wales infrastructure investment plan, we will continue to use the plan as the key vehicle to deliver our strategic capital investment decisions.

Gan adeiladu ar y £4 biliwn ychwanegol o fuddsoddiad newydd yng Nghymru a ddenwyd drwy'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, byddwn yn parhau i ddefnyddio'r cynllun fel y cyfrwng allweddol i gyflawni ein penderfyniadau buddsoddi cyfalaf strategol.

14:08 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I wanted to ask whether you'd had any time to think about Plaid Cymru's proposals with regard to helping out the steel industry, notwithstanding the issues at the moment in Port Talbot where people will be finding out about the potential job losses. We've come up with the idea of potentially looking into funding the power plant there. I noticed that you answered my question last week, and then we had two statements on Horizon 2020 and the European fund for strategic investment, yet nothing in those statements mentioned the steel industry or anything to do with any European funding from your meetings there last week. Can you please give us an update, because we're at a crucial time now with regard to the job prospects of the people in Port Talbot, and I'd like to see the Welsh Government act—if not now, then when?

Weinidog, roeddwn yn awyddus i ofyn a ydych wedi cael unrhyw amser i feddwl am gynigion Plaid Cymru o ran helpu'r diwydiant dur, heb sôn am y problemau sydd ym Mhort Talbot ar hyn o bryd, lle y bydd pobl yn dod i wybod am y swyddi a allai gael eu colli. Cawsom y syniad o edrych ar y posibilrwydd o ariannu'r orsaf drydan yno. Sylwais eich bod wedi ateb fy nghwestiwn yr wythnos diwethaf, ac yna cawsom ddau ddatganiad ar Horizon 2020 a'r gronfa Ewropeaidd ar gyfer buddsoddi strategol, ac eto nid oedd dim yn y datganiadau hynny yn crybwyll y diwydiant dur neu unrhyw beth i'w wneud ag unrhyw arian Ewropeaidd o'ch cyfarfodydd yno yr wythnos diwethaf. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni os gwelwch yn dda, oherwydd rydym ar adeg dyngedfennol yn awr o ran rhagolygon swyddi pobl ym Mhort Talbot, a hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn gweithredu—os nad yn awr, yna pryd?

14:09 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, the Minister for Economy, Science and Transport is providing regular updates in terms of the impact of her taskforce, and indeed this, of course, was a topic that I discussed with the European Commission when I attended the meetings in Brussels only a couple of weeks ago. We're also, of course, in discussions with the UK Government with regard to the potential for enhanced capital allowances, and continuing to press the case for accessing funding through the European globalisation adjustment fund. And also, of course, in terms of my responsibilities, again, and linked to the EU, we have the ReAct project; that's £10 million of EU funds—£16.7 million altogether—approved last April. And that is offering immediate support for people facing redundancy at Tata Steel. Of course, this is also crucial in terms of the work that I'm doing to support procurement in those opportunities.

Wrth gwrs, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn darparu diweddariadau rheolaidd ynghylch effaith ei thasglu, ac yn wir roedd hwn, wrth gwrs, yn bwnc a drafodais gyda'r Comisiwn Ewropeaidd pan fynychais y cyfarfodydd ym Mrwsel ychydig wythnosau yn ôl. Rydym hefyd, wrth gwrs, yn trafod y posibilrwydd o gael lwfansau cyfalaf uwch gyda Llywodraeth y DU, ac yn parhau i ddadlau'r achos dros gael mynediad at gyllid drwy gronfa addasiad globaleiddio Ewrop. A hefyd, wrth gwrs, o ran fy nghyfrifoldebau i, unwaith eto, mae gennym brosiect ReAct, sydd hefyd yn gysylltiedig â'r UE; dyna £10 miliwn o gyllid UE—cyfanswm o £16.7 miliwn—a gymeradwywyd fis Ebrill diwethaf. Ac mae hwnnw'n cynnig cefnogaeth uniongyrchol i bobl sy'n wynebu diswyddiadau yn Tata Steel. Wrth gwrs, mae hyn hefyd yn hollbwysig o ran y gwaith rwyf yn ei wneud i gefnogi caffael yn y cyfleoedd hynny.

14:10 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, in her statement last year, your colleague the Minister for Economy, Science and Transport made it clear that the dualling of the A40 in Pembrokeshire could provide positive returns in the longer term. In light of that statement, could you outline what up-to-date discussions you've had regarding the future allocations towards the possibility of dualling the A40 in Pembrokeshire?

Weinidog, yn ei datganiad y llynedd, eglurodd eich cyd-Weinidog, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, y gallai deuoli'r A40 yn Sir Benfro greu enillion cadarnhaol yn y tymor hwy. Yng ngoleuni'r datganiad hwnnw, a allech chi amlinellu pa drafodaethau diweddar a gawsoch ynglŷn â dyraniadau tuag at y posibilrwydd o ddeuoli'r A40 yn Sir Benfro yn y dyfodol?

14:10 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you know, the Minister did provide an update on the improvement study for the A40. Of course, that was commissioned to look at potential improvement options for the A40. There is a strong case, of course, as you know, in terms of the conclusions that the dualling of the A40 would provide positive returns in the longer term. It is also recognised as an important regional, national and international link with access to not just Fishguard and Milford Haven but the Haven Waterway enterprise zone. The A40 is part of the national transport finance plan and the Wales infrastructure investment plan.

Fel y gwyddoch, rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad ar yr astudiaeth wella ar gyfer yr A40. Wrth gwrs, comisiynwyd hwnnw i edrych ar opsiynau gwella posibl ar gyfer yr A40. Mae yna achos cryf, wrth gwrs, fel y gwyddoch, o ran y casgliadau y byddai deuoli'r A40 yn creu enillion cadarnhaol yn y tymor hwy. Mae hefyd yn cael ei chydnabod yn ffordd gyswllt ranbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol bwysig gyda mynediad at Abergwaun ac Aberdaugleddau yn ogystal ag ardal fenter Dyfrffordd y Daugleddau. Mae'r A40 yn rhan o'r cynllun cyllid trafnidiaeth cenedlaethol a'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.

14:11 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Minister, in the budget, you announced capital investment in the Brecon and Monmouth canal. This is a very important piece of infrastructure, vital to the local tourism economy. Could you give us an update on the nature of that project and the benefits you believe it will bring to the economy in that part of the world?

Weinidog, yn y gyllideb, fe gyhoeddoch fuddsoddiad cyfalaf yng nghamlas Mynwy ac Aberhonddu. Mae hwn yn seilwaith pwysig iawn ac yn hanfodol i'r economi dwristiaeth leol. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am natur y prosiect a'r buddion y credwch y bydd yn eu creu i'r economi yn y rhan honno o'r byd?

14:11 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I very much welcome the fact that I was able to provide this money. It was a proposal that, of course, came to the Minister for Natural Resources—something that we would like to have done if we had the resources available. The money has just been allocated. I'm sure the Minister will be able to update you on progress.

Rwy'n croesawu'r ffaith fy mod wedi gallu darparu'r arian hwn yn fawr iawn. Roedd yn gynnig, wrth gwrs, a gyflwynwyd i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol—rhywbeth y buasem wedi hoffi ei wneud pe bai gennym yr adnoddau. Mae'r arian newydd gael ei ddyrannu. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar y cynnydd.

## Y Portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi

## The Communities and Tackling Poverty Portfolio

14:12

**Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y dyraniad cyllidebol i'r portffolio cymunedau a threchu tlodi? OAQ(4)0681(FIN)[W]*

*8. Will the Minister make a statement on the impact of the budget allocation to the communities and tackling poverty portfolio? OAQ(4)0681(FIN)[W]*

14:12

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Mae'r gyllideb ar gyfer cymunedau a threchu tlodi yn 2016-17 wedi cael ei chytuno yn £707 miliwn.

The communities and tackling poverty budget for 2016-17 has been agreed at £707 million.

14:12

**Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr. O fewn y portffolio gwrthdlodi mae'r cyllid i Gymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg wedi'i gynnal, sydd i'w groesawu'n fawr, ond mae'r unig gynllun sy'n weithredol ymhob cymuned, sef Teuluoedd yn Gyntaf, wedi'i gwtogi. Pam torri'r unig gynllun sydd ar gael ymhob un ardal?

Thank you very much. Within the tackling poverty portfolio, the funding for Flying Start and Communities First has been maintained, which is to be welcomed, but the only scheme that's operational in every community, which is Families First, has been cut. Why cut the only scheme that is available in every area?

14:12

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Clearly, we have had a tough call in terms of this budget for 2016, and we've had to make decisions based on evidence of beneficial impacts. You say, and that is right, that we've protected funding for Flying Start. That does mean that we can continue to provide support to 36,000 children. But, clearly, local authorities have also been very much protected in terms of the allocations that we've made, not just in terms of the better-than-expected revenue support grant, but also the £21 million for social services. I know that there are ways in which local authorities are supporting particularly important schemes of that kind.

Yn amlwg, rydym wedi wynebu ystyriaethau anodd mewn perthynas â'r gyllideb hon ar gyfer 2016, ac rydym wedi gorfod gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth o effeithiau manteisiol. Rydych yn dweud, ac mae hynny'n gywir, ein bod wedi diogelu cyllid ar gyfer Dechrau'n Deg. Mae hynny'n golygu y gallwn barhau i ddarparu cymorth i 36,000 o blant. Ond yn amlwg, mae awdurdodau lleol hefyd wedi cael eu diogelu'n fawr o ran y dyraniadau a wnaethom, nid yn unig o ran y grant cynnal refeniw gwell na'r disgwyl, ond hefyd y £21 miliwn i wasanaethau cymdeithasol. Rwy'n gwybod bod yna ffyrdd y mae awdurdodau lleol yn cefnogi cynlluniau arbennig o bwysig o'r math hwnnw.

14:13

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Bodies from the Williams commission through to the Auditor General for Wales and a coalition of 130 organisations in Wales have called for services to be delivered differently, not just because of austerity but because this enables and reables individuals and communities. Yet you've cut the third sector supporting communities and people budget by 10 per cent. How do you therefore respond to concern that, at a time when engagement of the third sector is most needed, such cuts to ground level support will disable their ability to support the more holistic user-led and cost-effective support and services that the third sector delivers. They describe this as being 'devastatingly compromised'.

Mae cyrff, o gomisiwn Williams i Archwilydd Cyffredinol Cymru, a chlymblaid o 130 o sefydliadau yng Nghymru wedi galw am ffordd wahanol o ddarparu gwasanaethau, nid yn unig oherwydd caledi ond oherwydd bod hyn yn galluogi ac yn ailalluogi unigolion a chymunedau. Eto i gyd, rydych wedi torri 10 y cant oddi ar gyllideb cefnogi cymunedau a phobl y trydydd sector. Sut rydych chi, felly, yn ymateb i'r pryder y bydd toriadau o'r fath i gymorth ar lawr gwlad, ar adeg pan fo fwyaf o angen ymgysylltiad y trydydd sector, yn ymyrryd â'u gallu i gefnogi'r cymorth a'r gwasanaethau mwy holistaidd a chosteffeithiol, sy'n cael eu harwain gan y defnyddwyr, y mae'r trydydd sector yn eu darparu? Maent yn disgrifio hyn fel rhywbeth sydd dan fygythiad aruthrol.

14:14 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I always find it very strange that Mark Isherwood comes up with these pleas about cuts. Of course, the cuts that are being made are the cuts by your UK Conservative Government—cuts that I had to face in terms of the most —. Six years—six years—of being finance Minister with cuts year after year—needless austerity cuts by your UK Government. And, yes, it is about priorities and the priorities that we have set do mean that we have protected Flying Start, do mean that we're protecting the Supporting People programme, do mean that we're continuing to protect universal benefits, but also mean that we've put more money into the intermediate care fund, and, of course, we're putting £3 million into Warm Homes, which, I know, in terms of Arbed, is tackling fuel poverty, which you would support.

Rwyf bob amser yn ei gweld hi'n rhyfedd iawn fod Mark Isherwood yn lleisio'r apeliadau hyn ynglŷn â thoriadau. Wrth gwrs, y toriadau sy'n cael eu gwneud yw'r toriadau gan Lywodraeth Geidwadol y DU—toriadau y bu'n rhaid i mi eu hwynebu gyda chymaint—. Chwe blynedd—chwe blynedd—o fod yn Weinidog cyllid gyda thoriadau flwyddyn ar ôl blwyddyn—toriadau caledi diangen gan eich Llywodraeth chi. Ac ydy, mae'n ymwneud â blaenoriaethau ac mae'r blaenoriaethau a nodwyd gennym yn golygu ein bod wedi diogelu Dechrau'n Deg, yn golygu ein bod yn diogelu'r rhaglen Cefnogi Pobl, yn golygu ein bod yn parhau i ddiogelu buddion cyffredinol, ond mae hefyd yn golygu ein bod wedi rhoi mwy o arian i mewn i'r gronfa gofal canolraddol, ac wrth gwrs, rydym yn rhoi £3 miliwn tuag at Cartrefi Cynnes, sydd, rwy'n gwybod, drwy Arbed, yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd, a byddech yn cefnogi hynny.

### Caffael Sector Cyhoeddus

### Public Sector Procurement

14:15 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganran caffael sector cyhoeddus sy'n cael ei chadw yng Nghymru? OAQ(4)0671(FIN)*

*9. Will the Minister make a statement on the percentage of public sector procurement that is retained in Wales? OAQ(4)0671(FIN)*

14:15 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Suppliers in Wales now win 55 per cent of Welsh public sector procurement expenditure and the proportion of contracts awarded through Sell2Wales to Welsh business is at almost 70 per cent.

Cyflenwyr yng Nghymru bellach sy'n ennill 55 y cant o wariant caffael sector cyhoeddus Cymru ac mae'r gyfran o gontractau a ddyfarnwyd drwy GwerthwchiGymru i fusnesau Cymru bron yn 70 y cant.

14:15 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. Clearly, that is an improvement, but we still have a long way to go if we're going to make the most of the Welsh pound. Can I ask you what action is being planned for future years in terms of trying to improve that percentage of procurement retained in Wales, particularly around local authorities and health boards?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Yn amlwg, mae hynny'n welliant, ond mae gennym ffordd bell i fynd os ydym am wneud y gorau o'r bunt Gymreig. A gaf fi ofyn i chi pa gamau sy'n cael eu cynllunio ar gyfer y dyfodol o ran ceisio gwella'r ganran o gaffael sy'n cael ei chadw yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd?

14:15 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, a key focus, of course, of our procurement policy is that public contracts in Wales are open and accessible to all suppliers, directly or through the supply chain. The national procurement service is particularly keen to work with organisations in terms of this round of expenditure analysis for Wales, which, I hope, will see an uplift. But we are driving up adoption of the procurement service, and I think that Welsh Government using Sell2Wales does ensure lower value opportunities and that's a key way forward in terms of smaller suppliers and third sector firms.

Wel, ffocws allweddol, wrth gwrs, yn ein polisi caffael yw bod contractau cyhoeddus yng Nghymru yn agored ac yn hygyrch i'r holl gyflenwyr, yn uniongyrchol neu drwy'r gadwyn gyflenwi. Mae'r gwasanaeth caffael cenedlaethol yn arbennig o awyddus i weithio gyda sefydliadau yn y cylch dadansoddi gwariant hwn ar gyfer Cymru, a fydd, rwy'n gobeithio, yn dangos cynnydd. Ond rydym yn gwella defnydd o'r gwasanaeth caffael, a chredaf fod y ffaith fod Llywodraeth Cymru yn defnyddio GwerthwchiGymru yn sicrhau y ceir cyfleoedd gwerth is ac mae honno'n ffordd allweddol ymlaen ar gyfer cyflenwyr llai o faint a chwmnïau trydydd sector.

14:16 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the 'A Picture of Public Services 2015' report by the Auditor General for Wales identified several common barriers affecting the access to public sector procurement, especially for small, local enterprises, in particular the amount of bureaucracy in local authority procurement that makes it absolutely impossible for smaller providers to compete. Minister, how can we address these barriers in the next Assembly term, so that we can all keep the Welsh pound going around in our own constituencies across Wales?

Weinidog, roedd yr adroddiad 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2015' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn nodi nifer o rwystrau cyffredin sy'n effeithio ar y mynediad i gaffael yn y sector cyhoeddus, yn enwedig ar gyfer mentrau bach lleol, ac yn benodol, yr holl fiwrocratiaeth ym mhrosesau caffael awdurdodau lleol sy'n ei gwneud yn gwbl amhosibl i ddarparwyr llai gystadlu. Weinidog, sut y gallwn fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn yn ystod tymor nesaf y Cynulliad, fel y gall pob un ohonom gadw'r bunt Gymreig i droi yn ein hetholaethau ledled Cymru?

14:17 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, all local authorities have signed up to our Welsh procurement policy statement. And, the adoption of tools like the supplier qualification information database and the joint bidding guidance do lower barriers for Welsh business to access our contracts, but also we have invested in the home-grown project to ensure that we can improve the ability, consistency and professionalism of those in the procurement sector, particularly in local government.

Wrth gwrs, mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddatganiad polisi caffael Cymru. Ac mae mabwysiadu adnoddau fel y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr a'r canllawiau ymgeisio ar y cyd yn lleihau rhwystrau i fusnesau Cymru rhag ymgeisio am ein contractau, ond hefyd rydym wedi buddsoddi yn y prosiect a ddatblygwyd gennym er mwyn sicrhau y gallwn wella gallu, cysondeb a phroffesiynoldeb yn y sector caffael, yn enwedig mewn llywodraeth leol.

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

## 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## 2. Questions to the Minister for Public Services

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to item 2, which is questions to the Minister for Public Services. Question 1 [OAQ(4)0684(PS)] is withdrawn. Question 2, John Griffiths.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Cwestiwn 1 [OAQ(4)0684(PS)] wedi'i dynnu'n ôl. Cwestiwn 2, John Griffiths.

### Cymuned y Lluoedd Arfog

### The Armed Forces Community

14:17 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad y pecyn o gefnogaeth ar gyfer cymuned y lluoedd arfog yng Nghymru? OAQ(4)0683(PS)*

*2. Will the Minister make a statement on the performance of the package of support for the armed forces community in Wales? OAQ(4)0683(PS)*

14:17 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Llywydd, we're committed to supporting both serving members and ex-members of the armed forces in Wales. Our package of support sets out how the Welsh Government supports armed forces veterans in Wales.

Llywydd, rydym yn ymrwymedig i gefnogi aelodau sy'n gwasanaethu a chyn-aelodau o'r lluoedd arfog yng Nghymru. Mae ein pecyn cymorth yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyn-filwyr y lluoedd arfog yng Nghymru.

14:17 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I recently visited the Raglan barracks in Newport to see the training provided by the military preparation college, providing training for a variety of careers. Also, of course, I was pleased to host the launch of the Royal British Legion manifesto for the Assembly elections, which you also attended, as did many other Members here today. Would you agree with me that there is a strong relationship between Welsh Government and the armed forces community in Wales, but that we do need to continue to develop that relationship to ensure that the particular needs of the armed forces community are fully understood and addressed?

Weinidog, yn ddiweddar ymwelais â barics Rhaglan yng Nghasnewydd i weld yr hyfforddiant a ddarperir gan y coleg paratoi milwrol, yn darparu hyfforddiant ar gyfer amrywiaeth o yrfaoedd. Hefyd, wrth gwrs, roeddwn yn falch o groesawu lansiad maniffesto'r Lleng Brydeinig Frenhinol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, ac roeddech chi'n bresennol hefyd, fel yr oedd llawer o'r Aelodau eraill yma heddiw. A fyddech yn cytuno bod perthynas gref rhwng Llywodraeth Cymru a chymuned y lluoedd arfog yng Nghymru, ond bod angen i ni barhau i ddatblygu'r berthynas honno er mwyn sicrhau bod anghenion penodol cymuned y lluoedd arfog yn cael eu deall a'u diwallu'n llawn?

14:18 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My colleague the Member for Newport East is absolutely right and I very much welcome the action he took in sponsoring the reception by the Royal British Legion when they launched their manifesto for the Assembly elections just a few weeks back. I think it's fair to say that our armed forces package of support is almost unique in the United Kingdom. We've been highly successful in Wales in improving the take-up of the defence discount card; we've implemented unique national services such as the Veterans' NHS Wales service; and, of course, we continue to maintain full entitlements in our council tax reduction scheme for the next financial year for serving members of the armed forces and ex-service personnel and their families. I agree with my colleague the Member for Newport East that we must continue to ensure that this package of support is developed in the future.

Mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ddwyrain Casnewydd, yn gwbl gywir ac rwy'n croesawu'n fawr y camau a roddodd ar waith i noddi derbyniad y Lleng Brydeinig Frenhinol pan lansiwyd eu maniffesto ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ychydig wythnosau'n ôl. Rwy'n credu ei bod yn deg dweud bod ein pecyn cymorth ar gyfer y lluoedd arfog bron yn unigryw yn y Deyrnas Unedig. Rydym wedi bod yn llwyddiannus iawn yng Nghymru o ran gwella'r nifer sy'n manteisio ar y cerdyn disgownt amddiffyn; rydym wedi rhoi gwasanaethau cenedlaethol unigryw ar waith megis gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr; ac wrth gwrs, rydym yn parhau i gadw hawliau llawn yn ein cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf i aelodau a chyn-aelodau o'r lluoedd arfog a'u teuluoedd. Rwy'n cytuno gyda fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ddwyrain Casnewydd, fod yn rhaid i ni barhau i sicrhau fod y pecyn cymorth hwn yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol.

14:19 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, leaving the military, often, after a long period of service presents former service personnel with many challenges. It often means having to relocate, move home, find new employment and undergo a change of lifestyle. Veterans can sometimes struggle to obtain information about the services available to them when returning to civilian life. What consideration has been given to the establishment of a network of one-stop shops for veterans, as they have in Scotland, to ensure that they are fully aware of the advice and support available to them there?

Weinidog, mae gadael y fyddin, yn aml, ar ôl cyfnod hir o wasanaeth yn creu llawer o heriau i gyn-filwyr. Mae'n aml yn golygu gorfod symud, symud cartref, dod o hyd i waith newydd a newid ffordd o fyw. Weithiau gall cyn-filwyr ei chael yn anodd cael gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt wrth ddychwelyd i fywyd sifil. Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i sefydlu rhwydwaith o siopau un stop ar gyfer cyn-filwyr, fel sydd ganddynt yn yr Alban, er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael iddynt yno?

14:20 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, in the first instance, of course, it is for the Ministry of Defence to ensure that resettlement services for members of the armed forces are adequate, but I think we can be proud of the fact that, in Wales, we have established the community covenant across all 22 local authorities with armed forces champions in place in those local authorities. We have worked with the Ministry of Defence, with representatives of the armed forces communities and the charities that support them to ensure that the relevant information on discharge is available to members of the armed forces.

Lywydd, yn y lle cyntaf, wrth gwrs, mater i'r Weinyddiaeth Amddiffyn yw sicrhau bod gwasanaethau adsefydlu ar gyfer aelodau o'r lluoedd arfog yn ddigonol, ond rwy'n credu y gallwn fod yn falch o'r ffaith ein bod, yng Nghymru, wedi sefydlu'r cyfamod cymunedol ar draws pob un o'r 22 o awdurdodau lleol gyda hyrwyddwyr lluoedd arfog yn eu lle yn yr awdurdodau lleol hynny. Rydym wedi gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn, gyda chynrychiolwyr cymunedau'r lluoedd arfog a'r elusennau sy'n eu cefnogi i sicrhau bod y wybodaeth berthnasol wrth gael eu rhyddhau ar gael i aelodau'r lluoedd arfog.

14:21 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, will you join me in thanking the UK Government for their investment in the wonderful Change Step programme, which has been supported by your Government in the past and engages very effectively with the Veterans' NHS Wales service? The UK Government, of course, has announced that £500,000 package. It comes just a couple of weeks after an announcement that funding would not continue for that organisation, and this will be very welcome news, indeed, for veterans and their families across Wales.

Weinidog, a wnewch chi ategu fy niolch i Lywodraeth y DU am eu buddsoddiad yn y rhaglen wych, Newid Cam, sydd wedi cael ei chefnogi gan eich Llywodraeth yn y gorffennol ac sy'n ymgysylltu'n effeithiol iawn â gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr? Mae Llywodraeth y DU, wrth gwrs, wedi cyhoeddi'r pecyn £500,000 hwnnw. Mae'n dod ychydig wythnosau'n unig ar ôl cyhoeddiad na fyddai cyllid yn parhau ar gyfer y sefydliad hwnnw, a bydd hwn yn newyddion da iawn, yn wir, i gyn-filwyr a'u teuluoedd ledled Cymru.

14:21 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do want to pay tribute to the work that Change Step has done, and I've seen it, indeed, in my own constituency of the Rhondda very recently, when I met with veterans and members of Change Step to discuss the services that they provide and the needs that they have. So, I very much do want to join the Member in congratulating Change Step on the work that it does.

Rwyf eisiau talu teyrnged i'r gwaith y mae Newid Cam wedi'i wneud, ac fe'i gwelais, yn wir, yn fy etholaeth fy hun, sef y Rhondda, yn ddiweddar iawn, pan gyfarfûm â chyn-filwyr ac aelodau o Newid Cam i drafod y gwasanaethau y maent yn eu darparu a'r anghenion sydd ganddynt. Felly, rwy'n sicr am ymuno â'r Aelod i longyfarch Newid Cam ar y gwaith y mae'n ei wneud.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions by party spokespeople. First this afternoon is the Welsh Conservatives' spokesperson, Janet Finch-Saunders.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma mae llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Janet Finch-Saunders.

14:21 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Minister, your statement yesterday regarding consultation on the draft Local Government (Wales) Bill notes that there is still no clear consensus on the future local government structure. Having previously told those working across local government to 'grow up' over your dramatic merger proposals, how do you envisage working productively with a new Welsh Government and local government after this Assembly term?

Diolch. Weinidog, mae eich datganiad ddoe ynglŷn â'r ymgynghoriad ar Fil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft yn nodi nad oes consensws clir o hyd ar strwythur llywodraeth leol yn y dyfodol. O ystyried eich bod, yn y gorffennol, wedi dweud wrth y rhai sy'n gweithio ar draws llywodraeth leol i 'dyfu i fyny' mewn perthynas â'ch cynigion dramatig i uno, sut rydych chi'n rhagweld y gellir gweithio'n gynhyrchiol gyda Llywodraeth newydd yng Nghymru a llywodraeth leol ar ôl tymor y Cynulliad hwn?

14:22 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I say to the Conservative Member that my remarks at committee were, of course, directed to some of the representatives of the Welsh Local Government Association who had previously given evidence to the committee and made what I thought were unhelpful and unfortunate remarks?

A gaf fi ddweud wrth yr Aelod Ceidwadol fod fy sylwadau yn y pwyllgor, wrth gwrs, wedi'u cyfeirio at rai o gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a oedd eisoes wedi rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor ac yn gwneud sylwadau a oedd, yn fy marn i, yn annefnyddiol ac yn anffodus?

14:22 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Having previously described the concerns of the Wales Audit Office relating to the draft Local Government (Wales) Bill affecting audit independence as 'absurd', how do you now respond to the findings of the Auditor General for Wales that section 143 of the Bill falls foul of both section 108 and Part 2 of the Government of Wales Act 2006, as is detailed in his comprehensive letter to the chairman of the Communities, Equality and Local Government Committee?

Diolch yn fawr, Weinidog. Ar ôl disgrifio pryderon Swyddfa Archwilio Cymru fod y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft yn effeithio ar annibyniaeth archwilio fel rhai 'hurt', sut rydych yn ymateb yn awr i ganfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru fod adran 143 o'r Bil yn tramgwyddo adran 108 a Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y nodir yn fanwl ei lythyr cynhwysfawr i gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol?

14:23

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don't agree with the auditor general.

Nid wyf yn cytuno â'r archwilydd cyffredinol.

14:23

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Finally, Minister, as these are my last questions of this Assembly term, could I just thank you for responding to my questions as the spokesperson most courteously and with some humour? [Laughter.] Minister, the reports of the Communities, Equality and Local Government Committee into the draft Local Government (Wales) Bill urges further consideration, in conjunction with the WLGA, as to how the cost of merges may be met without significant cuts to front-line services. Wouldn't you agree with me that the next Welsh Government must commit to working with the WLGA on this matter? After all, they are the ones that truly reflect the members for whom they serve.

Diolch. Yn olaf, Weinidog, gan mai'r rhain yw fy nghwestiynau olaf am y tymor Cynulliad hwn, a gaf fi ddiolch i chi am ymateb i fy nghwestiynau fel llefarydd gyda'r fath gwrteisi a hiwmor? [Chwerthin.] Weinidog, mae adroddiadau'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft yn galw am ystyriaeth bellach, ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ynglŷn â sut y gellid talu'r gost o uno heb doriadau sylweddol i wasanaethau rheng flaen. Oni fyddech yn cytuno bod yn rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y mater hwn? Wedi'r cyfan, hwy yw'r rhai sy'n adlewyrchu safbwyntiau'r aelodau y maent yn eu gwasanaethu mewn gwirionedd.

14:24

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I start by saying that I have thoroughly enjoyed crossing swords with the Member in this Chamber and in committee over the last 18 months as we've held the respective portfolio responsibilities? In respect to the WLGA, I always listen to what they have to say. [Laughter.]

A gaf fi ddechrau drwy ddweud fy mod wedi mwynhau croesi cleddyfau gyda'r Aelod yn y Siambr hon ac yn y pwyllgor dros y 18 mis diwethaf wrth i ni ysgwyddo'r cyfrifoldebau portffolio? Mewn perthynas â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, rwyf bob amser yn gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. [Chwerthin.]

14:24

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Oh, I beg your pardon. [Laughter.] That did sound like one of your preambles then, Minister. [Laughter.] I do beg your pardon. We now move to Plaid Cymru's spokesman, Simon Thomas.

O, mae'n ddrwg gennyf. [Chwerthin.] Roedd hynny'n swnio fel un o'ch rhagymadroddion yn awr, Weinidog. [Chwerthin.] Mae'n wir ddrwg gennyf. Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.

14:24

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Minister, nevertheless, you do leave office with 22 principal local authorities still in place, three national park authorities, over 730 town and community councils still in place, 22 new statutory public service boards, four education consortia and a myriad of regional partnerships and delivery bodies still active in delivering public services. If this is public service reform, what would neglect have looked like? [Laughter.]

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, serch hynny, rydych yn gadael eich swydd gyda 22 prif awdurdod lleol yn dal yn eu lle, tri awdurdod parc cenedlaethol, dros 730 o gynghorau tref a chymuned yn dal yn eu lle, 22 bwrdd gwasanaethau cyhoeddus statudol newydd, pedwar consortiwm addysg a myrdd o bartneriaethau rhanbarthol a chyrff cyflawni yn dal wrthi'n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Os mai diwygio gwasanaethau cyhoeddus yw hyn, sut olwg fuasai wedi bod ar beidio â gwneud dim? [Chwerthin.]

14:25

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I was very grateful to the Member and his colleagues when they helped us get the Local Government (Wales) Bill through, just a few months ago. Indeed, I thought at the time they were a rather cheap date. [Assembly Members: 'Oh.']

Wel, roeddwn yn ddiolchgar iawn i'r Aelod a'i gyd-Aelodau am ein helpu i basio Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drwy'r Siambr, ychydig fisoedd yn ôl yn unig. Yn wir, roeddwn yn meddwl ar y pryd eu bod yn ddêt eithaf rhad. [Aelodau'r Cynulliad: 'O.']

14:25 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

You may regret that in a few weeks. [Laughter.] We will use the legislation when we're in Government to deliver our agenda for public service reform, and let's see what sort of date you are then. Turning to dates, let me ask a similar question—perhaps in a different way, but perhaps I'll get a different answer— to that which the Conservative spokesperson asked you. You, in the past, have suggested that the WLGA should not be funded by central Government and should fund itself, because it is, after all, representing another layer of government, and, often, in opposition to yourself. Do you see that you'll need to bring an end to central Government funding for the WLGA in order for them to become a true partner in delivering public service reform?

Efallai y byddwch yn difaru hynny mewn ychydig wythnosau. [Chwerthin.] Byddwn yn defnyddio'r ddeddfwriaeth pan fyddwn mewn Llywodraeth i gyflawni ein hagenda ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus, a gadewch i ni weld pa fath o ddêt fyddwch chi wedyn. A throi at ddêts, gadewch i mi ofyn cwestiwn tebyg—mewn ffordd wahanol efallai, ond efallai y caf ateb gwahanol—i'r cwestiwn y gofynodd llefarydd y Ceidwadwyr i chi. Yn y gorffennol, rydych wedi awgrymu na ddylai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gael ei hariannu gan y Llywodraeth ganolog ac y dylai ariannu ei hun, gan ei bod, wedi'r cyfan, yn cynrychioli haen arall o lywodraeth, ac yn aml, yn eich gwrthwynebu. A ydych yn gweld y bydd angen i chi roi diwedd ar gyllid Llywodraeth ganolog i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn iddynt fod yn bartner go iawn yn y gwaith o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus?

14:26 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'm not sure that we need to curtail all support for the WLGA, but what I do think, at the end of the day, is the WLGA's role is principally to represent the interests of local government in Wales. Now, it's fair to say that local government in Wales gets a very high percentage of its income from the Welsh Government already. So, for us then to fund the WLGA on top of that might be seen to be asking a bit much, I think, of this Government's generosity.

Nid wyf yn siŵr fod angen i ni roi diwedd ar ein holl gymorth i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ond rwy'n credu, yn y pen draw, mai rôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn bennaf yw cynrychioli buddiannau llywodraeth leol yng Nghymru. Nawr, mae'n deg dweud bod llywodraeth leol yng Nghymru yn cael canran uchel iawn o'i hincwm gan Lywodraeth Cymru eisoes. Felly, rwy'n credu y gellid ystyried y byddai i ni ariannu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ben hynny yn gofyn ychydig gormod o haelioni'r Llywodraeth hon.

14:26 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, one of the things that the WLGA is using its funds, partly from you, to do at the moment, of course, is to establish a commission on local government finance, chaired by Professor Travers, who is well known in local government finance circles in that respect. I understand that that will report, actually, on 24 March. We won't be sitting as an Assembly; however, you'll still be a Government Minister. So, can you give an indication to the Assembly today, as it's our last day, of how you might want to respond to that report, and whether you agree with me that the reform of funding for local government finance is something that has to go hand in hand with the reform of the delivery bodies?

Wel, un o'r pethau y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn defnyddio ei chronfeydd, yn rhannol gennych chi, i'w wneud ar hyn o bryd, wrth gwrs, yw sefydlu comisiwn ar gyllid llywodraeth leol, dan gadeiryddiaeth yr Athro Travers, sy'n adnabyddus ym maes cyllid llywodraeth leol yn hynny o beth. Rwy'n deall y bydd hwnnw'n adrodd yn ôl, mewn gwirionedd, ar 24 Mawrth. Ni fyddwn yn cyfarfod fel Cynulliad; fodd bynnag, byddwch yn parhau i fod yn Weinidog y Llywodraeth. Felly, a allwch roi syniad i'r Cynulliad heddiw ar ein diwrnod olaf sut y gallech fod eisiau ymateb i'r adroddiad hwnnw, ac a ydych yn cytuno â mi fod diwygio cyllid ar gyfer llywodraeth leol yn rhywbeth sy'n gorfod mynd law yn llaw â diwygio'r cyrff cyflawni?

14:27 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Firstly, can I say that I don't agree that the reform of local government finance has to go hand in hand with the reorganisation of local government? In fact, I think it's probably preferable that we proceed with one agenda before addressing the longer term agenda of local government finance reform. However, he will be aware that I have also appointed a finance futures panel to look at some of those long-term issues. I've had a thorough briefing from Professor Tony Travers on the work of the independent commission. I welcome the work that has been done there and I look forward to the publication of their final report, which I think will be important and will make a significant contribution to wider debate in Wales about the future of local government finance reform. Since this is our last question time, can I pay tribute to the Member who has followed me from portfolio to portfolio, it feels, in this Chamber? It was only within a few weeks of him coming into this Chamber that he changed his party's policy on tuition fees and now I find him changing his party's policy on local government, but it's always been enjoyable to work with him.

Yn gyntaf, a gaf fi ddweud nad wyf yn cytuno bod diwygio cyllid llywodraeth leol yn gorfod mynd law yn llaw ag ad-drefnu llywodraeth leol? Yn wir, rwy'n credu efallai ei bod yn well i ni fwrw ymlaen ag un agenda cyn mynd i'r afael â'r agenda fwy hirdymor o ddiwygio cyllid llywodraeth leol. Fodd bynnag, bydd yn gwybod fy mod hefyd wedi penodi panel dyfodol cyllid i edrych ar rai o'r materion hirdymor hynny. Rwyf wedi cael briff trylwyr gan yr Athro Tony Travers ar waith y comisiwn annibynnol. Rwy'n croesawu'r gwaith a wnaed yno ac rwy'n edrych ymlaen at gyhoeddiad eu hadroddiad terfynol. Rwy'n credu y bydd yn bwysig ac yn cyfrannu'n sylweddol at y ddadl ehangach yng Nghymru ynglŷn â dyfodol diwygio cyllid llywodraeth leol. Gan mai hon yw ein sesiwn gwestiynau olaf, a gaf fi dalu teyrnged i'r Aelod sydd wedi fy nilyn o bortffolio i bortffolio—mae'n teimlo felly—yn y Siambr hon? O fewn ychydig wythnosau'n unig i ddod i'r Siambr hon, newidiodd bolisi ei blaid ar ffioedd dysgu ac yn awr rwy'n ei weld yn newid polisi ei blaid ar lywodraeth leol, ond mae wedi bod yn bleser gweithio gydag ef bob amser.

14:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

14:28 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Can I also add my thanks to the Minister for our engagements in the past and my appreciation of the work that we have done together to try to improve local government and the various responsibilities that he has under his portfolio? Just following on from Simon Thomas's question in relation to local government finance, the Minister has referred to the finance futures panel, which he set up, and I've also had a briefing on the WLGA commission, which I understand is to report on Thursday, 26 March. Minister, in setting up your finance futures panel, what principles have you asked them to consider in terms of looking at how local government should be funded in the future?

Diolch i chi, Lywydd. A gaf fi hefyd ychwanegu fy niolch i'r Gweinidog am ein hymgysylltiad yn y gorffennol a mynegi fy ngwerthfawrogiad o'r gwaith a wnaethom gyda'n gilydd i geisio gwella llywodraeth leol a'r gwahanol gyfrifoldebau sydd ganddo yn ei bortffolio? Gan ddilyn ymlaen o gwestiwn Simon Thomas mewn perthynas â chyllid llywodraeth leol, mae'r Gweinidog wedi cyfeirio at y panel dyfodol cyllid a sefydlodd, ac rwyf innau hefyd wedi cael briff ar gomisiwn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac rwy'n deall y bydd hwnnw'n cyflwyno'i adroddiad ddydd Iau 26 Mawrth. Weinidog, wrth sefydlu eich panel dyfodol cyllid, pa egwyddorion rydych wedi gofyn iddynt eu hystyried o ran edrych ar sut y dylid ariannu llywodraeth leol yn y dyfodol?

14:29 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wouldn't go on a date with him, because Thursday isn't 26 March, it's 24 March, as it happens. But, leaving that aside, these are important issues. The report of the independent commission, established by the WLGA, I very much look forward to reading in full. Professor Tony Travers came to my finance futures panel to give evidence there. We all know, I think, of his reputation in this area, over decades, and he has made a very significant contribution to public life and public thinking around issues of local government finance, and I am sure that we will all read with interest what he has to say. And can I reciprocate to the Member and say that I have thoroughly enjoyed our sparring across this Chamber over the years, and can I say to him—if it's not too presumptive—I look forward to it continuing?

Ni fuaswn yn mynd ar ddêt gydag ef, am nad yw 26 Mawrth ar ddydd Iau, 24 Mawrth yw'r dydd Iau, fel y mae'n digwydd. Ond gan roi hynny o'r neilltu, mae'r rhain yn faterion pwysig. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn at ddarllen adroddiad y comisiwn annibynnol a sefydlwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Daeth yr Athro Tony Travers gerbron fy mhanel dyfodol cyllid i roi tystiolaeth. Rydym i gyd yn gwybod, rwy'n credu, am ei enw da yn y maes dros ddegawdau ac mae wedi gwneud cyfraniad sylweddol iawn i fywyd cyhoeddus a meddwl y cyhoedd ynglŷn â materion cyllid llywodraeth leol, ac rwy'n siŵr y byddwn i gyd yn darllen yr hyn sydd ganddo i'w ddweud gyda diddordeb. Ac a gaf fi ateb yr Aelod a dweud fy mod wedi llwyr fwynhau ein cecru ar draws y Siambr hon dros y blynyddoedd, ac a gaf fi ddweud wrtho—os nad yw'n rhagdybio gormod—fy mod yn edrych ymlaen at weld hynny'n parhau?

14:30 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, thank you for that, Minister. I also look forward to it continuing after 5 May as well. Minister, you've outlined again how you understand the WLGA panel—Tony Travers's panel—is going to work, but you haven't actually given me much detail in terms of what your finance futures panel is actually looking at. What are the main principles that you believe should be built into any future local government finance system? Clearly, there is a need to improve services and outcomes, and maybe to drive economic growth. Are those the key drivers, or are there other drivers you want to consider as well?

Wel, diolch i chi am hynny, Weinidog. Rwyf innau hefyd yn edrych ymlaen at barhau hynny ar ôl 5 Mai hefyd. Weinidog, rydych wedi amlinellu unwaith eto sut rydych yn credu y bydd panel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru—panel Tony Travers—yn gweithio, ond nid ydych wedi rhoi llawer o fanylion i mi, mewn gwirionedd, o ran yr hyn y mae eich panel dyfodol cyllid yn edrych arno. Beth yw'r prif egwyddorion y credwch y dylid eu cynnwys yn rhan o system gyllid llywodraeth leol yn y dyfodol? Yn amlwg, mae angen gwella gwasanaethau a chanlyniadau, ac ysgogi twf economaidd efallai. Ai dyna'r ysgogwyr allweddol, neu a oes yna ysgogwyr eraill rydych am eu hystyried hefyd?

14:31 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think we need to consider equity, we need to consider factors like deprivation, we need to consider all of those issues that have been raised by Members in this Chamber, including, of course, sparsity. But I think we are at a time when, increasingly, local government is going to need to become more sustainable of itself, and therefore its ability to raise finance is going to become a more critical question. And, therefore, I wouldn't want the finance futures panel at this stage to rule out anything in its considerations. It will look across the piece; it will certainly take on board what has been said in the independent commission report, when that is published. But, from my point of view, I would rather we took our time to explore all options and to get this right than rushed into a reform of local government finance that proved to be less than optimal.

Wel, rwy'n credu bod angen i ni ystyried tegwch, mae angen i ni ystyried ffactorau fel amddifadedd, mae angen i ni ystyried yr holl faterion hynny a grybwyllwyd gan Aelodau yn y Siambr hon, gan gynnwys, wrth gwrs, teneurwydd poblogaeth. Ond rwy'n credu ein bod ni mewn cyfnod lle y bydd angen i lywodraeth leol, yn gynyddol, fod yn fwy cynaliadwy ynddi ei hun, ac felly mae ei gallu i greu cyllid yn mynd i fod yn gwestiwn mwy allweddol. Ac felly, ni fyddwn am i'r panel dyfodol cyllid ddiystyru unrhyw beth yn ei ystyriaethau ar hyn o bryd. Bydd yn bwrw golwg gyffredinol ar hyn; bydd yn sicr o ystyried yr hyn a ddywedwyd yn adroddiad y comisiwn annibynnol pan gaiff ei gyhoeddi. Ond o'm rhan i, buasai'n well gennyf i ni gymryd ein hamser i ystyried yr holl opsiynau a chael hyn yn iawn na rhuthro i ddiwygio cyllid llywodraeth leol mewn modd nad yw'n berffaith.

14:32 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. I think that's absolutely right, and I think we saw the consequences when the Conservative Government rushed into reforming, with the creation of the community charge or the poll tax. Minister, you've already talked about giving local government more responsibility and empowering them, and you've also, of course, abolished a lot of direct grants to local government, although I think there are still about 50 left, which need to be looked at for the future. Would you be considering giving local government more freedom to impose their own taxes and devise taxes locally, as part of this? Is that part of your approach—a more sort of diverse approach, giving local councils the ability to do different things in different areas?

Diolch i chi am yr ateb hwnnw. Rwy'n credu bod hynny'n hollol gywir, ac rwy'n credu ein bod wedi gweld y canlyniadau pan ruthrodd y Llywodraeth Geidwadol i ddiwygio, a chreu'r tâl cymunedol neu dreth y pen. Weinidog, rydych eisoes wedi siarad am roi mwy o gyfrifoldeb i lywodraeth leol a'i grymuso, ac rydych hefyd, wrth gwrs, wedi diddymu llawer o grantiau uniongyrchol i lywodraeth leol, er fy mod yn credu bod tua 50 ar ôl o hyd, ac mae angen edrych ar y rheini ar gyfer y dyfodol. A fyddech yn ystyried rhoi mwy o ryddid i lywodraeth leol godi eu trethi eu hunain a dyfeisio trethi'n lleol fel rhan o hyn? A yw hynny'n rhan o'ch dull o weithredu—dull mwy amrywiol, gan roi'r gallu i gynghorau lleol wneud pethau gwahanol mewn gwahanol ardaloedd?

14:32 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it's far too early to say what the finance futures panel would be willing to recommend. But, clearly, it needs to look across the piece at international evidence, and we know local government, and, indeed, regional governments in other parts of the world, have in their hands a number of different levers that they can use to raise finance. It's right that we give consideration to all of those, and, at this stage, I wouldn't want to rule things out, but I think it's unlikely that—there is one area that I probably would want to rule out, and I think it's unlikely that the concept of local income tax would find favour with this Government.

Rwy'n credu ei bod yn llawer rhy gynnar i ddweud beth fyddai'r panel dyfodol cyllid yn barod i'w argymell. Ond yn amlwg, mae angen iddo edrych yn gyffredinol ar dystiolaeth ryngwladol, ac rydym yn gwybod fod gan lywodraeth leol, ac yn wir, llywodraethau rhanbarthol mewn rhannau eraill o'r byd, nifer o wahanol ddulliau y gallant eu defnyddio i greu cyllid. Mae'n briodol ein bod yn rhoi ystyriaeth i bob un o'r rheini, ac ar hyn o bryd, ni fyddwn am ddiystyru pethau, ond rwy'n credu ei bod yn annhebygol y bydd—mae un maes y buaswn yn ôl pob tebyg yn dymuno ei ddiystyru, ac rwy'n credu ei bod yn annhebygol y byddai'r cysyniad o dreth incwm leol yn cael cefnogaeth gan y Llywodraeth hon.

14:33

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Question 3 [OAQ(4)0685(PS)] is withdrawn.

Mae Cwestiwn 3 [OAQ(4)0685(PS)] wedi'i dynnu'n ôl.

Senedd.tv Fideo Video

### Ymgysylltu â'r Cyhoedd (Gwasanaethau Cyhoeddus)

### Public Engagement (Public Services)

14:33

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth ymgysylltu â'r cyhoedd wrth gynllunio gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0691(PS)*

*4. Will the Minister make a statement on the function of public engagement in designing public services? OAQ(4)0691(PS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:33

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

The Welsh Government encourages public participation in policy making and in the design and delivery of public services. Both the draft Local Government (Wales) Bill and the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 promote the importance of engagement in designing public services.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog cyfranogiad y cyhoedd wrth lunio polisïau ac wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn hyrwyddo pwysigrwydd ymgysylltu wrth gynllunio gwasanaethau cyhoeddus.

Senedd.tv Fideo Video

14:34

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

I thank you for that answer, Minister. With today's budget, George Osborne looks set to cut £4 billion of public spend, and the hole does get deeper, and the Tories will keep digging, of course, and that will be the fiscal context and challenge for the next Welsh Government, and also knocking on to public services. So, consulting the public on spending priorities and service design will really be important. Will you, therefore, reiterate to public bodies, Minister, the need for user-friendly, widely publicised, and easily available consultation, and, in the name of saving finance, would you ask them to include information about upcoming consultations in literature that the councils already send round to every house in their given area?

Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Gyda'r gyllideb heddiw, ymddengys fod George Osborne yn benderfynol o dorri £4 biliwn oddi ar wariant cyhoeddus, ac mae'r twll yn dyfnhau, a bydd y Toriaid yn dal ati i gloddio, wrth gwrs, a dyna fydd y cyd-destun cyllidol a'r her i Lywodraeth nesaf Cymru, a bydd hefyd yn effeithio ar wasanaethau cyhoeddus. Felly, bydd ymgynghori â'r cyhoedd ar flaenoriaethau gwario a chynllunio gwasanaethau yn wirioneddol bwysig. A wnewch chi, felly, ailadrodd wrth y cyrff cyhoeddus, Weinidog, yr angen am ymgynghori hwylus a hygyrch sy'n destun cyhoeddusrwydd eang, ac er mwyn arbed arian, a wnewch chi ofyn iddynt gynnwys gwybodaeth ynglŷn ag ymgyngoriadau sydd i ddod mewn taflenni y mae'r cynghorau eisoes yn eu hanfon i bob tŷ yn eu hardaloedd?

Senedd.tv Fideo Video

14:34

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Can I start by saying my colleague the Member for Mid and West Wales is right to remind the Chamber of the devastating cuts to public finances imposed by the Conservative Government at Westminster—the cuts they've imposed on the Welsh budget of around £1.3 billion and economic policies, of course, which are simply not delivering, as we know, at a UK level or indeed delivering for the people of Wales?

A gaf fi gychwyn drwy ddweud bod fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, yn iawn i atgoffa'r Siambr o'r toriadau difrodus i gyllid cyhoeddus a wnaed gan y Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan—y toriadau o tua £1.3 biliwn y maent wedi'u gwneud i gyllideb Cymru a pholisïau economaidd, wrth gwrs, nad ydynt yn cyflawni ar lefel y DU, fel y gwyddom, nac ar gyfer pobl Cymru yn wir?

In respect of the clarity that councils need to give to their residents about proposals that are being developed for local spending or local council tax, when I announced the local government settlement, I reminded councillors in my letter to them of the importance of engaging with their local communities in formulating budget proposals and in making budget decisions. Some councils do that very comprehensively indeed, but in the draft Local Government (Wales) Bill, of course, we will be placing a new duty on local authorities to consult their communities and partner organisations in the setting of spending priorities for each financial year before budgets are agreed by the council.

O ran yr eglurder y mae cynghorau angen ei roi i'w trigolion ynglŷn â chynigion sy'n cael eu datblygu ar gyfer gwariant lleol neu'r dreth gyngor leol, pan gyhoeddais y setliad llywodraeth leol, atgoffais y cynghorwyr yn fy llythyr atynt am bwysigrwydd ymgysylltu â'u cymunedau lleol wrth lunio cynigion cyllideb ac wrth wneud penderfyniadau cyllidebol. Mae rhai cynghorau'n gwneud hynny mewn modd cynhwysfawr iawn yn wir, ond yn y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft, wrth gwrs, byddwn yn gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i ymgynghori â'u cymunedau a sefydliadau partner wrth osod blaenoriaethau gwario ar gyfer pob blwyddyn ariannol cyn i'r cyngor gytuno ar y cyllidebau.

Senedd.tv Fideo Video

14:36 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, Minister, many local authorities and public bodies now carry out their consultations almost exclusively online and not through the medium of leaflets, as Joyce Watson seems to think still goes on. While that does make it more accessible for some people, it doesn't really help the digitally excluded and in particular children and young people. I think it would be fair to say that many web pages aren't designed, when they should be, to be accessible by young children and young people. I recall that we share the same view on our commitment as an Assembly to the United Nations Convention on the Rights of the Child trickling down to public bodies that deliver Government policy and I wonder therefore what steps you've taken, let's say in the last six months, to talk to public bodies and local authorities about complying with what we believe are UNCRC obligations.

Wrth gwrs, Weinidog, mae llawer o awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus yn awr yn cyflawni eu hymgyngoriadau bron yn gyfan gwbl ar-lein ac nid drwy gyfrwng taflenni, fel y mae Joyce Watson i'w gweld yn credu sy'n digwydd o hyd. Er bod hynny'n ei wneud yn fwy hygyrch i rai pobl, nid yw'n helpu'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol mewn gwirionedd, a phlant a phobl ifanc yn arbennig. Rwy'n credu y buasai'n deg dweud nad oes llawer o dudalennau gwe yn cael eu cynllunio, fel y dylent, i fod yn hygyrch i blant ifanc a phobl ifanc. Rwy'n cofio ein bod yn rhannu'r un farn ynghylch ein hymrwymiad fel Cynulliad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn treiddio i lawr i gyrff cyhoeddus sy'n cyflawni polisi Llywodraeth a thybed, felly, pa gamau rydych wedi'u rhoi ar waith, yn y chwe mis diwethaf, fe ddywedwn ni, i siarad â chyrff cyhoeddus ac awdurdodau lleol ynglŷn â chydymffurfio â'r hyn y credwn eu bod yn ymrwymiadau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

14:37 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Let's start by saying that it's not a question of trickling down to local government. Local authorities are autonomous institutions in their own right: they have public duties, including duties in respect of children, and they have duties in respect of young people more widely. I'm pleased that some councils, of course, have established youth councils locally, which play an important role in decision taking in their areas. This was an issue that we explored in the White Paper, 'Reforming Local Government: Power to Local People', which I published last year.

Gadewch i ni ddechrau drwy ddweud nad yw'n fater o dreiddio i lawr i lywodraeth leol. Mae awdurdodau lleol yn sefydliadau ymreolaethol ynddynt eu hunain: mae ganddynt ddyletswyddau cyhoeddus, gan gynnwys dyletswyddau mewn perthynas â phlant, ac mae ganddynt ddyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc yn fwy cyffredinol. Rwy'n falch fod rhai cynghorau, wrth gwrs, wedi sefydlu cynghorau ieuenctid lleol, sy'n chwarae rhan bwysig yn y penderfyniadau a wneir yn eu hardaloedd. Roedd hwn yn fater a archwilwyd gennym yn y Papur Gwyn, 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol', a gyhoeddais y llynedd.

14:37 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, something often raised with me is the jargon used by organisations being off-putting. So, what is the Welsh Government doing to make sure that plain language is used during public consultations?

Weinidog, mater sy'n cael ei ddwyn i fy sylw'n aml yw'r ffaith fod y jargon a ddefnyddir gan sefydliadau yn anhygyrch. Felly, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod iaith glir yn cael ei defnyddio yn ystod ymgyngoriadau cyhoeddus?

14:37 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I start, before anything else, by just saying how much I've enjoyed working with the Member over the last 13 or so years? Although, on the first occasion that I met her, she did use very direct language, in fact—I think it was before I was elected to the Assembly. She called me a 'wannabe'. But since then our relationship has changed and it was only a few years later that she was drawing everybody's attention to my perennially sunny disposition. So, can I say it's been great fun working with her and I very much want to place on record my thanks to her for the work that she did in enabling this Assembly to pass the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015, which was obviously a groundbreaking piece of legislation?

A gaf fi gychwyn, cyn unrhyw beth arall, drwy ddweud cymaint rwyf wedi mwynhau gweithio gyda'r Aelod dros yr oddeutu 13 mlynedd diwethaf? Er, ar yr achlysur cyntaf i mi ei chyfarfod, fe ddefnyddiodd iaith uniongyrchol iawn mewn gwirionedd—rwy'n credu bod hynny cyn i mi gael fy ethol i'r Cynulliad. Galwodd fi'n 'wannabe'. Ond ers hynny mae ein perthynas wedi newid ac ychydig flynyddoedd yn unig yn ddiweddarach roedd hi'n tynnu sylw pawb at fy natur siriol bob amser. Felly, a gaf fi ddweud ei bod wedi bod yn llawer o hwyl gweithio gyda hi a hoffwn yn fawr iawn gofnodi fy niolch iddi am y gwaith a wnaeth yn galluogi'r Cynulliad hwn i basio Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, a oedd yn amlwg yn ddeddfwriaeth arloesol?

We are very keen that local government, and indeed ourselves as a Government, use clear language that cannot be guilty of misinterpretation. She will know that I try to speak bluntly; I encourage everyone else to do the same.

Rydym yn awyddus iawn i lywodraeth leol, ac yn wir, i ni ein hunain fel Llywodraeth, ddefnyddio iaith glir na ellir ei chamddehongli. Bydd hi'n gwybod fy mod yn ceisio siarad yn blwmp ac yn blaen; rwy'n annog pawb arall i wneud yr un peth.

14:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think you succeed actually, Minister. [Laughter.] Kirsty Williams.

Rwy'n credu eich bod yn llwyddo mewn gwirionedd, Weinidog. [Chwerthin.] Kirsty Williams.

14:39 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will be aware of my frustrations with my own local authority, Powys County Council, and how it engages with its local population. Already in this past week, we've seen Powys County Council change the start date for a consultation on the future of a high school three times in the space of one week. You will also be very familiar with the school organisation code—a document that you wrote whilst you were the education Minister. What can you do, as Minister for Public Services, to ensure that Powys County Council treats its local population with respect and carries out consultations under the auspices of the code that you wrote in a correct manner, which allows for proper engagement by the public? Would you agree with me that the simple fact that they've had to change the date three times in a week before that consultation starts just shows what a shambles they currently are?

Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol o fy rhwystredigaeth gyda fy awdurdod lleol fy hun, Cyngor Sir Powys, a sut y mae'n ymgysylltu â'i boblogaeth leol. Yn barod, yr wythnos diwethaf, gwelsom Gyngor Sir Powys yn newid y dyddiad cychwyn ar gyfer ymgynghoriad ar ddyfodol ysgol uwchradd deirgwaith mewn un wythnos. Fe fyddwch hefyd yn gyfarwydd iawn â'r cod trefniadaeth ysgolion—dogfen a ysgrifennwyd gennych tra roeddech yn Weinidog addysg. Beth allwch chi ei wneud, fel y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, i sicrhau bod Cyngor Sir Powys yn trin ei boblogaeth leol gyda pharch ac yn cynnal ymgyngoriadau o dan y cod a ysgrifennwyd gennych mewn modd cywir, sy'n caniatáu i'r cyhoedd ymgysylltu'n briodol? A fyddech yn cytuno bod y ffaith syml eu bod wedi gorfod newid y dyddiad deirgwaith mewn wythnos cyn i'r ymgynghoriad hwnnw gychwyn yn dangos cymaint o lanast y maent ynddo ar hyn o bryd?

14:39 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think the Member has made her point very forcefully about the current schools consultation that is going on in Powys. I think she will have heard what the First Minister said yesterday. It's not for Ministers to comment on proposals that might come near the Government at some stage for some aspects. I will say to her that my e-mail inbox—as I'm sure the inbox of many other Ministers—has received, I would say, dozens, genuinely, of e-mails from concerned people in Powys. I have certainly ensured that those e-mails are passed on to the Minister for Education and Skills. In respect of the school organisation code, all local authorities know what their obligations are under that school organisation code. It is a matter, of course, for my colleague the Minister for Education and Skills, but I would certainly expect all local authorities to implement that code effectively and properly.

Wel, rwy'n credu bod yr Aelod wedi gwneud ei phwynt yn rymus iawn ynglŷn â'r ymgynghoriad cyfredol ar ysgolion sy'n digwydd ym Mhowys. Rwy'n credu y bydd wedi clywed yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog ddoe. Nid mater i Weinidogion yw gwneud sylwadau ar gynigion y gallai fod galw ar y Llywodraeth i drafod rhyw agwedd arnynt ar ryw adeg. Rwy'n dweud wrthi fod mewnflwch fy e-bost—fel mewnflwch llawer o Weinidogion eraill rwy'n siŵr—wedi derbyn dwsinau yn wir, fe ddywedwn i, o e-byst gan bobl bryderus ym Mhowys. Rwy'n bendant wedi sicrhau bod y negeseuon e-bost hynny wedi'u trosglwyddo i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau. O ran y cod trefniadaeth ysgolion, mae pob awdurdod lleol yn gwybod beth yw eu dyletswyddau o dan y cod hwnnw. Mae'n fater, wrth gwrs, i fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, ond byddwn yn sicr yn disgwyl i bob awdurdod lleol weithredu'r cod hwnnw'n effeithiol ac yn briodol.

### Swyddogaethau Awdurdodau Lleol

### Local Authority Functions

14:40 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflenwyr allanol yn darparu swyddogaethau awdurdodau lleol? OAQ(4)0679(PS)*

*5. Will the Minister make a statement on the outsourcing of local authority functions? OAQ(4)0679(PS)*

14:40 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I believe that public servants and those acting in the public interest are best placed to deliver public services. Alternative delivery models have a role to play as an alternative to services being withdrawn or outsourced into the for-private-profit sector.

Rwy'n credu mai gweision cyhoeddus a'r rhai sy'n gweithredu er budd y cyhoedd sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae gan fodelau darparu amgen rôl i'w chwarae fel dewis arall yn lle gwasanaethau sy'n cael eu tynnu'n ôl neu'n cael eu rhoi ar gontract allanol i'r sector er elw preifat.

14:41 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. I do welcome the explanations that you've given as a Government with regard to community asset transfer, and the explanations that have been provided, though my personal worry is that local authorities don't seem to be picking up on this advice very well. For example, I went to meet the Bryn Bowls Club in Aberavon last week, which had only been told in January that they must take over the running of the building and the green by April this year. They simply didn't have the capacity, and don't believe they have the capacity, to go through with looking at community asset transfer in the short time that they were afforded by the council. This is just one example of a community group that I've talked to; there are many, many more. What advice could you give in these last few weeks of your tenure to help local authorities give people the correct advice, so that they can go about running their own services if that is the reality on the ground at the moment?

Diolch yn fawr, Weinidog. Rwy'n croesawu'r esboniadau rydych wedi'u rhoi fel Llywodraeth ynglŷn â throsglwyddo asedau cymunedol, a'r esboniadau a roddwyd, ond fy mhryder personol yw nad yw awdurdodau lleol i'w gweld yn gwrando ar y cyngor hwn yn dda iawn. Er enghraifft, euthum i gyfarfod â Chlwb Bowlio Bryn yn Aberafan yr wythnos diwethaf, ac roeddent wedi cael gwybod mor ddiweddar â mis Ionawr fod yn rhaid iddynt gymryd yr awenau a rhedeg yr adeilad a'r lawnt fowlio o fis Ebrill eleni. Yn syml iawn, nid oedd ganddynt y gallu, ac nid ydynt yn credu bod ganddynt y gallu, i edrych ar drosglwyddo ased cymunedol yn yr amser byr a roddwyd iddynt gan y cyngor. Un enghraifft yn unig yw hon o grŵp cymunedol y siaradais â hwy; mae yna lawer iawn mwy. Pa gyngor y gallwch ei roi yn ystod eich wythnosau olaf yn eich swydd i helpu awdurdodau lleol i roi'r cyngor cywir i bobl, fel y gallant fynd ati i redeg eu gwasanaethau eu hunain os mai dyna yw'r realiti a wynebant ar hyn o bryd?

14:42 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, it's certainly the case that, if asset transfers are to be successful, then local authorities need to engage with communities that might be taking over those assets at an early stage for them to formulate effective plans. It would be helpful if they were properly engaged in the development of business plans. We've been consulting on the action plan in respect of alternative delivery models, and we will be publishing that very shortly. There will be clarity within that, but we would expect local authorities to give proper consideration to the process of transferring assets. Certainly, issues such as capacity will be issues they need to consider.

Wel, yn sicr, os yw trosglwyddo asedau yn mynd i lwyddo, yna mae angen i awdurdodau lleol ymgysylltu â chymunedau a allai fod yn meddiannu'r asedau hynny yn gynnar er mwyn iddynt lunio cynlluniau effeithiol. Byddai'n ddefnyddiol pe baent yn cymryd rhan briodol yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau busnes. Rydym wedi bod yn ymgynghori ar y cynllun gweithredu mewn perthynas â modelau cyflenwi amgen, a byddwn yn cyhoeddi hwnnw'n fuan iawn. Bydd hwnnw'n darparu eglurder, ond buasem yn disgwyl i awdurdodau lleol roi ystyriaeth briodol i'r broses o drosglwyddo asedau. Yn sicr, bydd materion fel gallu yn bethau y bydd angen iddynt eu hystyried.

14:42 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My questions have been touched on earlier, but I would ask—following what Bethan Jenkins has said, Minister—that, where local authorities do propose to change their services to an alternative model, or whatever, it is of key importance that they do consult with citizens, and that citizens, furthermore, are at the centre of the services. Do you agree with me that the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 also requires that, and that it is, indeed, in the spirit of that Act?

Mae fy nghwestiynau wedi cael eu crybwyll yn gynharach, ond buaswn yn gofyn—yn dilyn yr hyn y mae Bethan Jenkins wedi'i ddweud, Weinidog—lle y mae awdurdodau lleol yn cynnig newid eu gwasanaethau i fodel amgen, neu beth bynnag, mae'n allweddol bwysig eu bod yn ymgynghori gyda dinasyddion, a bod dinasyddion, at hynny, yn ganolog i'r gwasanaethau. A ydych yn cytuno fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 hefyd yn gwneud hynny'n ofynnol, a'i fod, mewn gwirionedd, yn ysbryd y Ddeddf honno?

14:43 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, can I say that I completely agree with my colleague, the Member for Neath, and that's one of the reasons why I, like everybody else in this Chamber, will miss her after this Assembly has come to an end? She's right, of course, to draw attention to the Social Services and Well-being (Wales) Act, which she piloted through this Assembly. The guidance that we are developing in respect of alternative delivery models is, I believe, very much within the spirit of that Act.

Wel, gallaf ddweud fy mod yn cytuno'n llwyr gyda fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Gastell-nedd, a dyna un o'r rhesymau pam y byddaf fi, fel pawb arall yn y Siambr hon, yn gweld ei heisiau ar ôl i'r Cynulliad hwn ddod i ben? Mae hi'n iawn, wrth gwrs, i dynnu sylw at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a arweiniodd drwy'r Cynulliad. Rwy'n credu bod y canllawiau rydym yn eu datblygu mewn perthynas â modelau cyflenwi amgen yn sicr yn ysbryd y Ddeddf honno.

14:43 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'm sure you will join with me on the collaboration that has taken place for the Cardiff city deal: a tremendous collaboration, not only between Governments, but also the 10 local authorities. For it to go forward and to be successful in the future, there has to be a real private-public partnership. How do you envisage that happening?

Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno gyda mi gyda'r cydweithio sydd wedi digwydd ar fargen ddinesig Caerdydd: cydweithrediad aruthrol, nid yn unig rhwng Llywodraethau, ond hefyd rhwng y 10 awdurdod lleol. Er mwyn iddo fynd yn ei flaen ac er mwyn iddo fod yn llwyddiannus yn y dyfodol, mae'n rhaid cael partneriaeth breifat-gyhoeddus go iawn. Sut rydych chi'n rhagweld hynny'n digwydd?

14:44 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Llywydd, I think I'd better declare an interest at this point, in that my wife is chairing the transition board for the Cardiff capital region, and I know was interviewed on the matter of the city deal yesterday. I think it is important that there is an effective governance structure within the city deal that ensures that the views of business are properly taken into account. I know that will be one of the factors that will be weighing very heavily with the Welsh Government as we look to the implementation of the city deal in due course. Can I also pay tribute to the Member? We will all miss him and his flowery decorations in the future.

Wel, Lywydd, rwy'n credu y buasai'n well i mi ddatgan buddiant yn y fan hon, gan fod fy ngwraig yn cadeirio'r bwrdd pontio ar gyfer prifddinas-ranbarth Caerdydd, ac rwy'n gwybod ei bod wedi cael ei chyfweld ar fater y fargen ddinesig ddoe. Credaf ei bod yn bwysig fod yna strwythur llywodraethu effeithiol o fewn y fargen ddinesig sy'n sicrhau bod barn busnesau'n cael ei hystyried yn briodol. Rwy'n gwybod y bydd hynny'n un o'r ffactorau pwysig iawn i Lywodraeth Cymru wrth i ni edrych ar roi'r fargen ddinesig ar waith maes o law. A gaf fi hefyd dalu teyrnged i'r Aelod? Byddwn i gyd yn gweld ei eisiau a'i addurniadau blodeuog yn y dyfodol.

14:45 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, wrth i wasanaethau gael eu hallanoli, a ydy'r Llywodraeth wedi gwneud unrhyw ddadansoddiad o'r tueddiad o fewn llywodraeth leol i grwpio gwasanaethau at ei gilydd fel bod cyflogwyr lleol yn colli allan? Mae yna dystiolaeth, er enghraifft, o wasanaethau hamdden yn Wrecsam, lle mae yna gwmni eithaf mawr o Loegr wedi cymryd y gwasanaethau hynny drosodd, ac mi oedd yna sylw ar y BBC y bore yma ynglŷn â'r pryder yng Ngwynedd bod cyflogwyr lleol yn colli allan. A oes unrhyw ddadansoddiad wedi cael ei wneud o'r tueddiad yma gan Lywodraeth Cymru?

Minister, as services are outsourced, has the Government made any investigation into the tendency within local authorities to group services together so that local employers miss out? There is evidence, for example, in leisure services in Wrexham, where a relatively large company from England has taken those services over, and mention was made on the BBC this morning about concerns in Gwynedd that local employers are losing out. Has there been any analysis of this tendency by the Welsh Government?

14:45 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, clearly, we would like local authorities to give effective consideration to community engagement in situations where they have decided to outsource provision. The point that the Member makes about the bundling of services can often act against the interests of local communities, and sometimes against the interests of the workforce, and one of the other factors, of course, that we have spelt out in the action plan on alternative delivery models is that we would expect trade union recognition to be part of any plan. We would expect, of course, that there would be a system of accountability back to the local authority as well, but I think the point the Member makes is well made.

Wel, yn amlwg, buasem yn hoffi i awdurdodau lleol roi ystyriaeth effeithiol i ymgysylltu â'r gymuned mewn sefyllfaoedd lle y maent wedi penderfynu rhoi'r ddarpariaeth ar gontract allanol. Gall y pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud ynglŷn â bwndelu gwasanaethau weithredu yn erbyn buddiannau cymunedau lleol yn aml, ac weithiau yn erbyn buddiannau'r gweithlu, ac un o'r ffactorau eraill rydym wedi manylu arno, wrth gwrs, yn y cynllun gweithredu ar fodelau cyflenwi amgen yw y buasem yn disgwyl i gydnabyddiaeth undebau llafur fod yn rhan o unrhyw gynllun. Buasem yn disgwyl, wrth gwrs, y buasai yna system o atebolrwydd yn ôl at yr awdurdod lleol yn ogystal, ond rwy'n credu bod y pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud yn un da.

### Cyngor Sir Gâr

### Carmarthenshire County Council

14:46 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Gyngor Sir Caerfyrddin? OAQ(4)0682(PS)[W]*

*6. Will the Minister make a statement on the Wales Audit Office report on Carmarthenshire County Council? OAQ(4)0682(PS)[W]*

14:46 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi nodi adroddiad asesiad corfforaethol 2015 Swyddfa Archwilio Cymru ar Gyngor Sir Gâr. Mae hwn yn fater i'r cyngor ymateb iddo.

I have noted the Wales Audit Office's corporate assessment report 2015 on Carmarthenshire County Council. This is a matter for the council to respond to.

14:46 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog, am yr ateb. Fel y byddwch chi'n gwybod, felly, gan eich cod chi wedi nodi'r adroddiad, mae'r adroddiad yn dweud bod cyngor sir Gaerfyrddin bellach yn

'amlygu uchelgais o fewn ei weledigaeth ynghyd ag arweinyddiaeth ar y cyd a llywodraethu mwy cadarn a thryloyw',

ac yn sicrhau, felly, bod canlyniadau gwell i'w ddinasyddion. Mae hynny yn digwydd, wrth gwrs, o ran newid gwleidyddol yn arweiniad Cyngor Sir Gâr. A fyddwn yn gallu gweld newid gwleidyddol yn newid y Llywodraeth hon yr un mor effeithiol?

Thank you, Minister, for that response. But as you may know, as you have noted the report, the report states that Carmarthenshire council is now

'outlining ambition in terms of its vision as well as leadership along with more robust and transparent governance'

and does ensure, therefore, that there are better outcomes for its citizens. That's happening, of course, in terms of political change within Carmarthenshire County Council leadership. Will we see political change that's just as effective in changing this Government?

14:47 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will be taking our agenda to the people of Wales in the next few weeks, and I'm very confident that what we have to say will be well received by the people of Wales as we campaign together for Wales in this party. In respect of Carmarthenshire, which is where his question started, I welcome what has been said in that report. I had a useful meeting with the leader of that council just recently.

Byddwn yn cyflwyno ein hagenda i bobl Cymru yn ystod yr wythnosau nesaf, ac rwy'n hyderus iawn y bydd yr hyn sydd gennym i'w ddweud yn cael ei groesawu'n fawr gan bobl Cymru wrth i ni ymgyrchu dros Gymru gyda'n gilydd yn blaid hon. O ran Sir Gaerfyrddin, a dyna ble y dechreuodd ei gwestiwn, rwy'n croesawu'r hyn a ddywedwyd yn yr adroddiad hwnnw. Cefais gyfarfod defnyddiol gydag arweinydd y cyngor hwnnw yn ddiweddar.

14:47 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the overall assessment is a positive one for Carmarthenshire County Council, and one of the reasons that has come across for it is its ability to tailor its internal structures that enable it to deliver the most effective solutions and services for the people of Carmarthenshire. However, Minister, by enforcing the mergers proposed by you, all councils will struggle to deliver the services the people they serve need, because the granular knowledge that's required to provide such services will become lost as a consequence of overcentralisation. What consideration have you given to this issue, and why are you risking the delivery of effective services to the people of Wales simply for the sake of ideology?

Weinidog, mae'r asesiad cyffredinol yn un cadarnhaol ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin, ac un o'r rhesymau dros hynny yw ei allu i deilwra ei strwythurau mewnol sy'n ei alluogi i ddarparu'r atebion a'r gwasanaethau mwyaf effeithiol i bobl Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, Weinidog, drwy weithredu'r cynlluniau arfaethedig i uno a gynigiwyd gennych, bydd pob cyngor yn ei chael hi'n anodd darparu'r gwasanaethau y mae'r bobl y maent yn eu gwasanaethu eu hangen, gan y bydd y wybodaeth ronynnol sydd ei hangen i ddarparu gwasanaethau o'r fath yn mynd ar goll o ganlyniad i organoli. Pa ystyriaeth a roesoch i'r mater hwn, a pham rydych yn peryglu darpariaeth gwasanaethau effeithiol i bobl Cymru yn syml er mwyn ideoleg?

14:48 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think I have to disagree with the Member fairly fundamentally. What we are proposing is a fundamental reform of local government. We cannot continue with a flawed system of local government that was created by her party in the mid-1990s, a system that has resulted in several local authorities being in special measures over education, and others being in special measures over social services. We will put our proposals before the people of Wales. We've invited them to respond to our consultation, I've published now the results of that consultation, and it will be for the next Government to take the reform of local government forward. But as far as I can see, there is only one party in this Chamber that remains wedded to the flawed 1990s model imposed by the Conservatives.

Rwy'n credu bod yn rhaid i mi anghytuno gyda'r Aelod yn eithaf sylfaenol. Yr hyn rydym yn ei gynnig yw diwygio llywodraeth leol sylfaenol. Ni allwn barhau â'r system lywodraeth leol ddiffygiol a grëwyd gan ei phlaid yng nghanol y 1990au, system sydd wedi arwain at nifer o awdurdodau lleol yn cael eu rhoi dan weithdrefn mesurau arbennig ym maes addysg, ac eraill yn cael eu rhoi dan weithdrefn mesurau arbennig ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Byddwn yn cyflwyno ein cynigion i bobl Cymru. Rydym wedi eu gwahodd i ymateb i'n hymgynghoriad, rwyf bellach wedi cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw, a mater i'r Llywodraeth nesaf fydd bwrw ymlaen â diwygio llywodraeth leol. Ond hyd y gwelaf, un blaid yn unig yn y Siambr hon sy'n parhau i fod yn gaeth i'r model 1990au diffygiol a orfodwyd arnom gan y Ceidwadwyr.

14:49 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I too applaud the auditor general's overall assessment of Carmarthenshire County Council, and I quote,

Weinidog, rwyf innau hefyd yn cymeradwyo asesiad cyffredinol yr archwilydd cyffredinol o Gyngor Sir Caerfyrddin, ac rwy'n dyfynnu,

'demonstrating ambition in its vision, with collective leadership and more robust and transparent governance'.

'[sy'n] arddangos uchelgais yn ei weledigaeth, gyda chydarweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu mwy cadarn a didwyll.'

However, in terms of recent decisions that have been taken with respect to the listed provisions market in Llandeilo, there have been major concerns expressed to me by many local residents, both members of the business community and private citizens, that they have been effectively excluded from decisions around the future of that very important potential regeneration project. I would ask you, Minister, to express a view as to the importance of local buy-in and involvement with such projects and also, in adjacent Llandovery, the site of the Pantycelyn school, which unfortunately closed for the last time earlier this year.

Fodd bynnag, o ran penderfyniadau diweddar a wnaed mewn perthynas â'r farchnad darpariaethau rhestredig yn Llandeilo, mae nifer o drigolion lleol wedi mynegi pryderon mawr wrthyf, yn aelodau o'r gymuned fusnes a dinasyddion preifat, eu bod wedi'u gwahardd, i bob pwrpas, rhag gwneud penderfyniadau ynghylch dyfodol y prosiect adfywio posibl pwysig hwnnw. Carwn ofyn i chi, Weinidog, am eich barn ar bwysigrwydd cefnogaeth ac ymwneud lleol mewn prosiectau o'r fath, a hefyd, yn Llanymddyfri gerllaw, safle ysgol Pantycelyn, a gaeodd am y tro olaf yn gynharach eleni, yn anffodus.

14:50 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think I've already said in this Chamber that we regard effective consultation and engagement with local people as being critical when councils are taking major decisions. We've reiterated that in guidance to local authorities. It will be a feature of the action plan on alternative delivery models, and I very much hope that councils will hear what we have to say.

Wel, rwy'n credu fy mod eisoes wedi dweud yn y Siambr hon ein bod yn ystyried bod ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol â phobl leol yn allweddol pan fydd cynghorau'n gwneud penderfyniadau pwysig. Rydym wedi ailadrodd hynny mewn canllawiau i awdurdodau lleol. Bydd yn un o nodweddion y cynllun gweithredu ar fodelau cyflenwi amgen, ac rwy'n gobeithio'n fawr y bydd cynghorau'n gwrando ar yr hyn sydd gennym i'w ddweud.

14:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 7 [OAQ(4)0686(PS)] has been withdrawn. Question 8, Llyr Gruffydd.

Mae Cwestiwn 7 [OAQ(4)0686(PS)] wedi'i dynnu'n ôl. Cwestiwn 8, Llyr Gruffydd.

### Ad-drefnu Llywodraeth Leol

### Local Government Reorganisation

14:51 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ad-drefnu llywodraeth leol? OAQ(4)0693(PS)[W]*

*8. Will the Minister make a statement on local government reorganisation? OAQ(4)0693(PS)[W]*

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

*12. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei weledigaeth ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0687(PS)*

*12. Will the Minister outline his vision for the future of local government in Wales? OAQ(4)0687(PS)*

14:51

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, I think you've agreed that questions 8 and 12 can be taken together. Our plans to reform local government in Wales were set out in the draft Local Government (Wales) Bill, which was published for consultation in November. Consultation closed on 15 February.

Lywydd, rwy'n credu eich bod wedi cytuno y gall cwestiynau 8 a 12 gael eu grwpio gyda'i gilydd. Mae ein cynlluniau i ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru wedi'u nodi yn y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori yn ei gylch ym mis Tachwedd. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 15 Chwefror.

14:51

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel rŷch chi wedi cyfeirio, mae newid, mae'n debyg, ar ddod o safbwynt awdurdodau lleol a chynghorau sir. Ond, wrth gwrs, mae job o waith angen ei wneud o safbwynt edrych ar gynghorau bro a thref yng Nghymru. A fyddech chi'n cytuno â fi, felly, tra bo awdurdodau lleol yn cael eu haildrefnu, fod yna gyfle hefyd i fynd i'r afael â'r haen arall yna o lywodraeth sy'n gwneud cyfraniad pwysig ond y gallai wneud cyfraniad llawer, llawer mwy?

As you have mentioned, changes are in the pipeline in terms of local authorities and county councils. But there is a job of work to be done in terms of looking at town and community councils in Wales. Would you agree with me therefore that, while local authorities are being reorganised, there is now an opportunity to get to grips with that other layer of government that does make an important contribution but could make an even greater contribution?

14:51

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, indeed, and that's why, in our local government White Paper last year, 'Power to Local People', we went into some detail about the future role of town and community councils. We said that there should be a review of the structure of town and community councils across Wales. We recognised in that White Paper that the provision of town and community councils across Wales is rather patchy. They vary in size, of course. They vary in terms of their capabilities and responsibilities. Within the draft local government Bill, we have made provision for a general power of competence for some of the larger community councils, and I hope that that is something to which they will respond well as we develop that policy.

Byddwn, yn wir, a dyna pam, yn ein Papur Gwyn ar ddiwygio llywodraeth leol y llynedd, 'Grym i Bobl Leol', soniasom yn fanwl am rôl cynghorau tref a chymuned yn y dyfodol. Dywedasom y dylid cynnal adolygiad o strwythur y cynghorau tref a chymuned ledled Cymru. Roeddem yn cydnabod yn y Papur Gwyn hwnnw fod y ddarpariaeth o gynghorau tref a chymuned ledled Cymru braidd yn dameidiog. Maent yn amrywio o ran maint, wrth gwrs. Maent yn amrywio o ran eu galluoedd a'u cyfrifoldebau. O fewn y Bil llywodraeth leol drafft, rydym wedi darparu ar gyfer pŵer cymhwysedd cyffredinol i rai o'r cynghorau cymuned mwy o faint, ac rwy'n gobeithio bod hynny'n rhywbeth y byddant yn ymateb yn dda iddo wrth i ni ddatblygu'r polisi hwnnw.

14:52

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sure the Minister has anticipated what I'm going to ask in this question. We had the announcement yesterday, and we got the statement later, on the city deal. Minister, do you agree that this is a great example of the way that the strengths of our current local government structure can be enhanced and built upon and the way that 10 distinct authorities working together can actually deliver massive economic benefits for their region and for the Welsh economy? Wouldn't it be better to build on those strengths rather than simply discard it all on the bonfire of history?

Rwy'n siŵr fod y Gweinidog wedi rhagweld yr hyn rwyf am ei ofyn yn y cwestiwn hwn. Cawsom y cyhoeddiad ddoe, a chawsom y datganiad yn ddiweddarach, ar y fargen ddinesig. Weinidog, a ydych yn cytuno bod hon yn enghraifft wych o'r ffordd y gellid gwella ac adeiladu ar gryfderau ein strwythur llywodraeth leol cyfredol a'r ffordd y gall 10 awdurdod penodol yn gweithio gyda'i gilydd sicrhau manteision economaidd enfawr i'w rhanbarth ac i economi Cymru? Oni fyddai'n well adeiladu ar y cryfderau hynny yn hytrach na thaflu'r cyfan ar goelcerth hanes?

14:53

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I welcome the fact that they've come together to agree on the proposals for the city deal. Of course, if there were fewer local authorities, that process might have taken place a lot more quickly.

Wel, rwy'n croesawu'r ffaith eu bod wedi dod at ei gilydd i gytuno ar y cynigion ar gyfer y fargen ddinesig. Wrth gwrs, pe bai yna lai o awdurdodau lleol, mae'n bosibl y buasai'r broses honno wedi digwydd yn llawer cyflymach.

14:53 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Minister, the report of the Communities, Equality and Local Government Committee on the draft Local Government (Wales) Bill calls for an exploration of the impact of council tax harmonisation, with a view to providing robust cost estimates alongside the publication of the final Bill. Residents in Conwy would face potential increases of another 11 per cent on band D council tax bills should mergers result in upward harmonisation. As this is considered a matter of urgency to be addressed, will you be doing just this before this Assembly term ends and before we go into dissolution?

Weinidog, mae adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft yn galw am archwiliad o effaith cysoni'r dreth gyngor, gyda golwg ar ddarparu amcangyfrifon cadarn o gostau wrth gyhoeddi'r Bil terfynol. Buasai trigolion Conwy yn wynebu cynnydd posibl o 11 y cant yn ychwanegol ar filiau'r dreth gyngor band D pe bai uno yn arwain at gysoni ar i fyny. Gan fod hwn yn fater yr ystyrir bod angen mynd i'r afael ag ef ar frys, a fyddwch chi'n gwneud hyn cyn i dymor y Cynulliad hwn ddod i ben a chyn y cyfnod o ddiddymiad?

Senedd.tv Fideo Video

14:54 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Well, the Member continues to pre-judge the outcomes of any future merger programme and their impact on council tax levels. I do not pre-judge those at all.

Wel, mae'r Aelod yn parhau i ragfarnu canlyniadau unrhyw raglen uno yn y dyfodol a'u heffaith ar lefelau'r dreth gyngor. Nid wyf yn rhagfarnu'r rheini o gwbl.

Senedd.tv Fideo Video

### Llywodraethiant Awdurdodau Lleol

### Local Authority Governance

14:54 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol llywodraethiant awdurdodau lleol yn ardal bae Abertawe? OAQ(4)0681(PS)*

*9. Will the Minister make a statement on the future of local authority governance in the Swansea bay area? OAQ(4)0681(PS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:54 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Our proposals are set out in the draft Local Government (Wales) Bill.

Mae ein cynigion wedi'u nodi yn y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft.

Senedd.tv Fideo Video

14:54 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. With a bid for Swansea city deal now in hand, this would appear to be a perfect opportunity to reconsider the local governance model for the area, especially as merger prospects are still just prospects. What discussions have you therefore had with the economy Minister and the city region board about how a directly elected mayor could work to the advantage of my region, should the city deal go through?

Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Gyda chais am fargen ddinesig Abertawe bellach mewn llaw, buasai'n ymddangos bod hwn yn gyfle perffaith i ailystyried y model llywodraethu lleol ar gyfer yr ardal, yn enwedig gan mai rhagolygon yn unig yw'r rhagolygon i uno o hyd. Pa drafodaethau a gawsoch felly gyda Gweinidog yr economi a bwrdd y dinas-ranbarth ynglŷn â sut y gallai maer a etholir yn uniongyrchol fod yn fantais i fy rhanbarth, pe bai'r fargen ddinesig yn llwyddo?

Senedd.tv Fideo Video

14:54 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I've had several discussions with my colleague, the Minister for Economy, Science and Transport, but I don't think either of us has ever pursued the option of a directly elected mayor for the Swansea bay region.

Rwyf wedi cael nifer o drafodaethau gyda fy nghyd-Aelod, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ond nid wyf yn credu bod y naill neu'r llall ohonom erioed wedi mynd ar drywydd yr opsiwn o ethol maer yn uniongyrchol ar gyfer rhanbarth bae Abertawe.

Senedd.tv Fideo Video

14:55 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Minister, the issues raised by Suzy Davies are relevant in relation to the city region deal in terms of how that deal is going to be held to account and will become a transparent process that can be properly scrutinised. Do you know what mechanisms are likely to be available to local government to actually scrutinise their part of that deal and to ensure that it's being delivered as envisaged, if it is approved?

Weinidog, mae'r materion a grybwyllwyd gan Suzy Davies yn berthnasol mewn perthynas â'r fargen i'r dinas-ranbarth o ran sut y bydd y fargen honno'n cael ei dwyn i gyfrif ac yn dod yn broses dryloyw y gellir craffu arni'n briodol. A wyddoch pa fecanweithiau sy'n debygol o fod ar gael i lywodraeth leol mewn gwirionedd i graffu ar eu rhan hwy o'r fargen honno ac i sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni fel y rhagwelwyd, os caiff ei chymeradwyo?

Senedd.tv Fideo Video

14:55 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the city deal arrangements are not, in fact, within my portfolio, but let me say I think we would expect, and I'm sure it would be the expectation of others who are party to any city deal, that there was effective governance within those arrangements.

Wel, nid yw trefniadau'r fargen ddinesig, mewn gwirionedd, yn rhan o fy mhortffolio, ond gadewch i mi ddweud fy mod yn credu y byddem yn disgwyl, ac rwy'n siŵr y byddai eraill sy'n rhan o unrhyw fargen ddinesig yn disgwyl hefyd, fod y trefniadau hynny'n cael eu llywodraethu'n effeithiol.

### Cymunedau Gwledig

### Rural Communities

14:55 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau gwledig? OAQ(4)0688(PS)*

*10. Will the Minister make a statement on the provision of public services in rural communities? OAQ(4)0688(PS)*

14:55 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, we want sustainable first-class services delivered in the most efficient and effective way in line with the needs and preferences of local communities. Our strategic agenda for public service reform was set out in 'Devolution, Democracy and Delivery: Improving public services for people in Wales'.

Lywydd, rydym eisiau gwasanaethau cynaliadwy o'r radd flaenaf wedi'u darparu yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol yn unol ag anghenion a dewisiadau cymunedau lleol. Cafodd ein hagenda strategol ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus eu nodi yn 'Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru'.

14:56 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your answer, Minister. The loss of provision of public toilets in rural communities is something that exercises my constituents, especially in those areas that have a thriving tourism industry. I do welcome the Public Health (Wales) Bill, which will require local authorities to draw up strategies for public toilets, but there is a concern about the financial viability of providing these facilities and whether the measures will be enough to halt the decline in the number of public toilets in practice. But, can I ask you what measures you are taking to ensure that there is adequate provision of public toilets specifically in rural parts of Wales?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae colli'r ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus mewn cymunedau gwledig yn rhywbeth sy'n gwylltio fy etholwyr, yn enwedig yn yr ardaloedd sydd â diwydiant twristiaeth ffyniannus. Rwy'n croesawu Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio strategaethau ar gyfer toiledau cyhoeddus, ond mae pryder ynghylch hyfywedd ariannol darparu'r cyfleusterau hyn ac a fydd y mesurau'n ddigon i atal y dirywiad yn nifer y toiledau cyhoeddus yn ymarferol. Ond a gaf fi ofyn i chi pa gamau rydych yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod darpariaeth ddigonol o doiledau cyhoeddus yn ardaloedd gwledig Cymru yn benodol?

14:56 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, if his Government in London hadn't cut the Welsh budget by £1.3 billion, we would all have more pennies to spend, Llywydd. I think that the remarks he has made in respect of the Public Health (Wales) Bill will have been heard by the health Minister, and clearly we are moving to Stage 4 on that Bill later this afternoon.

Wel, pe na bai ei Lywodraeth yn Llundain wedi torri £1.3 biliwn oddi ar gyllideb Cymru, buasai gan bob un ohonom fwy o geiniogau i'w gwario, Lywydd. Rwy'n credu y bydd y Gweinidog iechyd wedi clywed y sylwadau a wnaeth mewn perthynas â Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), ac yn amlwg rydym yn symud at Gyfnod 4 y Bil hwnnw yn nes ymlaen y prynhawn yma.

### Gwelliannau i Wasanaethau Cyhoeddus

### Improvements to Public Services

14:57 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0689(PS)*

*11. How is the Welsh Government working with local authorities to deliver improvements to public services? OAQ(4)0689(PS)*

14:57

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have a number of mechanisms to work with local authorities and the wider public service to support them to deliver improved outcomes for the people of Wales. The effective services group and public service leadership panel are two examples.

Mae gennym nifer o fecanweithiau ar gyfer gweithio gydag awdurdodau lleol a'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach i'w cynorthwyo i gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer pobl Cymru. Mae'r grŵp gwasanaethau effeithiol a phanel arweinyddiaeth y gwasanaethau cyhoeddus yn ddwy enghraifft.

14:57

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Well, it's been good to see the repeated collaboration between Welsh local authorities and the Welsh Government. Infrastructure and support for services such as social care have been improved tremendously, and there was another example yesterday with the signing of the Cardiff city deal. Only today, in Rhondda Cynon Taf council, we have heard that the home-to-school transport changes will not now take place, which is to be welcomed. Do you agree with me that this way of working, exemplified by such collaborations as the twenty-first century schools programme, stands in stark contrast to the efforts of the UK Government to undercut and underfund local authorities in England?

Diolch yn fawr, Weinidog. Wel, mae wedi bod yn dda gweld y cydweithio mynych rhwng awdurdodau lleol Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae seilwaith a chymorth i wasanaethau fel gofal cymdeithasol wedi cael eu gwella'n aruthrol, ac roedd enghraifft arall ddoe pan lofnodwyd bargen ddinesig Caerdydd. Heddiw ddiwethaf, yng nghyngor Rhondda Cynon Taf, clywsom na fydd y newidiadau i'r gwasanaeth cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn digwydd bellach, ac mae hynny i'w groesawu. A ydych yn cytuno bod y ffordd hon o weithio, a amlygir mewn gwaith cydweithredol megis rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, yn wrthgyferbyniad llwyr i ymdrechion Llywodraeth y DU i danseilio a thanariannu awdurdodau lleol yn Lloegr?

14:58

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, can I thank my colleague, the Member for Cynon Valley? Let me say that, over the years, she has brought considerable experience of local government to this Chamber and, again, I know that she is someone who will be missed when she stands down from the Assembly at the end of this session. I'm very pleased that she's drawn attention to the decision by the leader of Rhondda Cynon Taf County Borough Council today not to proceed with the proposals for home-to-school charges. This is very good news for parents and, indeed, grandparents in Rhondda Cynon Taf, let me say, and I know it'll be widely welcomed. Certainly in Wales, we have tried to protect local government and the finance available to it. Indeed, the leader of Rhondda Cynon Taf County Borough Council said that the better than expected settlement from this Government was one of the reasons why they did not have to go ahead with those proposed home-to-school charges.

Wel, a gaf fi ddiolch fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Gwm Cynon? Gadewch i mi ddweud ei bod, dros y blynyddoedd, wedi dod â phrofiad sylweddol o lywodraeth leol i'r Siambr hon ac unwaith eto, rwy'n gwybod ei bod hi'n rhywun y gwelir ei heisiau pan fydd hi'n gadael y Cynulliad ar ddiwedd y tymor hwn. Rwy'n falch iawn ei bod wedi tynnu sylw at y penderfyniad a wnaed gan arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf heddiw i beidio â bwrw ymlaen â'r cynigion i godi tâl am gludiant rhwng y cartref a'r ysgol. Mae hyn yn newyddion da iawn i rieni ac yn wir, i deidiau a neiniau yn Rhondda Cynon Taf, gadewch i mi ddweud, ac rwy'n gwybod y bydd yn cael ei groesawu'n eang. Yn sicr yng Nghymru, rydym wedi ceisio amddiffyn llywodraeth leol a'r cyllid sydd ar gael iddi. Yn wir, dywedodd arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fod y setliad gwell na'r disgwyl gan y Llywodraeth hon yn un o'r rhesymau pam na fu'n rhaid iddynt fwrw ymlaen gyda'r taliadau arfaethedig hynny am gludiant rhwng y cartref a'r ysgol.

14:59

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The auditor general has stated that local authorities need to consider alternative models of delivery, but many councils, he said, are too slow in reviewing alternative methods of delivery and are missing out on opportunities to reduce expenditure. What action have you, therefore, taken subsequent to the Wales Audit Office report in December on delivering less with leisure services, which found that some councils were still too slow to realise opportunities to reduce expenditure? Eighteen of the 22 councils had seen reductions to their recreation and sport services gross revenue budgets, but four councils increased expenditure in this period, with the largest rises in Caerphilly and Flintshire?

Mae'r archwilydd cyffredinol wedi datgan bod angen i awdurdodau lleol ystyried modelau cyflenwi amgen, ond mae llawer o gynghorau, meddai, yn rhy araf yn adolygu dulliau amgen o ddarparu ac yn colli cyfleoedd i leihau gwariant. Pa gamau rydych chi, felly, wedi'u cymryd yn dilyn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Rhagfyr ar gyflenwi llai gyda gwasanaethau hamdden, a ddarganfu fod rhai cynghorau yn dal i fod yn rhy araf yn sicrhau cyfleoedd i leihau gwariant? Mae deunaw o'r 22 o gynghorau wedi gweld gostyngiadau i'w cyllidebau refeniw gros ar gyfer gwasanaethau hamdden a chwaraeon, ond mae pedwar cyngor wedi cynyddu gwariant yn ystod y cyfnod hwn, gyda'r cynnydd mwyaf yng Nghaerffili a Sir y Fflint?

14:59 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Well, Llywydd, I've already explained to the Chamber that we've been consulting, of course, on the action plan on alternative delivery models, and we will publish the final action plan shortly.

Wel, Lywydd, rwyf eisoes wedi egluro i'r Siambr ein bod wedi bod yn ymgynghori, wrth gwrs, ar y cynllun gweithredu ar fodelau cyflenwi amgen, a byddwn yn cyhoeddi'r cynllun gweithredu terfynol yn fuan.

Senedd.tv Fideo Video

15:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Question 12 was answered earlier. Question 13 [OAQ(4)0680(PS)] has been withdrawn. So, question 14—Rhun ap Iorwerth.

Cafodd Cwestiwn 12 ei ateb yn gynharach. Mae Cwestiwn 13 [OAQ(4)0680(PS)] wedi'i dynnu'n ôl. Felly, cwestiwn 14—Rhun ap Iorwerth.

Senedd.tv Fideo Video

### Datganoli Posibl Plismona

### The Possible Devolution of Policing

15:00 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

*14. Pa baratoadau sydd wedi cael eu gwneud ar gyfer datganoli posibl yr heddlu? OAQ(4)0694(PS)[W]*

*14. What preparations have been made for the possible devolution of policing? OAQ(4)0694(PS)[W]*

Senedd.tv Fideo Video

15:00 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Roedd ein Bil Cymru drafft, a gyhoeddwyd ar 7 Mawrth, yn cynnwys nifer o gynigion ynghylch datganoli cyfrifoldeb am y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys plismona.

Our draft Wales Bill, published on 7 March, contained a number of proposals for devolution of responsibility for the criminal justice system including policing.

Senedd.tv Fideo Video

15:00 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Mae'r Gweinidog yn ymwybodol, wrth gwrs, bod yna gryn ddryswch o fewn ei blaid ei hun ynglŷn â'r cyfeiriad y dylem ni fod yn symud iddo fo o ran datganoli yr heddlu, efo'r blaid yn fan hyn, mae'n ymddangos, eisiau datganoli'r heddlu ond ei benaethiaid o yn Llundain ddim yn dymuno symud i'r cyfeiriad hwnnw. O bosib, dylai fo drefnu dêt efo penaethiaid ei blaid er mwyn ceisio dwyn perswâd arnyn nhw. Ond a ydy'r Gweinidog yn cytuno ei bod hi rŵan yn bwysig cael cydsyniad o fewn, yn ogystal ag ar draws, y pleidiau er mwyn i ni allu symud ymlaen ar ddatganoli'r heddlu?

The Minister will be aware, of course, that there is a great deal of confusion within his own party about the direction that we should be travelling in in terms of the devolution of policing. With the party here, it appears that it wants to devolve policing, but the leaders in London don't want to move in that direction. Perhaps he should arrange a date with the leaders of his own party to try and persuade them. But does the Minister agree that it is now important to have consensus within, as well across, the parties, so that we can move forward with the devolution of policing?

Senedd.tv Fideo Video

15:01 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I do think the Member needs to keep up, in fact, because the Labour general election manifesto last year made it absolutely clear that we supported the devolution of policing, and that was confirmed, of course, by the First Minister in the publication of the Wales Bill and, indeed, the shadow Home Secretary confirmed that as well last week. So, I would urge the Member—and I'm delighted in his interest in Labour Party politics—to keep his interest more up to date.

Rwy'n credu bod angen i'r Aelod ddal i fyny, mewn gwirionedd, gan fod maniffesto etholiad cyffredinol y Blaid Lafur y llynedd yn ei gwneud yn gwbl glir ein bod yn cefnogi datganoli plismona, a chadarnhawyd hynny, wrth gwrs, gan y Prif Weinidog wrth gyhoeddi Bil Cymru, ac yn wir, cadarnhaodd Ysgrifennydd Cartref yr wrthblaid hynny hefyd yr wythnos diwethaf. Felly, byddwn yn annog yr Aelod—ac rwyf wrth fy modd gyda'i ddiddordeb yng ngwleidyddiaeth y Blaid Lafur—i gadw ei ddiddordeb yn fwy cyfredol.

Senedd.tv Fideo Video

15:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

15:01

## 3. Datganiad: Bargeinion Dinesig

## 3. Statement: City Deals

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 3, which is a statement by the Minister for Finance and Government Business on city deals, and I call on the Minister for finance—Jane Hutt.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef datganiad gan Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar fargeinion dinesig, a galwaf ar y Gweinidog cyllid—Jane Hutt.

15:01 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Senedd.tv
Fideo Video

Llywydd, I would like to take this opportunity to update Members on the Cardiff capital region city deal. The city deal was signed yesterday by the leaders of the 10 Cardiff capital region local authorities and representatives of the Welsh and UK Governments. This is the first Welsh city deal to be agreed, but also amongst the largest investment deals agreed to date. Over its lifetime, we expect the deal to build on the acknowledged strengths of the city region, delivering up to 25,000 new jobs and leveraging an additional £4 billion of private sector investment. This is a vote of confidence in Wales and in the region.

Lywydd, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y fargen ar gyfer prifddinas-ranbarth Caerdydd. Llofnodwyd y fargen ddinesig ddoe gan arweinwyr 10 awdurdod lleol prifddinas-ranbarth Caerdydd a chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Hon yw'r fargen ddinesig gyntaf y cytunwyd arni yng Nghymru, ond mae hefyd ymhlith y cytundebau buddsoddi mwyaf i'w cytuno hyd yma. Yn ystod ei hoes, rydym yn disgwyl y bydd y fargen yn adeiladu ar gryfderau cydnabyddedig y dinas-ranbarth, gan ddarparu hyd at 25,000 o swyddi newydd ynghyd â £4 biliwn yn ychwanegol o fuddsoddiad sector preifat. Mae hon yn bleidlais o ffydd yng Nghymru ac yn y rhanbarth.

City deals are an important opportunity to put local ideas and local decision making at the heart of local economic growth. Representatives of all of the authorities involved have worked hard with business and further and higher education institutions. Together, they have built an agreement which will provide the powers and resources to unlock significant economic growth in a region that is home to around half of Wales's population. It is testament to how much can be achieved in partnership across boundaries when we have a shared objective and vision—working together to improve the lives of people in all our communities, maximising opportunity for all and ensuring that we secure sustainable economic growth for future generations.

Mae bargeinion dinesig yn gyfle pwysig i roi syniadau lleol a phenderfyniadau lleol wrth wraidd twf economaidd lleol. Mae cynrychiolwyr o bob un o'r awdurdodau dan sylw wedi gweithio'n galed gyda busnesau a sefydliadau addysg bellach ac uwch. Gyda'i gilydd, maent wedi creu cytundeb a fydd yn darparu'r pwerau a'r adnoddau i ddatgloi twf economaidd sylweddol mewn rhanbarth sy'n gartref i tua hanner poblogaeth Cymru. Mae'n dystiolaeth o'r hyn y gellir ei gyflawni mewn partneriaeth ar draws ffiniau pan fydd gennym amcan a gweledigaeth gyffredin—gan gydweithio i wella bywydau pobl yn ein holl gymunedau, gwneud y gorau o gyfleoedd i bawb a sicrhau ein bod yn sicrhau twf economaidd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

The Cardiff capital region city deal differs in several significant ways from those signed between the UK Government and local authorities in England. That reflects the distinctive Welsh context. It also reflects the policies and priorities of the Welsh Government, in particular our established agenda for public service improvement. The deal was born out of a shared belief that 10 local authorities, working together, can deliver more than one authority working on its own. By working across city regions, we can deliver benefits and economic growth that cannot be achieved otherwise. The Welsh and UK Governments will each be investing more than £0.5 billion in this deal. That is a very visible statement of support for the proposals in the agreement. The local authorities are also investing in their shared vision, with a total of £120 million.

Mae'r fargen ar gyfer prifddinas-ranbarth Caerdydd yn wahanol i'r rhai a lofnodwyd rhwng Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol yn Lloegr mewn sawl ffordd bwysig. Mae hynny'n adlewyrchu'r cyd-destun Cymreig unigryw. Mae hefyd yn adlewyrchu polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn enwedig ein hagenda sefydledig ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus. Deilliodd y fargen o'r gred a rennir fod 10 awdurdod lleol, drwy weithio gyda'i gilydd, yn gallu cyflawni mwy nag un awdurdod yn gweithio ar ei ben ei hun. Drwy weithio ar draws dinas-ranbarthau, gallwn ddarparu manteision a thwf economaidd na ellir eu cyflawni fel arall. Bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ill dau yn buddsoddi mwy na £0.5 biliwn yn y fargen hon. Mae hwnnw'n ddatganiad gweladwy iawn o gefnogaeth i'r cynigion yn y cytundeb. Mae'r awdurdodau lleol hefyd yn buddsoddi cyfanswm o £120 miliwn yn y weledigaeth a rannant.

In total, the Cardiff capital region investment fund, which is at the heart of the deal, is worth more than £1.2 billion over the next 20 years. The ambitious south-east Wales metro scheme will be the key initial priority for the investment fund. More than £700 million will be invested in the next phase of the metro, with full involvement of the Cardiff capital region in co-design of the wider metro scheme, and in the procurement of a delivery organisation. The remaining element of the investment fund—another £500 million—will be used to take forward a wide range of projects and schemes that support economic growth across the Cardiff capital region. Decisions on the prioritisation of these schemes will be taken by the new capital region joint cabinet. Schemes taken forward are likely to include further transport schemes, building on the next phase of the metro, investment to unlock housing and employment sites and development of research and innovation facilities.

Gyda'i gilydd, mae cronfa fuddsoddi prifddinas-ranbarth Caerdydd, sy'n ganolog i'r fargen, yn werth mwy na £1.2 biliwn dros yr 20 mlynedd nesaf. Cynllun metro uchelgeisiol de-ddwyrain Cymru fydd prif flaenoriaeth gychwynnol y gronfa fuddsoddi. Bydd mwy na £700 miliwn yn cael ei fuddsoddi yng ngham nesaf y metro, a bydd prifddinas-ranbarth Caerdydd yn cyfrannu'n llawn at y gwaith o gyd-ddylunio'r cynllun metro ehangach, a'r broses o gaffael sefydliad cyflawni. Bydd yr elfen sy'n weddill o'r gronfa fuddsoddi—£500 miliwn arall—yn cael ei defnyddio i fwrw ymlaen ag amrywiaeth eang o brosiectau a chynlluniau sy'n cefnogi twf economaidd ar draws prifddinas-ranbarth Caerdydd. Bydd penderfyniadau ar flaenoriaethu'r cynlluniau hyn yn cael eu gwneud gan gabinet ar y cyd y prifddinas-ranbarth newydd. Mae'r cynlluniau a fydd yn cael eu datblygu yn debygol o gynnwys cynlluniau trafnidiaeth pellach, datblygu cam nesaf y metro, buddsoddi er mwyn datgloi safleoedd tai a chyflogaeth a datblygu cyfleusterau ymchwil ac arloesi.

Throughout this administration, we have been clear about the contribution that the right infrastructure projects and skills investment can make to economic growth. The Cardiff capital region city deal reflects this approach. It includes important new initiatives in the region to increase skill levels, support people into work and give businesses support to innovate and grow. It gives a stronger regional voice to the local authorities and provides a basis for them to shape policies that respond to local needs and work closely with businesses. The city deal reflects our local government reform agenda and is based on closer collaboration backed with stronger governance arrangements. The governance arrangements provide assurance that the authorities can deliver these ambitious plans and be held accountable for their success. Under the agreement, governance arrangements will be reviewed to consider whether they are fit for purpose to deliver the deal.

Drwy gydol y weinyddiaeth hon, rydym wedi bod yn glir ynglŷn â'r cyfraniad y gall y prosiectau seilwaith cywir a'r buddsoddiad cywir mewn sgiliau ei wneud i dwf economaidd. Mae'r fargen ar gyfer prifddinas-ranbarth Caerdydd yn adlewyrchu'r dull hwn o weithredu. Mae'n cynnwys mentrau newydd pwysig yn y rhanbarth i gynyddu lefelau sgiliau, cynorthwyo pobl i gael gwaith a chynorthwyo busnesau i arloesi a thyfu. Mae'n rhoi llais rhanbarthol cryfach i'r awdurdodau lleol ac yn rhoi sail iddynt lunio polisïau sy'n ymateb i anghenion lleol a gweithio'n agos gyda busnesau. Mae'r fargen ddinesig yn adlewyrchu ein hagenda diwygio llywodraeth leol ac mae'n seiliedig ar gydweithio agosach wedi'i gefnogi gan drefniadau llywodraethu cryfach. Mae'r trefniadau llywodraethu yn rhoi sicrwydd y gall yr awdurdodau gyflwyno'r cynlluniau uchelgeisiol hyn a bod yn atebol am eu llwyddiant. O dan y cytundeb, bydd trefniadau llywodraethu yn cael eu hadolygu er mwyn ystyried a ydynt yn addas i'r diben o gyflawni'r fargen.

The deal includes establishment of a new, non-statutory, regional transport authority to co-ordinate transport planning and investment in partnership with the Welsh Government. It also includes a commitment between the Welsh Government and the Cardiff capital region to a new partnership approach to strategic planning to ensure the delivery of sustainable communities through the use and reuse of property and sites. A Cardiff capital region business organisation will be established to ensure that there is a strong, clear, single voice for business to work with local authority leaders. And, as part of the deal, the Welsh Government will also be exploring with the Cardiff capital region the scope to provide additional flexibility in a number of areas, including in relation to business rates, responsibility over funding streams—within a simplified but stronger performance framework—and pooled funding.

Mae'r fargen yn cynnwys sefydlu awdurdod trafnidiaeth rhanbarthol newydd anstatudol i gydlynu cynlluniau a buddsoddiadau trafnidiaeth mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cynnwys ymrwymiad rhwng Llywodraeth Cymru a phrifddinas-ranbarth Caerdydd i ddull partneriaeth newydd o gynllunio'n strategol i ddarparu cymunedau cynaliadwy drwy ddefnyddio ac ailddefnyddio eiddo a safleoedd. Bydd sefydliad busnes ar gyfer prifddinas-ranbarth Caerdydd yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau un llais cryf a chlir i fusnes allu gweithio gydag arweinwyr awdurdodau lleol. Ac fel rhan o'r fargen hefyd, bydd Llywodraeth Cymru, gyda phrifddinas-ranbarth Caerdydd, yn archwilio'r cyfle i ddarparu hyblygrwydd ychwanegol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys mewn perthynas ag ardrethi busnes, cyfrifoldeb dros ffrydiau cyllido—mewn fframwaith perfformiad symlach ond cryfach—a chyllido ar y cyd.

We've always been clear that a successful city deal for the Cardiff capital region can and should help to unlock deals for other areas. I've consistently stressed to the UK Government the importance of a city deal for the Swansea bay region, especially in light of the recently announced Tata job losses, and it's pleasing that the Chancellor of the Exchequer indicated that a deal would be progressed in his budget speech today. The Welsh Government will be supporting the Swansea deal and, just as we listened to the Cardiff capital region, where it was clear that the metro was at the heart of the deal, we're discussing with the Swansea bay region how best we can support their ambitions. We look forward to continuing to work with the UK Government and Swansea bay to develop the region's proposition further.

Rydym bob amser wedi bod yn glir y gall, ac y dylai, bargen ddinesig lwyddiannus ar gyfer prifddinas-ranbarth Caerdydd helpu i ddatgloi bargeinion ar gyfer ardaloedd eraill. Rwyf wedi pwysleisio pwysigrwydd bargen ddinesig i ranbarth Bae Abertawe yn gyson i Lywodraeth y DU, yn enwedig yn sgil y swyddi y cyhoeddwyd yn ddiweddar eu bod yn mynd i gael eu colli yn Tata, ac mae'n braf fod Canghellor y Trysorlys wedi dynodi yn araith y gyllideb heddiw y buasai bargen yn cael ei datblygu. Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi bargen Abertawe ac yn union fel rydym wedi gwrando ar brifddinas-ranbarth Caerdydd, lle roedd hi'n amlwg mai'r metro oedd wrth wraidd y fargen, rydym yn trafod gyda rhanbarth Bae Abertawe sut y gallwn gefnogi eu huchelgeisiau yn y ffordd orau. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a bae Abertawe i ddatblygu cynnig y rhanbarth ymhellach.

We will also be continuing to work closely with the north Wales local authorities and the North Wales Economic Ambition Board to consider how city deals can best support their ambitions, including maximising the relationship with the Northern Powerhouse. Again, I was pleased to see the Chancellor's mention of a growth deal for north Wales in his budget speech.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ystyried sut y gall bargeinion dinesig gefnogi eu huchelgeisiau yn y ffordd orau, gan gynnwys manteisio i'r eithaf ar y berthynas gyda phwerdy'r gogledd. Unwaith eto, roeddwn yn falch fod y Canghellor wedi crybwyll cytundeb twf ar gyfer gogledd Cymru yn araith y gyllideb.

15:07

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, can I thank you for your statement today? The announcement of the £1.2 billion city deal agreement is indeed amazing news for the Welsh economy, made possible by a number of stakeholders. I see that Councillor Peter Fox, the leader of Monmouthshire, is on there; Craig Williams, MP for Cardiff North; and other MPs in Cardiff have been responsible for this as well. So, it's a great team effort—and the First Minister, obviously. This is a great example of the strengths of the current local government structure. As I asked the public services Minister earlier, can we now look at retaining that structure and improving it as a way to bolster future city deals as well as this?

Weinidog, a gaf fi ddiolch i chi am eich datganiad heddiw? Mae'r cyhoeddiad am y fargen ddinesig gwerth £1.2 biliwn yn newyddion gwirioneddol wych i economi Cymru, ac fe'i gwnaed yn bosibl gan nifer o randdeiliaid. Rwy'n gweld bod y Cynghorydd Peter Fox, arweinydd Sir Fynwy, yn un; Craig Williams, Aelod Seneddol Gogledd Caerdydd; ac mae Aelodau Seneddol eraill yng Nghaerdydd wedi bod yn gyfrifol am hyn hefyd. Felly, mae'n ymdrech tîm ardderchog—a'r Prif Weinidog, yn amlwg. Mae hon yn enghraifft wych o gryfderau'r strwythur llywodraeth leol cyfredol. Fel y gofynnais i'r Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus yn gynharach, a gawn ni yn awr edrych ar gynnal y strwythur hwnnw a'i wella fel ffordd o gryfhau bargeinion dinesig y dyfodol yn ogystal â hon?

Turning to the city deal itself and the Cardiff capital region investment fund that you mentioned, you say that the metro is at the heart of the scheme. When can we expect to see movement—pardon the pun—on the metro? We've had a lot of talk. We know that the Valleys lines franchise is going to be renewed in a couple of years' time. So, clearly, the metro concept needs to be fully developed by then in terms of the purchase of rolling stock et cetera.

Gan droi at y fargen ddinesig ei hun a chronfa fuddsoddi prifddinas-ranbarth Caerdydd a grybwyllwyd gennych, rydych yn dweud bod y metro yn ganolog i'r cynllun. Pa bryd y gallwn ddisgwyl gweld symud—maddeuwch y gair mwys—ar y metro? Mae llawer o siarad wedi bod. Rydym yn gwybod y bydd masnachfraint rheilffyrdd y Cymoedd yn cael ei hadnewyddu mewn blwyddyn neu ddwy. Felly, yn amlwg, mae angen datblygu cysyniad y metro yn llawn erbyn hynny o ran prynu cerbydau ac yn y blaen.

In terms of the other £0.5 billion that you mention and the capital region joint cabinet, how is that cabinet going to be composed? Could we have some more clarity on that? More importantly, how is it going to be monitored? It's clearly got a very important task ahead of it. What guidance are you going to give to that cabinet in terms of the further transport schemes that you mention? Are these public transport schemes or are they road developments? We know that there's been confusion over the exact cost of the new M4 black route. Are there any other uncertainties in terms of costings that could see costs spiral related to this programme? So, we need those costings.

O ran y £0.5 biliwn arall rydych yn sôn amdano a chabinet ar y cyd y prifddinas-ranbarth, sut y cyfansoddir y cabinet hwnnw? A allem gael mwy o eglurder ynglŷn â hynny? Yn bwysicach fyth, sut y bydd yn cael ei fonitro? Mae'n amlwg fod ganddo dasg bwysig iawn o'i flaen. Pa ganllawiau rydych yn mynd i'w rhoi i'r cabinet hwnnw ynglŷn â'r cynlluniau trafnidiaeth pellach rydych yn sôn amdanynt? Ai cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus ydynt neu ddatblygiadau ffyrdd? Rydym yn gwybod bod dryswch wedi bod ynglŷn ag union gost llwybr du newydd yr M4. A oes unrhyw ansicrwydd arall o ran y costau a allai beri iddynt saethu i fyny ar y rhaglen hon? Felly, mae angen y costau hynny arnom.

This is, as you say, Minister, the first deal. What sort of timescale are you planning—albeit in the initial stages—for future schemes such as the Swansea deal and, of course, north Wales? I agree with you that north Wales needs a deal as well. There is a perception that they have been left out of previous schemes. What initial thoughts have been given to this, and indeed to the way that different city regions may in the future work together? Because there surely will be a lot of best practice that will be developed and we need to make sure that that is made the most of.

Fel y dywedwch, Weinidog, hon yw'r fargen gyntaf. Pa fath o amserlen rydych chi'n ei chynllunio—er mai camau cychwynnol yw'r rhain—ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol, fel bargen Abertawe ac wrth gwrs, gogledd Cymru? Rwy'n cytuno bod angen bargen ar ogledd Cymru hefyd. Ceir canfyddiad eu bod wedi'u gadael allan o gynlluniau blaenorol. Pa ystyriaethau cychwynnol a gafwyd ar hyn, ac yn wir ynglŷn â'r ffordd y gallai gwahanol ddinas-ranbarthau weithio gyda'i gilydd yn y dyfodol? Oherwydd, yn sicr bydd llawer o arferion gorau'n cael eu datblygu ac mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn manteisio i'r eithaf arnynt.

15:10 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Nick Ramsay. I would go back to when, in fact, it was Danny Alexander who announced the city deal for Glasgow way back, and I wrote to him immediately and said, 'What about a city deal for Wales?' and here we are, fortunately, having all played our part to reach this point. I think it is important to recognise that the metro is at the heart of the city deal. Clearly, in terms of the planned investment in the south-east Wales metro, it stands at £734 million, including £125 million of funding from the UK Government and £106 million from the European Union, the ERDF, as well. Of course, that is moving forward now. We've got the green light; we've got the commitment out to procurement and progress will be made. Of course, Ministers have already made statements about the metro in terms of plans and potential.

Diolch i chi, Nick Ramsay. Rwyf am fynd yn ôl i'r adeg pan gyhoeddodd Danny Alexander fargen ddinesig i Glasgow amser maith yn ôl, ac ysgrifennais ato ar unwaith a dweud, 'Beth am fargen ddinesig i Gymru?' a dyma ni, yn ffodus, a phob un ohonom wedi chwarae ein rhan i gyrraedd y pwynt hwn. Rwy'n credu ei bod yn bwysig cydnabod bod y metro yn ganolog i'r fargen ddinesig. Yn amlwg, o ran y buddsoddiad a gynlluniwyd ym metro de-ddwyrain Cymru, mae'n £734 miliwn, gan gynnwys £125 miliwn o gyllid gan Lywodraeth y DU a £106 miliwn gan yr Undeb Ewropeaidd, Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop hefyd. Wrth gwrs, mae hynny'n symud ymlaen yn awr—rydym wedi cael y golau gwyrdd; rydym wedi cael yr ymrwymiad—ymlaen i'r broses gaffael a bydd cynnydd yn cael ei wneud. Wrth gwrs, mae Gweinidogion eisoes wedi gwneud datganiadau am y metro o ran cynlluniau a photensial.

It is important that we look at the governance arrangements. Strong governance has been the central part of all the city deals; we have to be assured that authorities can deliver their plans to be held accountable for their success. Authorities do, under the agreement, agree to review their governance arrangements, and also, it's important to clarify that they're establishing a joint cabinet to provide leadership and accountability for the deal. So, part of that joint cabinet will now enable them to delegate budgets and responsibilities for delivering this ambitious deal. Of course, this is a real step forward, but, of course, alongside that come opportunities as well, and you mentioned transport and other schemes that might emerge. Of course, as I've said, there will be a new regional transport authority and that's, again, authorities working together to plan once for the whole region and pooling their resources to deliver their priorities. The regional transport authority will, of course, be working with us to procure the south-east Wales metro and to consider further transport projects in the future.

Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar y trefniadau llywodraethu. Mae llywodraethu cryf wedi bod yn rhan ganolog o'r holl fargeinion dinesig; mae'n rhaid i ni fod yn sicr y gall awdurdodau gyflawni eu cynlluniau i'w gwneud yn atebol am eu llwyddiant. Mae awdurdodau, o dan y cytundeb, yn cytuno i adolygu eu trefniadau llywodraethu, a hefyd, mae'n bwysig egluro eu bod yn sefydlu cabinet ar y cyd i ddarparu arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar gyfer fargen. Felly, bydd rhan o'r cabinet ar y cyd yn eu galluogi yn awr i ddirprwyo cyllidebau a chyfrifoldebau ar gyfer cyflawni'r fargen uchelgeisiol hon. Wrth gwrs, mae hwn yn gam go iawn ymlaen, ond wrth gwrs, ochr yn ochr â hynny daw cyfleoedd yn ogystal, ac roeddech yn sôn am drafnidiaeth a chynlluniau eraill a allai ddod i'r amlwg. Wrth gwrs, fel rwyf wedi'i ddweud, bydd yna awdurdod trafnidiaeth rhanbarthol newydd a hynny, eto, yn digwydd drwy awdurdodau yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio unwaith ar gyfer y rhanbarth cyfan a chrynhoi eu hadnoddau ar gyfer cyflawni eu blaenoriaethau. Bydd yr awdurdod trafnidiaeth rhanbarthol, wrth gwrs, yn gweithio gyda ni i gaffael metro de-ddwyrain Cymru ac i ystyried prosiectau trafnidiaeth pellach yn y dyfodol.

Now, of course, you mentioned Swansea and north Wales, which we have been seeking support for and I think that we now have the Chancellor saying that he is going to progress with negotiations in terms of a very impressive Swansea city deal proposal that was put forward, and particularly important in light of the Tata job losses. In north Wales, I have had many meetings with the North Wales Economic Ambition Board, and recognise again that we have helped to bring together not only all the local authorities in north Wales, but also the Northern Powerhouse, which, of course, they are keen to progress, as well, in terms of possible growth development for north Wales.

Nawr, wrth gwrs, fe sonioch am Abertawe a gogledd Cymru, ac rydym wedi bod yn ceisio cymorth ar eu cyfer ac rwy'n credu bod y Canghellor bellach yn dweud ei fod am fwrw ymlaen gyda thrafodaethau ynghylch cynnig trawiadol iawn am fargen ddinesig a gyflwynwyd ar gyfer Abertawe, un sy'n arbennig o bwysig o ystyried y swyddi a gollir yn Tata. Yn y gogledd, rwyf wedi cael llawer o gyfarfodydd gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ac rwy'n cydnabod unwaith eto ein bod wedi helpu i ddwyn ynghyd, nid yn unig yr holl awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru, ond pwerdy'r gogledd hefyd, ac maent yn awyddus i fwrw ymlaen â hyn wrth gwrs, er mwyn datblygu twf posibl ar gyfer gogledd Cymru.

15:13 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think, like others on all sides of the Chamber, Minister, I'd like to welcome both the deal signed yesterday and the statement you've made this afternoon. I'm approaching the city deal from the point of view of the Heads of the Valleys and from Blaenau Gwent. We're very concerned—we very much welcome being a part of the Cardiff region city deal—but we're very much concerned that the regional deal is balanced across the whole of the region to ensure that the Heads of the Valleys region benefits from that and that we do see investment in the Heads of the Valleys region.

Rwy'n credu, fel eraill ar bob ochr i'r Siambr, Weinidog, yr hoffwn groesawu'r fargen a lofnodwyd ddoe a'r datganiad a wnaethoch y prynhawn yma. Rwy'n edrych ar y fargen ddinesig o safbwynt Blaenau'r Cymoedd a Blaenau Gwent. Rydym yn awyddus iawn—rydym yn sicr yn croesawu bod yn rhan o'r fargen ar gyfer dinas-ranbarth Caerdydd—ond rydym yn awyddus iawn i'r fargen ranbarthol fod yn gytbwys ar draws y rhanbarth cyfan er mwyn sicrhau bod rhanbarth Blaenau'r Cymoedd yn cael budd ohoni a'n bod yn gweld buddsoddiad yn rhanbarth Blaenau'r Cymoedd.

I welcome very much the statements that have already been made by Ministers on the metro and I understand the timescale for the delivery of the metro, but I wonder, Minister, if you could outline to us a timescale of how you see the city deal coming together to deliver for the whole of the region, and, at the same time, how you foresee the city deal being able to drive economic growth, the delivery of investment and the creation of jobs in Blaenau Gwent and other parts of the Heads of the Valleys region.

Rwy'n croesawu'r datganiadau sydd eisoes wedi'u gwneud gan Weinidogion ar y metro yn fawr iawn ac rwy'n deall yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r metro, ond tybed, Weinidog, a allech chi amlinellu amserlen i ni o sut y gwelwch y fargen ddinesig yn dod at ei gilydd i gyflawni ar gyfer y rhanbarth cyfan, ac ar yr un pryd, sut rydych yn rhagweld y bydd fargen ddinesig yn gallu ysgogi twf economaidd, sicrhau buddsoddiad a chreu swyddi ym Mlaenau Gwent a rhannau eraill o ranbarth Blaenau'r Cymoedd.

15:14 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Alun Davies for his welcome of this groundbreaking city deal and recognise that, yesterday, I greeted the leader of Blaenau Gwent council, Councillor Steve Thomas. Again, all of the leaders coming together: it's very important that Blaenau Gwent County Borough Council in the Heads of the Valleys, alongside, of course, colleagues from Merthyr, Monmouthshire, Bridgend and Rhondda Cynon Taf, are all signed up to this deal. It is important that we recognise that this deal is the biggest per-capita city deal so far—bigger than Glasgow and all the six main English cities. It is over a 20-year period that the deal is being delivered, driving economic growth in the region. Of course, the south-east Wales metro is at the heart of that, which will very clearly benefit Blaenau Gwent. I was very pleased to recently visit again the area where we invested—multimillion investment—in the works in Ebbw Vale, in the stations and the links and that connectivity.

Diolch i Alun Davies am groesawu'r fargen ddinesig arloesol hon ac rwy'n cydnabod fy mod, ddoe, wedi croesawu arweinydd cyngor Blaenau Gwent, y Cynghorydd Steve Thomas. Unwaith eto, pob un o'r arweinwyr yn dod at ei gilydd: mae'n bwysig iawn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ym Mlaenau'r Cymoedd, ochr yn ochr, wrth gwrs, â chydweithwyr o Ferthyr, Sir Fynwy, Pen-y-bont a Rhondda Cynon Taf, i gyd yn ymrwymo i'r fargen hon. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod mai'r fargen hon yw'r fargen ddinesig fwyaf y pen hyd yn hyn—mae'n fwy na Glasgow a phob un o'r chwe phrif ddinas yn Lloegr. Cyflawnir y fargen dros gyfnod o 20 mlynedd, gan ysgogi twf economaidd yn y rhanbarth. Wrth gwrs, mae metro de-ddwyrain Cymru yn ganolog i hynny, a bydd yn amlwg o fudd mawr i Flaenau Gwent. Roeddwn yn falch iawn o ymweld yn ddiweddar â'r ardal lle rydym wedi buddsoddi—buddsoddiad gwerth miliynau—yn y gwaith yng Nglynebwy, yn y gorsafoedd a'r cysylltiadau ffordd a'r cysylltedd hwnnw.

I think we must also recognise that the city deal is not just about transport. Of course, it's about connecting the region. It's about support for innovation and improving the digital network. It's about support for developing a skilled workforce and tackling unemployment—particularly important in terms of Blaenau Gwent and the Heads of the Valleys. I think the Cardiff capital region skills and employment board that's going to be created will ensure that the skills and employment that are needed will, of course, cover the whole of the city deal region. It will be about co-designing those developments and, of course, that will include co-designing with the Department for Work and Pensions. But, of course, it's also going to enable us to have a single voice for business, working with local authorities across the whole of the region. So, it's a real step change for a local authority such as Blaenau Gwent to oversee delivery and to speak and contribute as part of one single regional voice.

Rwy'n credu bod yn rhaid i ni hefyd gydnabod nad yw'r fargen ddinesig yn ymwneud â thrafnidaeth yn unig. Wrth gwrs, mae'n ymwneud â chysylltu'r rhanbarth. Mae'n ymwneud â chymorth ar gyfer arloesi a gwella'r rhwydwaith digidol. Mae'n ymwneud â chymorth i ddatblygu gweithlu medrus a mynd i'r afael â diweithdra—sy'n arbennig o bwysig mewn perthynas â Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd. Rwy'n credu y bydd bwrdd sgiliau a chyflogaeth prifddinas-ranbarth Caerdydd sy'n mynd i gael ei greu yn sicrhau y bydd y sgiliau a'r cyfleoedd cyflogaeth sy'n angenrheidiol, wrth gwrs, yn cynnwys rhanbarth cyfan y fargen ddinesig. Bydd yn ymwneud â chyd-gynllunio'r datblygiadau hynny ac wrth gwrs, bydd hynny'n cynnwys cyd-gynllunio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Ond wrth gwrs, bydd hefyd yn ein galluogi i gael un llais ar gyfer busnes, gan weithio gydag awdurdodau lleol ar hyd a lled y rhanbarth. Felly, mae'n newid sylweddol i awdurdod lleol fel Blaenau Gwent i oruchwylio'r broses o gyflawni a siarad a chyfrannu fel rhan o un llais rhanbarthol.

15:16

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Firstly, from a Cardiff and south-east Wales perspective, obviously the deal announced yesterday is welcome. The public money, £1.2 billion, is the headline, clearly, but it's more than that, it's about what can be achieved from that to trigger further investment and what can be achieved through the pooling of efforts across the public sector.

Yn gyntaf, o safbwynt Caerdydd a de-ddwyrain Cymru, yn amlwg croesawir y fargen a gyhoeddwyd ddoe. Yr arian cyhoeddus, £1.2 biliwn, yw'r pennawd, yn amlwg, ond mae'n fwy na hynny, mae'n ymwneud â'r hyn y gellir ei gyflawni â hwnnw i ysgogi buddsoddi pellach a'r hyn y gellir ei gyflawni drwy gyfuno ymdrechion ar draws y sector cyhoeddus.

As with anything, of course, we have to sound a note of caution on a number of issues. In other parts of Wales, including the north, there is concern that this investment is happening at the expense of others and, coming on top of the £1 billion black route M4, there is understandably, I hope you'd agree, a feeling, not only in the north, but in mid Wales, the west and in Swansea of, 'Hold on, this might all be very well for Cardiff and the south-east, but where's the equivalent for us?'

Fel gydag unrhyw beth, wrth gwrs, mae'n rhaid i ni leisio gair o rybudd ar nifer o faterion. Mewn rhannau eraill o Gymru, gan gynnwys y gogledd, ceir pryder fod y buddsoddiad hwn yn digwydd ar draul pobl eraill a chyda llwybr du yr M4 sy'n werth £1 biliwn, mae yna deimlad, ac rwy'n gobeithio y byddech yn cytuno ei fod yn ddealladwy, nid yn unig yn y gogledd, ond yn y canolbarth, y gorllewin ac yn Abertawe, o, 'Arhoswch funud, efallai fod hyn i gyd yn dda iawn i Gaerdydd a'r de-ddwyrain, ond ble mae'r hyn sy'n gyfwerth ag ef i ni?'

These are important questions, not only in terms of economic development, in practical terms of job creation, improving transport connectivity and so on, but there's also a very important political dimension that I think we ignore at our peril. Welsh Government must, of course, work for the whole of Wales and any perception, no doubt strengthened by the announcement yesterday—however good that news may be for one part of Wales—is bad for devolution, potentially, and bad for what should be a common endeavour to all of us, which is to join up Wales and have that joint national venture to create a fairer and more prosperous Wales.

Mae'r rhain yn gwestiynau pwysig, nid yn unig o ran datblygu economaidd, yn ymarferol o ran creu swyddi, gwella cysylltedd trafnidiaeth ac yn y blaen, ond ceir dimensiwn gwleidyddol pwysig iawn hefyd, a gwae i ni ei anwybyddu. Wrth gwrs, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithio dros Gymru gyfan, ac mae unrhyw ganfyddiad, wedi'i gryfhau gan y cyhoeddiad ddoe, heb amheuaeth—waeth pa mor dda y gallai'r newyddion hwnnw fod i un rhan o Gymru—yn ddrwg i ddatganoli, o bosibl, ac yn ddrwg i'r hyn a ddylai fod yn ymdrech gyffredin i bob un ohonom, sef uno Cymru a chael y fenter genedlaethol honno ar y cyd i greu Cymru decach a mwy ffyniannus.

So, my first question is: how does the Government respond to the city deal with a deal for the whole of Wales—north and west as well as south and east? My second question, very much along the same lines as that from the Member for Blaenau Gwent, is: what assurances can the Government give that the city deal won't just suck the life out of the rest of the south-east Wales region and that it will be a mechanism for spreading prosperity out of Cardiff to areas such as the Valleys? The third question, on a point of transparency: you say in your statement that the metro is the main priority at this point in time—I think it was 30 June last year when the Government announced a package of around £600 million to be spent on phase 2 of the metro, so it would appear that much of what was announced yesterday has already been announced and put into the public domain—could you explain what additional public funding Welsh Government is proposing to put into the city deal that hasn't already been announced?

Felly, fy nghwestiwn cyntaf yw: sut y mae'r Llywodraeth yn ymateb i'r fargen ddinesig gyda bargen ar gyfer Cymru gyfan—y gogledd a'r gorllewin, yn ogystal â'r de a'r dwyrain? Fy ail gwestiwn, sy'n debyg iawn i'r un gan yr Aelod dros Flaenau Gwent, yw: pa sicrwydd y gall y Llywodraeth ei roi na fydd y fargen ddinesig yn sugno'r gwaed o weddill rhanbarth y de-ddwyrain ac y bydd yn fecanwaith ar gyfer lledaenu ffyniant allan o Gaerdydd i ardaloedd fel y Cymoedd? Y trydydd cwestiwn, ynglŷn â thryloywder: dywedwch yn eich datganiad mai'r metro yw'r brif flaenoriaeth ar hyn o bryd—rwy'n meddwl mai 30 Mehefin y llynedd oedd hi pan gyhoeddodd y Llywodraeth becyn gwerth tua £600 miliwn i'w wario ar gyfnod 2 y metro, felly ymddengys fod llawer o'r hyn a gyhoeddwyd ddoe eisoes wedi'i gyhoeddi a'i wneud yn gyhoeddus—a allech egluro pa gyllid cyhoeddus ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ei roi tuag at y fargen ddinesig nad yw eisoes wedi'i gyhoeddi?

15:18

## Jane Hutt [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

I thank Rhun ap Iorwerth for his welcome for the Cardiff capital region city deal, but also the fact that he raises very important points in terms of the impacts and implications for the rest of Wales. We've been very clear in terms of negotiations with the UK Government and Treasury that a successful city deal for Cardiff capital region will demonstrate our credibility, but it must help unlock deals for other areas, for the rest of Wales. We've stressed to the UK Government the importance of a Swansea city deal for the region, as I said, especially in light of the recent Tata job losses. And also, as I've said, we're working very closely with the north Wales region, with the north-east Wales economic ambition board, and ensuring that we learn from the Cardiff city region deal in order to then spread those opportunities and those ambitions and aspirations that other parts of Wales will develop. I think it's important to say that we did want to see the metro—I've already said this more than once this afternoon—as the integral, key part of the deal, and that we are now able to take this forward.

Diolch i Rhun ap Iorwerth am groesawu'r fargen ddinesig ar gyfer prifddinas-ranbarth Caerdydd, ond hefyd am y ffaith ei fod yn nodi pwyntiau pwysig iawn o ran yr effeithiau a goblygiadau ar gyfer gweddill Cymru. Rydym wedi bod yn eglur iawn o ran trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a'r Trysorlys y bydd bargen ddinesig lwyddiannus ar gyfer prifddinas-ranbarth Caerdydd yn dangos ein hygrededd, ond mae'n rhaid iddi helpu i ddatgloi bargeinion ar gyfer ardaloedd eraill, ar gyfer gweddill Cymru. Rydym wedi pwysleisio i Lywodraeth y DU bwysigrwydd bargen ddinesig i Abertawe ar gyfer y rhanbarth, fel y dywedais, yn enwedig o ystyried y swyddi a gollwyd yn Tata yn ddiweddar. A hefyd, fel y dywedais, rydym yn gweithio'n agos iawn gyda rhanbarth gogledd Cymru, gyda bwrdd uchelgais economaidd gogledd-ddwyrain Cymru, ac yn sicrhau ein bod yn dysgu o'r fargen ar gyfer dinas-ranbarth Caerdydd er mwyn lledaenu'r cyfleoedd hynny a'r uchelgeisiau a'r dyheadau hynny y bydd rhannau eraill o Gymru yn eu datblygu. Rwy'n credu ei bod yn bwysig dweud ein bod eisiau gweld y metro—rwyf eisoes wedi dweud hyn fwy nag unwaith y prynhawn yma—fel y rhan hanfodol, allweddol o'r fargen, a'n bod yn awr yn gallu bwrw ymlaen â hyn.

As I've said, in terms of the investment from Welsh Government of £503 million investment; the UK Government—£500 million; local authorities—£120 million—. You know, this is about over-the-Barnett additional funding that we're levering in, front-loaded over the first seven years of the deal. It is important that we recognise that this is going to give us that green light. But it's crucial, as you say, following on from Alun Davies's point, that this has to be about spreading prosperity across the whole of the region. I think the leader of Rhondda Cynon Taf council, Andrew Morgan, made this point very clearly yesterday. Clearly, we also—you know that I am also leading the Wales TUC Better Jobs, Closer to Home project as well, which is working on how we can build and develop jobs in the Valleys communities. This will be boosted, of course, by the city deal.

Fel rwyf wedi'i ddweud, o ran y buddsoddiad gwerth £503 miliwn gan Lywodraeth Cymru; Llywodraeth y DU—£500 miliwn; awdurdodau lleol—£120 miliwn. Wyddoch chi, mae hyn yn ymwneud â'r cyllid ychwanegol ar ben y swm Barnett rydym yn ei ddenu i mewn, wedi'i flaen-lwytho dros saith mlynedd gyntaf y fargen. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod y bydd hyn yn rhoi'r golau gwyrdd i ni. Ond mae'n hanfodol, fel y dywedwch, yn dilyn pwynt Alun Davies, fod yn rhaid i hyn ymwneud â lledaenu ffyniant ledled y rhanbarth. Rwy'n meddwl bod arweinydd cyngor Rhondda Cynon Taf, Andrew Morgan, wedi gwneud y pwynt hwn yn eglur iawn ddoe. Yn amlwg, rydym hefyd—fe wyddoch fy mod hefyd yn arwain prosiect Swyddi Gwell, yn Nes at Adref TUC Cymru, sy'n gweithio ar sut y gallwn adeiladu a datblygu swyddi yng nghymunedau'r Cymoedd. Bydd yn cael hwb, wrth gwrs, gan y fargen ddinesig.

15:21 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank you for the statement, Minister, and welcome the investment that this city deal represents in this area and in Wales, indeed? I am pleased that this deal has now finally been signed, and we look forward to the £1.2 billion being invested in the Cardiff city region over the next 20 years. However, I do concur with the Plaid Cymru spokesperson's concerns around the overconcentration of resources and investment in the Cardiff region area. I think that it's imperative that the Swansea deal is dealt with and approved as soon as possible, just to provide some balance, and also that a deal for north Wales is put together to ensure that there is proper investment there, particularly in infrastructure up in north Wales, but also in the north Wales economy as well, to show that this sort of public sector investment is not just concentrated in this region. Cardiff already gets a disproportionate amount of public sector investment compared to the rest of Wales. We need to demonstrate too, outside the Cardiff area, that we can deal with this evenly and we can ensure that other parts of Wales benefit from these deals as well.

Hoffwn ddiolch i chi am y datganiad, Weinidog, ac rwy'n croesawu'r buddsoddiad y mae'r fargen ddinesig yn ei gynrychioli yn yr ardal hon ac yng Nghymru, yn wir. Rwy'n falch fod y fargen hon bellach wedi'i llofnodi o'r diwedd, ac rydym yn edrych ymlaen at weld yr £1.2 biliwn yn cael ei fuddsoddi yn ninas-ranbarth Caerdydd dros yr 20 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, rwy'n cytuno â phryderon llefarydd Plaid Cymru ynglŷn â gormod o adnoddau a buddsoddiad yn ardal rhanbarth Caerdydd. Rwy'n credu y dylid ymdrin â bargen Abertawe a'i chymeradwyo cyn gynted ag y bo modd, er mwyn darparu rhywfaint o gydbwysedd, a rhoi bargen at ei gilydd ar gyfer gogledd Cymru i sicrhau buddsoddiad priodol yno, yn enwedig mewn seilwaith i fyny yng ngogledd Cymru, ond hefyd yn economi gogledd Cymru yn ogystal, i ddangos nad yw'r math hwn o fuddsoddiad sector cyhoeddus yn cael ei grynhoi yn y rhanbarth hwn, yn unig. Mae Caerdydd eisoes yn cael cyfran anghymesur o fuddsoddiadau sector cyhoeddus o gymharu â gweddill Cymru. Mae angen i ni ddangos hefyd, y tu allan i ardal Caerdydd, y gallwn ymdrin â hyn yn gyfartal ac y gallwn sicrhau bod rhannau eraill o Gymru yn elwa o'r bargeinion hyn, yn ogystal.

Minister, a couple of questions arising from your statement: you set out some of the governance arrangements in the statement, particularly, I think, around the joint executive or board to manage the city deal. Can I ask you what scrutiny arrangements are in place to oversee that particular board, particularly in terms of accountability and transparency? I think the danger with all these regional collaborations is that you create a regional body to deliver them, but nobody is asking questions, certainly not in public, about how they're delivering and digging up underneath the surface to find out exactly what the issues are around that delivery. I think it's crucial that if this deal is to be successful, and other deals are to be successful, that there are proper scrutiny arrangements in place. You'll recall that the communities and local government committee did a report on regional working in which they highlighted the weaknesses around scrutiny particularly. I think this could also apply to this deal as well, unless that is addressed very early on.

Weinidog, un neu ddau o gwestiynau sy'n codi o'ch datganiad: rydych yn nodi rhai o'r trefniadau llywodraethu yn y datganiad, yn arbennig, rwy'n meddwl, ynglŷn â'r weithrediaeth neu fwrdd ar y cyd i reoli'r fargen ddinesig. A gaf fi ofyn i chi pa drefniadau craffu sydd ar waith i oruchwylio'r bwrdd arbennig hwnnw, yn enwedig o ran atebolrwydd a thryloywder? Rwy'n meddwl mai'r perygl gyda'r holl gydweithredu rhanbarthol hwn yw eich bod yn creu corff rhanbarthol i'w darparu, ond nid oes unrhyw un yn gofyn cwestiynau, yn sicr nid yn gyhoeddus, ynglŷn â'r ffordd y maent yn cyflawni a chloddio dan yr wyneb i ddarganfod yn union beth yw'r materion sy'n codi mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno. Rwy'n credu ei bod yn hanfodol, os yw'r fargen hon yn mynd i lwyddo, a bargeinion eraill yn mynd i lwyddo, fod trefniadau craffu priodol ar waith. Fe fyddwch yn cofio bod y pwyllgor cymunedau a llywodraeth leol wedi llunio adroddiad ar weithio'n rhanbarthol lle roeddent yn tynnu sylw at wendidau'n ymwneud â chraffu yn arbennig. Rwy'n credu y gallai hyn fod yn berthnasol i'r fargen hon, yn ogystal, oni bai ei fod yn cael sylw yn gynnar iawn.

Can you give us some indication, in terms of the Swansea deal, which is under negotiation, of the sort of timescale we are looking at before an announcement is going to be available on that? I know it's very early days, and maybe the time it's taken to approve the Cardiff deal is indicative, but some indication of when the Swansea region can expect an announcement on their deal would be useful and helpful.

A allwch roi rhyw syniad, o ran bargen Abertawe, sy'n cael ei thrafod, o'r math o amserlen rydym yn edrych arni cyn y ceir cyhoeddiad ar hynny? Rwy'n gwybod ei bod yn ddyddiau cynnar iawn, ac efallai fod yr amser y mae wedi'i gymryd i gymeradwyo bargen Caerdydd yn arwydd, ond byddai rhyw syniad o ba bryd y gall rhanbarth Abertawe ddisgwyl cyhoeddiad ynglŷn â'u bargen yn ddefnyddiol ac o gymorth.

Finally, in relation to the Cardiff capital region deal itself, my understanding is that this money—this huge and public sector investment—does come with some strings in terms of delivery and outcomes. I'm just wondering what are the waymarkers, if you like, over the next 20 years that will identify whether it is delivering as envisaged. How will that be set out and made public? How will that be scrutinised? In particular, in terms of those waymarkers, what are the consequences if they're not met? Thank you.

Yn olaf, o ystyried y fargen ar gyfer prifddinas-ranbarth Caerdydd ei hun, fy nealltwriaeth i yw bod yr arian hwn—y buddsoddiad sector cyhoeddus enfawr hwn—â rhai amodau ynghlwm wrtho o ran cyflawniad a chanlyniadau. Tybed beth fydd y targedau, os hoffwch, dros yr 20 mlynedd nesaf a fydd yn dynodi pa un a yw'n cyflawni fel y rhagwelwyd. Sut y bydd hynny'n cael ei nodi a'i wneud yn gyhoeddus? Sut y caiff hynny ei graffu? Yn benodol, o ran y targedau hynny, beth yw'r canlyniadau os na chânt eu cyrraedd? Diolch.

15:24 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Peter Black for his welcome for the city deal for Cardiff capital region, but also for his questions. I think that, on the issue of accountability, transparency and engagement strategically across not only the 10 local authorities, but with the Welsh Government and the UK Government, the Cardiff capital region will work—and it's in the agreement—with the UK Government and the Welsh Government to develop an agreed implementation, monitoring and evaluation plan in advance of implementation. That's going to set out the proposed approach to delivery and evaluate the impact of delivery. Also, of course, this is not the only city deal in the UK. It's going to comply with the existing statutory framework that not only exists in Wales to deliver the city deal, but also provide the confidence and assurance to both the UK and Welsh Governments—and that the local authorities are making decisions that are going to drive economic growth across the capital region. That will be assessed through gateways to assess the impact, and, as I said, in terms of monitoring implementation. It's going to be a comprehensive agreement drawn up between the authorities, binding and committing each local authority and ensuring that those commitments are very clear, in terms of reviewing city deal governance as well. So, you know, there is a very, very clear set of expectations and standards, also building on previous city deals that the Department for Communities and Local Government has developed.

Diolch i Peter Black am groesawu'r fargen ddinesig i brifddinas-ranbarth Caerdydd, ond hefyd am ei gwestiynau. Ynglŷn ag atebolrwydd, tryloywder ac ymgysylltu yn strategol ar draws nid yn unig y 10 awdurdod lleol, ond gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, credaf y bydd prifddinas-ranbarth Caerdydd yn gweithio—ac mae'n rhan o'r cytundeb—gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cynllun gweithredu, monitro a gwerthuso y cytunir arno cyn ei weithredu. Bydd hynny'n nodi'r dull arfaethedig o gyflawni ac yn gwerthuso effaith cyflawni. Hefyd, wrth gwrs, nid dyma'r unig fargen ddinesig yn y DU. Bydd yn cydymffurfio â'r fframwaith statudol presennol sydd nid yn unig yn bodoli yng Nghymru ar gyfer cyflawni'r fargen ddinesig, ond hefyd i roi hyder a sicrwydd i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru—a bod yr awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau sy'n mynd i ysgogi twf economaidd ar draws y brifddinas-ranbarth. Asesir hynny drwy'r pyrth ar gyfer asesu'r effaith, ac fel y dywedais, drwy weithredu proses fonitro. Bydd yn fargen gynhwysfawr wedi'i llunio rhwng yr awdurdodau, gan rwymo ac ymrwymo pob awdurdod lleol a sicrhau bod yr ymrwymiadau hynny'n eglur iawn, o ran adolygu llywodraethiant y fargen ddinesig hefyd. Felly, wyddoch chi, ceir set glir iawn o ddisgwyliadau a safonau, yn adeiladu hefyd ar fargenion dinesig blaenorol y mae'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi'u datblygu.

I think it's a step change, of course, as you would acknowledge, in the level of collaboration between local authorities that they have come together to ensure that they do deliver on this opportunity. I think, in terms of Swansea, I will say that I have—at every point, in every letter, in every statement, and in every meeting—said that the Swansea city deal has to be considered alongside it, albeit it's the next step. The credibility we've got now in Wales, from a city deal being approved, I think, will now be reflected in approval for Swansea.

Rwy'n credu bod newid mawr, fel y byddech yn ei gydnabod, yn y lefel o gydweithio rhwng awdurdodau lleol iddynt fod wedi dod ynghyd i sicrhau eu bod yn cyflawni'r cyfle hwn. Rwy'n meddwl, o ran Abertawe, fe ddywedaf fy mod wedi dweud—ar bob pwynt, ym mhob llythyr, ym mhob datganiad, ac ym mhob cyfarfod—fod yn rhaid ystyried bargen ddinesig Abertawe ochr yn ochr ag un Caerdydd, fel cam nesaf. Bydd yr hygrededd sydd gennym yn awr yng Nghymru, yn sgil cymeradwyo bargen ddinesig, rwy'n meddwl, yn cael ei adlewyrchu yn awr yn y gymeradwyaeth i Abertawe.

15:27 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It will probably surprise no-one that I am raising the application for a city deal for the Swansea bay region. The deal is being led by high-tech entrepreneur Sir Terry Matthews, the region's board chairman. The bid focuses on energy, health, wellbeing and economic acceleration, by harnessing the transformational power of digital networks and the asset base of Swansea bay. The 20-year project has been dubbed 'the internet coast bid' and could create a public sector pot of £500 million. This, it is hoped, would attract significantly more private sector cash, boost the region's productivity and profile, and support some 39,000 high-paid jobs. Sir Terry Matthews has said that:

Mae'n debyg na fydd yn syndod i unrhyw un fy mod yn gwneud cais am fargen ddinesig i ranbarth bae Abertawe. Arweinir y fargen gan yr entrepreneur uwch-dechnoleg Syr Terry Matthews, cadeirydd bwrdd y rhanbarth. Mae'r cais yn canolbwyntio ar ynni, iechyd, lles a chyflymiad economaidd, drwy harneisio grym trawsnewidiol rhwydweithiau digidol a sylfaen asedau bae Abertawe. Mae'r prosiect 20 mlynedd wedi cael ei alw'n 'gynnig arfordir y we', a gallai greu pot sector cyhoeddus gwerth £500 miliwn. Y gobaith yw y bydd hyn yn denu cryn dipyn yn fwy o arian sector preifat, yn rhoi hwb i gynhyrchiant a phroffil y rhanbarth, ac yn cynnal tua 39,000 o swyddi cyflog uchel. Mae Syr Terry Matthews wedi dweud:

'In my letter to the Chancellor I have described the widest possible regional public sector commitment to this city deal bid as a leap of faith that has immense value.'

'Yn fy llythyr at y Canghellor rwyf wedi disgrifio'r ymrwymiad rhanbarthol ehangaf posib gan y sector cyhoeddus i'r cais hwn am Fargen Ddinesig fel 'dangosiad o ffydd' a chanddo werth aruthrol.'

I believe that a city deal is incredibly important to Swansea and the Swansea bay region. Will the Minister give her full support to that deal, as she has earlier in the discussion? And more importantly, can I request regular updates on progress made in securing a city deal for the Swansea city region, because we want it as soon as possible?

Credaf fod bargen ddinesig yn hynod o bwysig i Abertawe a rhanbarth bae Abertawe. A wnaiff y Gweinidog gefnogi'r fargen honno, fel y gwnaeth yn gynharach yn y drafodaeth? Ac yn bwysicach, a gaf fi ofyn am ddiweddariadau rheolaidd ar y cynnydd a wneir ar sicrhau bargen ddinesig i ddinas-ranbarth Abertawe, oherwydd rydym ei heisiau cyn gynted ag y bo modd?

15:28

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I will give you that full assurance, Mike Hedges, Member for Swansea East. It is very much led by the private sector—the Swansea bay city deal proposal—and Sir Terry Matthews I have met. I have seen the proposal. I have met with the leader of the Swansea council more than once and not just his partners in the private sector but, importantly, the other local authorities in the Swansea bay region. This has to be a regional deal between those authorities and the private sector—very innovative and very imaginative. It wouldn't have got the recognition from the Chancellor today if it wasn't going to progress, but you have my assurances on this point.

Gwnaf, rwy'n rhoi'r sicrwydd hwnnw i chi, Mike Hedges, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe. Caiff ei arwain i raddau helaeth gan y sector preifat—y cynnig am fargen ddinesig i fae Abertawe—ac rwyf wedi cyfarfod â Syr Terry Matthews. Rwyf wedi gweld y cynnig. Rwyf wedi cyfarfod ag arweinydd cyngor Abertawe fwy nag unwaith, ac nid ei bartneriaid yn y sector preifat yn unig ond yn bwysig, yr awdurdodau lleol eraill yn rhanbarth bae Abertawe. Mae'n rhaid i hon fod yn fargen ranbarthol rhwng yr awdurdodau hynny a'r sector preifat—arloesol iawn a llawn dychymyg. Ni fyddai wedi cael y gydnabyddiaeth gan y Canghellor heddiw os nad oedd yn mynd i symud ymlaen, ond mae gennych fy sicrwydd ar y pwynt hwn.

15:28

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very pleased to welcome this statement today. I think it is a great boost for Cardiff and for the Valleys and for the capital region. I would like, particularly, to congratulate the Minister for her hard work on this project, helping to ensure the co-operation of all the different layers of government, which we know is not easy to do. I'd also particularly like to congratulate Councillor Phil Bale, the leader of the Cardiff council, who has made determined efforts to reach out to the other 10 local authorities to bring them together and to succeed in this very exciting deal. So, I welcome the £1.2 billion. And, as the Minister has said, it's the biggest per capita city deal ever agreed. It's bigger than the Glasgow city deal. I'm sure that she will agree with me that it is really important that we get the balance right between the very exciting metro project and the other, more direct, job-creation parts of the city deal, such as projects that will lead to skilled jobs, such as the compound semi-conductor cluster, led by IQE in Cardiff University. And I'm sure she would agree that this would create a lot of high-tech, skilled jobs, and could become the first compound semi-conductor hub of its kind in the world.

Rwy'n falch iawn o groesawu'r datganiad hwn heddiw. Rwy'n credu ei fod yn hwb mawr i Gaerdydd, i'r Cymoedd, ac i'r brifddinas-ranbarth. Hoffwn, yn arbennig, longyfarch y Gweinidog am ei gwaith caled ar y prosiect hwn, gan helpu i sicrhau cydweithrediad holl wahanol haenau'r llywodraeth, a gwyddom nad yw hynny'n hawdd. Hoffwn hefyd, yn arbennig, longyfarch y Cynghorydd Phil Bale, arweinydd cyngor Caerdydd, sydd wedi ymdrechu'n benderfynol i estyn allan at y 10 o awdurdodau lleol eraill, i ddod â hwy at ei gilydd ac i lwyddo yn y fargen gyffrous hon. Felly, croesawaf yr £1.2 biliwn. Ac fel y dywedodd y Gweinidog, hon yw'r fargen ddinesig fwyaf y pen a gytunwyd erioed. Mae'n fwy na bargen ddinesig Glasgow. Rwy'n siŵr y bydd yn cytuno â mi ei bod yn bwysig iawn fod gennym y cydbwysedd cywir rhwng y prosiect metro cyffrous iawn a rhannau mwy uniongyrchol y fargen ddinesig, sy'n ymwneud â chreu swyddi, megis prosiectau a fydd yn arwain at swyddi medrus, fel y clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd, dan arweiniad IQE ym Mhrifysgol Caerdydd. Ac rwy'n siŵr y byddai'n cytuno y bydd hyn yn creu llawer o swyddi medrus, uwch-dechnolegol, a gallai fod yn ganolfan lled-ddargludyddion cyfansawdd gyntaf o'i bath yn y byd.

We've had some mention of the governance arrangements for the city region. I am very relieved there is no proposal for an elected mayor, and I think that a cabinet—a new capital region joint cabinet—is a good way of moving forward in this way. And I also welcome the transport authority.

Rydym wedi clywed rhywfaint o sôn ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y ddinas-ranbarth. Rwy'n falch iawn nad oes cynnig ar gyfer maer etholedig, a chredaf fod cabinet—cabinet prifddinas-ranbarth ar y cyd newydd—yn ffordd dda o symud ymlaen yn y ffordd hon. Ac rwyf hefyd yn croesawu'r awdurdod trafnidiaeth.

Just a couple of questions to the Minister. In her statement, she said that it would help unlock housing and employment sites. I wondered how this would fit in with the local development plan process. For example, in Cardiff, we have just, finally, agreed the local development plan after many years of discussion, which has designated places for housing, and has designated employment sites. How will that work in the broader city region? Does she see, possibly, a development plan for the whole region? Could she comment on that, please?

Un neu ddau o gwestiynau i'r Gweinidog: yn ei datganiad, dywedodd y byddai'n helpu i ddatgloi safleoedd tai a chyflogaeth. Roeddwn yn meddwl tybed sut y byddai hyn yn cyd-fynd â phroses y cynllun datblygu lleol. Er enghraifft, yng Nghaerdydd, o'r diwedd, rydym newydd gytuno ar y cynllun datblygu lleol ar ôl blynyddoedd lawer o drafod, ac mae wedi dynodi lleoedd ar gyfer tai, ac wedi dynodi safleoedd cyflogaeth. Sut y bydd hynny'n gweithio yn y ddinas-ranbarth ehangach? A yw hi'n gweld cynllun datblygu ar gyfer y rhanbarth cyfan, o bosibl? A allai hi roi sylwadau ar hynny, os gwelwch yn dda?

15:31

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I also want to thank Julie Morgan for consistently giving her support, raising these issues, not only with me as lead Minister, but also supporting her local authority, supporting the leader—Councillor Phil Bale—in taking this forward. I have to say that the trio that sort of led the region—Councillor Phil Bale, Councillor Peter Fox and Councillor Andrew Morgan—presented a pretty good representation, I think, of the interests of the region, and very powerfully made their case on behalf of all 10 authorities, backed, of course, by their chief executives. That consistent support has been very important to securing this deal.

Diolch. Hoffwn ddiolch hefyd i Julie Morgan am ei chefnogaeth gyson, wrth dynnu sylw at y materion hyn, nid yn unig gyda mi fel Gweinidog arweiniol, ond hefyd drwy gefnogi ei hawdurdod lleol, cefnogi'r arweinydd—y Cynghorydd Phil Bale—wrth fwrw ymlaen â hyn. Mae'n rhaid i mi ddweud bod y triawd a arweiniodd y rhanbarth mewn ffordd—y Cynghorydd Phil Bale, y Cynghorydd Peter Fox a'r Cynghorydd Andrew Morgan—wedi cynrychioli buddiannau'r rhanbarth yn eithaf da, rwy'n meddwl, ac wedi cyflwyno'u hachos yn rymus iawn ar ran pob un o'r 10 awdurdod, wedi'u cefnogi, wrth gwrs, gan eu prif weithredwyr. Mae'r gefnogaeth gyson honno wedi bod yn bwysig iawn wrth sicrhau'r fargen hon.

I think it is important to look beyond the metro as well, to all of the other aspects of the city deal, not just in terms of skills development, housing development and regeneration, and this, of course, is where there will be an opportunity to ensure that this can dovetail alongside the LDP developments. But, if you look at the opportunity we've got—and of course the Minister for Communities and Tackling Poverty will recognise this—it's a partnership between the Cardiff capital region and the Welsh Government to look strategically at housing and regeneration, but also to look at a whole range of opportunities that relate to the integrated public-private housing offer, energy, renewable-energy-led regeneration in housing programmes, and also in terms of supporting enterprise and business growth.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig edrych y tu hwnt i'r metro, yn ogystal, ar bob un o'r agweddau eraill ar y fargen ddinesig, nid yn unig o ran datblygu sgiliau, datblygu tai ac adfywio, a dyma, wrth gwrs, lle y bydd cyfle i sicrhau y gall hyn gydblethu â datblygiadau'r Cynllun Datblygu Lleol. Ond os edrychwch ar y cyfle sydd gennym—ac wrth gwrs, bydd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn cydnabod hyn—mae'n bartneriaeth rhwng prifddinas-ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru i edrych yn strategol ar dai ac adfywio, ond i edrych hefyd ar ystod eang o gyfleoedd sy'n ymwneud â'r cynnig tai cyhoeddus-preifat integredig, ynni, adfywio a arweinir gan ynni adnewyddadwy mewn rhaglenni tai, a hefyd o ran cefnogi twf menter a busnes.

So, I think developing a skilled workforce and tackling unemployment is going to be driven—again, we've got the regional transport authority, we've got, now, the regional skills and employment board, and they will all help to make sure that this develops together and is integrated. But it is important that we see a real opportunity for investing in innovation and the digital network. And, in fact, the aspiration is for the region to extend the arc of innovation that runs along the M4 corridor into the Cardiff capital region.

Felly, rwy'n credu y bydd datblygu gweithlu medrus a mynd i'r afael â diweithdra yn cael ei ysgogi—unwaith eto, mae gennym yr awdurdod trafnidiaeth rhanbarthol, mae gennym y bwrdd sgiliau a chyflogaeth ranbarthol yn awr, a byddant i gyd yn helpu i sicrhau bod hyn yn datblygu gyda'i gilydd ac yn integredig. Ond mae'n bwysig ein bod yn gweld cyfle go iawn i fuddsoddi mewn arloesi ac yn y rhwydwaith digidol. Ac mewn gwirionedd, y dyhead yw gweld y rhanbarth yn ymestyn y bwa arloesi sy'n rhedeg ar hyd coridor yr M4 i mewn i brifddinas-ranbarth Caerdydd.

15:33

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much.

Diolch yn fawr iawn.

15:33

## 4. Cyfnod 4 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

## 4. Stage 4 of the Public Health (Wales) Bill

Y Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 4, which is the Stage 4 of the Public Health (Wales) Bill. And I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.

Symudwn yn awr at eitem 4, sef Cyfnod 4 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). A galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Mark Drakeford.

Cynnig NDM6015 Mark Drakeford

Motion NDM6015 Mark Drakeford

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

Approves the Public Health (Wales) Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:33

### Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Lywydd. Diolch i chi am y cyfle i gyflwyno pedwerydd cam, a cham olaf, Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) gerbron y Cynulliad heddiw. Mae'r Bil wedi cael taith hir i gyrraedd y pwynt hwn, o Bapur Gwyrdd dan arweiniad fy rhagflaenydd, Lesley Griffiths, i Bapur Gwyn, a thrwy broses graffu fanwl yma yn y Cynulliad. Mae heddiw yn nodi diwedd y daith honno.

Thank you very much, Presiding Officer. Thank you for the opportunity to introduce this Stage 4 debate, the final stage of the Public Health (Wales) Bill, before the Assembly today. The Bill has undergone a lengthy journey to get to this point, from a Green Paper led by my predecessor, Lesley Griffiths, to a White Paper, and through a detailed scrutiny process here in the Assembly. Today marks the end of that journey.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i gadeiryddion ac aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a'r Pwyllgor Cyllid, am eu gwaith craffu trylwyr ar y Bil. Mae eu gwaith wedi bod yn hanfodol i ffurfio'r Bil sydd ger eich bron heddiw. Yn yr un modd, hoffwn ddiolch i'r ystod eang o randdeiliaid am eu cymorth drwy gydol y broses, ar draws pob un o'r ystod eang o faterion sy'n cael eu cwmpasu gan y Bil hwn.

I'd like to start by thanking the chairs and members of the Health and Social Care Committee, the Constitutional and Legislative Affairs Committee, and the Finance Committee for their thorough scrutiny work on the Bill. Their work has been crucial in forming the Bill that is before us today. Likewise, I would like to thank the broad range of stakeholders for their assistance throughout this process across each of the broad range of issues dealt with within this Bill.

The result of all that work and all that effort has been a high level of consensus for most of the practical measures that the Bill contains—measures that I believe have been strengthened by that process of scrutiny. This is a Bill that, as a result of all of that, now offers protections for children from the evils of tobacco; protections for those who undergo special procedures against the harms of infection and for children and young people against the potential harms of intimate body piercing; protections for older people in particular from the public health damage that comes when there are insufficient toilets for use by the public; protections for the whole community and especially for the most disadvantaged, which come from maximising the contribution of our community pharmacies and from ensuring that health is taken into account in decision making through health impact assessments.

Canlyniad yr holl waith hwnnw a'r holl ymdrechion hynny yw lefel uchel o gonsensws i'r rhan fwyaf o'r mesurau ymarferol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil—mesurau y credaf eu bod wedi'u cryfhau gan y broses honno o graffu. Dyma Fil sydd, o ganlyniad i hynny oll, bellach yn cynnig diogelwch i blant rhag niwed tybaco; diogelwch i'r rhai sy'n cael triniaethau arbennig rhag niweidiau haint, ac i blant a phobl ifanc rhag y niwed posibl yn sgil rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff; diogelwch i bobl hŷn yn arbennig rhag y niwed iechyd y cyhoedd sy'n deillio o brinder toiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd; diogelwch i'r gymuned gyfan ac yn enwedig i'r rhai mwyaf difreintiedig, sy'n dod o fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad ein fferyllfeydd cymunedol ac o sicrhau bod iechyd yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau drwy asesiadau o'r effaith ar iechyd.

Against all that background of agreement, Llywydd, there's been only one aspect of the Bill that has been controversial throughout. The background to it has been the great progress that we have made over many decades in de-normalising smoking, particularly for children and young people growing up in the smoke-free environments that we have succeeded in creating.

Yn erbyn y cefndir hwnnw o gytundeb, Lywydd, un agwedd yn unig ar y Bil sydd wedi bod yn ddadleuol drwyddo draw. Yn gefndir iddo mae'r cynnydd mawr rydym wedi'i wneud dros sawl degawd yn gwneud ysmygu'n llai normal, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny yn yr amgylcheddau di-fwg rydym wedi llwyddo i'w creu.

The proposals in relation to the use of nicotine inhaling devices in public places were always designed to maintain and sustain that position. That is why, having considered carefully the report of the Health and Social Care Committee, amendments were brought forward at Stages 2 and 3 to create a more precise, explicit and focused regime. This regime is founded on the principle of protecting children in Wales by limiting the restrictions on NIDs to places where children are most likely to be present and therefore where the risks of re-normalising smoking are greatest. The balance that we've always sought is one that allows the potential benefits of these devices for smoking cessation to be preserved while acting to prevent the potential harm they could cause. If this Bill is passed today, anyone wishing to give up smoking will be able to substitute a conventional cigarette with an e-cigarette anywhere and everywhere a conventional cigarette can be used.

Roedd y cynigion mewn perthynas â'r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin mewn mannau cyhoeddus bob amser wedi'u cynllunio i gynnal y safbwynt hwnnw. Dyna pam, ar ôl ystyried adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ofalus, y cyflwynwyd gwelliannau yng Nghyfnodau 2 a 3 er mwyn creu trefn fwy manwl gywir, eglur ag iddi ffocws. Mae'r drefn yn seiliedig ar yr egwyddor o ddiogelu plant yng Nghymru drwy gyfyngu'r cyfyngiadau ar ddyfeisiau mewnanadlu nicotin i leoedd lle y mae plant yn fwyaf tebygol o fod yn bresennol, ac felly lle y mae'r risg o ailnormaleiddio ysmygu ar ei huchaf. Mae'r cydbwysedd rydym bob amser wedi'i geisio yn un sy'n caniatáu i fanteision posibl y dyfeisiau hyn ar gyfer rhoi'r gorau i ysmygu i gael eu cadw, gan weithredu i atal y niwed posibl y gallent eu hachosi. Os caiff y Bil hwn ei basio heddiw, bydd unrhyw un sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu yn gallu cyfnewid sigarét gonfensiynol am e-sigarét yn lle bynnag ac ym mhob man y gellir defnyddio sigarét gonfensiynol.

I'm grateful to those Members who have been willing to listen to the arguments on this issue and for their constructive engagement with them. As a result, Llywydd, I'm pleased to present today a Bill that has been improved and strengthened in many material respects, but which also retains its core original ambitions. Across its broad range of provisions, it makes important contributions to public health in Wales, which I ask this Assembly to support. It puts in place important protections for the public; it delivers real improvements in the facilities and services available for people in Wales; it protects the health and wellbeing of children; and it helps prevent avoidable harm. I commend the Bill to the Assembly.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelodau hynny sydd wedi bod yn barod i wrando ar y dadleuon ynglŷn â'r mater hwn ac am eu cyfraniad adeiladol. O ganlyniad, Lywydd, rwy'n falch o gyflwyno Bil heddiw sydd wedi'i wella a'i gryfhau mewn sawl ffordd berthnasol, ond sydd hefyd yn cadw ei uchelgeisiau gwreiddiol craidd. Ar draws ei ystod eang o ddarpariaethau, mae'n gwneud cyfraniadau pwysig i iechyd y cyhoedd yng Nghymru, ac rwy'n gofyn i'r Cynulliad hwn eu cefnogi. Mae'n rhoi mesurau diogelwch pwysig ar waith ar gyfer y cyhoedd; mae'n darparu gwelliannau go iawn yn y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl yng Nghymru; mae'n diogelu iechyd a lles plant; ac mae'n helpu i atal niwed y gellir ei osgoi. Cymeradwyaf y Bil i'r Cynulliad.

15:38

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Given that this is one of the last pieces of debate in the Assembly, I want to put on record, before the end of the day, my thanks to the health Minister and his predecessors for the way in which they've engaged with me and my party over the duration of the fourth Assembly. I hope that we've provided appropriate challenge at times and managed to secure consensus on other occasions too in trying to move the health agenda forward here in Wales. I'm very proud of what has been achieved on a cross-party basis, for example, particularly on mental health, in the Assembly over the years.

O ystyried bod hon yn un o'r dadleuon olaf yn y Cynulliad, rwyf am gofnodi, cyn diwedd y dydd, fy niolch i'r Gweinidog iechyd a'i ragflaenwyr am y ffordd y maent wedi ymwneud â mi a fy mhlaid drwy gydol y pedwerydd Cynulliad. Rwy'n gobeithio ein bod wedi darparu her briodol ar adegau ac wedi llwyddo i sicrhau consensws ar adegau eraill hefyd wrth geisio symud yr agenda iechyd yn ei blaen yma yng Nghymru. Rwy'n falch iawn o'r hyn a gyflawnwyd ar sail drawsbleidiol, er enghraifft, yn arbennig ar iechyd meddwl, yn y Cynulliad dros y blynyddoedd.

But, of course, the subject matter today is the public health Bill that is before us. As the Minister has quite rightly said, there's an awful lot in this Bill on which there is consensus across the benches in the Senedd in terms of many of the provisions that are in the Bill around pharmaceutical services, public conveniences, the special procedures and the harms that can be caused by those, smoking restrictions, the need for tobacco retailer registers, et cetera, et cetera. But there is this one element of the Bill on which the Minister and I will never be able to agree at present, and that is the restrictions that the Minister is seeking to impose upon the use of e-cigarettes in some public places. For that reason, I regret, Minister, that we will, as a Welsh Conservative group, today be voting against the Bill before us; not because we do not feel that there are merits in the other parts of the Bill that we want to realise, but simply because, regrettably, these other elements of the Bill have not been separated from the Bill as a whole. We feel that it would have been much better to bring forward two Bills, one that dealt with the e-cigarettes in isolation, and another that dealt with the other aspects of public health that this particular piece of legislation seeks to address.

Ond wrth gwrs, y pwnc heddiw yw'r Bil iechyd y cyhoedd sydd ger ein bron. Fel y dywedodd y Gweinidog yn gwbl briodol, mae llawer iawn yn y Bil hwn y ceir consensws arno ar draws y meinciau yn y Senedd, o ran llawer o'r darpariaethau sydd yn y Bil ynglŷn â gwasanaethau fferyllol, cyfleusterau cyhoeddus, triniaethau arbennig a'r niwed y gellir ei achosi gan y rheini, cyfyngiadau ar ysmygu, yr angen am gofrestrau manwerthu tybaco, ac yn y blaen. Ond mae un elfen o'r Bil na fydd y Gweinidog a minnau fyth yn gallu cytuno arni ar hyn o bryd, a honno yw'r cyfyngiadau y mae'r Gweinidog yn ceisio eu gosod ar y defnydd o e-sigaréts mewn rhai mannau cyhoeddus. Am y rheswm hwnnw, rwy'n gresynu, Weinidog, y byddwn, fel grŵp y Ceidwadwyr Cymreig, heddiw yn pleidleisio yn erbyn y Bil ger ein bron; nid am nad ydym yn teimlo bod rhinweddau yn y rhannau eraill o'r Bil rydym am eu gwireddu, ond yn syml oherwydd, yn anffodus, nid yw'r elfennau eraill hyn o'r Bil wedi'u gwahanu oddi wrth y Bil yn ei gyfanrwydd. Rydym yn teimlo y byddai cyflwyno dau Fil wedi bod yn llawer gwell, un i ymdrin ag e-sigaréts ar eu pen eu hun, ac un arall i ymdrin â'r agweddau eraill ar iechyd y cyhoedd y mae'r ddeddfwriaeth benodol hon yn ceisio mynd i'r afael â hwy.

Of course, there were other amendments that we tabled during the course of the Stage 2 and Stage 3 proceedings on this piece of legislation that we would have liked the Government to have been able to support. We weren't able to persuade you to agree with those amendments, but we would be able to support all of these other parts of the Bill if they were brought forward in a separate piece of legislation. The fact is that they're not, and that's why we're going to be voting against.

Wrth gwrs, roedd yna welliannau eraill a gyflwynwyd gennym yn ystod trafodion Cyfnod 2 a Chyfnod 3 y ddeddfwriaeth y byddem wedi hoffi pe bai'r Llywodraeth wedi gallu eu cefnogi. Ni lwyddasom i'ch perswadio i gytuno â'r gwelliannau hynny, ond byddem yn gallu cefnogi pob un o'r rhannau eraill hyn o'r Bil pe baent wedi cael eu cyflwyno mewn deddfwriaeth ar wahân. Y ffaith yw na ddigwyddodd hynny, a dyna pam y byddwn yn pleidleisio yn erbyn.

As I said at the outset, I do not feel that a war on e-cigarettes is the right approach. It's very clear that many people are deriving significant health benefits as a result of making the switch to e-cigarettes, and anything that gets a mixed message out to those individuals who are considering making the switch, I think, is something that would be detrimental to public health as a whole here in Wales. Of course, we don't want to encourage young people to take up the use of e-cigarettes, of course we don't want young people to take up smoking either, but I think that the evidence at the moment just isn't there to support these sorts of measures going forward, and for that reason, I'm afraid, we'll be voting against. But I do want to thank the Minister for the way that he has listened, and the way that we have been able to engage on the other parts of the Bill before us.

Fel y dywedais ar y cychwyn, nid wyf yn teimlo mai rhyfel ar e-sigaréts yw'r ymagwedd gywir. Mae'n amlwg fod iechyd llawer o bobl yn cael budd sylweddol o ganlyniad i newid i e-sigaréts, ac mae unrhyw beth sy'n rhoi neges gymysg i'r unigolion hynny sy'n ystyried gwneud y newid, rwy'n meddwl, yn rhywbeth a fyddai'n niweidiol i iechyd y cyhoedd yn gyffredinol yma yng Nghymru. Wrth gwrs, nid ydym am annog pobl ifanc i ddechrau defnyddio e-sigaréts, wrth gwrs nad ydym am i bobl ifanc ddechrau ysmygu ychwaith, ond nid wyf yn credu bod tystiolaeth ar hyn o bryd i gefnogi mesurau o'r fath wrth symud ymlaen, ac am y rheswm hwnnw, yn anffodus, byddwn yn pleidleisio yn erbyn. Ond rwyf am ddiolch i'r Gweinidog am y ffordd y mae wedi gwrando, a'r ffordd rydym wedi gallu ymwneud ar y rhannau eraill o'r Bil ger ein bron.

15:42

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel eraill, rwy'n ddiolchgar iawn i bawb a roddodd o'u hamser i roi tystiolaeth i'r pwyllgor ar y meysydd yma yn ystod Cyfnod 1. Mae'r tystion hynny wedi bod yn ddylanwadol iawn ar sut yr ydym ni fel aelodau'r pwyllgor wedi dod i farn ar wahanol agweddau o'r Mesur o'n blaenau ni heddiw. Mae yna gamau pwysig yn y ddeddfwriaeth o'n blaenau ni heddiw. Mae yna ymestyn ar y mannau a fydd o dan waharddiad ar gyfer ysmygu tybaco, mae'r broses o drwyddedu a rheoleiddio busnesau tatŵ a thriniaethau arbennig, a hefyd, yn dilyn y gwelliannau a basiwyd yr wythnos diwethaf yn ystod Cyfnod 3, y gofyniad y bydd yna asesiadau impact iechyd ar ddatblygiadau newydd.

Like others, I am very grateful to everyone who took the time to give evidence to the committee on these issues during Stage 1. The evidence of those witnesses has been very influential in terms of how we, as members of the committee, have come to our conclusions about different aspects of the Bill before us. Important steps are taken in the legislation before us today. It extends the prohibition for tobacco smoking to new areas, and there is the process for licensing and regulating businesses that undertake tattooing and special procedures, and also, as a result of the amendments passed at Stage 3 last week, there's the requirement that health impact assessments be undertaken in relation to new developments.

Mater sydd wedi rhannu barn yn y pwyllgor cyn nawr a heddiw, bellach, yn y Cynulliad yw'r gwaharddiad ar ddefnyddio dyfeisiadau mewnanadlu nicotin mewn mannau cyhoeddus penodol. Dywedais o gychwyn y broses yma o scrwtineiddio'r ddeddfwriaeth yma y dylid gwahanu allan y darn yma o ddeddfwriaeth o weddill y camau a'r mesurau a oedd yn y ddeddfwriaeth, ac fe fyddai'n dda o beth y prynhawn yma, rwy'n meddwl, os byddai'r gwahanu hynny wedi digwydd, fel yr amlinellodd Darren Millar jest nawr.

A matter that has divided opinion in committee before now, and today too in the Assembly, is the prohibition on the use of nicotine inhaling devices in specific public places. I said from the beginning of this process of scrutinising this legislation that we should be separating this part of the legislation out from the remainder of the steps contained within the legislation, and it would have been a very good thing this afternoon if that separation had taken place, just as outlined by Darren Millar.

Mae'r ddeddfwriaeth sydd o'n blaenau ni heddiw yn rhestru rhestr gyfyngedig o fannau cyhoeddus i weld gwaharddiad dyfeisiadau mewnanadlu nicotin, ac o basio'r ddeddfwriaeth yma heddiw, fe fydd y defnydd o ddyfeisiadau mewnanadlu nicotin yn gyfreithlon ac yn bosibl mewn lot fawr o leoliadau lle na fydd ysmygu sigarét yn gyfreithlon.

The legislation before us today lists a restricted list of public places where these NIDs will be prohibited, and in passing the legislation this afternoon, the use of NIDs will be legal and possible in many locations where cigarette smoking would not be allowed.

Ond, cam bach yw'r ddeddfwriaeth yma heddiw i wella yn sylweddol iechyd y cyhoedd, ac mae yna lot fawr o gamau pellach sy'n weddill i'r Cynulliad nesaf i fod yn cyflawni. Heddiw, fel mae'n digwydd, mae George Osborne wedi cyhoeddi ei fwriad i gyflwyno'r 'pop tax' yn ei gyllideb, a bydd yn fater i'r Llywodraeth nesaf ac i'r Cynulliad nesaf i ddadlau'r achos gyda'r Trysorlys a ddylai'r 'pop tax' fod yn bolisi i Gymru ac i'r Cynulliad yma, ac i greu llinell refeniw i drysorlys Cymru yn hytrach na Thrysorlys George Osborne. Beth bynnag, dadl ar gyfer y pumed Cynulliad yw honno. Am heddiw, y ddeddfwriaeth o'n blaenau ni yw'r ddeddfwriaeth iechyd y cyhoedd, am gymeradwyaeth neu beidio yn nes ymlaen y prynhawn yma.

But this legislation is a very small step towards improving significantly public health, and there are a great many further steps that are for the next Assembly to take. As it happens, today George Osborne has announced his intention to introduce the pop tax in his budget, and it will be a matter for the next Government, and for the next Assembly, to make the case with the Treasury as to whether the pop tax should be a policy for Wales and this Assembly, creating a revenue line for the Welsh treasury rather than George Osborne's Treasury. But that's an argument for the fifth Assembly. For today, the legislation before us is the Public Health (Wales) Bill, to be approved or not later on this afternoon.

15:45

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Could I begin by thanking the Minister for his opening comments this afternoon and to echo them in regard to the thanks that are due to all those that have worked so hard during the passage of this legislation to date—all those civil servants within the Minister's own department and those outside of the Assembly? But, in particular, I'd like to thank David Rees, the Chair of the Health and Social Care Committee, and super-sub Lynne Neagle, who chaired a crucial meeting that deliberated the Bill. It was not an easy thing to do, to be able to bring the committee together to be able to agree a report, and David and Lynne showed great skill in being able to facilitate that over very many hours of deliberation.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Gweinidog am ei sylwadau agoriadol y prynhawn yma, a'u hadleisio o ran y diolch sy'n ddyledus i bawb sydd wedi gweithio mor galed yn ystod taith y ddeddfwriaeth hon hyd yn hyn—yr holl weision sifil hynny yn adran y Gweinidog ei hun a'r rheini y tu allan i'r Cynulliad. Ond yn benodol, hoffwn ddiolch i David Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r dirprwy gwych Lynne Neagle, a gadeiriodd gyfarfod hollbwysig a fu'n trafod y Bil. Nid oedd yn beth hawdd i'w wneud, gallu dod â'r pwyllgor at ei gilydd i allu cytuno ar adroddiad, a dangosodd David a Lynne ddawn arbennig iawn o ran gallu hwyluso hynny dros oriau hir iawn o drafod.

I think, Presiding Officer, it is right that the Government has taken time in its legislative programme to focus on the issue of public health. There is much to do, but I also recognise that legislation only has some role to play in that. There is much we need to do outside the context of legislation that we must do if we are to have a new approach to public health delivery here in Wales.

Rwy'n meddwl, Lywydd, ei bod yn iawn fod y Llywodraeth wedi rhoi amser yn ei rhaglen ddeddfwriaethol i ganolbwyntio ar iechyd y cyhoedd. Mae llawer i'w wneud, ond rwyf hefyd yn cydnabod mai rôl fach yn unig sydd gan ddeddfwriaeth i'w chwarae yn hynny. Mae llawer sydd angen i ni ei wneud y tu allan i gyd-destun deddfwriaeth sy'n rhaid i ni ei wneud os ydym am gael ymagwedd newydd at ddarparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd yma yng Nghymru.

Personally, my party would like to see a much greater role for local government in the field of public health. The way in which they design and deliver services on the ground can make a massive difference to the health of our nation. I think that is a challenge for the incoming Government, to look to see what we can do to have a new renaissance in public health. It's difficult for Governments to do that. The pressure is always on delivery in the here and now and it's difficult to invest a significant resource in programmes that hopefully will deliver change much further down the line, long after that particular Minister or administration has left the field of play, so to speak.

Yn bersonol, byddai fy mhlaid yn hoffi gweld rôl lawer mwy i lywodraeth leol ym maes iechyd y cyhoedd. Mae'r modd y maent yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau ar lawr gwlad yn gallu gwneud gwahaniaeth enfawr i iechyd ein cenedl. Credaf mai her i'r Llywodraeth newydd fydd edrych i weld beth y gallwn ei wneud i gael dadeni newydd ym maes iechyd y cyhoedd. Mae'n anodd i Lywodraethau wneud hynny. Mae'r pwysau bob amser ar ddarparu yn y presennol ac mae'n anodd buddsoddi adnoddau sylweddol mewn rhaglenni a fydd, gobeithio, yn cyflawni newid yn llawer pellach i'r dyfodol, ymhell ar ôl i'r Gweinidog neu'r weinyddiaeth benodol adael y llwyfan, fel petai.

I think we need particularly to focus our efforts on many of our poorer communities. At the beginning of this term of the National Assembly, the Government did set itself the target of narrowing the health gap between those of our poorest citizens and those of our more well-off citizens. The Government has made progress with regard to that in terms of education, but, when it comes to the health inequalities that we see within our nation, they are deeply embedded. I'm sure the Minister would be the first to admit we haven't made the progress that he would have liked to over the last five years. Therefore, we need to look again at what we can do within those specific communities and within specific areas of Wales to empower those people to take more control over their health and to address the behaviours that lead them to make and choose unhealthy lifestyles.

Rwy'n credu bod angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion yn benodol ar lawer o'n cymunedau tlotach. Ar ddechrau'r tymor Cynulliad hwn, gosododd y Llywodraeth darged i'w hun i leihau'r bwlch iechyd rhwng ein dinasyddion tlotaf a'n dinasyddion mwy cefnog. Mae'r Llywodraeth wedi symud ymlaen ar hynny ym maes addysg, ond o ran yr anghydraddoldebau iechyd a welwn yn ein gwlad, maent wedi gwreiddio'n ddwfn. Rwy'n siŵr mai'r Gweinidog fyddai'r cyntaf i gyfaddef nad ydym wedi symud ymlaen cymaint ag y byddai wedi hoffi dros y pum mlynedd ddiwethaf. Felly, mae angen i ni edrych eto ar yr hyn y gallwn ei wneud yn y cymunedau penodol hynny ac mewn ardaloedd penodol o Gymru i rymuso'r bobl hyn i reoli eu hiechyd a mynd i'r afael â'r ymddygiadau sy'n eu harwain i wneud a dewis ffyrdd afiach o fyw.

I am particularly a fan of the scheme introduced in Philadelphia, working in some of the most deprived communities in America, with a focus on schools, young people and access to good, healthy, fresh food at affordable prices within communities, which allows people to get to those shops, and what we can do to do something similar here in Wales.

Rwy'n arbennig o hoff o'r cynllun a gyflwynwyd yn Philadelphia, gan weithio yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn America, a chanolbwyntio ar ysgolion, pobl ifanc a mynediad at fwyd da, iach a ffres am brisiau fforddiadwy o fewn cymunedau, cynllun sy'n caniatáu i bobl gyrraedd y siopau hynny, a'r hyn y gallwn ei wneud i gyflawni rhywbeth tebyg yma yng Nghymru.

There is much in the Bill that I agree with, but of course the issue of nicotine inhaling devices—vaping—for me, unfortunately, is a show stopper in this regard. As I said in the debate last week, a public health Bill should contain measures that increase the health and wellbeing of a nation and its population. I truly am of the opinion that the approach taken on vaping will not enhance public health in Wales. Actually, it will endanger potential public health gains. [Interruption.] Of course.

Mae llawer yn y Bil rwy'n cytuno ag ef, ond wrth gwrs, mae mater dyfeisiau mewnanadlu nicotin—fepio—i mi, yn anffodus, yn faen tramgwydd yn hyn o beth. Fel y dywedais yn y ddadl yr wythnos diwethaf, dylai Bil iechyd y cyhoedd gynnwys mesurau sy'n gwella iechyd a lles gwlad a'i phoblogaeth. Rwy'n bendant o'r farn na fydd yr ymagwedd tuag at fewnanadlu yn gwella iechyd y cyhoedd yng Nghymru. A dweud y gwir, bydd yn peryglu cynnydd posibl yn iechyd y cyhoedd. [Torri ar draws.] Wrth gwrs.

15:49

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Minister said that people will be able to vape everywhere that they can smoke conventional cigarettes. Would you agree that the Minister has completely missed the point in that we have to make it tactically advantageous for people to choose an option that is not without its problems entirely but is healthier as an alternative to smoking tobacco?

Dywedodd y Gweinidog y bydd pobl yn gallu mewnanadlu ym mhob man lle y gallant ysmygu sigaréts confensiynol. A fyddech yn cytuno bod y Gweinidog wedi methu'r pwynt yn llwyr o ran bod yn rhaid i ni ei wneud yn dactegol fanteisiol i bobl ddewis opsiwn nad yw heb ei broblemau yn gyfan gwbl, ond sy'n iachach fel dewis yn lle ysmygu tybaco?

15:50 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would agree, Rhun, that not only have we not created a positive advantage for people to seek a harm-reduction method—and that is what e-cigarettes are: they are a harm-reduction method; we use harm-reduction methods in many other aspects of health, but we haven't done it in this case. The issue is not only that, but that we will positively put people off taking that choice, because we will, if we pass this legislation today, equate smoking with vaping, as exactly the same thing, and the evidence shows that that puts people off.

Byddwn yn cytuno, Rhun, nid yn unig nad ydym wedi creu mantais gadarnhaol i bobl geisio dull sy'n lleihau niwed—a dyna beth yw e-sigaréts: maent yn ddull o leihau niwed; rydym yn defnyddio dulliau lleihau niwed mewn llawer o agweddau eraill ar iechyd, ond nid ydym wedi gwneud hynny yn yr achos hwn. Nid yn unig hynny, ond byddwn yn sicr o atal pobl rhag gwneud y dewis hwnnw, gan y byddwn, os ydym yn pasio'r ddeddfwriaeth hon heddiw, yn gwneud mewnanadlu yn gyfystyr ag ysmygu, fel yr un peth yn union, ac mae'r dystiolaeth yn dangos bod hynny'n atal pobl rhag defnyddio'r dyfeisiau hyn.

Now, earlier today, one Minister described Plaid Cymru as a 'cheap date'. Now, I don't know whether the deal to pass this legislation is cheap or not, but I do believe it will not enhance public health measures, and my group will not support the legislation as drafted.

Nawr, yn gynharach heddiw, disgrifiodd un Gweinidog Blaid Cymru fel 'dêt rhad'. Nawr, nid wyf yn gwybod a yw'r fargen i basio'r ddeddfwriaeth hon yn rhad ai peidio, ond rwy'n credu na fydd yn gwella mesurau iechyd y cyhoedd, ac ni fydd fy ngrŵp yn cefnogi'r ddeddfwriaeth fel y'i drafftiwyd.

15:50 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I can assure you, Kirsty, I'm not a cheap night out. I won't be voting in favour—. If any of you were considering asking me, that is. [Laughter.] I'm not in favour of voting for this Bill today. Throughout the scrutiny process, I've made my reasons quite clear and although I've listened to the Minister's arguments—initially for treating vaping devices identically to cigarettes and then, following his slight climb-down, for significantly restricting their use—I have remained unconvinced by his reasoning.

Wel, gallaf eich sicrhau, Kirsty, nid wyf yn noson rad allan. Ni fyddaf yn pleidleisio o blaid—. Os oedd unrhyw un ohonoch yn ystyried gofyn i mi, hynny yw. [Chwerthin.] Nid wyf o blaid pleidleisio dros y Bil hwn heddiw. Drwy gydol y broses graffu, rwyf wedi gwneud fy rhesymau yn eithaf eglur ac er fy mod wedi gwrando ar ddadleuon y Gweinidog—i ddechrau dros drin dyfeisiau mewnanadlu yn union fel sigaréts ac yna, wedi iddo gamu'n ôl fymryn bach, dros gyfyngu ar eu defnydd yn sylweddol—rwy'n dal i fod heb gael fy narbwyllo gan ei resymeg.

Last week, he wouldn't take an intervention from me when he cited evidence that nicotine inhaling devices have been found to be the least effective method in helping people stop smoking. Now, I am aware of the meta analysis study he is referencing there, and I'm also aware that the usefulness of that study has been publicly and comprehensively debunked. Now I don't know if the Minister or any of you here ever listen to the 'More or Less' Radio 4 programme, presented by Tim Harford, but they pointed out that, when drawing on the studies for that paper, no effort was made to distinguish between those who were using nicotine inhaling devices to give up and those who were using them to cut down on their smoking but were not attempting to stop completely. So, included in the figures used by the Government are people not trying to give up tobacco. They might be using that device while they're travelling, while they're in the car, while they're with other people, at home, but they are not trying to give up tobacco. Without making that distinction, the study cannot be relied upon to make sweeping statements about the effectiveness of devices.

Yr wythnos diwethaf, ni adawodd i mi ymyrryd pan ddyfynnodd dystiolaeth yn dangos mai dyfeisiau mewnanadlu nicotin yw'r dull lleiaf effeithiol o helpu pobl i roi'r gorau i ysmygu. Nawr, rwy'n ymwybodol o'r astudiaeth fetaddadansoddi y mae'n cyfeirio ati, ac rwyf hefyd yn ymwybodol bod defnyddioldeb yr astudiaeth honno wedi'i danseilio'n gyhoeddus ac yn gynhwysfawr. Nawr, nid wyf yn gwybod a yw'r Gweinidog neu unrhyw un ohonoch yma erioed wedi gwrando ar y rhaglen 'More or Less' ar Radio 4, a gyflwynir gan Tim Harford, ond roeddent yn nodi, wrth bwyso ar astudiaethau ar gyfer y papur hwnnw, na wnaed unrhyw ymdrech i wahaniaethu rhwng y rhai a oedd yn defnyddio dyfeisiau mewnanadlu nicotin i roi'r gorau i ysmygu a'r rheini oedd yn eu defnyddio i dorri i lawr ar eu hysmygu ond nad oeddent yn ceisio rhoi'r gorau yn gyfan gwbl. Felly, wedi'u cynnwys yn y ffigurau a ddefnyddir gan y Llywodraeth, mae pobl nad ydynt yn ceisio rhoi'r gorau i dybaco. Efallai eu bod yn defnyddio'r ddyfais pan fyddant yn teithio, pan fyddant yn y car, pan fyddant gyda phobl eraill, yn y cartref, ond nid ydynt yn ceisio rhoi'r gorau i dybaco. Heb wahaniaethu yn y fath fodd, ni ellir dibynnu ar yr astudiaeth i wneud datganiadau ysgubol am effeithiolrwydd dyfeisiau.

It was, of course, the Minister's own choice to cite that particular study, but I have to say it added nothing to the knowledge on this subject, other than that the Government evidence is poor, and that's because the body of evidence is still growing. Until much more work is done, we can't come to any concrete conclusions. Last week, the Minister also dismissed the position of those who oppose his ban as believing that e-cigarettes are entirely benign—and I'm quoting from him there. Now, I have said many times—and we've just heard from Kirsty—that I wouldn't encourage anybody to think that drawing chemicals into your lungs could possibly be considered a wholly healthy choice, and I've said that every single time I've spoken on this subject. But it's been disappointing to watch the Government being so dismissive of the amount of evidence produced by numerous organisations and the powerful personal testimonies of those who have successfully given up smoking using nicotine inhaling devices.

Wrth gwrs, dewis y Gweinidog ei hun oedd dyfynnu'r astudiaeth benodol honno, ond mae'n rhaid i mi ddweud nad ychwanegodd unrhyw beth at y wybodaeth am y pwnc hwn, ac eithrio bod tystiolaeth y Llywodraeth yn wael, ac mae hynny oherwydd bod y corff o dystiolaeth yn dal i dyfu. Hyd nes y gwneir llawer mwy o waith, ni allwn ddod i unrhyw gasgliadau pendant. Yr wythnos diwethaf hefyd, diystyrodd y Gweinidog safbwynt y rhai sy'n gwrthwynebu ei waharddiad fel pe baent yn credu bod e-sigaréts yn gwbl ddiniwed—ac rwy'n ei ddyfynnu ef yn y fan honno. Nawr, rwyf wedi dweud droeon—ac rydym newydd glywed gan Kirsty—na fyddwn yn annog unrhyw un i feddwl y gellid ystyried bod anadlu cemegau i mewn i'ch ysgyfaint yn ddewis cwbl iach mewn unrhyw fodd, ac rwyf wedi dweud hynny bob tro y siaradais ar y pwnc hwn. Ond siomedig oedd gweld y Llywodraeth yn bod mor ddiystyriol o'r swm o dystiolaeth a gynhyrchwyd gan nifer o sefydliadau a thystiolaethau personol pwerus y rheini sydd wedi llwyddo i roi'r gorau i ysmygu drwy ddefnyddio dyfeisiau mewnanadlu nicotin.

There probably is cause for the Government to legislate on this matter—the advertising, for example, or the regulation—but the time to do so is after a thoughtful consultation process and not rushed through in a Bill about other things—other things, incidentally, that I'd also like to support, but putting those things at risk, again, is the Minister's own choice. It was his choice to put it in this Bill. I think the Minister has made few friends with this Bill. I have received many passionate e-mails from individuals who are opposed to it, compared to the three identical template e-mails from those who were in favour, and I'm saddened to see the Welsh Government pass a Bill that's so out of touch, I think, with public opinion. I hope those Members who are considering supporting you are persuaded now that this is a matter better left until there's evidence available to make a judgment.

Mae yna achos i'r Llywodraeth ddeddfu ynglŷn â'r mater hwn yn ôl pob tebyg—yr hysbysebu, er enghraifft, neu'r rheoleiddio—ond yr adeg i wneud hynny yw ar ôl proses ymgynghori bwyllog ac nid ei ruthro drwodd mewn Bil am bethau eraill—pethau eraill, gyda llaw, yr hoffwn innau hefyd eu cefnogi, ond dewis y Gweinidog ei hun, unwaith eto, yw rhoi'r pethau hynny mewn perygl. Ei ddewis ef oedd ei roi yn y Bil hwn. Nid wyf yn meddwl bod y Gweinidog wedi gwneud llawer o ffrindiau gyda'r Bil hwn. Rwyf wedi derbyn llawer o negeseuon e-bost angerddol gan unigolion sy'n ei wrthwynebu, o gymharu â'r tri e-bost templed yr un fath yn union gan y rheini a oedd o blaid, ac rwy'n drist o weld Llywodraeth Cymru yn pasio Bil sy'n gwbl groes, rwy'n meddwl, i farn y cyhoedd. Rwy'n gobeithio bod yr Aelodau sy'n ystyried eich cefnogi wedi'u perswadio yn awr fod hwn yn fater sy'n well ei adael hyd nes y bydd tystiolaeth ar gael i allu barnu.

15:54

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Health and Social Services to reply to the debate—Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymateb i'r ddadl—Mark Drakeford.

15:54

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Lywydd. Well, this Bill is certainly not the end of the story as far as public health in Wales is concerned, neither legislatively nor fiscally, nor practically. There are many things that a future Government will want to do to continue to address the very real public health challenges that our population, just as other populations, too, face. But it is a Bill that is full of very practical and significant measures that will make a real difference here in Wales. It is a Bill that has been improved and strengthened by the efforts of Members across this Chamber. It has health impact assessments on the face of the Bill for the first time. It extends restrictions on smoking where children are present into non-enclosed public places. It has a strengthened national perspective as far as toilets for use by the public are concerned. It protects the interests of dispensing doctors where pharmaceutical needs assessments are concerned. It has a new, precise, focused regime in relation to nicotine inhaling devices.

Diolch yn fawr, Lywydd. Wel, yn sicr, nid y Bil hwn yw diwedd y stori o ran iechyd y cyhoedd yng Nghymru, nid yn ddeddfwriaethol nac yn gyllidol, nac yn ymarferol. Mae yna lawer o bethau y bydd Llywodraeth yn y dyfodol am eu gwneud i barhau i fynd i'r afael â'r heriau real iawn i iechyd y cyhoedd y mae ein poblogaeth, yn union fel poblogaethau eraill hefyd, yn eu hwynebu. Ond mae'n Fil sy'n llawn o fesurau ymarferol ac arwyddocaol iawn a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn yma yng Nghymru. Mae'n Fil sydd wedi'i wella a'i gryfhau gan ymdrechion Aelodau ar draws y Siambr hon. Mae ganddo asesiadau effaith ar iechyd ar wyneb y Bil am y tro cyntaf. Mae'n ymestyn cyfyngiadau ar ysmygu lle y mae plant yn bresennol i fannau cyhoeddus nad ydynt yn gaeedig. Mae'n cynnwys safbwynt cenedlaethol cryfach ar doiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd. Mae'n diogelu buddiannau meddygon fferyllol mewn perthynas ag asesiadau o anghenion fferyllol. Mae ganddo drefn newydd fanwl gywir ag iddi ffocws mewn perthynas â dyfeisiau mewnanadlu nicotin.

All of those things are changes to the Bill as introduced by the Government. All of them are there because of arguments that Members across this Chamber have deployed, drawing on the expert advice that has been available throughout the passage of this Bill.

Mae pob un o'r pethau hynny yn newidiadau i'r Bil fel y'u cyflwynwyd gan y Llywodraeth. Mae pob un ohonynt yno oherwydd dadleuon y mae Aelodau ar draws y Siambr hon wedi'u cyflwyno, gan bwyso ar y cyngor arbenigol sydd wedi bod ar gael drwy gydol taith y Bil hwn.

It's now for Members to choose. It's not my choice, as Jocelyn Davies has suggested. The Bill in front of the Assembly this afternoon is the Bill that has won support in vote after vote across the floor. It is the Bill that is here because a majority of Members in this place have supported it. Some people believe that all the gains and all the protections that are there for all those different categories of our population are outweighed by one single aspect of it. I do not agree. I think Members here should think about that choice, as I'm sure they will, and, when they think it through, they will conclude that everything that this Bill delivers for children, for older people, for our disadvantaged communities, for people across Wales, is not to be set aside because of one aspect that some people here take a different view on, and on which other people, equally seriously and with equal weight of evidence on their side, take a different view. Thank you, Llywydd.

Daeth yn bryd bellach i'r Aelodau ddewis. Nid fy newis i ydyw, fel y mae Jocelyn Davies wedi'i awgrymu. Y Bil gerbron y Cynulliad y prynhawn yma yw'r Bil sydd wedi ennill cefnogaeth mewn pleidlais ar ôl pleidlais ar draws y llawr. Dyma'r Bil sydd yma oherwydd bod mwyafrif yr Aelodau yn y lle hwn wedi'i gefnogi. Mae rhai pobl yn credu bod yr holl gynnydd a'r holl ddiogelwch a geir i'r holl gategorïau gwahanol o'n poblogaeth yn cael eu gorbwyso gan un agwedd unigol ohono. Nid wyf yn cytuno. Rwy'n credu y dylai'r Aelodau yma feddwl am y dewis hwnnw, ac rwy'n siŵr y gwnânt, a phan fyddant yn ei ystyried yn fanwl, byddant yn dod i'r casgliad na ddylid gosod o'r neilltu y cyfan y mae'r Bil hwn yn ei ddarparu ar gyfer plant, ar gyfer pobl hŷn, ar gyfer ein cymunedau difreintiedig, ar gyfer pobl ledled Cymru, oherwydd un agwedd y mae gan rai pobl yma farn wahanol yn ei chylch, agwedd y mae gan bobl eraill, yr un mor ddifrifol a chyda'r un faint o dystiolaeth ar eu hochr, farn wahanol yn ei chylch. Diolch i chi, Lywydd.

15:57

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] Objections. Therefore I will defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiadau. Felly, gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

15:57

# 5. Cynnig i Benodi Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# 5. Motion to Appoint the National Assembly for Wales Commissioner for Standards

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 5, which is a motion to appoint a Standards Commissioner, and I call on John Griffiths, the Chair of the Standards of Conduct Committee to move the motion—John Griffiths.

Symudwn yn awr at eitem 5, sef cynnig i benodi Comisiynydd Safonau, a galwaf ar John Griffiths, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i gynnig y cynnig—John Griffiths.

Cynnig NDM6010 John Griffiths

Motion NDM6010 John Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

O dan adran 1(2) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, yn penodi Syr Roderick Evans yn Gomisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Mesur hwnnw, am gyfnod o chwe blynedd gan ddechrau ar 1 Rhagfyr 2016.

Acting under section 1(2) of the National Assembly for Wales Commissioner for Standards Measure 2009, appoints Sir Roderick Evans as National Assembly for Wales Commissioner for Standards under that Measure, for a term of six years starting on 1 December 2016.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:58 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. I would like to begin by thanking Gerard Elias for his work as the Assembly's first statutory commissioner for standards. He has developed the role and provided clear and impartial advice on a wide range of standards issues to the standards committee, Assembly Members and the public more generally. He has taken the lead in updating and codifying our standards procedures, and making sure that they are fit for purpose.

Diolch, Lywydd. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i Gerard Elias am ei waith fel comisiynydd safonau statudol cyntaf y Cynulliad. Mae wedi datblygu'r rôl ac wedi darparu cyngor clir a diduedd ar ystod eang o faterion yn ymwneud â safonau i'r pwyllgor safonau, Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Mae wedi arwain y gwaith o ddiweddaru a chodeiddio ein gweithdrefnau safonau, a gwneud yn siŵr eu bod yn addas i'r diben.

The post of commissioner is a key position with important powers of investigation of complaints against Assembly Members. It gives the public increased confidence in their elected representatives, and requires someone of stature and, above all, independence. It is therefore a pleasure to put forward the nomination of Sir Roderick Evans for the post of commissioner for standards. The process of selecting Sir Roderick has been open and transparent. I chaired the selection panel of Claire Clancy, Chief Executive and Clerk of the Assembly, Gerard Elias and Eric Gregory as independent assessor. We received a wide range of high-quality applications, and the panel unanimously recommended the appointment of Sir Roderick Evans.

Mae swydd y comisiynydd yn swydd allweddol gyda phwerau pwysig i ymchwilio cwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad. Mae'n rhoi hyder cynyddol i'r cyhoedd yn eu cynrychiolwyr etholedig, ac yn galw am rywun sy'n meddu ar statws ac yn anad dim, annibyniaeth. Felly, mae'n bleser enwebu Syr Roderick Evans ar gyfer swydd y comisiynydd safonau. Mae'r broses o ddewis Syr Roderick wedi bod yn agored a thryloyw. Cadeiriais y panel dethol, sef Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, Gerard Elias, ac Eric Gregory fel aseswr annibynnol. Daeth ystod eang o geisiadau o ansawdd uchel i law, ac argymhelliad unfrydol y panel oedd y dylid penodi Syr Roderick Evans.

Subsequently, Sir Roderick attended a standards committee meeting to present to the committee and answer Members' questions. The committee welcomed the open and frank answers, and were impressed by his vision and understanding. The committee unanimously confirmed the decision of the appointments panel, and recommended his appointment to the full Assembly.

Yn dilyn hynny, mynychodd Syr Roderick un o gyfarfodydd y pwyllgor safonau i'w gyflwyno i'r pwyllgor ac i ateb cwestiynau'r Aelodau. Croesawodd y pwyllgor yr atebion agored a gonest, a gwnaeth ei weledigaeth a'i ddealltwriaeth argraff dda arnynt. Cadarnhaodd y pwyllgor benderfyniad y panel penodi yn unfrydol, ac argymhellodd ei benodiad i'r Cynulliad llawn.

Llywydd, Sir Roderick is a retired High Court judge and, in addition to a distinguished legal career, is also a fellow of Aberystwyth, Swansea and Bangor universities, a fellow of the Learned Society of Wales and was welcomed into the Gorsedd of the Bards in 2002. I am confident that Sir Roderick has the right mix of skills, experience and commitment to take the office of commissioner forward and uphold the standards established. Therefore, I recommend that Sir Roderick Evans be appointed to the post of commissioner for standards for a period of six years, commencing on 1 December 2016.

Lywydd, barnwr Uchel Lys wedi ymddeol yw Syr Roderick ac yn ogystal â gyrfa ddisglair yn y gyfraith, mae hefyd yn gymrawd ym mhrifysgolion Aberystwyth, Abertawe a Bangor, yn gymrawd yng Nghymdeithas Ddysgedig Cymru, a chafodd ei groesawu'n aelod o Orsedd y Beirdd yn 2002. Rwy'n hyderus fod gan Syr Roderick y cyfuniad cywir o sgiliau, profiad ac ymrwymiad i ddatblygu swydd y comisiynydd a chynnal y safonau a sefydlwyd. Felly, rwy'n argymell y dylid penodi Syr Roderick Evans i swydd y comisiynydd safonau am gyfnod o chwe blynedd, gan ddechrau ar 1 Rhagfyr 2016.

16:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no other speakers in the debate, so the proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes unrhyw siaradwyr eraill yn y ddadl, felly y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau. Felly, derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair.*

16:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now have a series of motions to amend Standing Orders. In accordance with Standing Order 12.24, I propose that the following three motions under items 6, 7 and 8 are grouped for debate, unless any Member objects.

Mae gennym gyfres o gynigion yn awr i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog. Yn unol â Rheol Sefydlog 12.24, rwy'n cynnig bod y tri chynnig canlynol o dan eitemau 6, 7 ac 8 yn cael eu grwpio ar gyfer y ddadl, oni bai fod unrhyw Aelod yn gwrthwynebu.

16:01

## 6., 7. & 8. Cynnig i Ddiwygio Rheol Sefydlog 26 mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad, Cynnig i Ddiwygio Rheol Sefydlog 26A mewn perthynas â Deddfau Preifat y Cynulliad a Rheol Sefydlog 26B mewn perthynas â Deddfau Hybrid y Cynulliad, a Chynnig i Ddiwygio Rheolau Sefydlog 18 a 30A mewn perthynas â Gwelliannau Amrywiol

## 6., 7. & 8. Motion to Amend Standing Order 26 in relation to Acts of the Assembly, Motion to Amend Standing Order 26A in relation to Private Acts of the Assembly and Standing Order 26B in relation to Hybrid Acts of the Assembly, and Motion to Amend Standing Orders 18 and 30A in relation to Miscellaneous Changes

Y Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on Aled Roberts to move the motions.

Galwaf ar Aled Roberts i gynnig y cynigion.

Cynnig NDM6013 Rosemary Butler

Motion NDM6013 Rosemary Butler

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

To propose that the National Assembly, in accordance with Standing Order 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes ‘Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 26—Deddfau’r Cynulliad’ a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2016; a

1. Considers the Report of the Business Committee ‘Amending Standing Orders: Standing Order 26—Acts of the Assembly’ laid in the Table Office on 9 March 2016; and

2. Yn cymeradwyo’r cynnig i adolygu Rheol Sefydlog 26, fel y nodir yn Atodiad B i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

2. Approves the proposal to revise Standing Order 26, as set out in Annex B of the Report of the Business Committee.

Cynnig NDM6014 Rosemary Butler

Motion NDM6014 Rosemary Butler

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

To propose that the National Assembly, in accordance with Standing Order 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes ‘Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 26A—Biliau Preifat a Rheol Sefydlog 26B—Biliau Hybrid’ a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2016; a

1. Considers the Report of the Business Committee ‘Amending Standing Orders: Standing Order 26A—Private Bills—and Standing Order 26B—Hybrid Bills’ laid in the Table Office on 9 March 2016; and

2. Yn cymeradwyo’r cynnig i adolygu Rheol Sefydlog 26A a chyflwyno Rheol Sefydlog newydd 26B, fel y nodir yn Atodiadau B a D i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

2. Approves the proposal to revise Standing Order 26A and introduce a new Standing Order 26B, as set out in Annexes B and D of the Business Committee’s report.

Cynnig NDM6012 Rosemary Butler

Motion NDM6012 Rosemary Butler

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

To propose that the National Assembly, in accordance with Standing Order 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes ‘Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 18—Cyfrifon Cyhoeddus a Goruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru—a Rheol Sefydlog 30A—Cydsyniad mewn Perthynas ag Offerynnau Statudol a wneir gan Weinidogion y DU’ a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2016; a

1. Considers the Report of the Business Committee ‘Amending Standing Orders: Standing Order 18—Public Accounts and Oversight of the Wales Audit Office—and Standing Order 30A—Consent in Relation to Statutory Instruments made by UK Ministers’ laid in the Table Office on 9 March 2016; and

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheolau Sefydlog 18 a 30A, fel y nodir yn Atodiad B i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

2. Approves the proposal to revise Standing Orders 18 and 30A, as set out in Annex B of the Report of the Business Committee.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:01

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig yn ffurfiol.

Formally move.

16:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers, so the proposal is to agree the motion under item 6. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf siaradwyr, felly y cynnig yw derbyn y cynnig o dan eitem 6. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion under item 7. Does any Member object? Then the motion under item 7 is agreed.

Y cynnig yw derbyn y cynnig o dan eitem 7. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna, derbyniwyd y cynnig o dan eitem 7.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion under item 8. Does any Member object? The motion under item 8 is therefore agreed.

Y cynnig yw derbyn y cynnig o dan eitem 8. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbyniwyd y cynnig o dan eitem 8.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:02

# 9. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar ei Ymchwiliad i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio

# 9. Debate on the Public Accounts Committee's Report on its Inquiry into the Regeneration Investment Fund for Wales

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 9 is a debate on the Public Accounts Committee's report on its inquiry into the regeneration investment fund for Wales. I call on the Chair of the Public Accounts Committee to move the motion—Darren Millar.

Eitem 9 yw dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar ei ymchwiliad i gronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio. Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gynnig y cynnig—Darren Millar.

Cynnig NDM6006 Darren Millar

Motion NDM6006 Darren Millar

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus—Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2016.

Notes the Report of the Public Accounts Committee—Regeneration Investment Fund for Wales, which was laid in the Table Office on 26 January 2016.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:02 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much indeed, Deputy Presiding Officer. Can I put on record at the start of this debate my thanks to the clerks, Members and witnesses who gave evidence to the RIFW inquiry and also put on record my thanks to the Wales Audit Office for their support and advice throughout it?

Diolch yn fawr iawn yn wir, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi gofnodi ar ddechrau'r ddadl hon fy niolch i'r clercod, yr Aelodau a'r tystion a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad i gronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio a chofnodi fy niolch hefyd i Swyddfa Archwilio Cymru am eu cefnogaeth a'u cyngor drwy gydol yr ymchwiliad?

The Public Accounts Committee's inquiry into the regeneration investment fund for Wales has been one of the most significant and deeply concerning inquiries undertaken by the committee. The fact that one of the largest sales of publicly owned land in Wales should have generated tens of millions of pounds more for the taxpayer is inexcusable. RIFW was established as an arm's-length body by the Welsh Government to dispose of land around Wales and to then use the money in conjunction with European funding to reinvest in areas in need of regeneration, but the committee found that RIFW was poorly managed, poorly overseen by the Welsh Government and that, because of a change in the direction of RIFW from one of regeneration to land and property asset disposals, some RIFW board members felt that they lacked the necessary knowledge and experience to fulfil their roles.

Mae ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio wedi bod yn un o'r ymchwiliadau mwyaf arwyddocaol a wnaed gan y pwyllgor, ac mae wedi peri cryn bryder. Mae'r ffaith y dylai un o'r gwerthiannau tir cyhoeddus mwyaf yng Nghymru fod wedi cynhyrchu degau o filiynau o bunnoedd yn fwy i drethdalwyr yn anfaddeuol. Cafodd Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (CBCA) ei sefydlu fel corff hyd braich gan Lywodraeth Cymru i werthu tir o amgylch Cymru, a defnyddio'r arian ynghyd â chyllid Ewropeaidd i ailfuddsoddi mewn ardaloedd a oedd angen eu hadfywio, ond canfu'r pwyllgor fod CBCA yn cael ei rheoli'n wael, yn cael ei goruchwylio'n wael gan Lywodraeth Cymru ac oherwydd newid yng nghyfeiriad CBCA o adfywio i werthu asedau tir ac eiddo, teimlai rhai aelodau o fwrdd CBCA nad oedd ganddynt y wybodaeth na'r profiad angenrheidiol i gyflawni eu rolau.

We also learned that the board was not presented with key information regarding the value of the land in its portfolio or of expressions of interest in its assets from potential buyers by its advisers. Fifteen plots of land originally planned to be sold separately were instead sold to a single buyer for their book price and not their market value, which also should have taken into account the potential use of the land in the future. This decision resulted in Welsh taxpayers missing out on tens of millions of pounds-worth of funding.

Dysgasom hefyd na chyflwynodd y rhai â'i cynghorai wybodaeth allweddol i'r bwrdd ynglŷn â gwerth y tir yn ei bortffolio na datganiadau o ddiddordeb yn ei asedau gan brynwyr posibl. Gwerthwyd pymtheg llain o dir, y bwriadwyd eu gwerthu ar wahân yn wreiddiol, i brynwr unigol yn lle hynny am eu pris llyfr ac nid am eu gwerth ar y farchnad, a ddylai hefyd fod wedi ystyried y defnydd posibl o'r tir yn y dyfodol. Arweiniodd y penderfyniad hwn at golli gwerth degau o filiynau o bunnoedd o gyllid i drethdalwyr Cymru.

While the committee found the concept of RIFW to be innovative, we concluded that it was very poorly executed due to fundamental flaws in Welsh Government oversight and governance arrangements and very poorly served by those appointed and trusted to provide the RIFW board with professional advice and expertise. As a result, the public have faced a double whammy in that not only have they lost out on the potential proceeds from land sales, but the promised regeneration projects that RIFW was established to fund have also failed to materialise.

Er bod y pwyllgor o'r farn fod y cysyniad o Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio yn arloesol, daethom i'r casgliad ei fod wedi'i roi ar waith yn wael iawn oherwydd diffygion sylfaenol yn nhrefniadau goruchwylio a llywodraethu Llywodraeth Cymru, ac wedi'i wasanaethu'n wael iawn gan y rheini a benodwyd ac yr ymddiriedwyd ynddynt i ddarparu cyngor ac arbenigedd proffesiynol i fwrdd CBCA. O ganlyniad, mae'r cyhoedd wedi wynebu ergyd ddwbl gan eu bod nid yn unig wedi colli elw posibl o werthiannau tir, ond ni wireddwyd y prosiectau adfywio a addawyd ychwaith, prosiectau y sefydlwyd CBCA i'w cyllido.

Throughout our deliberations, the committee carefully considered the trade-off between the need to secure value for money and the wider strategic goals of the Welsh Government. We also analysed whether the Welsh Government sufficiently considered the various options available to achieve its policy objectives and whether the risks involved were sufficiently assessed and mitigated. Our inquiry considered whether a portfolio sale of publicly owned development assets by private treaty, without proper marketing and unsupported by an independent valuation, was appropriate for the sale of public assets and was ever likely to result in a good deal for the taxpayer.

Drwy gydol ein trafodaethau, ystyriodd y pwyllgor yn ofalus y cyfnewidiad rhwng yr angen i sicrhau gwerth am arian a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Gwnaethom ddadansoddiad hefyd o i ba raddau yr ystyriodd Llywodraeth Cymru y gwahanol opsiynau a oedd ar gael i gyflawni ei hamcanion polisi yn ddigonol a pha un a aseswyd ac a liniarwyd y risgiau a oedd yn gysylltiedig yn ddigonol. Ystyriodd ein hymchwiliad a oedd gwerthu portffolio o asedau datblygu sy'n eiddo cyhoeddus drwy gytundeb preifat, heb farchnata priodol a heb ei gefnogi gan brisiad annibynnol, yn briodol ar gyfer gwerthu asedau cyhoeddus a byth yn debygol o arwain at fargen dda i'r trethdalwr.

Most shockingly, we found that subsequent sales of this land by the purchaser demonstrate convincingly that the sale did not represent value for money for Welsh taxpayers. Instead, it appears that tens of millions of pounds could, and indeed, should have been generated for investment in regeneration projects across Wales. For example, one site alone, Lisvane near Cardiff, 'the jewel in the crown', as it was described, should have been disposed of by a properly marketed, open and competitive sales process, but unfortunately, the committee believed it was utterly incomprehensible that this was sold at an agricultural land value of £1.825 million, even with some overage or clawback mechanisms in place, when its potential open-market value for residential housing is at least £39 million. Another site in Abergele in my own constituency was sold by RIFW for just £100,000, and it was later sold on for £1.9 million.

Yn gywilyddus iawn, canfuom fod gwerthiannau dilynol o'r tir hwn gan y prynwr yn dangos yn argyhoeddiadol nad oedd y gwerthiant yn sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr Cymru. Yn lle hynny, mae'n ymddangos y gellid, ac yn wir, y dylid bod wedi cynhyrchu degau o filiynau o bunnoedd ar gyfer ei fuddsoddi mewn prosiectau adfywio ledled Cymru. Er enghraifft, dylid bod wedi gwerthu un safle, Llys-faen ger Caerdydd, 'y trysor pennaf', fel y'i disgrifiwyd, drwy broses werthu agored a chystadleuol, wedi'i marchnata'n gywir, ond yn anffodus, credai'r pwyllgor ei bod yn gwbl annealladwy iddo gael ei werthu am bris tir amaethyddol sef £1.825 miliwn, hyd yn oed gyda mecanweithiau gorswm neu adfachu yn eu lle, pan oedd ei werth posibl ar y farchnad agored ar gyfer tai preswyl yn £39 miliwn fan lleiaf. Gwerthwyd safle arall yn Abergele yn fy etholaeth gan Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio am £100,000 yn unig, a chafodd ei werthu ymlaen wedyn am £1.9 miliwn.

Our inquiry was detailed and it was wide-ranging. It exposed numerous flaws in Welsh Government processes and procedures in accountability and line management arrangements, and in fundamental issues such as record keeping and data retention. It's regrettable that many of the flaws that we identified are consistent with issues that the committee has considered time and time again during our previous inquiries. We believe that there's much work still to be undertaken to improve the robustness of Welsh Government processes, specifically in relation to the monitoring and oversight arrangements of its arm's-length bodies.

Roedd ein hymchwiliad yn fanwl ac yn eang. Datgelodd ddiffygion niferus ym mhrosesau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru, mewn atebolrwydd a threfniadau rheoli llinell, ac mewn materion sylfaenol megis cadw cofnodion a data. Mae'n anffodus fod nifer o'r diffygion a nodwyd gennym yn gyson â materion y mae'r pwyllgor wedi'u hystyried dro ar ôl tro yn ystod ein hymchwiliadau blaenorol. Credwn fod llawer o waith i'w wneud eto ar wella trylwyredd prosesau Llywodraeth Cymru, yn benodol mewn perthynas â threfniadau monitro a goruchwylio ei chyrff hyd braich.

Our report made 18 recommendations in all, which, in summary, focused on asking the Welsh Government to strengthen monitoring and oversight arrangements of its arm's-length bodies, and in particular, to ensure that any concerns are swiftly identified and escalated internally; to put measures in place to ensure that board members have the appropriate expertise and capacity to fulfil their duties and receive adequate and appropriate induction training; and to ensure that robust overage arrangements—these clawback arrangements—are considered whenever it disposes of public assets that have possible future development potential.

Gwnaeth ein hadroddiad 18 o argymhellion i gyd, argymhellion a oedd, yn gryno, yn canolbwyntio ar ofyn i Lywodraeth Cymru gryfhau trefniadau monitro a goruchwylio ei chyrff hyd braich, ac yn arbennig, i sicrhau y nodir ac yr uwchgyfeirir unrhyw bryderon yn gyflym yn fewnol; rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod gan aelodau'r bwrdd yr arbenigedd a'r gallu priodol i gyflawni eu dyletswyddau a'u bod yn cael hyfforddiant cynefino digonol a phriodol; a sicrhau bod trefniadau gorswm cadarn—y trefniadau adfachu hyn—yn cael eu hystyried pryd bynnag y mae'n gwerthu asedau cyhoeddus sydd â photensial datblygu posibl yn y dyfodol.

I'm very pleased to report that the Welsh Government accepted all 17 of the committee recommendations that we made specifically to the Welsh Government, which is very encouraging indeed, given the gravity of the committee's overall conclusions. In response to our report, I also want to welcome the First Minister's statement and apology to the National Assembly and, indeed, to the people of Wales, which he made in Plenary on 26 January.

Pleser mawr yw gallu adrodd bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un o'r 17 o argymhellion a wnaeth y pwyllgor i Lywodraeth Cymru yn benodol, sy'n galonogol iawn yn wir, o ystyried difrifoldeb casgliadau cyffredinol y pwyllgor. Mewn ymateb i'n hadroddiad, rwyf hefyd yn awyddus i groesawu datganiad ac ymddiheuriad y Prif Weinidog i'r Cynulliad Cenedlaethol ac yn wir, i bobl Cymru, a wnaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Ionawr.

There's been, of course, another development just this week, in the Welsh Government's initiation of legal action against the fund's investment manager, Lambert Smith Hampton, in direct response to one of our recommendations in the report. The Welsh Government's commitment, also, to keep under review whether further legal steps may be necessary is, indeed, also welcome.

Wrth gwrs, cafwyd datblygiad arall yr wythnos hon, wrth i Lywodraeth Cymru gychwyn camau cyfreithiol yn erbyn rheolwr buddsoddi'r gronfa, Lambert Smith Hampton, mewn ymateb uniongyrchol i un o'n hargymhellion yn yr adroddiad. Yn wir, croesawir ymrwymiad Llywodraeth Cymru hefyd i barhau i adolygu'r angen am gamau cyfreithiol pellach.

Central to this inquiry and our recommendations are the lessons that the Welsh Government can learn from the RIFW initiative. It's absolutely vital that the Welsh Government and future Welsh Governments recognise all of these in order to secure the necessary improvements to arm's-length operations and the maintenance of good governance in the future. This, we hope, as a committee, will ensure that the risk of such losses occurring to the public purse in the future will never be repeated again.

Yn ganolog i'r ymchwiliad hwn a'n hargymhellion, mae gwersi y gall Llywodraeth Cymru eu dysgu o fenter CBCA. Mae'n gwbl hanfodol fod Llywodraeth Cymru a Llywodraethau Cymru yn y dyfodol yn cydnabod pob un o'r rhain er mwyn sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol i weithrediadau hyd braich a chynnal trefniadau llywodraethu da yn y dyfodol. Gobeithiwn, fel pwyllgor, y bydd hyn yn sicrhau nad ailadroddir y risg o golledion o'r fath i'r pwrs cyhoeddus yn y dyfodol byth eto.

16:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mike Hedges. I beg your pardon; he is not in the Chamber. Nick Ramsay.

Mike Hedges. Mae'n ddrwg gennyf; nid yw yn y Siambr. Nick Ramsay.

16:09

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Unexpectedly soon. Thank you, Deputy Presiding Officer. Darren Millar has outlined the tragedy of this whole situation very well. I think part of that tragedy, for me, is that there are a number of different parts of Wales that have been affected by this sorry affair.

Yn annisgwyl o fuan. Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae Darren Millar wedi amlinellu trasiedi'r holl sefyllfa hon yn dda iawn. Rwy'n meddwl mai rhan o'r drasiedi, i mi, yw bod nifer o wahanol rannau o Gymru wedi'u heffeithio gan y digwyddiad truenus hwn.

When the former Welsh Development Agency land at Wonastow just outside Monmouth in my constituency was put forward for new housing, there was enough of an outcry. When, subsequently, it emerged that the land had been sold off at a fraction of its market value, along with other RIFW sites across Wales, there was a reaction bordering on disbelief. We had a situation where the land that had been included for housing in response to the Welsh Government inspector's own requirement for more housing stock in Monmouthshire had itself been made available by the Welsh Government to the developers at a fraction of the market value. You couldn't make it up. Well, maybe the Welsh Government could make it up, actually.

Pan gafodd hen dir Awdurdod Datblygu Cymru yn Llanwara, ychydig y tu allan i Fynwy yn fy etholaeth, ei gyflwyno ar gyfer adeiladu tai newydd, cafwyd digon o brotestio. Ar ôl hynny, pan ddaeth yn amlwg fod y tir wedi'i werthu am ffracsiwn o'i werth ar y farchnad, ynghyd â safleoedd CBCA eraill ledled Cymru, cafwyd ymateb a oedd yn ymylu ar anghrediniaeth. Roedd gennym sefyllfa lle roedd y tir a oedd wedi'i gynnwys ar gyfer tai, mewn ymateb i ofyniad arolygydd Llywodraeth Cymru ei hun am fwy o stoc dai yn Sir Fynwy, wedi'i ryddhau gan Lywodraeth Cymru i'r datblygwyr am ffracsiwn o'i werth ar y farchnad. Ni allech ddyfeisio stori fel hon. Wel, efallai y gallai Llywodraeth Cymru ei dyfeisio mewn gwirionedd.

Needless to say, the legacy of this is that it has seriously undermined the trust of many of my constituents in the Welsh Government's ability to handle these large financial issues. Let's face it: ownership, management of land, and sale of land, is a key responsibility of government and must be a key responsibility of this Welsh Government. If we can't get this right, what can we get right? It's that simple a question.

Afraid dweud, etifeddiaeth hyn yw ei fod wedi tanseilio ymddiriedaeth llawer o fy etholwyr yng ngallu Llywodraeth Cymru i ymdrin â materion ariannol mawr o'r fath yn llwyr. Gadewch i ni wynebu'r ffaith: mae perchenogaeth, rheoli tir, a gwerthu tir, yn un o gyfrifoldebau allweddol llywodraeth ac mae'n rhaid iddo fod yn un o gyfrifoldebau allweddol y Llywodraeth hon yng Nghymru. Os na allwn wneud hyn yn iawn, beth allwn ni ei wneud yn iawn? Mae'n gwestiwn mor syml â hynny.

These are systemic failures over some period of time. I've looked through the report with interest. It's an excellent report. Recommendation 1 says that the Welsh Government must demonstrate that it has made appropriate changes so that governance oversight and accountability are robust, not only in relation to RIFW, but in relation to all other activities as well. I think that is a pretty sensible and straightforward recommendation, which I'm sure we would all agree with. So, I really hope that that will be enforced by the Welsh Government.

Mae'r rhain yn fethiannau systemig dros gyfnod o amser. Rwyf wedi edrych drwy'r adroddiad gyda diddordeb. Mae'n adroddiad rhagorol. Dywed argymhelliad 1 fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos ei bod wedi gwneud newidiadau priodol fel bod trefniadau llywodraethu, goruchwylio ac atebolrwydd yn gadarn, mewn cysylltiad â'r Gronfa, ond hefyd mewn cysylltiad â'r holl weithgareddau eraill hefyd. Credaf fod hwnnw'n argymhelliad eithaf synhwyrol a syml, ac rwy'n siŵr y byddem i gyd yn cytuno ag ef. Felly, rwy'n gobeithio'n fawr y caiff hynny ei roi mewn grym gan Lywodraeth Cymru.

This is absolutely essential. This is about regaining public confidence. The Government mustn't just do finance; it must demonstrate that it can do finance, and it must demonstrate that it can do that in all areas. We've got tax devolution coming fast down the line 2018. Confidence in the fiscal arrangements is absolutely key, or there's going to be chaos. Even if the requirements are in place, if the public don't have confidence in that, then it's just not going to work. Yes, the board needs to have people with expertise. I think, again, that goes as read. I'm deeply concerned that many of the people didn't feel that they did have the relevant expertise during this whole affair. Yes, it must have capacity. These things go as read.

Mae hyn yn gwbl hanfodol. Mae hyn yn ymwneud ag adennill hyder y cyhoedd. Nid gallu trafod cyllid yn unig sy'n rhaid i'r Llywodraeth ei wneud, rhaid iddi ddangos ei bod yn gallu trafod cyllid, a rhaid iddi ddangos ei bod yn gallu gwneud hynny ym mhob maes. Rydym yn nesu'n gyflym at ddatganoli treth yn 2018. Mae hyder yn y trefniadau cyllidol yn gwbl allweddol, neu byddwn yn wynebu anhrefn. Hyd yn oed os yw'r gofynion yn eu lle, os nad oes gan y cyhoedd hyder yn hynny, ni fydd yn gweithio. Oes, mae angen pobl ag arbenigedd ar y bwrdd. Rwy'n credu, unwaith eto, fod hynny'n amlwg. Rwy'n bryderus iawn nad oedd llawer o'r bobl yn teimlo bod ganddynt yr arbenigedd perthnasol drwy gydol y mater hwn. Oes, mae'n rhaid iddo fod â gallu. Mae'r pethau hyn yn amlwg.

As the report says, the Welsh Government oversight of this was fatally flawed from the outset, it appears. There are cultural and behavioural problems that need to be addressed. I urge the Welsh Government to act on this report swiftly and effectively. It is absolutely vital that confidence is restored after this whole sorry saga. We simply cannot afford for this to happen again.

Fel y dywed yr adroddiad, mae'n ymddangos bod goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru ar hyn yn ddifrifol o ddiffygiol o'r cychwyn. Mae problemau diwylliannol ac ymddygiadol sy'n galw am sylw. Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i weithredu ar yr adroddiad hwn yn gyflym ac yn effeithiol. Mae'n gwbl hanfodol fod hyder yn cael ei adfer ar ôl y saga druenus hon. Ni allwn fforddio i hyn ddigwydd eto.

16:12

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r bennod yma wedi bod yn un niweidiol iawn i'r Llywodraeth a'r ffordd y mae pobl allan yn fanna yn gweld y lle yma. Mae yna syniad nad ydy'r Llywodraeth yn gofalu am ei harian yn briodol nac yn poeni am gael y gwerth gorau, ac mae hynny'n ganfyddiad anffodus iawn. Mae'n anodd credu beth oedd yn mynd drwy feddwl aelodau'r bwrdd, y cwmnïau oedd yn eu cynghori nhw, a'r gweision sifil oedd yn bresennol wrth werthu'r asedau mor rhad. Mae'n anodd credu hefyd nad oedd unrhyw Weinidog yn gwybod dim byd oedd yn digwydd o fewn y cwmni yma oedd wedi cael ei sefydlu i gario allan, wrth gwrs, polisi a strategaeth adfywio'r Llywodraeth. Nid oes neb wedi syrthio ar eu bai nac wedi cymryd cyfrifoldeb dros y ffiasgo hwn.

This chapter has been very damaging for the Government and for people's perception of this place. There is a perception that the Government isn't careful of its money, doesn't manage it properly and isn't too concerned about getting best value, and that is a very unfortunate perception indeed. It's difficult to think what was going through the minds of board members, the companies advising them or the civil servants who were in attendance as these assets were sold at such a low price, and it's difficult to believe that no Minister was aware of anything that was happening within this company, which had been established to carry out the Government's own regeneration policy and strategy. Nobody has taken responsibility for this fiasco.

Nid oes dim yn crynhoi'r darlun yma yn well na'r penderfyniad gan y bwrdd mewn un cyfarfod i fabwysiadu strategaeth i werthu'r tiroedd yma a'u marchnata nhw fesul un ac yna, yn yr un cyfarfod, fwy na lai yn derbyn cynnig i'r tir yma gael ei werthu fel un portffolio. Hynny ydy, roedden nhw wedi mabwysiadu strategaeth arbennig ar ddechrau'r cyfarfod ac yna mynd yn hollol groes iddi yn ddiweddarach yn y cyfarfod. Petasai hynny'n digwydd mewn cyngor cymuned, mae'n debyg y byddech yn ei dderbyn ac yn chwerthin, ond roedd hwn yn fater difrifol iawn a chanlyniadau, fel rydym wedi clywed, difrifol iawn hefyd i'r trethdalwr, sef gwir berchenogion y tiroedd yma.

There is nothing that summarises the whole picture more succinctly than the decision taken by the board at one meeting to adopt a strategy of selling these lands and to market them individually, and then, at that very same meeting, more or less accepting a proposal for this land to be sold as a single portfolio. They had adopted a particular strategy at the beginning of the meeting, and then they went in a totally different direction later on in that same meeting. Now, if that were to happen in a community council, I suppose you could accept it and chuckle, but this was a very serious issue and, as we have heard, had very serious repercussions for taxpayers, who are the real owners of this land.

Rydw i'n dal i fethu â deall sut y derbyniwyd y cynnig cyntaf a ddaeth i law heb hysbysebu, heb asesu gwir werth y tiroedd yma a heb asesu pa rai oedd â photensial datblygu, na sut a pham na chytunwyd ar 'overages' synhwyrol ar y tiroedd oedd â gwerth datblygu. Mae'n rhaid i mi gyfaddef nad oeddwn i'n gyfarwydd â'r term 'overage' nes i mi fod yn rhan o'r ymchwiliad yma, ond ar ôl deall y peth, mae o'n fater cwbl synhwyrol i'w wneud, wrth gwrs, sef rhoi 'overage' ar dir gyda photensial datblygu. Ond y gwir amdani ydy, fel ydym ni'n deall, mae'r 'overages' sydd ar ddau ddarn o dir yn eithaf isel ac, wrth gwrs, mae yna gyfyngiad amser arnyn nhw, tra mae yna ddarnau eraill o diroedd sydd wedi cael eu gwerthu heb ddim 'overages' wedi cael eu gwerthu am symiau sylweddol. Felly, fel rwy'n dweud, rwy'n dueddol bob amser i gredu yn y theori 'cock-up' yn hytrach na'r theori cynllwynio, ond mae'r holl fater yma'n gadael blas drwg iawn yn y geg.

I still can't understand how the first offer that came to hand was accepted without advertising or assessing the true value of these lands, which had real development potential, or how and why weren't sensible overages agreed for those lands with development value. I have to admit that I wasn't familiar with the term 'overage' until I became part of this inquiry, but having understood what it actually means, then it's quite a straightforward issue, of course, in terms of placing overage on lands that have development potential. But the truth is, as we understand it, the overages on two of these plots are relatively low and they are time restricted, whilst there are other plots that have been sold without any overage that have been sold for substantial sums. So, as I say, I tend to believe in the cock-up theory rather than the conspiracy theory, but this whole issue does leave a very nasty taste in one's mouth.

16:16

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It was a great idea to invest in urban regeneration at the height of the bankers' blow-out, which nearly brought down the economy, and was obviously causing a huge amount of difficulty for businesses in Wales, and the need to create new businesses. But I feel very sad for the people who were appointed to serve on the RIFW board, because they were a bit like lambs to the slaughter. We had two civil servants who thought they were there to promote the regeneration of the Welsh economy. They knew nothing about disposing of property and land speculation, and it's inexplicable to me and to others who were on this inquiry as to why the Welsh Government didn't simply dispose of its own land assets and then hand the money over to RIFW rather than leaving it to a small bunch of people who knew nothing about it.

Roedd yn syniad gwych buddsoddi mewn adfywio trefol yn anterth sbri'r bancwyr, a oedd bron â dymchwel yr economi, ac roedd yn amlwg yn achosi anhawster mawr i fusnesau yng Nghymru, a'r angen i greu busnesau newydd. Ond rwy'n teimlo'n drist iawn dros y bobl a benodwyd i wasanaethu ar fwrdd CBCA, oherwydd eu bod ychydig fel ŵyn i'r lladdfa. Roedd gennym ddau was sifil a oedd yn meddwl eu bod yno i hybu adfywiad economi Cymru. Nid oeddent yn gwybod dim am werthu eiddo ac elwa ar brynu a gwerthu tir, ac mae'n anesboniadwy i mi ac i eraill a oedd yn rhan o'r ymchwiliad hwn pam na werthodd Llywodraeth Cymru ei hasedau tir ei hun a throsglwyddo'r arian i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, yn hytrach na'i adael i griw bach o bobl nad oeddent yn gwybod dim am y peth.

Councillor Chris Holley, who represented the Welsh Local Government Association, told us:

Dywedodd y Cynghorydd Chris Holley, a gynrychiolai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wrthym:

'I knew about regeneration, but to sell land to develop greenfield and brownfield sites is not something that we were there for'.

Gwyddwn am adfywio, ond nid oedd gwerthu tir i ddatblygu safleoedd maes glas a thir llwyd yn rhywbeth roeddem yno i'w wneud.

Even Richard Anning, who did know a bit about property dealing, said:

Roedd Richard Anning hyd yn oed, a oedd yn gwybod ychydig am werthu eiddo:

'If I had been asked to be involved in a portfolio sale that meant bringing forward land potentially for development over a 12-year period outside the lifetime of the limited liability partnership, then I wouldn't have taken it forward.'

Pe bai rhywun wedi gofyn i mi fod yn rhan o werthiant portffolio a oedd yn golygu cyflwyno tir a allai gael ei ddatblygu dros gyfnod o 12 mlynedd y tu allan i hyd oes y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, yna ni fyddwn wedi bwrw ymlaen ag ef.

So, if board members had been clear from the start what the role entailed, it's likely that most of them would have declined to be members at all.

Felly, pe bai aelodau'r bwrdd wedi bod yn glir o'r dechrau beth oedd y rôl yn ei olygu, mae'n debyg y byddai'r rhan fwyaf ohonynt wedi gwrthod bod yn aelodau o gwbl.

There was one board member who obviously did know about land deals, and that was Jonathon Geen, a commercial lawyer. But shortly after he took over the post, he had to declare that he was joining the poachers rather than the gamekeepers, and he quite rightly took no further part in the RIFW board's work. But rather than allowing him to recuse himself, a technical term for not taking part in decisions, it's a pity he wasn't asked to stand down and be replaced by somebody else who had some expertise. But instead, they limped on with four individuals who, between them, really didn't know enough about what they were doing, and the one who did, wasn't really being heard.

Roedd un aelod o'r bwrdd yn amlwg yn gwybod am gytundebau tir, sef Jonathon Geen, cyfreithiwr masnachol. Ond yn fuan ar ôl iddo ddechrau yn y swydd, roedd yn rhaid iddo ddatgan ei fod yn ymuno â'r potswyr yn hytrach na'r ciperiaid, ac yn briodol iawn, ni chymerodd unrhyw ran bellach yng ngwaith bwrdd CBCA. Ond yn hytrach na chaniatáu iddo ymesgusodi rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, mae'n drueni na ofynnwyd iddo gamu i lawr a chael rhywun arall yn ei le a oedd yn meddu ar rywfaint o arbenigedd. Ond yn lle hynny, herciodd y bwrdd yn ei flaen gyda phedwar unigolion nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth rhyngddynt ynglŷn â'r hyn roeddent yn ei wneud, ac nid oedd yr un oedd yn gwybod yn cael ei glywed mewn gwirionedd.

It's most unfortunate that the Welsh Government wasn't really tracking what was going on. Having set up this arm's-length company, it was both out of sight and out of mind. At the outset, the Government had appointed an adviser, Chris Munday, who was responsible for establishing the RIFW governance arrangements and choosing which assets were going to be sold. But, unfortunately, this Welsh Government observer was not reporting back to Welsh Government, neither Ministers nor even to his own line manager, and he told us his role on the RIFW board was to manage the transfer of the assets from Welsh Government to RIFW and he was, therefore, only reporting back on that basis.

Mae'n anffodus iawn nad oedd Llywodraeth Cymru yn cadw llygad ar yr hyn oedd yn digwydd mewn gwirionedd. Ar ôl sefydlu'r cwmni hyd braich, nid oedd neb yn cadw llygad arno na'n meddwl amdano. Ar y cychwyn, roedd y Llywodraeth wedi penodi cynghorydd, Chris Munday, a oedd yn gyfrifol am sefydlu trefniadau llywodraethu CBCA a dewis pa asedau oedd yn mynd i gael eu gwerthu. Ond yn anffodus, nid oedd arsyllwr Llywodraeth Cymru yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru, naill ai i Weinidogion na hyd yn oed i'w reolwr llinell ei hun, a dywedodd wrthym mai ei rôl ar fwrdd Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio oedd rheoli'r broses o drosglwyddo asedau o Lywodraeth Cymru i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio ac felly, adrodd yn ôl ar y sail honno'n unig a wnâi.

Yet the Welsh Government's observer's attendance at board meetings created the impression of tacit Welsh Government approval for the terms of the sale in the minds of both the board members and their advisers. The appearance is generally given that everyone took their eye off the ball and that the Welsh Government was never involved in the decision not to sell these assets one by one but as a package deal, because had it been one by one, then we surely would not have had the very, very poor outcome that we've now got.

Eto i gyd roedd presenoldeb arsyllwr Llywodraeth Cymru yng nghyfarfodydd y bwrdd yn creu argraff ym meddyliau aelodau'r bwrdd a'u cynghorwyr o gymeradwyaeth ddealledig Llywodraeth Cymru i delerau'r gwerthiant. Rhoddir yr argraff yn gyffredinol fod pawb wedi tynnu eu llygaid oddi ar y bêl ac nad oedd Llywodraeth Cymru erioed yn rhan o'r penderfyniad i beidio â gwerthu'r asedau hyn o un i un, ond fel pecyn bargen, oherwydd pe bai wedi digwydd o un i un, yna yn sicr ni fyddem wedi cael y canlyniad gwael eithriadol sydd gennym yn awr.

The decision to depart from the plan to sell the land assets separately was a decision that should have been taken by Welsh Government Ministers, and it wasn't. Particularly disappointing was the inclusion of the Lisvane site in this package deal. You don't have to be a property expert to realise that this was the jewel in the crown for anyone who knew anything about Cardiff and how it was expanding. It was absolutely obvious that this was, in some not-too-distant future, going to be needed to be used for building housing. It simply was completely unsatisfactory to sell it for a pittance as agricultural land for £1.8 million—its true value being about £39 million.

Roedd y penderfyniad i droi cefn ar y cynllun i werthu'r asedau tir ar wahân yn benderfyniad y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru fod wedi'i wneud, ac ni ddigwyddodd hynny. Yr hyn oedd yn arbennig o siomedig oedd bod safle Llys-faen wedi'i gynnwys yn y pecyn bargen. Nid oes angen i chi fod yn arbenigwr ar eiddo i sylweddoli mai dyma oedd y trysor pennaf i unrhyw un a wyddai unrhyw beth am Gaerdydd a sut roedd yn ehangu. Roedd yn gwbl amlwg fod hwn yn mynd i fod yn angenrheidiol ar gyfer adeiladu tai yn y dyfodol heb fod mor bell i ffwrdd. Roedd yn gwbl anfoddhaol ei werthu am bris pitw fel tir amaethyddol am £1.8 miliwn—ac roedd ei wir werth oddeutu £39 miliwn.

This so-called overage clause, which doesn't even properly define the expenses that the purchase is going to be able to deduct, is only valid for five years, and that five years runs out in March 2017. Some overage is better than none, but it means that if we are now having a referral for state aid to the European Commission, who knows whether that overage is ever going to be realised? I suppose the only positive thing I can say in mitigation is that the Welsh Government does seem to have learned the lessons of this report, and the purchase of Cardiff Airport was handled very differently.

Nid yw'r cymal gorswm hwn fel y'i gelwir, nad yw hyd yn oed yn diffinio'n gywir y treuliau y mae'r pryniant yn mynd i allu eu didynnu, ond yn ddilys am bum mlynedd, ac mae'r pum mlynedd yn dod i ben ym mis Mawrth 2017. Mae peth gorswm yn well na dim, ond mae'n golygu os ydym yn awr yn cael atgyfeiriad am gymorth gwladwriaethol i'r Comisiwn Ewropeaidd, pwy a ŵyr a yw'r gorswm byth yn mynd i gael ei gyrraedd? Mae'n debyg mai'r unig beth cadarnhaol y gallaf ei ddweud i liniaru yw bod Llywodraeth Cymru i'w gweld wedi dysgu gwersi'r adroddiad hwn, a chafodd y broses o brynu Maes Awyr Caerdydd ei thrin yn wahanol iawn.

16:21 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn siomedig, braidd, ein bod yn trafod adroddiad o'r fath ar ddiwrnod olaf y pedwerydd Cynulliad. Ond mae'n rhaid dweud bod yr adroddiad hwn a'r dystiolaeth yn agoriad llygad, i ryw raddau. Fel rhywun sydd wedi bod yn aelod o gyngor bro am 30 mlynedd, nid wyf yn siŵr y buaswn hyd yn oed yn darllen rhan o'r dystiolaeth yma ynglŷn â chyngor bro. Mi oedd y cynllun yn un blaengar. Dylai fod wedi gweithio. Nid wyf yn meddwl bod neb yn barnu Llywodraeth Cymru am y ffordd y cafwyd y syniad yn y lle cyntaf, ond mae pob peth ar ôl hynny yn destun cryn feirniadaeth, a dweud y gwir. Fel y mae ein Cadeirydd wedi'i ddweud, erbyn hyn, wrth gwrs, rydym yn gwybod bod y Llywodraeth yn cymryd camau cyfreithiol yn erbyn rhai o'r arbenigwyr a oedd yn cynnig cyngor i'r Llywodraeth. Ond beth sydd yn syndod ydy'r ffaith bod y Llywodraeth wedi meddwl ei bod yn bosib i bedwar person a gafodd eu penodi fel aelodau'r bwrdd allu trafod y fath fuddsoddiad, heb dâl ac o fewn pedwar diwrnod y flwyddyn. Dyna beth oedd y disgwyl, o ran yr amser yr oedden nhw'n ei roi i mewn. Felly, rwyf yn rhannu barn Jenny Rathbone, sef bod yn rhaid inni feddwl bod y bobl hyn wedi cael eu gadael i lawr i ryw raddau. Mi oedd y bwrdd hwn, ar adegau, yn gweithredu efo llawer llai na hyd yn oed y pedwar person hynny.

I have to say that I'm quite disappointed that we are discussing a report of this kind on the last day of the fourth Assembly. But I have to say that this report and the evidence was an eye-opener, to some extent. As someone who has been a member of a community council for 30 years, I don't think that I would read some of this evidence about a community council. The scheme was a very progressive one. It should have worked. I don't think that anyone is critical of the Welsh Government for the way that the idea was arrived at in the first instance, but everything after that is the subject of a great deal of criticism, if truth be told. As our Chair has said, by now, of course, we know that the Government is taking legal action against some of the experts who advised the Government. But what is surprising is the fact that the Government had thought that it was possible for four people who were appointed as members of the board to be able to discuss this kind of investment, without pay and within four days of the year. That was the expectation, in terms of the time that they put in. So, I share Jenny Rathbone's opinion that we have to think that these people have been let down, to some extent. This board, at times, was operating with far fewer than even those four people.

Rwy'n meddwl mai'r prif wendid yn yr holl saga yma, i ryw raddau, ydy'r ffaith bod gan Lywodraeth Cymru was sifil nad oedd neb yn gwybod yn union beth oedd ei rôl. Pan oeddwn yn gofyn i Mr Munday ei hun, hyd yn oed, nid oedd o'n glir am beth oedd ei rôl. Nid oedd aelodau'r bwrdd yn gwybod beth oedd y sefyllfa. Nid oedd y cwmnïau eu hunain, chwaith, yn gwybod. Rwy'n meddwl ei bod yn werth dweud bod Mr Munday ei hun wedi dweud ei fod yn cyfaddef nad oedd o wedi adrodd yn ôl, er enghraifft, i'w reolwyr na chwaith i Weinidogion. Mae'n rhaid gofyn pam nad oedd Gweinidogion, chwaith, yn gofyn cwestiynau ynglŷn â beth oedd yn cael ei gytuno. Mae'r Llywodraeth erbyn hyn, wrth gwrs, wedi cyfaddef bod yna wendidau sylfaenol. Fe wnaethon nhw roi tystiolaeth ym mis Hydref i'r pwyllgor, yn dweud eu bod, erbyn hynny, yn cyfaddef nad oedd statws yr unigolyn yn glir. Ond, er hynny, nid oedd gan y Llywodraeth ganllawiau ynglŷn â beth yn union oedd y sefyllfa. Hefyd, mi oedd yna ddiffyg, unwaith eto—ac rydym yn cael hyn dro ar ôl tro o ran ymchwiliadau'r pwyllgor hwn—mi oedd yna ddiffyg cofnodion ynglŷn â'r cyfarfodydd a oedd yn cymryd lle o fewn Llywodraeth Cymru. Nid yw hynny'n dderbyniol.

I think that the main weakness in this whole saga, to some extent, is the fact that the Welsh Government has a civil servant who nobody knew exactly what his role was. When we asked Mr Munday himself, even he wasn't clear about what his role was. The board members didn't know what the situation was. The companies themselves didn't know either. I think it's worth saying that Mr Munday had said that he admitted that he hadn't reported back, for example, to his managers or to Ministers. One has to ask why the Ministers themselves weren't asking questions about what was being agreed. The Government by now, of course, has admitted that there were fundamental weaknesses. They gave evidence in October to the committee, saying that they, by then, were admitting that the status of the individual wasn't clear. But, despite that, there was no guidance from the Government about what the situation was. Also, there was a lack, once again—and we have this time and again in terms of this committee's inquiries—of records about meetings that took place within the Welsh Government. That's not acceptable.

Mae'r adroddiad ei hun yn cynnwys llu o ddatganiadau ynglŷn â gwrthdaro buddiannau, ynglŷn â gwahaniaethau barn o fewn y sefydliadau, a hefyd bod yna ddryswch llwyr ynglŷn â chyfrifoldebau. Ac fel y dywedais, roedd yna ddiffyg o ran cyflwyno gwybodaeth gan gwmnïau a oedd yn cael eu talu am wneud hynny pan oedd penderfyniadau'n cael eu gwneud. Rwy'n meddwl hefyd, pan fyddwch yn darllen yr adroddiad—ac i'r rheini ohonoch nad oedd yn bresennol yn y pwyllgor, mae'n werth ei ddarllen, a dweud y gwir—bod cyfrolau yn cael eu dweud yn y ffaith bod un aelod o'r bwrdd wedi ceisio yswirio ei hun a hefyd pob aelod arall o'r bwrdd achos bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod cymryd yswiriant i'w cyfro nhw o ran eu cyfrifoldebau.

The report itself includes a whole host of statements about the conflicts of interest, about differences of opinion within organisations, and also the fact that there was complete confusion about responsibilities. As I said, there was a lack of information presented by companies that were paid for doing that when decisions were being made. I think, too, when you read the report—and to those of you who weren't present in the committee meetings, it's worth reading it—I think that it speaks volumes that one member of the board had tried to insure himself and all other members of the board because the Welsh Government had refused to take out insurance to cover them in terms of their responsibilities.

Rwy'n meddwl y dylem ni, mewn un ffordd, groesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr holl argymhellion. Nid wyf yn rhannu gobaith Jenny Rathbone, i ryw raddau, fod y Llywodraeth wedi dysgu gwersi. Amser a ddengys. Yn anffodus, rydym wedi cael gormod o adroddiadau o flaen y pwyllgor yma inni ddod i'r casgliad bod gwersi wedi'u dysgu. Ond beth fuaswn i'n gobeithio ydy bod y Gweinidog yn gallu dweud wrthym ni y prynhawn yma, os ydy'r gwersi yna wedi'u dysgu, pa gamau sydd wedi cael eu rhoi mewn lle ar gyfer y pumed Cynulliad, fel nad ydym ni, neu rai ohonom ni, yma mewn pum mlynedd yn siarad am union yr un adroddiad yn y pen draw?

I think that we should, in one way, welcome the fact that the Welsh Government has accepted all of the recommendations. I don't share the hope of Jenny Rathbone that, to some extent, the Government has learned lessons. Time will tell. Unfortunately, we've had too many reports before this committee for us to come to the conclusion that lessons have been learned in the past. But what I would hope is that the Minister could tell us this afternoon whether those lessons have now been learned, and if they have, what steps have been put in place for the fifth Assembly, so that we, or some of us, will not be here in five years' time, again talking about exactly the same report?

16:26

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

I welcome the opportunity to participate in this debate today. I deputised for Mohammad Asghar on this particular inquiry on the Public Accounts Committee, and I do declare that two parcels of land are in my elected area—whether that's an interest or not, but we did declare it at the start of the inquiry.

Croesawaf y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon heddiw. Dirprwyais ar ran Mohammad Asghar ar yr ymchwiliad penodol hwn yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ac rwy'n datgan bod dau barsel tir yn ardal fy etholaeth—pa un a yw hynny'n fuddiant ai peidio, ond fe wnaethom ei ddatgan ar ddechrau'r ymchwiliad.

The point I'd like to make here is that made in the words of the Chairman in his opening remarks, when he said how things seemed incomprehensible—how the whole thing unfolded from what was a genuinely sincere attempt to unlock Welsh Government assets for regeneration and put that cash to good effect across the length and breadth of Wales to make sure that communities that are desperate to have that regeneration could actually benefit and actually create economic activity and prosperity. But, regrettably, because of the incomprehensible way that the issue unfolded about selling the land, obviously huge opportunities were missed over the intervening time, and the RIFW scheme almost fell by the wayside because of the way that the whole thing had been managed. It is incomprehensible to think that land that had been acquired by the Land Authority for Wales and the Welsh Development Agency, which were charged strategically to acquire land for future development, whether that be residential land or whether that be industrial land, would not have a greater value at some point than agricultural value. I speak about the piece in my own region, in particular in Lisvane, which was, as has been spoken about by other Members, the jewel in the crown—130-odd acres of prime land to the north of the city, which at various times over the last 20 years had been identified as suitable for development in one shape or form or the other. So, it wasn't rocket science to work out that that particular parcel of land, and indeed many of the other parcels of land, came into public ownership because of the remit of what the Land Authority for Wales, and indeed the Welsh Development Agency at that time, had to do, which was acquire land to develop in the economic interests of the country.

Y pwynt yr hoffwn ei wneud yma yw'r un a wnaed yng ngeiriau'r Cadeirydd yn ei sylwadau agoriadol, pan ddywedodd sut roedd pethau'n ymddangos yn annealladwy—sut y datblygodd y cyfan o'r hyn oedd yn ymgais wirioneddol ddiffuant i ddatgloi asedau Llywodraeth Cymru ar gyfer adfywio a rhoi'r arian i weithio'n effeithiol ar hyd a lled Cymru er mwyn sicrhau bod cymunedau sy'n daer i gael adfywio o'r fath yn gallu elwa mewn gwirionedd a chreu gweithgarwch economaidd a ffyniant. Ond yn anffodus, oherwydd y ffordd annealladwy y datblygodd y mater ynghylch gwerthu'r tir, yn amlwg collwyd cyfleoedd enfawr yn y cyfamser, a bu bron i gynllun CBCA syrthio wrth ymyl y ffordd oherwydd y modd roedd yr holl beth wedi cael ei reoli. Mae'n anodd meddwl na fyddai tir a brynwyd gan Awdurdod Tir Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru, a oedd â'r cyfrifoldeb strategol i gaffael tir ar gyfer datblygu yn y dyfodol, boed hwnnw'n dir preswyl neu'n dir diwydiannol, yn werth mwy ar ryw adeg na thir amaethyddol. Rwy'n siarad am y darn o dir yn fy rhanbarth i, yn enwedig yn Llys-faen, a oedd, fel y soniodd Aelodau eraill, yn drysor gwell na'r un—oddeutu 130 o dir gorau i'r gogledd o'r ddinas, a oedd ar wahanol adegau dros yr 20 mlynedd diwethaf wedi cael ei nodi fel tir addas i'w ddatblygu ar ryw ffurf neu'i gilydd. Felly, nid oedd yn arbennig o anodd gweld bod y darn penodol hwnnw o dir, a llawer o'r parseli eraill o dir yn wir, wedi dod i berchnogaeth gyhoeddus oherwydd cylch gorchwyl yr hyn roedd yn rhaid i Awdurdod Tir Cymru, ac yn wir Awdurdod Datblygu Cymru ar y pryd, ei wneud, sef caffael tir i ddatblygu er budd economaidd y wlad.

I, too, like many other Members who have spoken in this debate, am still unsure as to exactly what role Chris Munday fulfilled. The one thing that came over time and time again was the complete lack of communication back and forth between the RIFW board and the Government, and it was almost as if people were cast adrift once the initial decisions and discussions had been taken. That clearly is a model of how not to run a system like this ever again, and if nothing else ever comes of this inquiry, I do hope that the Minister's response will give comfort to Members in this place, and the wider public, that the Government has learned lessons, and importantly, the civil service has learned lessons in the way that it manages its staff and holds itself accountable to Ministers, and then Ministers hold themselves accountable to this place and to the people of Wales, who obviously put that confidence in them to govern.

Rwyf fi, hefyd, fel llawer o Aelodau eraill sydd wedi siarad yn y ddadl hon, yn dal yn ansicr ynglŷn â beth yn union oedd rôl Chris Munday yn ei gyflawni. Yr un peth a oedd i'w deimlo dro ar ôl tro oedd y diffyg cyfathrebu llwyr rhwng bwrdd CBCA a'r Llywodraeth, ac roedd bron fel pe bai pobl yn cael eu lluchio o'r neilltu wedi i'r penderfyniadau a'r trafodaethau cychwynnol ddigwydd. Mae hynny'n amlwg yn fodel o sut i beidio â rhedeg system fel hon byth eto, ac os na ddaw dim arall byth o'r ymchwiliad hwn, rwy'n gobeithio y bydd ymateb y Gweinidog yn rhoi cysur i'r Aelodau yn y lle hwn, a'r cyhoedd yn gyffredinol, fod y Llywodraeth wedi dysgu gwersi, ac yn bwysig, fod y gwasanaeth sifil wedi dysgu gwersi o ran y ffordd y mae'n rheoli ei staff ac yn bod yn atebol i Weinidogion, a'r modd y mae'r Gweinidogion yn eu tro yn bod yn atebol i'r lle hwn ac i bobl Cymru, a ddangosodd yr ymddiriedaeth honno ynddynt i lywodraethu, wrth gwrs.

It is vital that, when looking at this, we don't get caught up in the timespan, which was thrown at us time and time again: 'Well, it was a different era; land values were different, and there was a crisis set of economic indicators with the collapse of the banks and everything.' There was clear evidence presented to us by the Savills report, for example, which showed many open market sales of properties of this type achieving considerably in excess of some of the values that had been attributed to these lots of land. So, that is a red herring, I would suggest, that has been put forward—that it was the economic situation at the time, and we had to respond to it.

Wrth edrych ar hyn, mae'n hanfodol nad ydym yn rhoi gormod o sylw i'r cyfnod, a daflwyd atom dro ar ôl tro: 'Wel, roedd yn gyfnod gwahanol; roedd gwerthoedd tir yn wahanol, ac roedd yna set argyfyngus o ddangosyddion economaidd gyda chwymp y banciau a phopeth.' Roedd tystiolaeth glir a gyflwynwyd i ni gan adroddiad Savills, er enghraifft, a ddangosai fod llawer o werthiannau eiddo o'r math hwn ar y farchnad agored yn mynd am brisiau cryn dipyn yn uwch na rhai o'r prisiau a briodolwyd i lawer o'r darnau hyn o dir. Felly, byddwn yn awgrymu bod hynny'n gamarweiniol—ei fod yn deillio o'r sefyllfa economaidd ar y pryd, a'n bod wedi gorfod ymateb iddi.

I thought the most damning evidence that we heard was from the director general, when he candidly admitted that the mindset within Government at the time was, 'Well, if there was to be a 20, 30, 40, 50 per cent write-down on these assets, so be it.' The key requirement at that time, or the mindset at that time, was to actually get cash flowing through the system, irrespective of whether they had to have a fire-storm sale of these public assets. I think that really was quite revealing as to the mindset that was governing the situation and governing the sale of this land.

Roeddwn i'n meddwl mai'r dystiolaeth fwyaf damniol a glywsom oedd yr hyn a ddywedodd y cyfarwyddwr cyffredinol, pan gyfaddefodd yn onest mai'r meddylfryd yn y Llywodraeth ar y pryd oedd, 'Wel, os oedd gostyngiad o 20, 30, 40, 50 y cant yn mynd i fod ar yr asedau hyn, boed hynny fel y bo.' Yr angen allweddol ar y pryd, neu'r meddylfryd ar y pryd oedd cael arian i lifo drwy'r system, pa un a oedd yn rhaid iddynt gael arwerthiant wedi tân o'r asedau cyhoeddus hyn ai peidio. Credaf fod hynny'n ddadlennol iawn mewn gwirionedd o ran y meddylfryd a oedd yn llywio'r sefyllfa ac yn llywio gwerthiant y tir hwn.

Now, we know that the Welsh taxpayer and indeed the RIFW concept have been the losers in all this debacle that we inquired into via the Public Accounts Committee. So, there is a great onus on you, Minister, today and I do hope that you will rise to that challenge and give us the assurances that we do require here, because the RIFW concept was a sound concept about getting that money into communities that required the regeneration. It was the oversight and execution of valuable assets—public assets—that really fell down on this particular episode, and no-one can feel comfortable about the way that this whole sorry tale unfolded. Regrettably, it is the Welsh taxpayer who has lost out to the tune of not millions, but tens of millions of pounds. I look forward to your response to this debate this afternoon.

Nawr, gwyddom mai trethdalwyr Cymru ac yn wir y cysyniad o Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio sydd wedi bod ar eu colled yn yr holl lanast hwn y buom yn ei ymchwilio drwy'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Felly, mae cyfrifoldeb mawr arnoch chi heddiw, Weinidog, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn ymateb i'r her honno ac yn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen arnom yma, oherwydd roedd y cysyniad o Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio yn un cadarn ynglŷn â chael yr arian i mewn i gymunedau a oedd angen adfywio o'r fath. Y gwaith o oruchwylio a gweithredu asedau gwerthfawr—asedau cyhoeddus—sydd wedi methu yn y stori benodol hon, ac ni all neb deimlo'n gyfforddus ynglŷn â'r ffordd y mae'r holl hanes trist wedi datblygu. Yn anffodus, mae trethdalwyr Cymru wedi colli, nid miliynau o bunnoedd, ond degau o filiynau o bunnoedd. Edrychaf ymlaen at eich ymateb i'r ddadl hon y prynhawn yma.

16:31

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty, Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths.

16:31 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'd like to begin by saying I share the frustration of Members who've spoken in this debate. I think it's a frustration that runs through the Public Accounts Committee report regarding the failure of the regeneration investment fund for Wales to deliver the benefits originally intended.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddechrau drwy ddweud fy mod yn rhannu rhwystredigaeth yr Aelodau sydd wedi siarad yn y ddadl hon. Rwy'n credu ei bod yn rhwystredigaeth sy'n rhedeg drwy adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch methiant cronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio i sicrhau'r buddiannau a fwriadwyd yn wreiddiol.

When the then One Wales coalition Government established RIFW in 2010, it was much needed. Securing funds from the European JESSICA programme and investing in regeneration through recyclable loans was undoubtedly a worthwhile aim at a time of real economic turmoil. I also share the frustration of the Chamber that the fund was unable to bring forward a range of projects as planned, contributing jobs and growth in communities all over Wales. It is also a source of real frustration that we were not in a position to demonstrate to the committee that maximum value had been obtained from the public resources invested in the fund. The way that RIFW was managed fell well below the standards we would expect as a Government. The First Minister apologised for this and I would like to take this opportunity to reiterate that apology today.

Pan sefydlwyd CBCA gan Lywodraeth glymblaid Cymru'n Un ar y pryd yn 2010, roedd yn fawr ei hangen. Roedd sicrhau arian o'r rhaglen JESSICA Ewropeaidd a buddsoddi mewn adfywio drwy fenthyciadau ailgylchadwy yn ddi-os yn nod gwerth chweil ar adeg o helbul economaidd gwirioneddol. Rwyf hefyd yn rhannu rhwystredigaeth y Siambr na allodd y gronfa gyflwyno amrywiaeth o brosiectau fel y cynlluniwyd, gan gyfrannu swyddi a thwf mewn cymunedau ledled Cymru. Mae hefyd yn ffynhonnell o rwystredigaeth go iawn nad oeddem mewn sefyllfa i ddangos i'r pwyllgor fod y gwerth mwyaf posibl wedi'i sicrhau o'r adnoddau cyhoeddus a fuddsoddwyd yn y gronfa. Mae'r ffordd y cafodd y gronfa ei rheoli ymhell o fod yn cyrraedd y safonau y byddem yn eu disgwyl fel Llywodraeth. Ymddiheurodd y Prif Weinidog am hyn a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ailadrodd yr ymddiheuriad hwnnw heddiw.

Whilst the RIFW concept was a good one, its delivery was flawed. We must learn from this important experience and ensure that nothing like this can occur again. The Government's response to the committee's report makes clear the range of actions we've already implemented, or have in hand, to improve our oversight of arm's-length bodies. The committee acknowledged the review of RIFW's governance undertaken by the current administration as early as 2013. We must get this right because, all across Government, individuals are contributing their time and expertise to support the development of policies and the delivery of services. I know from my own portfolio how important the contribution of outside experts can be. We value the contribution that board members and working group participants make. The work we have in hand will ensure we have governance structures in place that will allow the contribution of independent experts to the work of Government to strengthen and grow.

Er bod cysyniad y gronfa yn un da, roedd y modd y cafodd ei chyflawni yn ddiffygiol. Rhaid i ni ddysgu o'r profiad pwysig hwn a sicrhau na all unrhyw beth fel hyn ddigwydd eto. Mae ymateb y Llywodraeth i adroddiad y pwyllgor yn gwneud yn glir yr amrywiaeth o gamau gweithredu rydym wedi'u rhoi ar waith eisoes, neu sy'n barod i'w gweithredu, i wella'r modd y goruchwyliwn gyrff hyd braich. Cydnabu'r pwyllgor yr adolygiad o drefniadau llywodraethu CBCA a gynhaliwyd gan y weinyddiaeth bresennol mor gynnar â 2013. Mae'n rhaid i ni gael hyn yn iawn oherwydd, ar draws y Llywodraeth, mae unigolion yn cyfrannu eu hamser a'u harbenigedd i gefnogi datblygiad polisïau a'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu. Rwy'n gwybod o fy mhortffolio fy hun pa mor bwysig y gall cyfraniad arbenigwyr allanol fod. Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad aelodau bwrdd a chyfranogwyr ar weithgorau. Bydd y gwaith sydd gennym ar y gweill yn sicrhau bod gennym strwythurau llywodraethu a fydd yn caniatáu i gyfraniad arbenigwyr annibynnol i waith y Llywodraeth gryfhau a thyfu.

As Minister with responsibility in this area now, I have, like my predecessors, also been anxious to take whatever steps I could to safeguard the funds tied up in RIFW whilst the WAO investigation was under way. Huw Lewis commissioned two reviews into the fund in the spring of 2013 and Carl Sargeant took firm steps to bring the fund under direct ministerial control in October 2013. Members will be aware that, on 26 January, I announced that the £16.5 million remaining in the fund would be withdrawn and made available to fund regeneration projects.

Fel y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb yn y maes hwn yn awr, rwyf fi hefyd, fel fy rhagflaenwyr, wedi bod yn awyddus i wneud popeth a allwn i ddiogelu'r cronfeydd sydd wedi'u clymu yng Nghronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio tra roedd ymchwiliad Swyddfa Archwilio Cymru ar y gweill. Comisiynodd Huw Lewis ddau adolygiad o'r gronfa yn ystod gwanwyn 2013, a rhoddodd Carl Sargeant gamau pendant ar waith i ddod â'r gronfa dan reolaeth weinidogol uniongyrchol ym mis Hydref 2013. Fe fydd yr Aelodau'n ymwybodol fy mod wedi cyhoeddi ar 26 Ionawr y byddai'r £16.5 miliwn sy'n weddill yn y gronfa yn cael ei dynnu'n ôl a'i ryddhau i ariannu prosiectau adfywio.

The committee heard evidence about significant profits arising from land originally sold by RIFW being sold on for housing development. There were worrying deficiencies in the arrangements made for RIFW to share in the proceeds of these sales. However, I can reassure Members that we remain focused on maximising the proceeds of the public purse arising from the onward sale of two of the most important of RIFW's land assets.

Clywodd y pwyllgor dystiolaeth am elw sylweddol yn deillio o dir a werthwyd yn wreiddiol gan Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio yn cael ei werthu ar gyfer datblygiadau tai. Roedd diffygion a oedd yn peri pryder yn y trefniadau a wnaed i'r gronfa rannu yn enillion y gwerthiannau hyn. Fodd bynnag, gallaf roi sicrwydd i'r Aelodau y byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau cymaint o enillion â phosibl i'r pwrs cyhoeddus yn deillio o werthu dau o asedau tir pwysicaf y gronfa.

The PAC report highlights the central role played by the fund's commercial advisors in carrying out the functions of RIFW. We share a number of the committee's concerns regarding how these functions were exercised. In light of those concerns, the lengthy investigation by the audit office and our own examination of these matters, we have initiated a legal process against the fund's investment managers, Lambert Smith Hampton. We are keeping under review whether further legal steps may be necessary. Members will understand that I'm unable to comment any further on these matters at this stage.

Mae adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn tynnu sylw at rôl ganolog ymgynghorwyr masnachol y gronfa wrth gyflawni swyddogaethau CBCA. Rydym yn rhannu nifer o bryderon y pwyllgor ynglŷn â sut y gweithredwyd y swyddogaethau hyn. Yng ngoleuni'r pryderon hynny, yr ymchwiliad hir gan y swyddfa archwilio a'n harchwiliad ein hunain o'r materion hyn, rydym wedi cychwyn proses gyfreithiol yn erbyn rheolwyr buddsoddiadau'r gronfa, Lambert Smith Hampton. Rydym yn cadw'r angen am gamau cyfreithiol pellach dan arolwg. Bydd yr Aelodau'n deall na allaf wneud sylwadau pellach ar y materion hyn ar hyn o bryd.

I am pleased the committee was also able to acknowledge the steps that have been taken during the current term of Government to address the concerns identified in this case. We've already acted to make improvements as a result of the review. The committee has acknowledged the action taken to improve our oversight of matters relating to RIFW, the guidance we provide to officials and board members, as well as our internal arrangements for transferring projects between departments. Moving forward, it is vital the Welsh Government continues to learn lessons from the RIFW experience and takes every opportunity to improve policies and practice. All 17 of the committee's recommendations have been accepted, relating to Welsh Government. This work now needs to continue, both with regard to our sponsorship of arm's-length bodies more generally and the broader challenges surrounding the identification, oversight and management of major projects.

Rwy'n falch fod y pwyllgor hefyd wedi gallu cydnabod y camau a roddwyd ar waith yn ystod tymor y Llywodraeth bresennol i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd yn yr achos hwn. Rydym eisoes wedi gweithredu i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r adolygiad. Mae'r pwyllgor wedi cydnabod y camau a gymerwyd i wella'r modd rydym yn goruchwylio materion yn ymwneud â Chronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, y canllawiau a ddarparwn i swyddogion ac aelodau bwrdd, yn ogystal â'n trefniadau mewnol ar gyfer trosglwyddo prosiectau rhwng adrannau. Wrth symud ymlaen, mae'n hanfodol fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddysgu gwersi o brofiad CBCA ac yn manteisio ar bob cyfle i wella polisïau ac arferion. Derbyniwyd pob un o 17 o argymhellion y pwyllgor sy'n ymwneud â Llywodraeth Cymru. Mae angen i'r gwaith hwn barhau, o ran y modd rydym yn noddi cyrff hyd braich yn fwy cyffredinol a'r heriau ehangach ynghylch adnabod, goruchwylio a rheoli prosiectau mawr.

The history of RIFW has been lengthy and complicated and, following my announcement in January, the resources previously tied up in the fund can now deliver some of the public benefits they were originally intended to support. We have begun a legal process against the investment manager and we'll continue to review the further legal steps that may be necessary to recover value to ensure a fair and reasonable return for the public purse. I thank the committee for their consideration of this matter, and I'm pleased to support the motion.

Mae hanes CBCA wedi bod yn un hir a chymhleth ac yn dilyn fy nghyhoeddiad ym mis Ionawr, bellach gall yr adnoddau a oedd wedi'u clymu yn y gronfa yn flaenorol gyflawni rhai o'r manteision cyhoeddus y bwriadwyd iddynt eu cefnogi'n wreiddiol. Rydym wedi dechrau proses gyfreithiol yn erbyn y rheolwr buddsoddi a byddwn yn parhau i adolygu'r camau cyfreithiol pellach y gallai fod eu hangen i adfer gwerth er mwyn sicrhau elw teg a rhesymol i'r pwrs cyhoeddus. Diolch i'r pwyllgor am ystyried y mater hwn, ac rwy'n falch o gefnogi'r cynnig.

16:36

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And Darren Millar to reply.

A Darren Millar i ateb.

16:36 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much indeed, Deputy Presiding Officer. I think this has been an interesting debate, just to listen to individuals who were on the committee and also those who were not members of the committee as well, in terms of their views. That, of course, started with Nick Ramsay who was just referring to the reputational damage to the Welsh Government from these sales, because it does reflect not just on the Welsh Government, but on the National Assembly as a whole, actually, when these sorts of things go wrong. You referred, Nick, to Wonastow in your own constituency—a site that was sold by RIFW for £1.14 million and subsequently resold by South Wales Land Developments for £12 million. These are significant sums of money and, at a time when public finances are pressed and under pressure, that's money that could have been invested elsewhere in the public sector. So, rebuilding trust, I think, is very important, and that's why the Welsh Government's response, which has been very positive, to the recommendations must be followed through and delivered upon.

Alun Ffred Jones referred to the ministerial reporting arrangements in terms of how there was a lack of reporting, frankly, to Ministers by Welsh Government officials. Of course, when Ministers carry the can for the actions of officials, it's incredibly important that they are informed, particularly of significant land disposals like this. This is not the appointment of a cleaner somewhere, this is the disposal of tens of millions of pounds-worth of assets—the jewels in the crown of the Welsh Government's land holdings. To not have feedback going directly to Ministers about people who are acting on their behalf—and that's what this board was doing; it was making decisions on behalf of Welsh Ministers—frankly, is absolutely astonishing. I do think, as well, that that was complicated even further, those reporting arrangements, by the fact that there was transition between the One Wales Government, which, of course, initiated the RIFW scheme or project, as it were, and then coming into a new Welsh Government, post the elections back in 2011. And, of course, RIFW has passed from portfolio to portfolio after a number of ministerial appointments. We found, as a committee, that that added to the confusion, added to the reporting-back mechanisms and, frankly, the observer who was appointed to liaise with the board really didn't know who he should have been reporting to, because there was just no clear instruction to Mr Munday about that.

Jenny Rathbone started her contribution by referring to the fact that she had some sympathy with the board members, and I think those words are echoed in our report, because it was quite clear that they were appointed for a completely different purpose than land disposals. They didn't have the suite of skills that were required to be able to deliver land disposals at a price that was appropriate, and neither were they able to receive the advice that they should have received—it was inadequate—when they wanted to make decisions on the disposal of that land.

Diolch yn fawr iawn yn wir, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n credu bod hon wedi bod yn ddadl ddiddorol, o ran gwrando ar farn unigolion a oedd ar y pwyllgor a rhai nad oeddent yn aelodau o'r pwyllgor hefyd. Dechreuodd hynny, wrth gwrs, gyda Nick Ramsay a gyfeiriodd at y niwed y mae'r gwerthiannau hyn wedi'i wneud i enw da Llywodraeth Cymru, gan ei fod yn adlewyrchu'n wael nid yn unig ar Lywodraeth Cymru, ond ar y Cynulliad Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd, mewn gwirionedd, pan fydd y mathau hyn o bethau'n mynd o chwith. Fe gyfeirioch at Wonastow yn eich etholaeth, Nick—safle a werthwyd gan Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio am £1.14 miliwn a'i ailwerthu wedyn gan South Wales Land Developments am £12 miliwn. Mae'r rhain yn symiau sylweddol o arian ac ar adeg pan fo arian cyhoeddus o dan bwysau, dyna arian y gellid bod wedi'i fuddsoddi mewn mannau eraill yn y sector cyhoeddus. Felly, mae ailadeiladu ymddiriedaeth, rwy'n meddwl, yn bwysig iawn, a dyna pam y mae'n rhaid sicrhau bod ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion, sydd wedi bod yn gadarnhaol iawn, yn cael ei gyflawni.

Cyfeiriodd Alun Ffred Jones at y trefniadau adrodd gweinidogol o ran y diffyg adrodd, a dweud y gwir, i Weinidogion gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Wrth gwrs, pan fydd Gweinidogion yn ysgwyddo cyfrifoldeb am weithredoedd swyddogion, mae'n hynod o bwysig eu bod yn cael eu hysbysu, yn enwedig am werthiannau tir sylweddol fel hyn. Nid penodi glanhawr yn rhywle yw hyn, ond gwerthu gwerth degau o filiynau o bunnoedd o asedau—y trysor pennaf o blith daliadau tir Llywodraeth Cymru. Mae peidio â chael adborth yn mynd yn uniongyrchol i Weinidogion am bobl sy'n gweithredu ar eu rhan—a dyna roedd y bwrdd hwn yn ei wneud; roedd yn gwneud penderfyniadau ar ran Gweinidogion Cymru—yn gwbl syfrdanol, a bod yn onest. Rwy'n meddwl, yn ogystal, fod hynny wedi'i gymhlethu hyd yn oed ymhellach, y trefniadau adrodd hynny, gan y ffaith na fu pontio rhwng Llywodraeth Cymru'n Un, a gychwynnodd y cynllun neu'r prosiect CBCA, fel petai, a dyfodiad Llywodraeth Cymru newydd, ar ôl yr etholiadau yn ôl yn 2011. Ac wrth gwrs, mae CBCA wedi'i basio o bortffolio i bortffolio ar ôl nifer o benodiadau gweinidogol. Fel pwyllgor, gwelsom fod hynny wedi ychwanegu at y dryswch, wedi ychwanegu at y mecanweithiau adrodd yn ôl, ac a dweud y gwir, nid oedd yr arsyllwr a benodwyd i gysylltu â'r bwrdd yn gwybod i bwy y dylai adrodd, gan na roddwyd cyfarwyddyd clir i Mr Munday ynglŷn â hynny.

Dechreuodd Jenny Rathbone ei chyfraniad drwy gyfeirio at y ffaith fod ganddi rywfaint o gydymdeimlad ag aelodau'r bwrdd, ac rwy'n meddwl bod y geiriau hynny'n cael eu hategu yn ein hadroddiad, oherwydd roedd yn eithaf amlwg eu bod wedi'u penodi at ddiben hollol wahanol i werthiannau tir. Nid oedd ganddynt y gyfres o sgiliau roeddent eu hangen i allu cyflawni gwerthiannau tir am bris a oedd yn briodol, ac nid oeddent yn gallu cael y cyngor y dylent fod wedi'i gael—roedd yn annigonol—pan oeddent am wneud penderfyniadau ynghylch gwerthu'r tir hwnnw.

The size of the board here is something that we need to consider too. When you have an arm's-length organisation that has so few board members and one recuses himself or herself from the decision-making process, that leaves a huge capacity gap in a very small board. These things should have been thought out properly before the board was established to make sure that, because it was such a small pool of people who were involved in land asset disposals of this size and scale, frankly, it should have been recognised upfront. And the observer to that board should have been reporting back on the inadequate capacity of the board to able to deliver on the job. It was a massive disappointment to us that, frankly, he was giving the impression of being a non-executive director on that board—that's what he was described as: a non-voting member on the board—but he was giving advice and giving the 'approval', as it were—and I use quotation marks there—of the Welsh Government for everything that went on.

Mae maint y bwrdd yn rhywbeth sydd angen i ni ei ystyried hefyd. Pan fydd gennych sefydliad hyd braich gyda chyn lleied o aelodau bwrdd a bod un yn ymesgusodi o'r broses o wneud penderfyniadau, mae hynny'n gadael bwlch capasiti enfawr mewn bwrdd bach iawn. Dylai'r rhain fod wedi'u hystyried yn briodol cyn sefydlu'r bwrdd er mwyn sicrhau, am fod cyn lleied o bobl yn ymwneud â gwerthiannau asedau tir mor fawr, a dweud y gwir, dylai hynny fod wedi'i gydnabod ymlaen llaw. A dylai'r arsyllwr ar y bwrdd fod wedi adrodd yn ôl ar gapasiti annigonol y bwrdd i allu cyflawni'r gwaith. Roedd yn siom enfawr i ni, a dweud y gwir, ei fod yn rhoi'r argraff ei fod yn gyfarwyddwr anweithredol ar y bwrdd—dyna sut y'i disgrifiwyd: fel aelod heb bleidlais ar y bwrdd—ond roedd yn rhoi cyngor ac yn rhoi 'cymeradwyaeth', fel petai—ac rwy'n defnyddio dyfynodau yno—Llywodraeth Cymru i bopeth a ddigwyddai.

You also referred, Jenny, to the overage clauses and the inadequacy of those in terms of the length of time that they applied to. Again, the Welsh Government didn't learn from the experience that had been accumulated over many years by some of the land experts in the WDA and the land development authority, where it was very clear that a five-year term of overage is hardly ever used. Frankly, they're up to 20 years more typically. So, these things should have rang alarm bells within the Welsh Government and they didn't, and as a result of that, taxpayers are already losing out, because not only is it a fact that the overage clauses were inadequate, but insufficient sites had overage on them in the first place. We were told during the inquiry that, I think, up to five more sites at least should have had overage clauses put on them because of the development potential that could have been gleaned.

Fe gyfeirioch hefyd, Jenny, at y cymalau gorswm ac annigonolrwydd y rheini o ran y cyfnod o amser roeddent yn gymwys. Unwaith eto, ni ddysgodd Llywodraeth Cymru o brofiad a oedd wedi cronni dros lawer o flynyddoedd gan rai o arbenigwyr tir Awdurdod Datblygu Cymru a'r awdurdod datblygu tir, lle roedd hi'n glir iawn mai anaml iawn y defnyddir tymor o bum mlynedd o orswm. A dweud y gwir, byddant yn parhau hyd at 20 mlynedd yn fwy arferol. Felly, dylai'r pethau hyn fod wedi canu larymau yn Llywodraeth Cymru ac ni ddigwyddodd hynny, ac o'r herwydd, mae trethdalwyr eisoes ar eu colled, oherwydd nid yn unig y mae'n ffaith fod y cymalau gorswm yn annigonol, ond nid oedd digon o safleoedd â gorswm arnynt yn y lle cyntaf. Dywedwyd wrthym yn ystod yr ymchwiliad y dylid bod wedi rhoi cymalau gorswm ar hyd at bum safle arall, rwy'n meddwl, oherwydd y potensial datblygu y gellid bod wedi manteisio arno.

Aled, of course, focused not just on the Welsh Government observer that we've already discussed, but also on the record keeping of the Welsh Government, which we found to be wholly inadequate in terms of RIFW. We were told that the Welsh Government deleted diaries after 12 months and couldn't recover them, so they didn't know where people were or what meetings were being held with officials. It's frankly disgusting. When you're supposed to be able to hold people to account for the actions that they take, it is appalling that diaries are not kept and that we were unable to trace who was at which meeting, or even any record of those meetings. Even formal meetings weren't properly recorded, and minutes were not properly taken. For informal meetings, there were no notes at all. Again, I make the point: this is not about the appointment of a cleaner; this is about the disposal of tens of millions of pounds-worth of public assets. The record keeping should have been better and, of course, the Welsh Government has accepted that and is taking action to address it.

Canolbwyntiodd Aled, wrth gwrs, nid yn unig ar yr arsyllwr Llywodraeth Cymru rydym wedi'i drafod eisoes, ond hefyd ar ddull Llywodraeth Cymru o gadw cofnodion, y gwelsom ei fod yn gwbl annigonol mewn perthynas â Chronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio. Dywedwyd wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi dileu dyddiaduron ar ôl 12 mis ac na allai ddod o hyd iddynt, felly nid oeddent yn gwybod lle roedd pobl neu ba gyfarfodydd a gâi eu cynnal gyda swyddogion. Mae'n warthus a dweud y gwir. Pan ydych i fod i allu dwyn pobl i gyfrif am eu gweithredoedd, mae'n warthus nad yw dyddiaduron yn cael eu cadw ac nad oeddem yn gallu olrhain pwy oedd ym mha gyfarfod, neu unrhyw gofnod o'r cyfarfodydd hynny hyd yn oed. Ni chafodd cyfarfodydd ffurfiol hyd yn oed eu cofnodi'n briodol, ac ni chedwid cofnodion yn y modd priodol. Ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol, ni chadwyd unrhyw nodiadau o gwbl. Unwaith eto, rwy'n gwneud y pwynt: nid yw hyn yn ymwneud â phenodi glanhawr; mae hyn yn ymwneud â gwerthu gwerth degau o filiynau o bunnoedd o asedau cyhoeddus. Dylai'r cofnodion fod wedi'u cadw'n well ac wrth gwrs, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn hynny ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater.

Andrew R.T. Davies referred to the fact that there was a sound concept behind RIFW, and he's absolutely right: you know, there were public spending restraint, the Welsh Government wanted to release some money for investment in these regeneration projects, and this was one way of doing it. Frankly, a great idea, wonderful that people were thinking outside the box, but you have to be able to deliver on these ideas, and it was quite clear that they were not the right people giving the advice to Ministers at the time to be able to get it right. And that fire-sale mentality was the one that clearly was prevailing when the original asset disposal plan was ditched in favour of this whole portfolio sale.

Cyfeiriodd Andrew R.T. Davies at y ffaith fod yna gysyniad cadarn yn sail i'r gronfa, ac mae'n hollol iawn: wyddoch chi, roedd cyfyngu ar wariant cyhoeddus, roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i ryddhau rhywfaint o arian ar gyfer buddsoddi yn y prosiectau adfywio hyn, ac roedd hyn yn un ffordd o wneud hynny. A dweud y gwir, roedd yn syniad gwych, roedd hi'n wych fod pobl yn meddwl y tu allan i'r blwch, ond mae'n rhaid i chi allu cyflawni'r syniadau hyn, ac roedd yn eithaf amlwg nad oedd y bobl gywir yn rhoi cyngor i Weinidogion ar y pryd er mwyn gallu ei gael yn iawn. Ac mae'n amlwg mai'r meddylfryd arwerthiant wedi tân hwnnw a fu drech pan gafodd y cynllun gwerthu asedau gwreiddiol ei wrthod o blaid gwerthu'r portffolio cyfan.

I'm very grateful, Minister, for your positive response to the recommendations, and the further apology to not just the Chamber, but also the Welsh public for what went wrong. People will listen very carefully to that, and obviously want to see whichever administration is formed after 5 May following up on all of these recommendations to make sure it doesn't happen again. I will say this, though: one thing that we do note in the report is that the action that was taken once these things were brought to the attention of Ministers—the action taken by people like Carl Sargeant, Huw Lewis and others—was appropriate in terms of the brakes being put on and the responsibilities being rolled back into Ministers' hands from RIFW, and I think that is absolutely right.

Rwy'n ddiolchgar iawn, Weinidog, am eich ymateb cadarnhaol i'r argymhellion, a'r ymddiheuriad pellach, nid yn unig i'r Siambr, ond hefyd i'r cyhoedd yng Nghymru am yr hyn a aeth o'i le. Bydd pobl yn gwrando'n ofalus iawn ar hynny, ac yn amlwg yn awyddus i weld pa weinyddiaeth bynnag a ffurfir ar ôl 5 Mai yn gwneud gwaith dilynol ar bob un o'r argymhellion hyn er mwyn sicrhau nad yw'n digwydd eto. Dywedaf hyn, serch hynny: un peth rydym yn ei nodi yn yr adroddiad yw bod y camau a gymerwyd ar ôl i'r pethau hyn gael eu dwyn i sylw Gweinidogion—y camau a gymerwyd gan bobl fel Carl Sargeant, Huw Lewis ac eraill—yn briodol o ran gwasgu'r brêc a thynnu cyfrifoldebau yn ôl i ddwylo'r Gweinidogion o Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, a chredaf fod hynny wedi bod yn gwbl gywir.

But I will end on this note. These findings in this report are echoed in many other reports that have been published by the Public Accounts Committee over the past five years. There are echoes in it in relation to our work on the All Wales Ethnic Minority Association, echoes in relation to our grants management work, and even echoes in particular in terms of the board arrangements in our work on the Betsi Cadwaladr university health board. There's something fundamentally wrong if lessons are not learnt when report after report after report is being published picking up on some of the same themes. There's further work to be done, of course, in the next Assembly, and I very much expect the work that we've already started as a Public Accounts Committee on the Wales life sciences investment fund to be picked up by our successor committee. That work too, I think, already is beginning to expose some similar problems. So, I think it's very important that all the people in this Chamber—all Assembly Members—and whoever succeeds us following the next elections continue to focus on getting these things right once and for all. Thank you.

Ond dof i ben ar y nodyn hwn. Mae'r canfyddiadau hyn yn yr adroddiad yn cael eu hadleisio mewn nifer o adroddiadau eraill a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae adleisiau ynddo mewn perthynas â'n gwaith ar Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, adleisiau mewn perthynas â'n gwaith rheoli grantiau, a hyd yn oed adleisiau yn benodol mewn perthynas â threfniadau'r bwrdd yn ein gwaith ar fwrdd iechyd prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae rhywbeth sylfaenol o'i le os nad yw gwersi'n cael eu dysgu pan fydd adroddiad ar ôl adroddiad ar ôl adroddiad a gyhoeddir yn parhau â rhai o'r un themâu. Mae rhagor o waith i'w wneud, wrth gwrs, yn y Cynulliad nesaf, ac rwy'n disgwyl yn fawr iawn y bydd y gwaith rydym eisoes wedi'i ddechrau fel Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gronfa buddsoddi gwyddorau bywyd Cymru yn cael ei barhau gan y pwyllgor a fydd yn ein holynu. Mae'r gwaith hwnnw hefyd, rwy'n meddwl, eisoes yn dechrau amlygu problemau tebyg. Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i'r holl bobl yn y Siambr hon—pob un o Aelodau'r Cynulliad—a phwy bynnag sy'n ein holynu wedi'r etholiadau nesaf, yn parhau i ganolbwyntio ar gael y pethau hyn yn iawn unwaith ac am byth. Diolch.

16:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:46

# 10. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ei Ymchwiliad i Adolygiad Siarter y BBC

# 10. Debate on the Communities, Equality and Local Government Committee's Report on its Inquiry into the BBC Charter Review

Y Senedd.tv
Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 10 is the debate on the Communities, Equality and Local Government Committee’s report on its inquiry into the BBC Charter review. I call the Chair of the committee to move the motion—Christine Chapman.

Eitem 10 yw’r ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ei ymchwiliad i’r adolygiad o Siarter y BBC. Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor i gynnig y cynnig—Christine Chapman.

Cynnig NDM6009 Christine Chapman

Motion NDM6009 Christine Chapman

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar yr ymchwiliad i’r Adolygiad o Siarter y BBC, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2016.

1. Notes the report of the Communities, Equality and Local Government Committee on the inquiry into the BBC Charter Review, which was laid in the Table Office on 2 March 2016; and

2. Yn cytuno y dylai’r BBC, os yw’n derbyn argymhelliad y pwyllgor, osod adroddiadau blynyddol a datganiadau archwiliedig o gyfrifon gerbron y Cynulliad.

2. Agrees that the BBC, if it accepts the committee’s recommendation, should lay before the Assembly annual reports and audited statements of accounts.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:46

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. The BBC’s royal charter is the constitutional basis for the BBC. It sets out the BBC’s public purposes, guarantees its independence, and outlines the duties of the trust and executive. The current charter expires in December 2016 and, in advance of this, the UK Government has started a review process prior to the agreement of a new charter for the next 10 years. Our inquiry looked at the implications of the charter review for Wales, including the future provision of services by the BBC and its governance and accountability arrangements. We also considered the future arrangements for S4C. We issued an open call for views and held a number of oral evidence sessions, and I would like to record our thanks to all those who contributed to our inquiry. I would also like to place on record my thanks —and I know my committee members will say the same—. A big thank you to our committee clerking team and the Members’ Research Service for their contribution to helping us put this report together.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Siarter frenhinol y BBC yw’r sail gyfansoddiadol ar gyfer y BBC. Mae’n nodi dibenion cyhoeddus y BBC, yn gwarantu ei annibyniaeth, ac yn amlinellu dyletswyddau’r ymddiriedolaeth a’r weithrediaeth. Daw’r siarter gyfredol i ben ym mis Rhagfyr 2016 a chyn hynny, mae Llywodraeth y DU wedi dechrau proses adolygu cyn cytuno ar siarter newydd ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Edrychodd ein hymchwiliad ar oblygiadau’r adolygiad o’r siarter i Gymru, gan gynnwys darparu gwasanaethau gan y BBC a’i drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi ystyried y trefniadau ar gyfer S4C yn y dyfodol. Rydym wedi cyhoeddi galwad agored am safbwyntiau ac wedi cynnal nifer o sesiynau tystiolaeth lafar, a hoffwn gofnodi ein diolch i bawb a gyfrannodd at ein hymchwiliad. Hoffwn hefyd gofnodi fy niolch—a gwn y bydd aelodau fy mhwyllgor yn dweud yr un peth—. Diolch yn fawr i dîm clercio’r pwyllgor a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau am eu cyfraniad i’n helpu i lunio’r adroddiad hwn.

Our report includes a number of recommendations. I will not cover them all today, as time is limited. Also, given the limited time between the publication of our report and the dissolution of the Assembly, it’s not been possible to receive a formal response from the Welsh Government, but I therefore look forward to the Minister’s contribution today.

Mae ein hadroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion. Nid wyf am ymdrin â phob un ohonynt heddiw, gan fod amser yn brin. Hefyd, o ystyried yr amser cyfyngedig rhwng cyhoeddi ein hadroddiad a diddymu’r Cynulliad, ni fu’n bosibl cael ymateb ffurfiol gan Lywodraeth Cymru, felly edrychaf ymlaen at gyfraniad y Gweinidog heddiw.

The BBC holds an important position in Welsh life. Audiences in Wales consume a greater proportion of BBC services than the other nations and regions of the UK and are particularly dependent on the BBC for news and current affairs. Because of this, the BBC has a responsibility to ensure that its output reflects the diversity of Welsh life and culture, and it's here that the committee believes that the BBC has fallen short of its obligations. The significant decline in the BBC's investment in English-language programming for Wales over the last 10 years has meant fewer hours of Wales-specific programming. Further, the programming schedule has not adequately captured and explored the lives and experiences of Welsh communities and the changing political landscape post devolution. As a means of addressing this, we believe that there is a need to strengthen the BBC's statement of public purposes to ensure that the BBC reflects, represents, and serves the needs of the UK, its nations, regions and communities.

Mae i'r BBC le pwysig ym mywyd Cymru. Mae cynulleidfaoedd yng Nghymru yn derbyn cyfran fwy o wasanaethau'r BBC na gwledydd a rhanbarthau eraill y DU ac maent yn arbennig o ddibynnol ar y BBC am newyddion a materion cyfoes. Oherwydd hyn, mae gan y BBC gyfrifoldeb i sicrhau bod ei allbwn yn adlewyrchu amrywiaeth bywyd a diwylliant Cymru, a dyna ble y cred y pwyllgor y mae'r BBC wedi methu â chyflawni ei rwymedigaethau'n llawn. Mae'r dirywiad sylweddol ym muddsoddiad y BBC mewn rhaglenni Saesneg i Gymru dros y 10 mlynedd diwethaf wedi golygu bod llai o oriau o raglenni penodol i Gymru. Ymhellach, nid yw'r amserlen raglennu yn darlunio nac yn archwilio bywydau a phrofiadau cymunedau Cymru yn ddigonol na'r newid yn y tirlun gwleidyddol ar ôl datganoli. Fel ffordd o fynd i'r afael â hyn, credwn fod angen cryfhau'r datganiad o ddibenion cyhoeddus y BBC i sicrhau bod y BBC yn adlewyrchu, yn cynrychioli, ac yn gwasanaethu anghenion y DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau.

In our report, we comment on the Welsh Government's call for an independent review of public service broadcasting in Wales. While we don't disagree with this, we consider that such a review is unlikely in the time available before the renewal of the charter. More broadly, we believe that the Welsh Government should invest in greater capacity to support its work on media policy, particularly given the cultural and economic significance of the media sector to Wales. As such, we recommend that the Government establish an independent media forum for Wales, drawing on expertise from across the media sectors and academia.

Yn ein hadroddiad, rydym yn gwneud sylwadau ar alwad Llywodraeth Cymru am adolygiad annibynnol o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Er nad ydym yn anghytuno â hyn, rydym o'r farn fod adolygiad o'r fath yn annhebygol yn yr amser cyn adnewyddu'r siarter. Yn fwy cyffredinol, credwn y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn mwy o gapasiti i gefnogi ei gwaith ar bolisi cyfryngau, yn enwedig o ystyried arwyddocâd diwylliannol ac economaidd y sector cyfryngau i Gymru. Fel y cyfryw, rydym yn argymell y dylai'r Llywodraeth sefydlu fforwm cyfryngau annibynnol i Gymru, gan ddefnyddio arbenigedd ar draws y sectorau cyfryngau a'r byd academaidd.

We believe that the overall structure and culture of the BBC is focused too greatly in London at the expense of the nations and regions of the UK. In Wales, this London bias has contributed to a lack of representation and portrayal of Welsh life and culture, particularly on the BBC's wider network services. We believe that the introduction of specific and measurable targets for portrayal would assist in this area.

Rydym yn credu bod strwythur cyffredinol a diwylliant y BBC yn canolbwyntio ormod ar Lundain ar draul gwledydd a rhanbarthau'r DU. Yng Nghymru, mae'r duedd Lundeinig hon wedi cyfrannu at fethu â chynrychioli a phortreadu bywyd a diwylliant Cymru yn llawn, yn enwedig ar wasanaethau rhwydwaith ehangach y BBC. Credwn y byddai cyflwyno targedau penodol a mesuradwy ar gyfer eu portreadu o gymorth yn y maes hwn.

We also commented on the BBC's commissioning arrangements, which remain heavily centralised. We heard that the main decision making about the commissioning of programmes continues to take place in London, despite production being increasingly devolved. So, we recommend the decentralising of the BBC's network commissioning arrangements in Wales, and believe this would help to increase diversity in the portrayal of Wales on BBC programmes.

Gwnaethom sylwadau hefyd ar drefniadau comisiynu'r BBC, sy'n parhau i fod wedi'u canoli'n helaeth. Clywsom fod y prif benderfyniadau ynglŷn â chomisiynu rhaglenni yn parhau i ddigwydd yn Llundain, er bod cynhyrchu'n cael ei ddatganoli yn gynyddol. Felly, rydym yn argymell datganoli trefniadau comisiynu rhwydwaith y BBC yng Nghymru, ac yn credu y byddai hyn yn helpu i gynyddu amrywiaeth yn y portread o Gymru ar raglenni'r BBC.

Regarding the funding, we are deeply concerned about the implications of funding reductions for BBC Wales on the range and quality of the BBC's future output for Wales. The Welsh Government has called for the BBC to invest an additional £30 million into the services it provides for Wales and we do support this call and agree that this investment is crucial to the continuation of high-quality content for Wales.

O ran y cyllid, rydym yn bryderus iawn ynglŷn â goblygiadau gostyngiadau yng nghyllid BBC Wales i ystod ac ansawdd allbwn y BBC i Gymru yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi galw ar y BBC i fuddsoddi £30 miliwn yn ychwanegol yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu ar gyfer Cymru ac rydym yn cefnogi'r alwad hon ac yn cytuno bod y buddsoddiad hwn yn hanfodol i barhad cynnwys o ansawdd uchel ar gyfer Cymru.

On governance and accountability, we believe that there should be a direct line of accountability from the BBC to the Assembly for the BBC's output in Wales. And, to this end, we have recommended that the BBC lay annual reports and accounts before the Assembly about its provision of services specifically for Wales. The second point in the motion for this debate is intended to enable the BBC to lay such reports and accounts.

Ar lywodraethu ac atebolrwydd, rydym yn credu y dylai fod llinell uniongyrchol o atebolrwydd o'r BBC i'r Cynulliad am gynnyrch y BBC yng Nghymru. Ac i'r perwyl hwn, rydym wedi argymell bod y BBC yn cyflwyno adroddiadau blynyddol a chyfrifon gerbron y Cynulliad ynglŷn â'i ddarpariaeth o wasanaethau penodol ar gyfer Cymru. Bwriad yr ail bwynt yn y cynnig ar gyfer y ddadl hon yw galluogi'r BBC i gyflwyno adroddiadau a chyfrifon o'r fath.

We also believe that the Assembly should strengthen its own arrangements for holding the BBC and other media organisations to account for the services they provide in Wales and the money spent in doing so. We've therefore recommended that the fifth Assembly should establish a committee on communications. This would reflect the importance of broadcasting and the media to Welsh life and the economy.

Rydym hefyd yn credu y dylai'r Cynulliad gryfhau ei drefniadau ei hun ar gyfer dwyn y BBC a sefydliadau eraill yn y cyfryngau i gyfrif am y gwasanaethau y maent yn eu darparu yng Nghymru a'r arian a werir ar wneud hynny. Felly, rydym wedi argymell y dylai'r pumed Cynulliad sefydlu pwyllgor ar gyfathrebu. Byddai hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd darlledu a'r cyfryngau i fywyd Cymru a'r economi.

In conclusion, then, I do commend this report to the Assembly and I look forward to the debate. Thank you.

I gloi felly, rwy'n cymeradwyo'r adroddiad hwn i'r Cynulliad ac edrychaf ymlaen at y ddadl. Diolch.

16:52

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First, can I thank the Communities, Equality and Local Government Committee for their inquiry and their commendably succinct report, which is very helpful to a non-member like me, I must admit?

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol am eu hymchwiliad a'u hadroddiad clodwiw o gryno, sy'n ddefnyddiol iawn i rywun fel fi nad yw'n aelod, mae'n rhaid i mi gyfaddef?

Notwithstanding the BBC's investment in production in Wales, there is still a big question about the visibility of Wales on the screens of the UK as a whole, and on not just the screens, of course, but all media platforms, and I think the committee heard that this is down to money in no small part, with sport, news and current affairs eating up most of BBC Wales's budget. The leftovers of £5 million or so wouldn't really commission you much quality drama or comedy.

Er gwaethaf buddsoddiad y BBC mewn cynhyrchu yng Nghymru, ceir cwestiwn mawr ynghylch gweledēdd Cymru ar sgriniau'r DU yn ei chyfanrwydd, ac nid yn unig ar y sgriniau, wrth gwrs, ond ar yr holl blatfformau cyfryngol, ac rwy'n credu bod y pwyllgor wedi clywed bod hyn yn ymwneud ag arian i raddau helaeth, gyda chwaraeon, newyddion a materion cyfoes yn bwyta'r rhan fwyaf o gyllideb BBC Wales. Ni fyddai'r oddeutu £5 miliwn sy'n weddill yn comisiynu llawer o ddrama neu gomedi o ansawdd i chi.

I'm sure, though, that 'Here Be Dragons', for example, didn't cost that much. Please let's hear more of that back on Radio 4, and why not see if there's a wider audience for it? For, if we in Wales can love the residents of Stoneybridge and Craggy Island, and enjoy going out for an 'English' as much as anyone else, then I'm sure that the cut-throat rivalry on the Snowdon Mountain Railway has appeal beyond the Friday night listener of Radio Wales. If you don't know what I'm talking about, that's because you'll have been listening to 'The News Quiz' or 'The Now Show', like most of us. And that encapsulates the challenge—to get more of Wales onto the national network.

Rwy'n siŵr, fodd bynnag, nad oedd 'Here Be Dragons', er enghraifft, yn costio cymaint â hynny. Os gwelwch yn dda gadewch i ni glywed mwy o'r rhaglen honno ar Radio 4, a beth am weld a oes cynulleidfa ehangach ar ei chyfer? Oherwydd, os ydym ni yng Nghymru wrth ein bodd â thrigolion Stoneybridge a Craggy Island, ac yn mwynhau mynd allan am 'bryd Seisnig' cymaint â neb arall, yna rwy'n siŵr fod y gystadleuaeth ffyrnig ar Reilffordd yr Wyddfa yn apelio y tu hwnt i wrandawyr Radio Wales ar nos Wener. Os nad ydych yn gwybod am beth rwy'n siarad, bydd hynny oherwydd eich wedi bod yn gwrando ar 'The News Quiz' neu 'The Now Show', fel y rhan fwyaf ohonom. Ac mae hynny'n crisialu'r her—cael mwy o Gymru ar y rhwydwaith cenedlaethol.

You can see it with current affairs. The day that BBC Wales broke the news on the RIFW report, network news was talking about snow in the USA. When the worsening recent A&E statistics in England were reported on Radio 4, there was no mention of the even worse statistics in the other nations of the UK. And that matters not just because people living in England need to understand more about their devolved neighbours in order to understand the UK as it is today, but because Radio 4 listeners in Wales can draw conclusions and make political decisions based on information that is incomplete at best and irrelevant at worst.

Gallwch ei weld gyda materion cyfoes. Ar y diwrnod y torrodd BBC Wales y newyddion am yr adroddiad ar Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, roedd newyddion y rhwydwaith yn sôn am eira yn yr Unol Daleithiau. Pan gafwyd adroddiadau ar Radio 4 am y modd y mae ystadegau adrannau damweiniau ac achosion brys yn Lloegr wedi gwaethygu'n ddiweddar, nid oedd unrhyw sôn am yr ystadegau gwaeth byth yng ngwledydd eraill y DU. Ac mae hynny'n bwysig nid yn unig am fod angen i bobl sy'n byw yn Lloegr ddeall mwy am eu cymdogion datganoledig er mwyn deall y DU fel y mae heddiw, ond er mwyn i wrandawyr Radio 4 yng Nghymru ddod i gasgliadau a gwneud penderfyniadau gwleidyddol yn seiliedig ar wybodaeth sy'n anghyflawn ar y gorau ac yn amherthnasol ar ei gwaethaf.

We may complain that a dominant BBC Wales hasn't succeeded in getting the message across to a Welsh audience about what's devolved and what isn't, but the finger can be wagged much more firmly at the BBC at UK level, which has absolutely failed to help anyone in the UK understand devolution, including those of us in Wales.

Efallai y gallwn gwyno nad yw BBC Wales cryfach wedi llwyddo i gyfleu'r neges i gynulleidfa Gymreig am yr hyn sydd wedi'i ddatganoli a'r hyn nad yw wedi'i ddatganoli, ond gellir pwyntio bys yn llawer mwy pendant at y BBC ar lefel y DU, sydd wedi methu'n llwyr â helpu unrhyw un yn y DU i ddeall datganoli, gan ein cynnwys ni yng Nghymru.

Some of us—or some here, I should say—will see these as reasons to devolve broadcasting. But I say 'no' to that. These are reasons for the BBC, at UK level, to get its act together. And, while I am persuaded that a separate service licence for each of the nations will help BBC Wales do better on reflecting Wales back to the people of Wales, it runs the same risk as devolved broadcasting would, which is letting the BBC at UK level completely off the hook on its duty—and it is its duty—to reflect the nations and regions across the network.

Bydd rhai ohonom—neu rai yma, dylwn ddweud—yn gweld y rhain fel rhesymau dros ddatganoli darlledu. Ond rwy'n dweud 'na' i hynny. Mae'r rhain yn rhesymau pam y dylai'r BBC, ar lefel y DU, gael trefn ar bethau. Ac er fy mod wedi fy argyhoeddi y bydd trwydded gwasanaeth ar wahân i bob un o'r gwledydd yn helpu BBC Wales i wneud yn well o ran adlewyrchu Cymru yn ôl i bobl Cymru, mae iddo'r un risg ag a fyddai i ddarlledu datganoledig, sef gadael i'r BBC ar lefel y DU osgoi'n gyfan gwbl ei ddyletswydd—a dyna yw ei ddyletswydd—i adlewyrchu'r gwledydd a'r rhanbarthau ar draws y rhwydwaith.

So, in supporting the idea of separate service licences, what do we do about governance to ensure that the Tristrams don't use them as excuses to sideline Wales? Clementi has now recommended that Ofcom assume the regulatory oversight of the BBC, and, with its discrete Welsh advisory committee, that may be appropriate. But the plans for the unitary board running the day-to-day operations do worry me, especially from the perspective of visible independence. I think I've still got that concern, even with Clementi's idea of a majority of non-executive directors being part of that unitary board.

Felly, wrth gefnogi'r syniad o drwyddedau gwasanaeth ar wahân, beth a wnawn ynglŷn â llywodraethu i sicrhau nad yw'r Tristrams yn eu defnyddio fel esgusodion i wthio Cymru o'r neilltu? Mae Clementi bellach wedi argymell bod Ofcom yn cyflawni goruchwyliaeth reoleiddiol ar y BBC, a chyda'i bwyllgor ymgynghorol annibynnol ar gyfer Cymru, gallai hynny fod yn briodol. Ond mae'r cynlluniau i'r bwrdd unedol redeg y gweithrediadau o ddydd i ddydd yn fy mhoeni, yn enwedig o safbwynt annibyniaeth weladwy. Rwy'n meddwl fy mod yn dal yn bryderus ynglŷn â hynny, hyd yn oed gyda syniad Clementi o fwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol yn rhan o'r bwrdd unedol hwnnw.

First, there is the question of the level of Welsh representation on that board. Will one non-executive from Wales have any more force than one Wales trustee in the current circumstances? Although, I hope the Assembly does agree with me that Wales has been very fortunate to have someone of the calibre of Elan Closs Stephens in that role latterly.

Yn gyntaf, ceir cwestiwn ynglŷn â lefel y gynrychiolaeth o Gymru ar y bwrdd hwnnw. A fydd gan un aelod anweithredol o Gymru fwy o rym o gwbl nag ymddiriedolwr o Gymru yn yr amgylchiadau presennol? Er, rwy'n gobeithio bod y Cynulliad yn cytuno bod Cymru wedi bod yn ffodus iawn i gael rhywun o galibr Elan Closs Stephens yn y rôl honno yn ddiweddar.

Secondly, how would that representative be chosen? When we talk about the arts or broadcasting, my heart sinks at the words 'Government appointment', just as it does, I'm afraid, at the prospect of a Government forum. It doesn't rise much higher at the words 'joint Government appointment' either. Personally, I think this may be a chance for an Assembly appointment, an indisputably independent choice, to whatever the representative board looks like at some point.

Yn ail, sut y byddai'r cynrychiolydd yn cael ei ddewis? Pan soniwn am y celfyddydau neu ddarlledu, mae fy nghalon yn suddo wrth glywed y geiriau 'penodiad Llywodraeth', yn union fel y mae'n ei wneud, yn anffodus, wrth feddwl am fforwm Llywodraeth. Nid yw'n suddo fawr llai wrth glywed y geiriau 'cyd-benodiad Llywodraeth' ychwaith. Yn bersonol, rwy'n credu y gallai hwn fod yn gyfle i gael penodiad Cynulliad, dewis diamheuol o annibynnol, i ba ffurf bynnag fydd ar y bwrdd cynrychiadol ar ryw bwynt.

16:56 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention on that, Suzy?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar hynny, Suzy?

16:56 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm a bit short of time, but, yes, okay.

Rwyf ychydig yn brin o amser, ond gwnaf, iawn.

16:56 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that. I accept very much the point you make that we differentiate between this place and the Government, and I agree with you on that. Do you therefore not see a role for this place in holding the BBC to account—not the devolution of broadcasting but the devolution of accountability?

Diolch i chi am hynny. Rwy'n derbyn yn bendant iawn y pwynt a wnewch ein bod yn gwahaniaethu rhwng y lle hwn a'r Llywodraeth, ac rwy'n cytuno â chi ar hynny. A ydych, felly, yn gweld rôl i'r lle hwn yn dwyn y BBC i gyfrif—nid datganoli darlledu ond datganoli atebolrwydd?

16:57 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Oh, completely, and I'm just coming up to that now.

O, yn gyfan gwbl, ac rwy'n dod at hynny yn awr.

All public service broadcasters, not just the BBC—all public service broadcasters—should be accountable to this place on their public service broadcast performance on devolved matters, as well as to Parliament. But there's an argument as well that the accountability should extend to Ofcom in Wales for its oversight of broadcasting here and the Welsh representative for the BBC at UK level—whatever that ends up looking like—so that we can see what influence they have been able to exert over their respective national bodies on this issue of representation of nations and regions.

Dylai pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, nid y BBC yn unig—pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus—fod yn atebol i'r lle hwn o ran eu perfformiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar faterion datganoledig, yn ogystal ag i'r Senedd. Ond ceir dadl yn ogystal y dylai'r atebolrwydd ymestyn i gynnwys Ofcom yng Nghymru am ei waith yn goruchwylio darlledu yma a chynrychiolydd Cymru ar gyfer y BBC ar lefel y DU—beth bynnag fydd hynny yn y pen draw—er mwyn i ni allu gweld pa ddylanwad y maent wedi gallu ei gael ar eu cyrff cenedlaethol perthnasol ar y mater hwn o gynrychiolaeth gwledydd a rhanbarthau.

Thirdly, and finally, whatever joint accountability looks like, whatever we do in this Assembly in terms of accountability, we must have influence on what the Department for Culture, Media and Sport is looking at when they're looking at the BBC. There's no point us sitting here producing reports that sit on shelves. They've got to have strength and weight when it comes to holding DCMS to account. Thank you.

Yn drydydd, ac yn olaf, beth bynnag fydd ffurf atebolrwydd ar y cyd, beth bynnag a wnawn yn y Cynulliad hwn o ran atebolrwydd, rhaid i ni gael dylanwad ar yr hyn y mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn edrych arno pan fyddant yn edrych ar y BBC. Nid oes pwrpas i ni eistedd yma'n cynhyrchu adroddiadau sy'n gorwedd ar silffoedd. Mae'n rhaid iddynt gael digon o nerth a phwysau i ddwyn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gyfrif. Diolch.

16:58 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I, too, would like to begin my remarks by thanking the staff of the committee and the witnesses who came to give evidence. I felt that we have an excellent report here from the committee and that's due to the work that was done by the committee secretariat, but also because we were able to debate and discuss these matters with a wide range of witnesses who were very free with their time and, as ever, with their opinions. I think that is something for which all of us across the Chamber are very grateful.

Hoffwn innau hefyd ddechrau fy sylwadau drwy ddiolch i staff y pwyllgor a'r tystion a ddaeth i roi tystiolaeth. Teimlwn fod gennym adroddiad rhagorol yma gan y pwyllgor ac mae hynny'n ganlyniad i'r gwaith a wnaethpwyd gan ysgrifenyddiaeth y pwyllgor, ond hefyd oherwydd ein bod wedi gallu dadlau a thrafod y materion hyn gydag amrywiaeth eang o dystion a oedd yn hael gyda'u hamser ac fel erioed, gyda'u barn. Credaf fod hynny'n rhywbeth y mae pob un ohonom ar draws y Siambr yn ddiolchgar iawn amdano.

Broadcasting is an issue that we've debated a number of times, probably more often than any other non-devolved issue, which gives some indication of its salience to Wales in terms of politics and the culture of broadcasting and its importance in our society. I hope that we've also seen a fair degree of consensus across the different sides of the Chamber on some of the difficulties facing us as a country and how we resolve those difficulties.

Mae darlledu yn fater rydym wedi'i drafod nifer o weithiau, yn ôl pob tebyg yn fwy aml nag unrhyw fater arall heb ei ddatganoli, sy'n rhoi rhyw syniad o'i amlygrwydd yng Nghymru o ran gwleidyddiaeth a diwylliant darlledu a'i bwysigrwydd yn ein cymdeithas. Rwy'n gobeithio ein bod hefyd wedi gweld cryn dipyn o gonsensws ar bob ochr i'r Siambr ar rai o'r anawsterau sy'n ein hwynebu fel gwlad a sut rydym yn datrys yr anawsterau hynny.

We're in a curious situation at the moment. Suzy Davies indicated her concerns about the independence of the BBC under any new arrangements and a unitary board. I share very much that concern about the independence of the BBC. The role of any public service broadcaster is to irritate politicians. It is to hold politicians to account, to stand up for the citizen, not simply be a champion of the consumer. That is an absolutely essential differential in what the BBC has to do and has done throughout its history.

Rydym mewn sefyllfa ryfedd ar hyn o bryd. Nododd Suzy Davies ei phryderon ynghylch annibyniaeth y BBC o dan unrhyw drefniadau newydd a bwrdd unedol. Rhannaf yn fawr iawn y pryder ynghylch annibyniaeth y BBC. Rôl unrhyw ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus yw herian gwleidyddion. Mae i fod i ddwyn gwleidyddion i gyfrif, sefyll dros y dinesydd, nid cefnogi'r defnyddiwr yn unig. Mae hwnnw'n wahaniaeth cwbl hanfodol yn yr hyn y mae'r BBC yn ei wneud a'r hyn y mae wedi'i wneud drwy gydol ei hanes.

I believe we have a Secretary of State for Culture, Media and Sport in London who doesn't understand the basics of an open political culture. Some of what he said in terms of the BBC has shown an utter disregard for the independence of our cultural integrity and our cultural expressions as a country, and that is something that we have to be very aware of at this time.

Credaf fod gennym Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Llundain nad yw'n deall egwyddorion sylfaenol diwylliant gwleidyddol agored. Mae peth o'r hyn a ddywedodd o ran y BBC wedi dangos diffyg ystyriaeth lwyr o annibyniaeth ein huniondeb diwylliannol a'n mynegiant diwylliannol fel gwlad, ac mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol iawn ohono ar yr adeg hon.

At the same time, we've probably seen an attack on S4C that is unprecedented in any western liberal democracy in terms of taking away its independence and its funding, bullying S4C in a way that no democratic Government should behave, over the last few years. I think that is also something that we should regret very greatly.

Ar yr un pryd, rydym wedi gweld ymosodiad ar S4C sydd yn ôl pob tebyg yn ddigynsail mewn unrhyw ddemocratiaeth ryddfrydol orllewinol o ran cael gwared ar ei hannibyniaeth a'i chyllid, bwlio S4C mewn ffordd na ddylai unrhyw Lywodraeth ddemocrataidd ymddwyn, yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Credaf fod hynny hefyd yn rhywbeth y dylem resynu ato'n fawr iawn.

Can I say that does not mean, of course, that we in this place should simply be cheerleaders for the BBC and simply support the BBC in an unquestioned and unqualified way? They have to earn the support of people here and elsewhere, and they have to deliver on their public service obligations to us and for us. The Chair of the committee outlined the decline in hours produced by Wales, from Wales and for Wales over the last few years. It has been an utter tragedy that we've seen both the range of programming and the genres that are produced in Wales decline, the number of hours broadcast decline and the place on the schedule decline over the years. It is a failure of accountability of governance that that has been allowed to happen without the intervention of any democratic institution, either this place or Parliament. It is a failure of public accountability that that has happened over a number of years and without challenge.

A gaf fi ddweud nad yw hynny'n golygu, wrth gwrs, y dylem ganu clodydd y BBC a'i chefnogi'n ddigwestiwn a diamod? Mae'n rhaid iddynt ennill cefnogaeth pobl yma ac mewn mannau eraill, ac mae'n rhaid iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus i ni ac ar ein cyfer. Amlinellodd Cadeirydd y pwyllgor y gostyngiad yn nifer yr oriau a gynhyrchwyd gan Gymru, o Gymru ac ar gyfer Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi bod yn drasiedi lwyr ein bod wedi gweld amrywiaeth rhaglennu a'r genres sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru'n dirywio, y nifer o oriau a ddarlledir yn dirywio a'r lle yn yr amserlen yn dirywio dros y blynyddoedd. Mae'n fethiant o ran atebolrwydd llywodraethu fod hynny wedi'i ganiatáu i ddigwydd heb ymyrraeth unrhyw sefydliad democrataidd, naill ai yn y lle hwn neu'r Senedd. Mae'n fethiant o ran atebolrwydd cyhoeddus fod hynny wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd a heb ei herio.

It is also incumbent on the BBC to ensure that we are able, as a nation, to speak amongst ourselves, to have an outlet for our cultural integrity and our cultural needs, but also, as a British nation, that we are represented on the UK network in a fair and, I believe, deserved way. That has not happened. We've heard the numbers of programmes broadcast about Wales, portraying Wales. We've seen a significant increase in the number of hours produced here in Wales, and that is to be welcomed, but, at the same time, the BBC has a very real responsibility to ensure that a child growing up in Tredegar sees his or her life portrayed on the screen of his or her public broadcaster in the same way as a child growing up in London is all too used to.

Mae hefyd yn ddyletswydd ar y BBC i sicrhau ein bod yn gallu siarad ymysg ein gilydd fel cenedl, a chael dull o wyntyllu ein huniondeb diwylliannol a'n hanghenion diwylliannol, ond hefyd, fel cenedl Brydeinig, ein bod yn cael ein cynrychioli ar rwydwaith y DU mewn ffordd deg ac yn fy marn i, mewn modd rydym yn ei haeddu. Nid yw hynny wedi digwydd. Rydym wedi clywed faint o raglenni a ddarlledir am Gymru, sy'n portreadu Cymru. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y nifer yr oriau a gynhyrchir yma yng Nghymru, ac mae hynny i'w groesawu, ond ar yr un pryd, mae gan y BBC gyfrifoldeb real iawn i sicrhau bod plentyn sy'n tyfu i fyny yn Nhredegar yn gweld ei fywyd wedi'i bortreadu ar sgrin ei ddarlledwr cyhoeddus yn yr un ffordd ag y mae plentyn sy'n tyfu i fyny yn Llundain wedi arfer ei weld i'r fath raddau.

At the same time, the BBC has a very real duty to inform. We've seen significant coverage of the US primaries—I enjoy it, I appreciate it and I value it. We've seen overwhelming coverage of the European Union referendum, but no coverage of elections taking place here or in Scotland. That is a failure of BBC news management, it is a failure of BBC senior executives and it is a failure of the BBC culture that that is happening without a check or a balance to take place. So, yes, we want to see the BBC protected, yes, we want to see its independence protected, and yes, we want to see its funding protected, but we want to see the BBC performing for us as well. That level of accountability to this place and to Parliament is something that cannot wait much longer. Thank you very much.

Ar yr un pryd, mae gan y BBC ddyletswydd go iawn i ddarparu gwybodaeth. Rydym wedi gweld cryn sylw i ragetholiadau'r Unol Daleithiau—rwy'n eu mwynhau, rwy'n eu gwerthfawrogi ac rwy'n gweld eu gwerth. Rydym wedi gweld darllediadau helaeth ynghylch y refferendwm ar yr Undeb Ewropeaidd, ond ni roddwyd sylw i etholiadau sy'n digwydd yma neu yn yr Alban. Mae hynny'n fethiant ar ran rheolaeth newyddion y BBC, mae'n fethiant ar ran uwch swyddogion y BBC ac mae'n fethiant ar ran diwylliant y BBC fod hynny'n digwydd heb i neb gadw llygad arno na'i unioni. Felly, ydym, rydym am weld y BBC yn cael ei ddiogelu; ydym, rydym am weld ei annibyniaeth yn cael ei diogelu; ac ydym, rydym am weld ei gyllid yn cael ei ddiogelu, ond rydym am weld y BBC yn perfformio ar ein cyfer ni hefyd. Mae'r lefel honno o atebolrwydd i'r lle hwn ac i'r Senedd yn rhywbeth na all aros lawer yn hwy. Diolch yn fawr iawn.

17:03 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you to the Chair for bringing this debate forward and to the clerks for drafting the debate. I am pleased we're discussing this here today, because I remember calling, prior to this investigation, for a committee of the Assembly—I don't think I minded which one—to look into the BBC charter renewal process, because I think what happens is, and we discussed this at length on committee, that we land upon these types of issues without actually building them into the system. I don't think it's anybody's fault at the moment, but, in future, that's why I'm passionate about having a communications committee, so that these things are looked at proactively, and not reactively. I think from the industry and from those who did take part in the consultation process, we saw that that was a clear frustration on their behalf: that they saw that the Assembly was not putting our principled stance about the future of broadcasting and the media in Wales forward enough, and we were waiting for events to overtake us, much like what happened with the BBC being given the responsibility for the pensions issue or for the cuts to S4C. We've been behind the agenda quite often.

Diolch i'r Cadeirydd am gyflwyno'r ddadl hon ac i'r clercod am ddrafftio'r ddadl. Rwy'n falch ein bod yn trafod hyn yma heddiw, oherwydd rwy'n cofio galw, cyn yr ymchwiliad hwn, ar un o bwyllgorau'r Cynulliad—nid wyf yn meddwl fy mod yn poeni pa un—i edrych ar y broses o adnewyddu siarter y BBC, oherwydd credaf mai'r hyn sy'n digwydd, a buom yn trafod hyn yn fanwl ar y pwyllgor, yw ein bod yn glanio ar y mathau hyn o faterion heb eu hadeiladu'n rhan o'r system mewn gwirionedd. Nid wyf yn credu ei fod yn fai ar neb ar hyn o bryd, ond yn y dyfodol, dyna pam rwy'n teimlo'n angerddol y dylem gael pwyllgor cyfathrebu, fel bod y pethau hyn yn cael eu hystyried yn rhagweithiol, ac nid yn adweithiol. Rwy'n meddwl ein bod wedi gweld, o'r diwydiant a chan y rhai a gymerodd ran yn y broses ymgynghori, fod hynny'n rhwystredigaeth glir ar eu rhan: eu bod yn gweld nad oedd y Cynulliad yn gwthio ein safbwynt egwyddorol ynghylch dyfodol darlledu a'r cyfryngau yng Nghymru yn ddigonol, a'n bod yn aros i ddigwyddiadau achub y blaen arnom, yn debyg iawn i'r hyn a ddigwyddodd gyda'r BBC yn cael y cyfrifoldeb dros fater pensiynau neu am y toriadau i S4C. Rydym wedi bod ar ei hôl hi o ran yr agenda yn eithaf aml.

I think that's also to do with the fact that we don't have broadcasting devolved to Wales. I hear what Alun Davies says in terms of the fact that the UK Government doesn't hear what we have to say, that it doesn't understand our cultural expressions in Wales. Well, if that is the case, then, should we not have devolution of broadcasting here to Wales? Surely, we as politicians here in the National Assembly understand what Wales needs more than those Ministers who do not prioritise this issue and certainly do not prioritise S4C, given that the Tories had to break their own manifesto before they eventually put funding back in place for S4C.

Rwy'n credu bod hynny'n ymwneud hefyd â'r ffaith nad yw darlledu wedi'i ddatganoli i Gymru. Clywaf yr hyn y mae Alun Davies yn ei ddweud o ran y ffaith nad yw Llywodraeth y DU yn clywed yr hyn sydd gennym i'w ddweud, nad yw'n deall ein mynegiant diwylliannol yng Nghymru. Wel, os yw hynny'n wir, yna, oni ddylai darlledu gael ei ddatganoli yma i Gymru? Yn sicr, rydym ni fel gwleidyddion yma yn y Cynulliad Cenedlaethol yn deall yr hyn sydd ei angen ar Gymru yn fwy na'r Gweinidogion hynny nad ydynt yn rhoi blaenoriaeth i'r mater hwn ac yn sicr nid ydynt yn rhoi blaenoriaeth i S4C, o ystyried bod y Torïaid wedi gorfod torri addewid eu maniffesto eu hunain cyn iddynt roi cyllid yn ôl ar gyfer S4C yn y pen draw.

The issues have been said already with regard to how Wales is portrayed in the media. But, what was most important for me—and I teased that out in questioning during the process of our deliberations in committee—was how we measure what happens then in terms of portrayal. It's all well and good for BBC officials to come to a committee in the future and say, 'Oh, well, yes, we've got a few new programmes.' But what does that mean, then, in terms of how Wales is portrayed better in the future? For example, how many programmes will they deliver on women in science? How many new programmes will they deliver on the landscapes of Wales? How many new programmes will they deliver on growing up in the Valleys in the 1980s? Perhaps I could be in that programme; I don't know. These are the types of programmes that are not just non-news and non-sport. You know—comedy. Where is the Welsh comedy? There are talented Welsh comedians in Wales, and they are never utilised for our programming because of the cuts that have been put forward from central Government to the BBC. They are crying out for being able to write those scripts, to employ those Welsh actors, to give this economy the boost that it needs.

Mae'r materion hyn wedi cael eu dweud eisoes o ran sut y caiff Cymru ei phortreadu yn y cyfryngau. Ond yr hyn oedd bwysicaf i mi—a llwyddais i dynnu hynny allan wrth holi cwestiynau yn ystod proses ein trafodaethau yn y pwyllgor—oedd sut rydym yn mesur yr hyn sy'n digwydd wedyn o ran portreadu. Un peth yw i swyddogion y BBC ddod i bwyllgor yn y dyfodol a dweud, 'O, wel, oes, mae gennym rai rhaglenni newydd.' Ond beth y mae hynny'n ei olygu, felly, o ran sut y caiff Cymru ei phortreadu'n well yn y dyfodol? Er enghraifft, faint o raglenni y byddant yn eu darparu ar fenywod mewn gwyddoniaeth? Faint o raglenni newydd y byddant yn eu darparu ar dirweddau Cymru? Faint o raglenni newydd y byddant yn eu darparu ar dyfu i fyny yn y Cymoedd yn y 1980au? Efallai y gallwn fod yn y rhaglen honno; nid wyf yn gwybod. Dyma'r mathau o raglenni sydd heb fod yn newyddion a heb fod yn chwaraeon. Wyddoch chi—comedi. Ble mae'r gomedi Gymreig? Mae yna gomedïwyr Cymreig talentog yng Nghymru, ac nid ydynt byth yn cael eu defnyddio ar ein rhaglenni oherwydd toriadau'r Llywodraeth ganolog i'r BBC. Maent yn galw allan am allu ysgrifennu'r sgriptiau hynny, cyflogi actorion o Gymru, a rhoi'r hwb sydd ei angen i'r economi hon.

The other reason why we need to have a communications committee is that it is not just about the BBC. I hosted an event with the NUJ last week, which is concerned about changes to Trinity Mirror and Media Wales, about the takeover of the South Wales Evening Post and how that may lead to the dissipation of services in that particular area. Will they centralise offices, as they have done in places like Neath, Merthyr and further afield? So, we need that committee to really hone in on that industry, because they have been getting away with doing things without that level of scrutiny.

Y rheswm arall pam y mae angen cael pwyllgor ar gyfathrebu yw nad yw'n ymwneud yn unig â'r BBC. Yr wythnos diwethaf, cynhaliais ddigwyddiad gyda'r NUJ, sy'n pryderu am newidiadau i Trinity Mirror a Media Wales, am gymryd South Wales Evening Post drosodd a sut y gallai hynny arwain at wanhau gwasanaethau yn y maes hwnnw. A fyddant yn canoli swyddfeydd, fel y maent wedi'i wneud mewn llefydd fel Castell-nedd, Merthyr a thu hwnt? Felly, mae angen y pwyllgor arnom i ganolbwyntio sylw ar y diwydiant hwnnw, am eu bod wedi cael rhwydd hynt i wneud pethau heb y lefel honno o graffu.

With regard to the independent media forum, I'm not against it, but I will say that if we are to create an independent media forum for Wales, it has to be well resourced and it has to deliver. Sadly, the Minister did convene a broadcasting committee and it took the Institute of Welsh Affairs to freedom-of-information-request the Welsh Government for anybody to have access to know what the broadcasting committee did. Now, we don't want to be in a situation like that if a new forum is established. We need to make sure that it is doing its work, that it has access to resources, and that it can monitor what's happening here in Wales. I simply do not want to create something so that it will be a talking shop.

Gyda golwg ar y fforwm cyfryngau annibynnol, nid wyf yn ei wrthwynebu, ond rwy'n dweud, os ydym am greu fforwm cyfryngau annibynnol i Gymru, mae'n rhaid iddo gael digon o adnoddau ac mae'n rhaid iddo gyflawni. Yn anffodus, sefydlodd y Gweinidog bwyllgor darlledu a bu'n rhaid i'r Sefydliad Materion Cymreig gyflwyno cais rhyddid gwybodaeth i Lywodraeth Cymru i unrhyw un gael mynediad er mwyn gwybod beth oedd y pwyllgor darlledu yn ei wneud. Nawr, nid ydym am fod mewn sefyllfa fel honno pe bai fforwm newydd yn cael ei sefydlu. Mae angen i ni wneud yn siŵr ei fod yn gwneud ei waith, bod ganddo fynediad at adnoddau, ac y gall fonitro'r hyn sy'n digwydd yma yng Nghymru. Nid wyf yn dymuno creu rhywbeth i fod yn siop siarad.

With regard to the £30 million in additional funds for the BBC, well, a briefing document that we had from the IWA last week says that this could deliver an extra hour a night of non-news, non-sport television, either factual or comedy. So, again, that could go a long, long way to making more programmes here in Wales. I don't think I have got time to answer Suzy Davies's issue on the separate licence service, but I think the BBC bosses from Wales certainly said that that would help them, not hinder them, in relation to bringing forward more work and more progress for the BBC here in Wales.

O ran y £30 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer y BBC, wel, mae dogfen friffio a gawsom gan y Sefydliad Materion Cymreig yr wythnos diwethaf yn dweud y gallai hyn ddarparu awr ychwanegol y nos o deledu heb fod yn newyddion nac yn chwaraeon, naill ai ffeithiol neu gomedi. Felly, unwaith eto, gallai hynny fynd yn bell iawn tuag at wneud mwy o raglenni yma yng Nghymru. Nid wyf yn meddwl fod gennyf amser i ateb cwestiwn Suzy Davies ynglŷn â thrwydded gwasanaeth ar wahân, ond rwy'n credu bod penaethiaid y BBC o Gymru yn sicr yn dweud y byddai hynny'n eu helpu, nid eu rhwystro, mewn perthynas â sicrhau mwy o waith a mwy o gynnydd i'r BBC yma yng Nghymru.

17:08 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I again welcome the report and thank the clerks and everyone associated with producing it? I think that recommendation 9, which Bethan Jenkins referred to, about the Fifth Assembly resolving to establish a committee on communications, is particularly important. Although broadcasting falls between two stools, if you like, and is not a devolved responsibility, it is an issue that very much exercises our minds in terms of how we are portrayed and how Wales is portrayed, and also in terms of the economic impact of broadcasting as well in Wales, and the responsibilities there. Although it does fall between those two stools, I think it's very important that, not only does the Welsh Assembly and the Welsh Government take an active interest in it, but that there is also some level of accountability for all the public service broadcasters to us in terms of how they deliver within Wales, and that there is greater scrutiny of what they do. I don't think that scrutiny is happening in Westminster, certainly not in relation to Wales, though of course there will be wider scrutiny of broadcasting there. So, I very much support that recommendation as part of that. I think it's the case that whenever we've had an inquiry into broadcasting here—and I think we've had maybe three or four in the time that I've been here—we've always added value, I think, in terms of the recommendations, and we've helped not just the BBC and ITV, particularly, but also informed the debate at the UK level. I think that a committee here would continue to add value to that.

A gaf fi eto groesawu'r adroddiad a diolch i'r clercod a phawb oedd ynghlwm wrth y gwaith o'i gynhyrchu? Credaf fod argymhelliad 9, y cyfeiriodd Bethan Jenkins ato, am y Pumed Cynulliad yn penderfynu sefydlu pwyllgor ar gyfathrebu, yn arbennig o bwysig. Er bod darlledu yn syrthio rhwng dwy stôl, os mynnwch chi, ac er nad yw'n gyfrifoldeb sydd wedi'i ddatganoli, mae'n fater sy'n mynd â llawer iawn o'n sylw o ran sut y cawn ein portreadu a sut y caiff Cymru ei phortreadu, a hefyd o ran effaith economaidd darlledu yng Nghymru yn ogystal, a'r cyfrifoldebau o ran hynny. Er ei fod yn syrthio rhwng dwy stôl, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn, nid yn unig fod y Cynulliad a Llywodraeth Cymru â diddordeb gweithredol ynddo, ond hefyd fod yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn atebol i ni i ryw raddau o ran sut y maent yn darparu yng Nghymru, a bod mwy o graffu ar yr hyn y maent yn ei wneud. Nid wyf yn credu bod craffu yn digwydd yn San Steffan, mewn perthynas â Chymru yn sicr, er y bydd craffu ehangach ar ddarlledu yno wrth gwrs. Felly, cefnogaf yr argymhelliad hwnnw'n fawr fel rhan o hynny. Bob tro y cawsom ymchwiliad i ddarlledu yma—ac rwy'n meddwl ein bod wedi cael tri neu bedwar efallai yn yr amser y bûm i yma—rwy'n credu ei bod yn wir ein bod wedi ychwanegu gwerth o ran yr argymhellion, rwy'n meddwl, ac rydym wedi helpu nid yn unig y BBC ac ITV, yn arbennig, ond hefyd wedi cyfrannu at y drafodaeth ar lefel y DU. Credaf y byddai pwyllgor yma yn parhau i ychwanegu gwerth at hynny.

I just want to concentrate on a couple of recommendations in the report, in particular the recommendation that the BBC puts in place arrangements to decentralise commissioning to ensure that network commissioners for the nations and regions are based in those nations and regions. A number of Members have referred already to the failure of the BBC to reflect Wales in its drama productions, in its comedy, and in some of its factual programmes. There are, of course, factual programmes that do reflect Wales—I've seen 'Countryfile' and Michael Portillo's 'Great British Railway Journeys' actually come into Wales and do that. But I think that, in the way the BBC is set up at the moment, the commissioning is all centralised in England, and people do tend to commission in their own image. Because they're based in England, they think in English terms. They don't think in terms of Wales when they're commissioning programmes. I think that's actually crucial in terms of why we're not delivering, or why the BBC is not delivering what we expect of it.

Hoffwn ganolbwyntio ar un neu ddau o argymhellion yn yr adroddiad, yn enwedig yr argymhelliad y dylai'r BBC yn rhoi trefniadau ar waith i ddatganoli comisiynu er mwyn sicrhau bod comisiynwyr rhwydwaith ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau wedi'u lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau hynny. Mae nifer o Aelodau wedi cyfeirio eisoes at fethiant y BBC i adlewyrchu Cymru yn ei chynyrchiadau drama, yn ei chomedi, ac mewn rhai o'i rhaglenni ffeithiol. Wrth gwrs, mae yna raglenni ffeithiol sy'n adlewyrchu Cymru—gwelais 'Countryfile' a 'Great British Railway Journeys' Michael Portillo yn dod i mewn i Gymru ac yn gwneud hynny mewn gwirionedd. Ond o ran y ffordd y mae'r BBC wedi'i strwythuro ar hyn o bryd, rwy'n credu bod y comisiynu yn digwydd yn ganolog yn Lloegr, ac mae pobl yn tueddu i gomisiynu ar eu delw eu hunain. Oherwydd eu bod wedi'u lleoli yn Lloegr, maent yn meddwl yn nhermau Lloegr. Nid ydynt yn meddwl yn nhermau Nghymru pan fyddant yn comisiynu rhaglenni. Credaf fod hynny'n allweddol mewn gwirionedd o ran pam nad ydym yn cyflawni, neu pam nad yw'r BBC yn cyflawni'r hyn rydym yn ei ddisgwyl ganddo.

I think also, in terms of casting, if you want to take part in a production being delivered in Wales, you have to go to London or Manchester to do the auditions and to be cast for it. I think that in itself says a great deal about the way the BBC is particularly centralised. I know that when we discussed this in committee, Alun Davies and other Members were particularly keen on a federal structure for the BBC to reflect the way that the UK is moving. I think that devolving or decentralising commissioning and casting would be part of that, but also the way that they deliver programming as well.

Rwy'n meddwl hefyd, o ran castio, os ydych am gymryd rhan mewn cynhyrchiad sy'n cael ei gyflwyno yng Nghymru, rhaid i chi fynd i Lundain neu Fanceinion i wneud y clyweliadau a chael eich castio ar ei gyfer. Credaf fod hynny ynddo'i hun yn dweud llawer am y ffordd y mae'r BBC yn arbennig o ganoledig. Pan fuom yn trafod hyn yn y pwyllgor, gwn fod Alun Davies ac Aelodau eraill yn awyddus iawn i'r BBC gael strwythur ffederal i adlewyrchu'r ffordd y mae'r DU yn symud. Rwy'n credu y byddai datganoli neu ddatganoli comisiynu a chastio yn rhan o hynny, ond hefyd y ffordd y maent yn darparu rhaglenni yn ogystal.

Radio, I think, is particularly important. I know Suzy Davies referred to Radio 4 when she was talking. Since they moved 'Good Morning Wales' to half past six, I've retuned my radio to Radio 4, and I get the 'Today' programme, and I'm absolutely shocked at the way they just talk about issues around education as if they apply to the whole of the UK. Radio 4 is, I think, particularly bad on this, but also we talked about Radio 2. Radio 2 has over 1 million listeners in Wales and yet the news we get is England-based news. There should be a Welsh opt-out for that news, to actually reflect to the people listening some relevance when they hear the news on Radio 2.

Mae radio, rwy'n meddwl, yn arbennig o bwysig. Rwy'n gwybod bod Suzy Davies wedi cyfeirio at Radio 4 pan oedd hi'n siarad. Ers iddynt symud 'Good Morning Wales' i hanner awr wedi chwech, rwyf wedi aildiwnio fy radio i Radio 4, ac rwy'n cael rhaglen 'Today', ac rwy'n gwbl syfrdan gyda'r ffordd y maent yn siarad am faterion yn ymwneud ag addysg fel pe baent yn gymwys ar gyfer y DU gyfan. Mae Radio 4, rwy'n meddwl, yn arbennig o ddrwg am wneud hyn, ond hefyd buom yn siarad am Radio 2. Mae gan Radio 2 dros 1 filiwn o wrandawyr yng Nghymru, ac eto mae'r newyddion a gawn yn newyddion sy'n seiliedig ar Loegr. Dylai fod modd i Gymru gael ei newyddion ei hun yn lle hwnnw, i'w wneud yn berthnasol i'r bobl sy'n gwrando mewn gwirionedd pan fyddant yn clywed y newyddion ar Radio 2.

We had the King report in 2008, which very much addressed these issues. I think the BBC is slipping back on this, and I think they do need to address some of the recommendations in that report again, and refresh the way they are delivering on it.

Cawsom adroddiad King yn 2008, a oedd yn ymdrin yn fanwl iawn â'r materion hyn. Rwy'n meddwl bod y BBC yn llithro am yn ôl ar hyn, ac rwy'n meddwl bod angen iddynt fynd i'r afael â rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad hwnnw eto, a gwella'r ffordd y maent yn ei gyflawni.

I just wanted to make a quick reference to the Clementi review. I'm generally supportive of the idea of having a unitary board with Ofcom as the regulator. I think that's a reasonable structure. What I am concerned about is that the majority of non-executive directors are being recommended to be appointed by the UK Government, effectively turning the BBC into a state broadcaster. I find that very disturbing indeed. The BBC needs to maintain its independence, and it needs to be representative of the UK as a whole. I very much support the suggestion that the Welsh Assembly, as opposed to the Welsh Government, should be involved in appointing a Welsh representative, but I do think that the BBC's independence has to be preserved, and I think the idea that the UK Government should be appointing non-executive directors to the main broadcaster, turning into a state broadcasting corporation, I think is very disturbing indeed, and one that I would certainly oppose.

Roeddwn i eisiau cyfeirio'n gyflym at adolygiad Clementi. Rwy'n gyffredinol gefnogol i'r syniad o gael bwrdd unedol gydag Ofcom fel rheoleiddiwr. Rwy'n credu bod hwnnw'n strwythur rhesymol. Yr hyn rwy'n bryderus yn ei gylch yw bod y rhan fwyaf o'r cyfarwyddwyr anweithredol yn cael eu hargymell i'w penodi gan Lywodraeth y DU, gan droi'r BBC yn ddarlledwr y wladwriaeth i bob pwrpas. Rwy'n gweld hwnnw'n destun pryder mawr yn wir. Mae angen i'r BBC gadw ei annibyniaeth, ac mae angen iddo fod yn gynrychioliadol o'r DU gyfan. Rwy'n gefnogol iawn i'r awgrym y dylai'r Cynulliad, yn hytrach na Llywodraeth Cymru, fod yn rhan o'r broses o benodi cynrychiolydd o Gymru, ond rwy'n credu bod yn rhaid gwarchod annibyniaeth y BBC, ac rwy'n meddwl bod y syniad y dylai Llywodraeth y DU fod yn penodi cyfarwyddwyr anweithredol i'r prif ddarlledwr, gan ei throi i fod yn gorfforaeth ddarlledu'r wladwriaeth, yn destun pryder mawr iawn yn wir yn fy marn i, ac yn un y byddwn yn sicr yn ei wrthwynebu.

A number of Members have referred to the £30 million. The Institute of Welsh Affairs have very generously given us an idea of how we should spend that £30 million. It's not for us to spend it; it's not for the IWA; it has to be for the BBC, how it's spent, because that's the whole point of being independent. But they need that money and they need it now to actually reflect the way that we'd like to see them develop.

Mae nifer o'r Aelodau wedi cyfeirio at y £30 miliwn. Mae'r Sefydliad Materion Cymreig wedi bod yn hael iawn yn rhoi syniad ynglŷn â sut y dylem wario'r £30 miliwn. Nid ein lle ni yw ei wario; nid lle'r Sefydliad Materion Cymreig yw ei wario; lle'r BBC, o reidrwydd, yw penderfynu sut y caiff ei wario, oherwydd dyna holl bwynt bod yn annibynnol. Ond mae angen yr arian hwnnw arnynt ac mae ei angen yn awr i adlewyrchu'r ffordd yr hoffem eu gweld yn datblygu.

17:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism, Ken Skates.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Ken Skates.

17:13 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I thank Members for their contributions during this very timely debate today? I'm pleased that the committee report reflects cross-party agreement on the majority of issues under consideration. The Welsh Government is therefore pleased to support this motion today.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau yn ystod y ddadl amserol hon heddiw? Rwy'n falch fod adroddiad y pwyllgor yn adlewyrchu cytundeb trawsbleidiol ar y rhan fwyaf o'r materion sy'n cael eu hystyried. Mae Llywodraeth Cymru felly yn falch o gefnogi'r cynnig hwn heddiw.

The Welsh Government has been involved in the charter review process from the outset, and last October we provided a detailed response to the UK Government's Green Paper consultation, which we provided to the committee and also published online. Our priorities for charter renewal include ensuring that there is sufficient funding for BBC Cymru Wales for news and non-news programming in English and in Welsh and also for S4C. We have also called for an urgent review of the BBC's public purposes in Wales, particularly in respect of its delivery to Welsh audiences and also its portrayal of Wales, which Members have touched on this afternoon. This review should form the basis, we believe, of a new charter contract for Wales. My meeting over the phone this morning with the Secretary of State for Culture, Media and Sport was a further opportunity to outline the Welsh Government's priorities for charter renewal. I will be responding in writing to the committee's report before the end of this Assembly term.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'r broses o adolygu'r siarter o'r cychwyn cyntaf, a fis Hydref diwethaf, lluniasom ymateb manwl i ymgynghoriad Papur Gwyrdd Llywodraeth y DU, a ddarparwyd gennym i'r pwyllgor a'i gyhoeddi ar-lein. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer adnewyddu'r siarter yn cynnwys sicrhau bod digon o arian ar gael i BBC Cymru Wales ar gyfer newyddion a rhaglenni heb fod yn newyddion yn Saesneg ac yn y Gymraeg a hefyd i S4C. Rydym hefyd wedi galw am adolygiad brys o ddibenion cyhoeddus y BBC yng Nghymru, yn enwedig o ran ei ddarpariaeth i gynulleidfaoedd yng Nghymru a hefyd ei bortread o Gymru, fel y crybwyllodd yr Aelodau y prynhawn yma. Dylai'r adolygiad hwn fod yn sail, yn ein barn ni, i gontract siarter newydd i Gymru. Roedd fy nghyfarfod dros y ffôn y bore yma gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gyfle pellach i amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer adnewyddu'r siarter. Byddaf yn ymateb yn ysgrifenedig i adroddiad y pwyllgor cyn diwedd y tymor Cynulliad hwn.

There is only one recommendation specifically for the Welsh Government and that is to create an independent media forum for Wales. The Welsh Government is open-minded about this and does keep it under continual review. The Welsh Government's broadcasting advisory panel was created in 2012 for a fixed period, advising the First Minister on the governance and regulation of public service broadcasting and the need to protect and maintain Welsh cultural, linguistic, economic and democratic interests. The panel's advice has already added significant value to our ongoing robust dialogue with Ofcom and the UK Government on broadcasting matters, including Ofcom's PSB review and charter review. We welcome the fact that the committee has considered the revised memorandum of understanding, which covers this and future charter reviews, and I will also be responding in writing on this.

Nid oes ond un argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru yn benodol sef creu fforwm cyfryngau annibynnol i Gymru. Mae gan Lywodraeth Cymru feddwl agored ynglŷn â hyn ac mae'n ei gadw dan adolygiad parhaus. Crëwyd panel cynghori Llywodraeth Cymru ar ddarlledu yn 2012 am gyfnod penodedig, i gynghori'r Prif Weinidog ar drefniadau llywodraethu a rheoleiddio darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r angen i ddiogelu a chynnal diddordebau diwylliannol, ieithyddol, economaidd a democrataidd Cymru. Mae cyngor y panel eisoes wedi ychwanegu gwerth sylweddol i'n trafodaethau cadarn parhaus gydag Ofcom a Llywodraeth y DU ar faterion darlledu, gan gynnwys adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ac adolygu'r siarter. Rydym yn croesawu'r ffaith fod y pwyllgor wedi ystyried y memorandwm cyd-ddealltwriaeth diwygiedig, sy'n cwmpasu hyn ac adolygiadau o'r siarter yn y dyfodol, a byddaf hefyd yn ymateb i hyn yn ysgrifenedig.

Although we support the motion today, the reference to the memorandum in the motion requires some clarification. The committee has been asked to comment on a draft memorandum, which already stipulates that the BBC will lay accounts and report before the Assembly, as a result of extensive dialogue between Welsh Government, the UK Government and the BBC. All parties stand ready to sign this memorandum. It is not dependent on a recommendation from the committee, although I welcome the committee's endorsement of the memorandum we have developed.

Er ein bod yn cefnogi'r cynnig heddiw, mae'r cyfeiriad at y memorandwm yn y cynnig yn gofyn am rywfaint o eglurhad. Mae'r pwyllgor wedi cael cais i roi sylwadau ar femorandwm drafft, sydd eisoes yn nodi y bydd y BBC yn gosod cyfrifon ac adroddiadau gerbron y Cynulliad, o ganlyniad i ddeialog helaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r BBC. Mae pob plaid yn barod i lofnodi'r memorandwm hwn. Nid yw'n dibynnu ar argymhelliad gan y pwyllgor, er fy mod yn croesawu cymeradwyaeth y pwyllgor i'r memorandwm a ddatblygwyd gennym.

We welcomed the decision not to impose the cut originally proposed in last November's spending review on S4C and to maintain funding for the next financial year at the same level as in the current financial year. We are also pleased that the BBC Trust announced last month that the channel's funding, provided by the licence fee, is to remain at the same level in 2017-18 as the forthcoming financial year.

Rydym yn croesawu'r penderfyniad i beidio â chyflawni'r toriad i S4C a argymhellwyd yn wreiddiol yn yr adolygiad o wariant fis Tachwedd diwethaf ac i gynnal y cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ar yr un lefel ag yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Rydym hefyd yn falch fod Ymddiriedolaeth y BBC wedi cyhoeddi fis diwethaf fod cyllid y sianel, a ddarperir gan ffi'r drwydded, i aros ar yr un lefel yn 2017-18 â'r flwyddyn ariannol sydd i ddod.

We also welcomed the recent announcement that the UK Government intends to carry out a comprehensive review of S4C, which we have continually pushed for and which was originally promised back in 2010. However, we believe that the review should take place in parallel with the BBC charter review, rather than after its completion, and should also be part of a broader, more fundamental review of the public service broadcasting needs of Wales. I've informed the Secretary of State for Culture, Media and Sport that the Welsh Government expects to be fully involved in the review of S4C, including the development of the terms of reference.

Rydym hefyd yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar fod Llywodraeth y DU yn bwriadu cynnal adolygiad cynhwysfawr o S4C, fel rydym wedi bod yn gwthio'n barhaus amdano ac a addawyd yn wreiddiol yn ôl yn 2010. Fodd bynnag, credwn y dylai'r adolygiad ddigwydd ochr yn ochr â'r adolygiad o siarter y BBC, yn hytrach nag ar ôl ei gwblhau, a dylai hefyd fod yn rhan o adolygiad ehangach, mwy sylfaenol o anghenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus Cymru. Rwyf wedi rhoi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl cael ei chynnwys yn llawn yn yr adolygiad o S4C, gan gynnwys datblygiad y cylch gorchwyl.

It is encouraging to see recommendations in Sir David Clementi's recent report that would strengthen the BBC's accountability to all of the nations and regions of the UK, including Wales. The report acknowledged and acts upon a number of points that we raised in our response to the charter review consultation, in particular the recommendation that the devolved nations should be specifically represented on a new BBC unitary board. It is vital that Wales and the other devolved nations are appropriately represented and that any changes to the governance or regulatory arrangements of the BBC fully reflect the reality of devolved Government in the UK. The three nations have had trustees on every iteration of the BBC's board structure since 1952. We would strongly oppose any move to end this geographic representation.

Mae'n galonogol gweld argymhellion yn adroddiad diweddar Syr David Clementi a fyddai'n cryfhau atebolrwydd y BBC i holl wledydd a rhanbarthau'r DU, gan gynnwys Cymru. Roedd yr adroddiad yn cydnabod ac yn gweithredu nifer o bwyntiau a grybwyllwyd gennym yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar adolygu'r siarter, yn enwedig yr argymhelliad y dylai'r gwledydd datganoledig gael eu cynrychioli'n benodol ar fwrdd unedol newydd y BBC. Mae'n hanfodol fod Cymru a'r gwledydd datganoledig eraill yn cael eu cynrychioli'n briodol a bod unrhyw newidiadau i lywodraethu neu drefniadau rheoleiddio'r BBC yn adlewyrchu realiti Llywodraeth ddatganoledig yn y DU yn llawn. Mae'r tair gwlad wedi cael ymddiriedolwyr ar bob fersiwn o strwythur bwrdd y BBC ers 1952. Byddem yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw symudiad i roi diwedd ar y gynrychiolaeth ddaearyddol hon.

We also welcome the principle of a service licence for Wales, which reflects our own call for a compact for Wales in the new charter. A service licence must clearly define what Wales and what the BBC have a duty to deliver in the next charter period—both to audiences in Wales and about Wales to audiences across the UK and indeed the rest of the world.

Rydym hefyd yn croesawu'r egwyddor o drwydded gwasanaeth ar gyfer Cymru, sy'n adlewyrchu ein galwad ein hunain ar gyfer compact i Gymru yn y siarter newydd. Rhaid i drwydded gwasanaeth ddiffinio'n glir yr hyn sydd gan Gymru a'r hyn sydd gan y BBC ddyletswydd i'w gyflawni yn y cyfnod siarter nesaf—i gynulleidfaoedd yng Nghymru ac am Gymru i gynulleidfaoedd ledled y DU ac yn wir, gweddill y byd.

Deputy Presiding Officer, the Welsh Government will continue to be fully involved in the charter review process, both in the run-up to the White Paper being published and thereafter. We will ensure that the interests of the Welsh people are recognised and addressed as the draft charter is then developed. I'm sure that this Assembly will do the same once the memorandum of understanding is in place and the BBC provides its report and accounts for your scrutiny on an annual basis.

Ddirprwy Lywydd, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i chwarae rhan lawn yn y broses o adolygu'r siarter, yn y cyfnod yn arwain at gyhoeddi'r Papur Gwyn ac ar ôl hynny. Byddwn yn sicrhau bod buddiannau pobl Cymru yn cael eu cydnabod ac yn cael sylw wrth i'r siarter ddrafft gael ei datblygu wedyn. Rwy'n siŵr y bydd y Cynulliad hwn yn gwneud yr un fath pan fydd y memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn ei le a'r BBC yn darparu eu hadroddiad a'u cyfrifon i chi eu craffu'n flynyddol.

17:19

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And Christine Chapman to reply to the debate.

A Christine Chapman i ymateb i'r ddadl.

17:19

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. First of all, can I thank all Members and the Deputy Minister who have contributed today to this very important debate? I think it is fair to say that there's been a lot of consensus on this and passion for this particular report. Just to highlight some of the themes, Suzy Davies made a very powerful case about ensuring the absolute necessity and duty to ensure increased visibility of Wales and the portrayal of Wales within the network. I think that was a very, very important point.

Diolch. Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau a'r Dirprwy Weinidog sydd wedi cyfrannu heddiw at y ddadl bwysig hon. Credaf ei bod yn deg dweud bod yna lawer o gonsensws ar hyn ac angerdd ynglŷn â'r adroddiad penodol hwn. I dynnu sylw at rai o'r themâu, gwnaeth Suzy Davies achos cryf iawn dros sicrhau'r angen a'r ddyletswydd absoliwt i sicrhau mwy o amlygrwydd i Gymru a phortreadu Cymru o fewn y rhwydwaith. Credaf fod hwnnw'n bwynt pwysig iawn.

Alun Davies, amongst other, very important, significant points you made, I really liked the part about the child in Tredegar; I think that's a very, very important point about portrayal, but also the importance of S4C. Again, we debated this at length. But I think as well it is about accountability to this place. During the time I've been here in the Assembly, this message has grown stronger.

Alun Davies, ymhlith pwyntiau eraill pwysig a sylweddol iawn a wnaethoch, roeddwn yn hoff iawn o'r rhan am y plentyn yn Nhredegar; rwy'n credu bod hwnnw'n bwynt pwysig iawn ynglŷn â phortread, ond hefyd ynglŷn â phwysigrwydd S4C. Unwaith eto, trafodwyd hyn yn helaeth gennym. Ond rwy'n credu ei fod yn ymwneud hefyd ag atebolrwydd i'r lle hwn. Yn ystod yr amser y bûm yma yn y Cynulliad, mae'r neges hon wedi tyfu'n gryfach.

Bethan Jenkins, you talked on a number of points, but particularly about the measureable targets and portrayal. I think that is really important. It is quite difficult, sometimes, to pin these things down, but I think we do need to look for measurable targets to make sure that the portrayal of Wales is improving. Of course, you did remind us, Bethan, about the number of times that the Assembly has debated this, and I think it does give us a sense of the frustration, I think, that all of us have felt in this respect.

Bethan Jenkins, fe sonioch am nifer o bwyntiau, ond yn arbennig am y targedau mesuradwy a phortread. Credaf fod hynny'n wirioneddol bwysig. Mae'n eithaf anodd crisialu'r pethau hyn weithiau, ond rwy'n meddwl bod angen i ni edrych am dargedau mesuradwy i wneud yn siŵr fod y portread o Gymru'n gwella. Wrth gwrs, fe wnaethoch ein hatgoffa, Bethan, am y nifer o weithiau y mae'r Cynulliad wedi trafod hyn, ac rwy'n meddwl ei fod yn rhoi ymdeimlad o'r rhwystredigaeth y mae pob un ohonom, rwy'n meddwl, wedi'i deimlo yn y cyswllt hwn.

Peter Black talked about economic necessity. We know, for example, that commissioning, if we get it right, could actually help the economy. It can ensure that Welsh companies are working and that they are part of this as well. I thought the point you made about, sometimes, the skewed view we get of Wales—. If you do listen to, say, the 'Today' programme, it's usually something quirky or something a bit controversial and, actually, it's not really acceptable.

Soniodd Peter Black am reidrwydd economaidd. Gwyddom, er enghraifft, fod comisiynu, os cawn hynny'n iawn, yn gallu helpu'r economi mewn gwirionedd. Gall sicrhau bod cwmnïau Cymru yn gweithio a'u bod yn rhan o hyn hefyd. Roeddwn yn meddwl bod y pwynt a wnaethoch am y darlun camarweiniol a gawn o Gymru weithiau—. Os gwrandewch ar, dyweder, y rhaglen 'Today', mae fel arfer yn rhywbeth od neu rywbeth braidd yn ymfflamychol ac mewn gwirionedd, nid yw'n dderbyniol.

Obviously, with the Deputy Minister, we know, because of the timing it is quite difficult and we haven't had a written response, but I really value the positive response you have made to our report and we look forward to the written response, now, in due course. But, I think, for me, there's the fact that you have emphasised that the Welsh Government will continue to be involved in the charter process and that you will continue to press Wales's influence to make sure we get this right. I think, generally, though, as a committee, we felt that there were some important points we needed to make in the context of the review, and I was particularly taken—although all the evidence was excellent—with Dr John Geraint, who was absolutely right in his evidence, when, reflecting on the lack of Welsh representation on television when he was growing up, he said it was absolutely outrageous that we still need to have these discussions, identifying how this could make some Welsh citizens feel second-class in their own country. So, we are not there yet. After all these years, there still is a lot more work to be done.

Yn amlwg, gyda'r Dirprwy Weinidog, fe wyddom, oherwydd yr amseru mae'n eithaf anodd ac nid ydym wedi cael ymateb ysgrifenedig, ond rwy'n gwerthfawrogi eich ymateb cadarnhaol i'n hadroddiad, ac edrychwn ymlaen yn awr at yr ymateb ysgrifenedig yn y man. Ond rwy'n credu, i mi, mae'n ffaith eich bod wedi pwysleisio y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau'n rhan o broses y siarter ac y byddwch yn parhau i wthio dylanwad Cymru i wneud yn siŵr ein bod yn cael hyn yn iawn. Rwy'n credu, yn gyffredinol, fodd bynnag, fel pwyllgor, ein bod yn teimlo bod yna rai pwyntiau pwysig roedd angen i ni eu gwneud yng nghyd-destun yr adolygiad, ac roedd gennyf ddiddordeb arbennig —er bod yr holl dystiolaeth yn ardderchog—yn yr hyn a ddywedodd Dr John Geraint, a oedd yn hollol gywir yn ei dystiolaeth, wrth fyfyrio ar fethiant i gynrychioli Cymru ar y teledu pan oedd yn tyfu i fyny, dywedodd ei bod yn gwbl warthus fod angen o hyd i ni gael y trafodaethau hyn, a nododd sut y gallai hyn wneud i rai o ddinasyddion Cymru deimlo'n eilradd yn eu gwlad eu hunain. Felly, nid ydym yno eto. Ar ôl yr holl flynyddoedd hyn, mae'n dal i fod llawer mwy o waith i'w wneud eto.

I really think that the report has been good, but there are certainly challenges now for the BBC to really step up to the plate on this. We need to ensure the authentic reflection and validation of Welsh life in all its diversity—men, women, rural, urban, north, south, east and west; we really need to get that right. I think this is important for us as individuals and citizens, but also for Wales as a nation. The committee was clear that this is a challenge the BBC must take up. In the fifth Assembly, I hope that you will return to these matters and I hope, when the Assembly does, it can report clear progress. Thank you.

Rwy'n meddwl o ddifrif fod yr adroddiad wedi bod yn dda, ond yn sicr mae yna heriau yn awr i'r BBC ysgwyddo'u cyfrifoldeb ar hyn. Mae angen i ni sicrhau adlewyrchiad gwir a dilysu bywyd Cymru yn ei holl amrywiaeth—dynion, menywod, gwledig, trefol, gogledd, de, dwyrain a gorllewin; mae gwir angen i ni gael hynny'n iawn. Rwy'n credu bod hyn yn bwysig i ni fel unigolion a dinasyddion, ond hefyd i Gymru fel cenedl. Roedd y pwyllgor yn glir ei bod yn her sy'n rhaid i'r BBC ei hwynebu. Yn y pumed Cynulliad, rwy'n gobeithio y byddwch yn dychwelyd at y materion hyn ac rwy'n gobeithio, pan fydd y Cynulliad yn gwneud hynny, y gall adrodd ar gynnydd amlwg. Diolch.

17:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:23

## 11. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd: ‘Dyfodol Ynni Craffach i Gymru’

## 11. Debate on the Environment and Sustainability Committee's Report: ‘A Smarter Energy Future for Wales’

Y Senedd.tv Fideo Video

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 11 is a debate on the Environment and Sustainability Committee report: ‘A Smarter Energy Future for Wales’. I call the Chair of the committee to move the motion—Alun Ffred Jones.

Eitem 11 yw dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd: ‘Dyfodol Ynni Craffach i Gymru’. Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor i gynnig y cynnig—Alun Ffred Jones.

Cynnig NDM6007 Alun Ffred Jones

Motion NDM6007 Alun Ffred Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ‘Dyfodol Ynni Craffach i Gymru’, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mawrth 2016.

Notes the report of the Environment and Sustainability Committee on ‘A Smarter Energy Future for Wales’, which was laid in the Table Office on 8 March 2016.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:24 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr. Rwy’n falch iawn i gyflwyno’r ddadl yma y prynhawn yma. Mae’r ymchwiliad wedi bod yn un hynod o ddiddorol ac addysgiadol i mi, ac rwy’n hynod o ddiolchgar am gyfraniad y tystion a’r arbenigwyr, a fy nghyd-Aelodau, wrth gwrs. Mi fu’r ymweliad â de’r Almaen, i Baden-Württemberg, yn ysbrydoliaeth i ni i gyd, ac rwy’n siŵr y cawn glywed am hynny yn nes ymlaen.

Thank you very much. I’m very pleased to put forward this debate this afternoon. The inquiry has been a very interesting and educational one for me, and I’m very grateful for the contribution of the experts and the witnesses, and my fellow Members, of course. The visit to southern Germany, to Baden-Württemberg, was an inspiration to all of us, and I’m sure we’ll hear about that a little more later on.

Mae’n rhaid inni symud i ddyfodol ynni craffach. Ni allwn aros yn yr unfan. Dyna ein prif gasgliad ni, rwy’n credu. Mae gan Gymru darged i leihau allyriadau sy'n gyfreithiol rwymol, ond gallwn ni dim ond cwrdd â’r targed hwnnw os ydym yn trawsnewid y ffordd yr ydym yn defnyddio ac yn cynhyrchu ynni yng Nghymru yn sylfaenol. Rydym eisiau lleihau tlodi tanwydd, ac mae pobl yng Nghymru yn haeddu ynni glanach a rhatach. Mi fydd y symudiad tuag at ynni craffach yn arwain at filiau is a diogelwch ynni gwell yn yr hirdymor.

We must make the transition to a smarter energy future. We cannot rely on business as usual. That is our major finding, I believe. Wales has a legally binding emissions-reduction target, but we can only meet that target if we transform the way we use and produce energy in Wales in a fundamental way. We want to reduce fuel poverty, and people in Wales deserve cleaner, cheaper energy. The move to smarter energy will lead to lower bills and increased energy security in the long term.

Mae'r trawsnewid yn dechrau gydag arweinyddiaeth glir, ac mi fydd cyfeiriad polisi sefydlog yn arwain at wneud penderfyniadau o ran buddsoddi yn yr hirdymor. Mae'n rhaid i gynhyrchu a chyflenwi ynni lleol fod yn nod i bob Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Nid gweld bai ar Lywodraeth Cymru mae'r adroddiad; mae'n rhaid inni gyd chwarae rhan yn hyn. Dyna pam yr ydym ni yn argymell bod y targedau gollyngiadau carbon cenedlaethol yn ddyletswyddau ar awdurdodau lleol. Mae arnom angen yr holl elfennau: llywodraeth leol, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, darparwyr ynni, y grid, Ofgem, y diwydiant adeiladu a'r sector rhentu preifat i ddod at ei gilydd i wireddu'r trawsnewid hwn. Rydym yn hyderus y gallan nhw wneud hynny, ac y byddan nhw yn gwneud hynny pan fyddan nhw'n gweld ei fod o fudd iddyn nhw.

The transformation starts with clear leadership, and a stable policy direction will allow long-term investment decisions to be made. Local energy production and supply has to be a goal of all future Welsh Governments. We are not placing the blame on the Welsh Government here; we must all play a part in this. That's why we're recommending that the national carbon emissions targets are duties placed on local authorities. We need all of the elements: local government, the United Kingdom Government, energy providers, the grid, Ofgem, the construction industry and the private rented sector to come together to achieve this transformation. We are confident that they can do that, and that they will do that when they see that it is in their interests.

Mi allwn ni gwrdd â'r holl anghenion ynni o ffynonellau adnewyddadwy, ac mae angen inni ganolbwyntio ar ddatblygu projectau ynni cymunedol ar raddfa fach. Ac mi ddywedodd y rhai sy'n rhedeg rhai o'r rhain, a'r rhai sydd yn eu cynllunio nhw wrthym ni mai'r hyn sydd ei angen arnyn nhw ydy cyfaill mawr i'w helpu i ymdopi â heriau ariannu a chynllunio. Rydym yn mynd i glywed rhai o leisiau'r tystion yma—tystion a roddodd dystiolaeth werthfawr iawn, iawn i ni—ar fideo rŵan, rwy'n gobeithio.

We can meet all of our energy needs from renewable sources, and we need to focus on developing small-scale community projects. And those who run some of these, and those who plan them have told us that what they need is a big friend to help them navigate the challenges of funding and planning. We are going to hear some of the voices of these witnesses—witnesses who gave very valuable evidence to us—on a video now, I hope.

*Dangoswyd DVD. Mae'r trawsgrifiad mewn dyfynodau isod yn drawsgrifiad o'r cyfraniadau llafar ar y DVD. Mae'r cyflwyniad ar gael drwy ddilyn y linc hon:*

*A DVD was shown. The transcription in quotation marks below is a transcription of the oral contributions on the DVD. The presentation can be accessed by following this link:*

[Cyflwyniad DVD.]

[DVD presentation.]

Tom Latter: 'Community groups have a huge opportunity to influence the local authorities and to lobby Welsh Government as well. They have the opportunity to bring like-minded people together.'

Tom Latter: Mae gan grwpiau cymunedol gyfle enfawr i ddylanwadu ar awdurdodau lleol ac i lobïo Llywodraeth Cymru hefyd. Maent yn cael cyfle i ddod â phobl o'r un anian at ei gilydd.

Neil Lewis: 'With renewable energy, we can have this role—that we can own our own energy-generation company, keep the profit locally, develop it locally with local investment, and also use it locally. That would be the holy grail for us, that we could have an energy local model, like in Scotland, where we could sell the energy to our neighbours at good rates, and then, when the money comes back in as a profit, we can target fuel poverty and also low-carbon projects within our county.'

Neil Lewis: Gydag ynni adnewyddadwy, gallwn gael y rôl hon—y gallwn fod yn berchen ar ein cwmni cynhyrchu ynni ein hunain, cadw'r elw'n lleol, ei ddatblygu'n lleol gyda buddsoddiad lleol, a hefyd ei ddefnyddio'n lleol. Dyna fyddai'r greal sanctaidd i ni, y gallem gael model lleol ar gyfer ynni, fel yn yr Alban, lle y gallem werthu'r ynni i'n cymdogion ar gyfraddau da, ac yna, pan ddaw'r arian yn ôl i mewn fel elw, gallwn dargedu tlodi tanwydd, a phrosiectau carbon isel hefyd, yn ein sir.

Dawn Davies: 'I think there's a lack of capacity within communities, some communities, at least, to understand what the possibilities are, and then, if people do realise and start to want to take action, there's still not necessarily enough of the right support out there to help communities to develop the capacity to take forward projects.'

Dawn Davies: Rwy'n meddwl bod yna ddiffyg gallu mewn cymunedau, rhai cymunedau o leiaf, i ddeall beth yw'r posibiliadau, ac yna, os yw pobl yn sylweddoli ac yn dechrau bod eisiau rhoi camau ar waith, nid oes o reidrwydd ddigon o'r cymorth cywir ar gael i helpu cymunedau i ddatblygu'r gallu i fwrw ymlaen â phrosiectau.

Grant Paisley: 'Clearer strategies, priorities and policy frameworks in Wales that guide regulations at local authority and Natural Resource Wales levels, while supporting local ownership and development. We'll continue to be left behind and taken advantage of by the multinational developers, not delivering local benefits for using local resources.'

Grant Paisley: Strategaethau cliriach, blaenoriaethau a fframweithiau polisi yng Nghymru sy'n arwain rheoliadau ar lefel awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gefnogi perchnogaeth a datblygiad lleol. Byddwn yn parhau i gael ein gadael ar ôl a datblygwyr rhyngwladol yn cymryd mantais arnom, yn hytrach na darparu manteision lleol ar gyfer defnyddio adnoddau lleol.

Neil Lewis: 'As for the smart energy network, I think you have to show them a direct benefit of lower bills, and we'll get there slowly. I think there's a strong correlation between producing your own energy and then knowing how to use it effectively and efficiently. I think that's the first stage, really: produce our own energy, offer advice, peer groups that can be trained to offer advice—neighbours talking to neighbours, that sort of thing—and then the advantages of LEDs, electric cars, smart grids, energy monitors, you know, peak load management, all those things. I think that will come into the normal vernacular one day, but I think we're a long way off that at the moment, though, obviously, people in the industry realise the potential that it has.'

Neil Lewis: Fel ar gyfer y rhwydwaith ynni craffach, rwy'n meddwl bod yn rhaid i chi ddangos budd uniongyrchol biliau is iddynt, ac fe gyrhaeddwn yno'n araf. Rwy'n credu bod yna gydberthynas gref rhwng cynhyrchu eich ynni eich hun a gwybod sut i'w ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon wedyn. Rwy'n credu mai dyna'r cam cyntaf, mewn gwirionedd: cynhyrchu ein hynni ein hunain, cynnig cyngor, grwpiau cymheiriaid y gellir eu hyfforddi i gynnig cyngor—cymdogion yn siarad â chymdogion, y math hwnnw o beth—a manteision deuodau allyrru golau, ceir trydan, gridiau craff, monitorau ynni, wyddoch chi, rheoli llwyth brig, yr holl bethau hynny. Rwy'n credu y bydd yn dod yn rhan o'n hiaith o ddydd i ddydd un diwrnod, ond rwy'n credu ein bod yn bell i ffwrdd ar hyn o bryd, er, yn amlwg, mae pobl yn y diwydiant yn sylweddoli cymaint o botensial sydd iddo.

Menna Jones: 'Y ffordd orau i gael cymunedau i gymryd rhan yw eu bod nhw'n gallu gweld llwyddiannau cymunedau eraill. Rydym ni'n gweithio ar brosiect yng ngogledd-orllewin Cymru rŵan, lle rydym yn trio creu clwstwr efo mudiadau lleol—pump ohonom ni'n cydweithio efo'n gilydd. Mae rhai o'r prosiectau yna wedi cael eu hydro i gweithio. Gwelais i restr pwy ddiwrnod o'r holl gamau roedden nhw wedi bod trwyddynt. Dywedwch bod yna rywbeth fel 20 prif gam datblygu tan eich bod chi'n cael y tyrbin i droi—rwy'n meddwl ein bod ni, efallai, ar gam 3 a'u bod nhw wedi cyrraedd cam 20, er ei bod hi'n teimlo ein bod ni wedi gwneud lot o waith yn barod. Ond os ydw i'n gweld cymuned arall wedi cael llwyddiant, ac os yw cymunedau eraill yn gweld Antur Waunfawr, wedyn, mewn dwy flynedd, wedi cael llwyddiant, rwy'n meddwl ei fod yn sbardun go iawn i weld pa mor bosib ydy o i'w wneud e.'

Menna Jones: The best way to get communities to take part is by giving them the opportunity to see the successes of other communities. We're working on a project in north-west Wales now to create a cluster with local organisations—five of us are working together. Some of those projects have got their hydro working. I saw a list the other day of all the steps they had gone through. Say, for example, there are 20 key development steps you need to take before you get the turbine to turn—I think we are, perhaps, at step 3 and they've arrived at step 20, even though it feels as if we've done a lot of work already. But if I see another community has been successful, and if other communities see that Antur Waunfawr, two years later, has been successful, I think it's a real boost to see how possible it is to achieve it.

Silas Jones: 'Most people are engaged with their pocket and how much things are costing them. So, if we can persuade people that, if we can develop a smart energy grid in Wales, we are going to produce more money in the local economy and we're going to be keeping the money in the local economy, then I think people will come on board.'

Silas Jones: Mae diddordeb y rhan fwyaf o bobl yn cael ei ennyn drwy eu pocedi a faint y mae pethau'n costio iddynt. Felly, os gallwn berswadio pobl y byddwn, drwy ddatblygu grid ynni craffach yng Nghymru, yn cynhyrchu mwy o arian yn yr economi leol ac yn cadw'r arian yn yr economi leol, yna rwy'n credu y bydd pobl yn ymuno â ni.

Tom Latter: 'Our main motivating factor was the issue of the need to get away from fossil fuel generation and also to be aware of bringing money back into the community.'

Tom Latter: Ein prif ffactor ysgogol oedd yr angen i droi cefn ar gynhyrchu tanwydd ffosil a hefyd i fod yn ymwybodol o ddod ag arian yn ôl i'r gymuned.

Neil Lewis: 'Well, I'd love to say there aren't many obstacles to community renewable energy schemes, but that's not the truth. The truth is that there are many obstacles and it's incredibly complex. I suppose if you start from basics, communities very rarely own land and they very rarely have any spare money, so that's a bad starting point when you're trying to develop a multimillion pound business. However, with the support of Welsh Government, through Ynni'r Fro, we've been able to do the early feasibility work. Trying to work with local authorities—obviously that's been a bit of a challenge in itself, but there's been some co-operation. The main obstacles, I suppose, have been the permission system. The planning system doesn't give any credit to community-owned renewable energy schemes; it just judges it on its merit. Obviously, capacity of developing these schemes; it's a highly complex issue, lots of time required, a lot of head space needed to put into this, when you're trying to bring up families and all the rest of it. But I think my main gripe would be the permission system—not just the planning system, but also Natural Resources Wales when it comes to hydro schemes.'

Neil Lewis: Wel, buaswn wrth fy modd yn dweud nad oes llawer o rwystrau i gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol, ond nid dyna'r gwir. Y gwir yw bod yna lawer o rwystrau ac mae'n hynod o gymhleth. Mae'n debyg, os dechreuwch o'r pethau sylfaenol, nid yw cymunedau'n berchen ar dir yn aml iawn ac anaml iawn y bydd ganddynt unrhyw arian sbâr, felly dyna fan cychwyn gwael pan fyddwch yn ceisio datblygu busnes gwerth miliynau o bunnoedd. Fodd bynnag, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, drwy Ynni'r Fro, rydym wedi gallu gwneud yr astudiaethau dichonoldeb cynnar. Ceisio gweithio gydag awdurdodau lleol—mae'n amlwg fod honno wedi bod yn dipyn o her ynddi'i hun, ond cafwyd peth cydweithrediad. Y prif rwystrau, am wn i, oedd y system caniatâd. Nid yw'r system gynllunio yn rhoi unrhyw gydnabyddiaeth i gynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned; mae'n eu barnu yn ôl eu teilyngdod, dyna i gyd. Yn amlwg, capasiti i ddatblygu'r cynlluniau hyn; mae'n fater cymhleth iawn, ac angen llawer o amser, angen rhoi llawer o feddwl iddo, pan fyddwch yn ceisio magu teulu a'r holl bethau eraill. Ond rwy'n meddwl mai fy mhrif gŵyn fyddai'r system ganiatâd—nid caniatâd cynllunio yn unig, ond Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd o ran cynlluniau hydro.

Dawn Davies: 'Well, I think some countries have set targets for community energy projects, and, you know, there's got to be—. If Wales did that, there would have to be a concerted effort, with everybody joining together to meet those targets, because I know targets can be turned against you at times, can't they? But, I think, you know, Germany, Scotland even, something closer to home, I think they've met their community energy targets, so I think—. And there are probably other countries as well that we can learn from, but, certainly, seeing the amazing amount of electricity that's being produced by community-owned projects and renewables in other countries, you know, I think Wales is the right size country to, kind of, follow suit.'

Dawn Davies: Wel, rwy'n meddwl bod rhai gwledydd wedi gosod targedau ar gyfer prosiectau ynni cymunedol, a wyddoch chi, mae'n rhaid cael—. Pe bai Cymru'n gwneud hynny, byddai'n rhaid wrth ymdrech ar y cyd, gyda phawb yn ymuno i gyrraedd y targedau hynny, gan fy mod yn gwybod y gellir troi targedau yn eich erbyn ar adegau, oni ellir? Ond rwy'n credu, wyddoch chi, fod yr Almaen, yr Alban hyd yn oed, rhywbeth yn nes at adref, rwy'n meddwl eu bod wedi cyrraedd eu targedau ynni cymunedol, felly rwy'n credu—. Ac mae'n debyg fod yna wledydd eraill hefyd y gallwn ddysgu oddi wrthynt, ond yn sicr, mae gweld y llwyth anhygoel o drydan sy'n cael ei gynhyrchu gan brosiectau ac ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned mewn gwledydd eraill, wyddoch chi, rwy'n meddwl bod Cymru yn wlad o'r maint cywir i wneud yr un peth.

Tom Latter: 'I think the Welsh Government's aware of what has happened in Germany, which is really amazing, and there are hundreds of community-owned energy co-operatives, which are developing renewable projects there. And it would be great if we could do something like that in Wales, and I'd see no reason why not. We have huge potential for renewable generation and we can supply not only our own communities, but export to England as well.'

Tom Latter: Rwy'n credu bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r hyn sydd wedi digwydd yn yr Almaen, sy'n wirioneddol anhygoel, ac mae cannoedd o gwmnïau ynni cydweithredol sy'n eiddo i'r gymuned yn datblygu prosiectau adnewyddadwy yno. A byddai'n wych pe gallem wneud rhywbeth fel hynny yng Nghymru, ac ni fuaswn yn gweld unrhyw reswm pam na allwn. Mae gennym botensial enfawr ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a gallwn gyflenwi nid yn unig yn ein cymunedau ein hunain, ond allforio i Loegr hefyd.

Menna Jones: 'Beth buaswn i'n ddweud ydy: meddyliwch petai ni'n gallu cael y math yna o dargedau yn nhermau darpariaeth egni cymunedol yng Nghymru, fel bod gyda ni'r weledigaeth yna; wedyn bod gyda ni i gyd y cynlluniau cymunedol yma i gyd wedyn yn ffitio, a bod ni'n cael yr un llwyddiant o ran, dywedwch, cynlluniau hydro, neu 'ground source'—beth bynnag ydyn nhw—ein bod ni'n cael yr un math o ffocws a llwyddiant efo egni cymunedol.'

Menna Jones: What I would say is: imagine if we could have those kinds of targets in terms of community energy provision in Wales, so that we have that vision; if we then have all of these community plans fitting together, and we have the same success in terms of, say, hydro schemes or ground source—whatever they are—we could have the same focus and success with community energy.

17:33 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Dyna rai o'r lleisiau a oedd yn rhan o'n hymchwiliad ni. A gaf i jest gyfeirio at rai o'r prif feysydd rŷm ni'n credu y bydd angen gweithredu arnyn nhw? Rŷm ni'n credu bod angen cwmni ynni ymbarél er mwyn i Gymru gystadlu â'r chwech mawr. Mae yna enghraifft o un felly yn barod yng Nghymru, wrth gwrs: cwmni cyfleustod dielw Dŵr Cymru. Mi glywsom ni dystiolaeth gan awdurdodau lleol sydd yn cynhyrchu ac yn gwerthu ynni i'w trigolion. Mae cwmni Robin Hood Energy yn Nottingham yn gallu gosod tariffau ar gyfer strydoedd unigol ac maen nhw'n targedu tlodi tanwydd drwy godi 6c fesul awr gilowat yn hytrach na 16c, sef y gyfartaledd genedlaethol.

Well, those were some of the voices that were part of our inquiry. Can I just refer to some of the main areas that we believe action should be taken on? We believe that there should be an umbrella energy company so that Wales can compete with the big six. There is an example already in Wales, of course: the not-for-profit utility company Dŵr Cymru. We heard evidence from local authorities who do produce and sell their energy to their residents. The Robin Hood Energy company in Nottingham has the ability to set tariffs for individual streets and they target fuel poverty by charging their residents 6p per kilowatt hour instead of the 16p that is the national average.

O ran effeithlonrwydd ynni a thai, ni allwn aros i wella effeithlonrwydd ynni yn ein holl adeiladau yng Nghymru. Ni allwn barhau i greu cartrefi aneffeithlon y bydd angen eu 'retrofit-io' mewn ychydig flynyddoedd. Os ydych yn ystyried Caerdydd, lle rydym yn rhagweld codi 40,000 o dai yn y blynyddoedd nesaf yma, yna nid oes gennym amser i'w wastraffu, nid wyf yn credu. Ni allwch adael i'r rheini gael eu codi yn yr hen ddull achos mae o'n ffordd aneffeithiol o edrych ymlaen i'r dyfodol. Rwy'n credu bod y diwydiant adeiladu yn barod i gwrdd â'r safonau perfformio ynni agos at sero yr ydym ni'n eu hargymell. Yr unig beth sydd ei angen ydy ymrwymiad polisi clir.

In terms of energy efficiency and housing, we can't afford to wait to increase the energy efficiency of all our buildings in Wales and we cannot continue to build inefficient homes that will need retrofitting in just a few years' time. If you consider Cardiff, where we are expecting 40,000 homes to be built in the next few years, then we cannot waste any more time, I don't think. You can't allow those to be built in the old manner because it is an inefficient way of looking to the future. I think that the construction industry is ready and willing to meet the near-zero-energy performance standards we are advocating. All that's needed is a clear policy commitment.

O ran cyflenwi trydan a'i ddosbarthu, ar hyn o bryd rydym yn derbyn ein hynni neu'n trydan drwy system unffordd gan ddau ddosbarthwr mawr, sef y grid a'r rhwydweithiau lleol. Ac, yn y dyfodol, mi fydd angen mwy o gapasiti grid arnom i ymdopi â'r dosbarthiad ynni dwyffordd. Yn bwysicach na dim, mae angen llais ar Gymru a chynrychiolaeth yn Ofgem er mwyn inni gael mwy o reolaeth dros y rhwydweithiau dosbarthu lleol a'r grid.

In terms of supply and distribution of electricity, at present we accept that it's a one-way system with two major distributors, which are the grid and the local networks. And, in the future, there'll be more capacity needed to cope with the two-way delivery of energy. More importantly, Wales needs a voice and representation in Ofgem so that we have greater control over local distribution networks and the grid.

Yna, wrth gwrs, o ran cyllid, y peth pwysicaf, rwy'n credu, yn hyn o beth ydy creu amgylchedd polisi sefydlog. Nid oes ond angen i chi edrych ar yr holl ansicrwydd sydd wedi cael ei greu gan benderfyniadau yn San Steffan o ran y tariffau cyflenwi trydan i wybod bod sicrwydd polisi yn hanfodol i ddenu buddsoddiad. Wrth gwrs, mae'n rhaid inni fod yn greadigol o ran hyn, o ran defnyddio arian Ewropeaidd a chronfeydd y rhaglen datblygu gwledig, a buddsoddiadau pobl leol hefyd. Rydych chi'n cofio bod cwmni yn Arfon, yn fy etholaeth i, wedi codi dros £400,000 mewn buddsoddiadau a'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n lleol.

Then, of course, in terms of finance, the most important thing, I believe, is to create a stable policy environment. You only need to look at the uncertainty created by the UK Government's decisions in terms of feed-in tariffs to know that policy certainty is vital to attract investment. Of course, we need to be creative in this regard, and use European funding and the funding from the rural development programme and also local people's investment. You will remember that a company in Arfon, my constituency, raised £400,000 in investments and they were mostly local.

Rydym wedi gweld llwyddiant benthyciadau di-log i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yn yr Almaen, ac mi ddylem ddilyn eu hesiampl nhw. Mae yna nifer o syniadau eraill sy'n cael eu hargymell yn yr adroddiad. Felly, dyna agor y drafodaeth, ac rwy'n edrych ymlaen at glywed y cyfraniadau gan rai o'r Aelodau sy'n mynd i gymryd rhan ac ymateb y Gweinidog hefyd wedyn. Diolch yn fawr.

We've seen the success of zero-interest loans to improve the energy efficiency of homes in Germany, and we should follow their example too. There are a number of other ideas mentioned in the report. So, that's this debate opened and I look forward to hearing the contributions that some of the Members will make and I look forward to hearing the Minister's response. Thank you.

17:36 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I was very pleased to visit Radyr Weir and see the work that's going on to install two turbines using Archimedes screws. That is going to provide enough electricity for 550 homes. What's not to like about that?

Roeddwn yn falch iawn o ymweld â Chored Radur a gweld y gwaith ar osod dau dyrbin sy'n defnyddio sgriwiau Archimedes. Mae hynny'n mynd i ddarparu digon o drydan ar gyfer 550 o gartrefi. Beth sydd yna i beidio â'i hoffi am hynny?

I feel that all local authorities need to be inspecting the natural resources that are all around them, and doing much more to provide for their local communities. This is, after all, what local authorities used to do; they used to be municipal energy providers and they need to go back to doing that, not least because their future income from the rate support grant, given the UK Government's proposals for English local authorities, is obviously quite uncertain. So, this would give local authorities a secure source of income as well as cheaper electricity for their communities.

Rwy'n teimlo bod angen i bob awdurdod lleol archwilio'r adnoddau naturiol sydd o'u cwmpas ym mhob man, a gwneud llawer mwy i ddarparu ar gyfer eu cymunedau lleol. Wedi'r cyfan, dyma roedd awdurdodau lleol yn arfer ei wneud; arferent fod yn ddarparwyr ynni trefol ac mae angen iddynt fynd yn ôl i wneud hynny, nid yn lleiaf oherwydd bod eu hincwm yn y dyfodol o'r grant cynnal ardrethi, o ystyried cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr, yn amlwg yn eithaf ansicr. Felly byddai hyn yn rhoi ffynhonnell sicr o incwm i awdurdodau lleol yn ogystal â thrydan rhatach i'w cymunedau.

I think one of the most important things that the next Welsh Government needs to do is to upgrade the part L regulations in relation to building controls. It was really disappointing when the new Conservative Government tore up the nearly-zero-carbon regulations that were due to come in this year for goodness knows what reason, other than the fact that they didn't have the Lib Dems sitting on their backs any longer to stop them doing it. So, I think that is absolutely crucial for the next Welsh Government, because we know that the construction industry is ready to do it, because they thought they were going to have to do it anyway until recently.

Rwy'n credu mai un o'r pethau pwysicaf sydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru ei wneud yw uwchraddio rheoliadau rhan L mewn perthynas â rheoliadau adeiladu. Roedd yn siomedig iawn pan aeth y Llywodraeth Geidwadol newydd ati i rwygo'r rheoliadau carbon agos at sero oedd i'w cyflwyno eleni, dyn a ŵyr am ba reswm ar wahân i'r ffaith nad oedd ganddynt y Democratiaid Rhyddfrydol wrth eu cefnau mwyach i'w hatal rhag gwneud hynny. Felly, credaf fod hynny'n gwbl hanfodol i Lywodraeth nesaf Cymru, oherwydd gwyddom fod y diwydiant adeiladu yn barod i'w wneud, am eu bod wedi meddwl y byddai'n rhaid iddynt ei wneud beth bynnag tan yn ddiweddar.

I think we do, however, need to also look at the new powers that we will need to square the circle on this one. I was very pleased to hear the First Minister speaking about the importance of the new Wales Bill including the distribution, transmission and storage of energy regulations that the Welsh Government will need to have. At the moment, the energy market is completely dominated by large, foreign-owned distributors; all orchestrated by a private monopoly known as the National Grid. This is completely antiquated and not energy efficient, because by sending energy back up the line somewhere outside Wales and then having it sent back down again, you lose a lot of energy along the way.

Rwy'n meddwl, fodd bynnag, fod angen hefyd i ni edrych ar y pwerau newydd y bydd eu hangen arnom i sgwario'r cylch yn hyn o beth. Roeddwn yn falch iawn o glywed y Prif Weinidog yn siarad am bwysigrwydd y Bil Cymru newydd, gan gynnwys dosbarthu, trosglwyddo a storio rheoliadau ynni y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru eu cael. Ar hyn o bryd, mae'r farchnad ynni wedi'i dominyddu'n llwyr gan ddosbarthwyr mawr, tramor; y cyfan wedi'i drefnu gan fonopoli preifat o'r enw y Grid Cenedlaethol. Mae'n gwbl hynafol ac aneffeithlon o ran ynni, oherwydd mae gyrru ynni yn ôl i fyny'r llinell yn rhywle y tu allan i Gymru a gorfod ei yrru'n ôl i lawr wedyn yn golygu y byddwch yn colli llawer o ynni ar hyd y ffordd.

So, I think the vision that was described in the video by many people that would enable people to produce their own electricity, supply it to their neighbours and then reinvest the surplus value in their local communities: what's not to like about that? That is the huge difference between community energy projects and foreign-owned energy companies, which, while they may be necessary for really big projects like the Swansea basin project, at the end of the day, the money from community projects stays in Wales.

Felly, o ran y weledigaeth a ddisgrifiwyd yn y fideo gan lawer o bobl a fyddai'n galluogi pobl i gynhyrchu eu trydan eu hunain, ei gyflenwi i'w cymdogion ac yna ailfuddsoddi gwerth yr hyn sydd dros ben yn eu cymunedau lleol: beth sydd i beidio â'i hoffi am hynny? Dyna'r gwahaniaeth enfawr rhwng prosiectau ynni cymunedol a chwmnïau ynni tramor, ac er y gallant fod yn angenrheidiol ar gyfer prosiectau mawr iawn megis prosiect basn Abertawe, yn y pen draw, mae'r arian o brosiectau cymunedol yn aros yng Nghymru.

I think the other reason that we really need to get on with this is that it looks increasingly unlikely that the Hinkley Point nuclear power station will be built at all, because the two predecessors are massively behind schedule, massively over budget, and the French Government is even demanding that they're going to have to rebuild the one in France. So, I think the idea that this one at Hinkley Point is suddenly going to come along and provide a very large chunk of our energy sometime in the near future is extremely unlikely.

Rwy'n meddwl mai'r rheswm arall pam y mae gwir angen i ni fwrw ymlaen â hyn yw ei bod yn edrych yn fwyfwy annhebygol y bydd gorsaf bŵer niwclear Hinkley Point yn cael eu hadeiladu o gwbl, oherwydd mae'r ddau ragflaenydd ar ei hôl hi'n aruthrol, wedi mynd dros y gyllideb yn aruthrol, ac mae Llywodraeth Ffrainc yn mynnu hyd yn oed eu bod yn mynd i orfod ailadeiladu'r un yn Ffrainc. Felly, rwy'n meddwl bod y syniad fod yr un yn Hinkley Point yn sydyn yn mynd i ddod a darparu cyfran fawr iawn o'n hynni yn y dyfodol agos yn annhebygol dros ben.

I hope that the Welsh Government will see that this is a massive opportunity for Wales, which we have been slow to take up until now, but we can see from our visit to Germany that it only took two women in a small village of 2,000 people to develop a business with 150,000 customers. What's not to like about that? That is the sort of dynamism and entrepreneurism that we need in Wales. I do hope that we will seize the opportunity from this report.

Gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn gweld bod hwn yn gyfle enfawr i Gymru, ac rydym wedi bod yn araf i fachu arno hyd yn hyn, ond gallwn weld o'n hymweliad â'r Almaen fod dwy ddynes yn unig mewn pentref bach o 2,000 o bobl wedi gallu datblygu busnes gyda 150,000 o gwsmeriaid. Beth sydd i beidio â'i hoffi am hynny? Dyna'r math o egni ac entrepreneuriaeth sydd ei angen arnom yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y byddwn yn manteisio ar y cyfle o'r adroddiad hwn.

17:41

## Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Smarter energy has been a fairly constant theme running throughout the work of the environment committee. Today we have before us the culmination of their evidence gathering in this report. The considerations contained here are inevitably visionary, aspirational and ambitious, and there's nothing wrong with that.

Mae ynni craffach wedi bod yn thema weddol gyson sy'n rhedeg drwy waith y pwyllgor amgylchedd. Heddiw, o'n blaenau mae gennym benllanw eu gwaith yn casglu tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'r ystyriaethau sydd wedi'u cynnwys yma yn anochel yn llawn o weledigaeth, dyhead ac uchelgais, ac nid oes dim o'i le ar hynny.

Smarter energy is at the forefront of energy production, so expect to find references to technical ideas, which we hope will take Wales to the frontiers of innovation. Only through a diverse energy mix can Wales realise its duty, our duty as a Government, to ensure safe, clean, secure and affordable energy as we strive to reduce our dependency on polluting technologies.

Mae ynni craffach ar y blaen ym maes cynhyrchu ynni, felly gallwch ddisgwyl dod o hyd i gyfeiriadau at syniadau technegol, a gobeithiwn y bydd y rhain yn mynd â Chymru i'r blaen o ran arloesedd. Drwy gymysgedd ynni amrywiol yn unig y gall Cymru wireddu ei dyletswydd, ein dyletswydd fel Llywodraeth, i sicrhau ynni diogel, glân, saff a fforddiadwy wrth i ni ymdrechu i leihau ein dibyniaeth ar dechnolegau sy'n llygru.

The Welsh Conservatives have included in our manifesto the requirement for annual monitoring of carbon emissions so that important decisions are informed by a sound evidence base. Even if we don't like the results year on year, it is very important, I think, that we have them. Such a strategy will need to include some of the ideas contained in the pages of this report.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi cynnwys yn ein maniffesto y gofyniad i fonitro allyriadau carbon yn flynyddol fel bod penderfyniadau pwysig yn cael eu llywio ar sail tystiolaeth gadarn. Hyd yn oed os nad ydym yn hoffi'r canlyniadau o un flwyddyn i'r llall, mae'n bwysig iawn, rwy'n meddwl, ein bod yn eu cael. Bydd angen i strategaeth o'r fath gynnwys rhai o'r syniadau sydd wedi'u cynnwys ar dudalennau'r adroddiad hwn.

Retrofitting solutions for our older properties could make a significant impact, ensuring that planning committees throughout Wales consult and consider important environmental matters in relation to development decisions. Public buildings and publicly funded projects could be required to become models of good practice and test beds for trialling some innovation. Publicly funded fleets of vehicles could be required to be electrically powered. Local authorities know the routes, they know the mileage, they know how fast they go, they know how much fuel they use, they know where charging points would need to be, so it seems to me obvious that we could begin with a pilot with a local authority of electrically powered vehicles.

Gallai atebion ôl-osod ar gyfer ein heiddo hŷn gael effaith sylweddol, gan sicrhau bod pwyllgorau cynllunio ledled Cymru yn ymgynghori ac yn ystyried materion amgylcheddol pwysig mewn perthynas â phenderfyniadau datblygu. Gellid ei gwneud yn ofynnol i adeiladau cyhoeddus a phrosiectau a ariennir yn gyhoeddus fod yn fodelau o arferion da ac yn fannau profi ar gyfer treialu arloesedd. Gellid ei gwneud yn ofynnol i fflyd a ariennir yn gyhoeddus fod yn gerbydau sy'n rhedeg ar drydan. Mae awdurdodau lleol yn adnabod y llwybrau, maent yn gwybod faint o filltiroedd a deithir, maent yn gwybod pa mor gyflym y maent yn mynd, maent yn gwybod faint o danwydd a ddefnyddiant, maent yn gwybod lle y byddai angen cael pwyntiau gwefru, felly mae'n ymddangos i mi'n amlwg y gallem ddechrau gyda pheilot gydag awdurdod lleol o gerbydau sy'n rhedeg ar drydan.

That leads me nicely to transport. Fully integrated public transport systems: it is an idea whose time has come. It offers great opportunities for reducing carbon emissions. If we can only develop an efficient integrated transport system that is reliable and pleasant to use, why would we get our cars out of the garage?

Mae hynny'n fy arwain yn daclus at drafnidiaeth. Systemau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u hintegreiddio'n llawn: mae'n syniad y mae ei amser wedi dod. Mae'n cynnig cyfleoedd gwych ar gyfer lleihau allyriadau carbon. Os gallwn ddatblygu system drafnidiaeth integredig effeithlon sy'n ddibynadwy ac yn ddymunol i'w defnyddio, pam y byddem yn tynnu ein ceir o'r garej?

Hydropower is also a proven technology. I, as a North Wales Assembly Member, can speak very proudly of the Electric Mountain in Llanberis. If you haven't been there to visit it, I advise you to go; it's absolutely fantastic. It's now over 30 years old and, not only did it offer Carol Vorderman her engineering work experience, it became a model for hydropower schemes throughout the world—some of them led by engineers from the Llanberis project.

Mae ynni dŵr hefyd yn dechnoleg brofedig. Rwyf fi, fel Aelod Cynulliad Gogledd Cymru, yn gallu siarad yn falch iawn am y Mynydd Gwefru yn Llanberis. Os nad ydych wedi bod yno i ymweld â'r lle, rwy'n eich cynghori i fynd; mae'n hollol wych. Mae bellach dros 30 mlwydd oed ac nid yn unig ei fod wedi darparu lleoliad i Carol Vorderman wneud ei phrofiad gwaith peirianyddol, daeth yn fodel ar gyfer cynlluniau ynni dŵr ar draws y byd—gyda rhai ohonynt yn cael eu harwain gan beirianwyr o brosiect Llanberis.

Storage of heat and power continues to elude us, as does the provision of a Wales-wide broadband connectivity. The waves of change are a fact of life, fellow Members, and whether we are swept away or we ride them towards a new future will depend, to some extent, on how we meet these challenges that are set out in this committee report.

Mae storio gwres a phŵer yn parhau i fod y tu hwnt i ni, fel y mae darparu cysylltedd band eang ledled Cymru. Mae tonnau newid yn un o ffeithiau bywyd, gyd-Aelodau, ac mae pa un a ydym yn cael ein hysgubo ymaith neu ein cario ganddynt tuag at ddyfodol newydd yn dibynnu, i ryw raddau, ar sut rydym yn ymateb i'r heriau a nodwyd yn adroddiad y pwyllgor.

Finally, I would just like to say I've already offered my thanks to the environment committee members and staff for the support that they've offered me as a new Member. Joining this Assembly of Members who have been here for four years or more left me feeling like a first year trembling at the gates of the big school. I would like to thank you all for making me welcome and not giving me too much of a hard time. Thank you.

Yn olaf, hoffwn ddweud fy mod eisoes wedi diolch i aelodau'r pwyllgor amgylchedd a'r staff am y gefnogaeth a roesant i mi fel Aelod newydd. Roedd ymuno â'r Cynulliad hwn o Aelodau a oedd wedi bod yma ers pedair blynedd neu fwy yn gwneud i mi deimlo fel disgybl blwyddyn gyntaf yn crynu wrth gatiau'r ysgol fawr. Hoffwn ddiolch i chi i gyd am fy nghroesawu ac am beidio â rhoi amser rhy galed i mi. Diolch.

17:45

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Now as we know, of course, there's a huge debate raging in the UK around energy at the moment, and it isn't just a debate about fossil fuels or renewable energy, dirty energy over clean energy, old over new, it's also a debate around centralised and decentralised energy. Of course, the UK Government holds all of the cards, or at least the significant cards. London decides on consenting large energy projects in Wales. London decides on grid infrastructure and, of course, they too hold all the financial incentives. But it is a debate that we have to win, because more of the same isn't going to transform the Welsh economy. More of the same means the technology isn't ours, the intellectual property isn't ours, the investment capital isn't ours. More of the same means others, quite frankly, exploiting our resources, repeating the mistakes and injustices of the past in coal, in slate, in water, et cetera.

Nawr fel y gwyddom, wrth gwrs, ceir dadl fawr wenfflam yn y DU ynglŷn ag ynni ar hyn o bryd, ac nid dadl am danwydd ffosil neu ynni adnewyddadwy, ynni brwnt dros ynni glân, hen dros newydd, yw hi; mae hefyd yn ddadl ynglŷn ag ynni canoledig a datganoledig. Wrth gwrs, Llywodraeth y DU sy'n dal y cardiau i gyd, neu o leiaf y cardiau arwyddocaol. Llundain sy'n penderfynu ar ganiatáu prosiectau ynni mawr yng Nghymru. Llundain sy'n penderfynu ar y seilwaith grid ac wrth gwrs, hi hefyd sy'n cadw'r holl gymhellion ariannol. Ond mae'n ddadl sy'n rhaid i ni ei hennill, oherwydd nid yw mwy o'r un peth yn mynd i drawsnewid economi Cymru. Mae mwy o'r un peth yn golygu nad ein technoleg ni yw hi, nid ein heiddo deallusol ni ydyw, na'n buddsoddiad cyfalaf ni. Mae mwy o'r un peth yn golygu pobl eraill, a bod yn onest, yn manteisio ar ein hadnoddau, yn ailadrodd camgymeriadau ac anghyfiawnderau'r gorffennol mewn glo, llechi, dŵr, ac yn y blaen.

That's why I believe that one of the priorities of the next Government must be to fill the vacuum that exists at a municipal level in terms of energy in Wales. It's about who owns it, who runs it, and how you can introduce more community ownership of energy to create a new engagement of people around the wider issues of energy policy, resilience, natural resources, climate change, social enterprise and economic development. It's about growing indigenous jobs, capacity, knowledge, structures and new ways of working from our communities upwards. Community energy, of course, can be a spark that ignites that whole process, that transforms that mindset, which can then develop into other realms, as it has already done, of course, in a very small number of communities in Wales, but as it also must do in communities all across our country.

Dyna pam rwy'n credu bod yn rhaid i flaenoriaethau'r Llywodraeth nesaf gynnwys llenwi'r gwagle sy'n bodoli ar lefel drefol mewn perthynas ag ynni yng Nghymru. Mae'n ymwneud â phwy sy'n berchen arno, pwy sy'n ei redeg, a sut y gallwch gyflwyno mwy o berchnogaeth gymunedol ar ynni i ennyn diddordeb pobl o'r newydd ym materion ehangach polisi ynni, cydnerthedd, adnoddau naturiol, newid yn yr hinsawdd, menter gymdeithasol a datblygiad economaidd. Mae'n ymwneud â thyfu swyddi, capasiti, gwybodaeth, strwythurau a ffyrdd newydd o weithio sy'n gynhenid o'n cymunedau i fyny. Gall ynni yn y gymuned, wrth gwrs, fod yn wreichionen sy'n tanio'r broses gyfan, sy'n trawsnewid y meddylfryd, ac sy'n gallu datblygu wedyn i mewn i fannau eraill, fel y mae eisoes wedi gwneud, wrth gwrs, mewn nifer fach iawn o gymunedau yng Nghymru, ond fel sy'n rhaid iddo wneud hefyd mewn cymunedau ar hyd a lled ein gwlad.

The days of the old hub-and-spoke model of energy should be numbered. We have to move away from the outdated model of large, centralised energy generation that's then rather ineffectively and inefficiently transported across the country along an ageing, expensive, creaking, near-capacity national grid. New energy means more local energy generation, generated closer to where it's consumed, and interconnected through a spider web of smart local grids that are more efficient, more resilient, less intrusive and, of course, less expensive.

Dylai fod dyddiau'r hen fodel prif ganolfan a lloerennau o ddarparu ynni fod wedi'u rhifo. Mae'n rhaid i ni symud oddi wrth y model hen ffasiwn o gynhyrchu ynni mawr yn ganolog a'i gludo wedyn yn aneffeithiol ac aneffeithlon braidd ar draws y wlad ar hyd grid cenedlaethol sy'n heneiddio, yn ddrud, yn gwichian, ac yn agos at gapasiti llawn. Mae ynni newydd yn golygu mwy o gynhyrchu ynni'n lleol, ei gynhyrchu'n nes at ble y caiff ei ddefnyddio, a'i ryng-gysylltu drwy we o gridiau lleol craffach sy'n fwy effeithlon, yn fwy cydnerth, yn llai ymwthiol ac wrth gwrs, yn llai costus.

As someone once said, new energy must do to old energy what the mobile phone has done to the telephone box. And, do you know, that isn't a pipe dream? It's already happening in other countries. In fact, we're behind the curve here in Wales. One of the most inspirational experiences of my five years as an Assembly Member here was our committee visit to Freiburg. Germany has gone from having its big four energy companies to having more than 1 million entities feeding into its power grid: individual homes, schools, communities, small and large businesses seeing it as their business to generate their own energy and, of course, seeing the economic, social and environmental benefits of doing so—the triple bottom line of sustainable development.

Fel y dywedodd rhywun unwaith, rhaid i ynni newydd wneud i hen ynni yr hyn y mae'r ffôn symudol wedi'i wneud i'r blwch ffôn. Ac nid yw honno'n freuddwyd gwrach, wyddoch chi. Mae eisoes yn digwydd mewn gwledydd eraill. Yn wir, rydym ar ei hôl hi yma yng Nghymru. Un o brofiadau mwyaf ysbrydoledig fy mhum mlynedd fel Aelod Cynulliad yma oedd ymweliad ein pwyllgor â Freiburg. Mae'r Almaen wedi mynd o gael pedwar cwmni ynni mawr i gael mwy nag 1 filiwn o endidau'n bwydo i mewn i'w grid pŵer: cartrefi unigol, ysgolion, cymunedau, busnesau bach a mawr yn ei weld fel eu busnes i gynhyrchu eu hynni eu hunain ac wrth gwrs, yn gweld y manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol o wneud hynny—llinell waelod driphlyg datblygu cynaliadwy.

And Uruguay too—maybe a future visit; maybe. With a population similar to Wales, Uruguay has managed, in under 10 years, to ensure that 95 per cent of its electricity now comes from renewables, slashing its carbon footprint and lowering electricity costs at the same time. They've demonstrated that, with determined leadership, it's possible to make significant progress towards a decarbonised economy in a relatively short period of time.

Ac Uruguay hefyd—ymweliad yn y dyfodol efallai; efallai. Gyda phoblogaeth debyg i Gymru, mae Uruguay wedi llwyddo, mewn llai na 10 mlynedd, i sicrhau bod 95 y cant o'i thrydan bellach yn dod o ffynonellau ynni adnewyddadwy, gan gyfyngu'n helaeth ar ei hôl troed carbon a gostwng costau trydan ar yr un pryd. Maent wedi dangos ei bod yn bosibl, gydag arweinyddiaeth benderfynol, gwneud cynnydd sylweddol tuag at economi ddi-garbon mewn cyfnod cymharol fyr o amser.

So, when we talk about devolution of energy, it's not just a constitutional argument. It isn't something that should only exercise the minds of a few academics and politicians. It's an argument about the kind of future we want for our country. It's an economic argument, it's an environmental argument, it's an argument about the kind of communities that we want to live in and the kind of future that we want for Wales. Now, I'm clear about which energy route I want Wales to take, and we've been clear about the level of ambition Plaid Cymru has for an energy future based on renewables. This report captures much of that and issues a clear challenge to the next Welsh Government. We have to be decisive, we have to be determined and we have to demand a smarter energy future for Wales.

Felly, pan fyddwn yn sôn am ddatganoli ynni, nid dadl gyfansoddiadol yn unig yw hi, nid rhywbeth i roi meddyliau ychydig o academyddion a gwleidyddion ar waith yn unig. Mae'n ddadl am y math o ddyfodol rydym ei eisiau ar gyfer ein gwlad. Mae'n ddadl economaidd, mae'n ddadl amgylcheddol, mae'n ddadl am y math o gymunedau rydym eisiau byw ynddynt a'r math o ddyfodol rydym ei eisiau i Gymru. Nawr, rwy'n glir ynglŷn â pha lwybr ynni rwyf am i Gymru ei ddilyn, ac rydym wedi bod yn glir ynghylch lefel uchelgais Plaid Cymru ynglŷn â dyfodol yn seiliedig ar ynni adnewyddadwy. Mae'r adroddiad hwn yn cyfleu llawer o hynny ac yn cyflwyno her glir i Lywodraeth nesaf Cymru. Mae'n rhaid i ni fod yn bendant, mae'n rhaid i ni fod yn benderfynol a rhaid i ni fynnu dyfodol ynni craffach i Gymru.

17:49 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I very much welcome this committee report, Dirprwy Lywydd, and I think we've already heard enough to show that there is massive potential in moving to this future energy vision for Wales. It's been done successfully elsewhere and, of course, it's not just Germany, we've got more local examples, as was mentioned earlier, in terms of Scotland, as to how you can empower communities to enable them to develop apace through renewable energy schemes that they can own and deliver. I think some of the ideas in this report are very useful indeed, in looking at how you can practically make this progress.

Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn gan y pwyllgor yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, ac rwy'n credu ein bod eisoes wedi clywed digon i ddangos bod potensial enfawr mewn symud at y weledigaeth hon ynghylch ynni yn y dyfodol i Gymru. Mae wedi cael ei wneud yn llwyddiannus mewn mannau eraill ac wrth gwrs, nid yn yr Almaen yn unig. Rydym wedi cael mwy o enghreifftiau lleol, fel y soniwyd yn gynharach, o ran yr Alban, o ran sut y gallwch rymuso cymunedau er mwyn eu galluogi i ddatblygu'n gyflym drwy gynlluniau ynni adnewyddadwy y gallant eu perchnogi a'u cyflawni. Rwy'n credu bod rhai o'r syniadau yn yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol iawn yn wir, o ran edrych ar sut y gallwch wneud y cynnydd hwn yn ymarferol.

The idea of this umbrella not-for-profit energy service company working with local authorities—and, indeed, wider groupings like city regions and, at a lower level still, communities—I think has much to commend it. It's about offering that energy supply locally, which we've heard about from other parts of the world. Listening to the contributions via the screen here in the Chamber, it's clear that some of the nitty-gritty issues, as it were, are very much still about planning and how consents are arrived at: the processes involved, the difficulties of those processes. That, to me, does point to the need for much more hand holding, as it's often described. Again, that's something that the committee report has highlighted.

Rwy'n credu bod llawer i'w ddweud dros y syniad o gwmni gwasanaethau ynni dielw ambarél yn gweithio gydag awdurdodau lleol—a grwpiau ehangach yn wir fel dinas-ranbarthau ac ar lefel is fyth, cymunedau. Mae'n ymwneud â chynnig cyflenwad ynni yn lleol, fel y clywsom o rannau eraill o'r byd. Wrth wrando ar y cyfraniadau ar y sgrin yma yn y Siambr, mae'n amlwg fod rhai o'r manylion, fel petai, yn ymwneud i raddau helaeth o hyd â chynllunio a sut y gwneir penderfyniadau ynghylch rhoi cysyniad: y prosesau dan sylw, anawsterau'r prosesau hynny. Mae hynny, i mi, yn tynnu sylw at yr angen am lawer mwy o ddal llaw, fel y caiff ei ddisgrifio'n aml. Unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth y mae adroddiad y pwyllgor wedi tynnu sylw ato.

Certainly, in my experience, local communities and groups, understandably, think of the challenges involved in taking local renewable energy schemes forward and very much welcome that hand holding, that advice in terms of funding and wider project development. Of course, loans from Community Energy Wales and others are absolutely crucial. I've met with Welsh Government officials recently, and we've talked about the potential, locally, in Newport, in terms of working with the local authority, housing associations and communities directly. It was about energy efficiency, the LED lighting, which, I think, is probably seen as some of the low-hanging fruit, but also about renewables on buildings, biomass, heat pumps and so on, and solar schemes.

Yn sicr, yn fy mhrofiad i, mae cymunedau a grwpiau lleol, yn ddealladwy, yn meddwl am yr heriau sydd ynghlwm wrth ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy lleol ac yn falch iawn o gael rhywun i ddal eu llaw, ar ffurf cyngor ar gyllido a datblygu prosiectau yn ehangach. Wrth gwrs, mae benthyciadau gan Ynni Cymunedol Cymru ac eraill yn gwbl hanfodol. Rwyf wedi cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, ac wedi trafod y potensial, yn lleol, yng Nghasnewydd, o weithio gyda'r awdurdod lleol, cymdeithasau tai a chymunedau yn uniongyrchol. Roedd yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni, goleuo drwy ddefnyddio deuodau allyrru golau, sy'n cael ei ystyried yn bethau hawdd eu cyflawni, rwy'n meddwl, ond hefyd trafodwyd ynni adnewyddadwy mewn adeiladau, biomas, pympiau gwres ac yn y blaen, a chynlluniau solar.

And it was about zero-interest finance and invest-to-save schemes, and also, of course, self-use for those taking forward these projects, as well as selling it locally to others, and dealing with what's left of the feed-in tariff schemes after some of the changes that have made them less attractive. So, I think, you know, there is a framework there that understands what's possible and what's deliverable, and the challenge is to provide that hand holding in an effective way that really does make these schemes, which very many community groups, as well as local authorities and housing associations, want to deliver upon. And it's clear what the benefits are. We really can see very strong community development on the back of these renewable energy schemes, of building of community capacity, the obvious environmental gains, meeting the challenges of climate change, and a lot of local jobs and training opportunities being developed, which helps the social economy and feeds into wider economic development.

Ac roedd yn ymwneud â chyllid di-log a chynlluniau buddsoddi i arbed, a hefyd, wrth gwrs, hunanddefnydd i'r rhai sy'n datblygu'r prosiectau hyn, yn ogystal â'i werthu'n lleol i bobl eraill, ac ymdrin â'r hyn sy'n weddill o'r tariffau cyflenwi trydan ar ôl rhai o'r newidiadau sydd wedi'u gwneud yn llai deniadol. Felly, wyddoch chi, rwy'n meddwl bod fframwaith yno sy'n deall beth sy'n bosibl a beth sy'n gyflawnadwy, a'r her o ddal eu llaw mewn ffordd effeithiol sy'n creu'r cynlluniau hyn y mae llawer iawn o grwpiau cymunedol, yn ogystal ag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, yn awyddus i'w cyflawni. Ac mae'r manteision yn glir. Rydym yn gallu gweld datblygiad cymunedol cryf iawn yn wir yn sgil y cynlluniau ynni adnewyddadwy hyn, o ran adeiladu capasiti cymuned, yr enillion amgylcheddol amlwg, gwrthsefyll heriau newid yn yr hinsawdd, a datblygu llawer o swyddi lleol a chyfleoedd hyfforddi, sy'n helpu'r economi gymdeithasol ac yn bwydo i mewn i ddatblygiad economaidd ehangach.

Some big ideas are around that could help all of this. One of them, of course, is tidal lagoons, which, as well as being large-scale projects meeting some of these environmental challenges, economic development and training opportunities in their own right, would also, through the community benefit potential, perhaps empower some of these local schemes. So, you could have big, wide-ranging tidal lagoon schemes then providing income that would enable some of these local community schemes, and that would very much be a win-win situation, and, I think, to echo the words of Jenny Rathbone, what's not to like about that?

Ceir rhai syniadau mawr a allai helpu hyn i gyd. Un ohonynt, wrth gwrs, yw môr-lynnoedd llanw, a fyddai, yn ogystal â bod yn brosiectau ar raddfa fawr sy'n mynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn mewn perthynas â'r amgylchedd, datblygu economaidd a chyfleoedd hyfforddi yn eu hawl eu hunain, yn grymuso rhai o'r cynlluniau lleol hyn hefyd o bosibl, drwy botensial budd i'r gymuned. Felly, gallech gael cynlluniau môr-lynnoedd llanw mawr pellgyrhaeddol yn darparu incwm a fyddai'n galluogi rhai o'r cynlluniau cymunedol lleol hyn, a byddai honno'n bendant yn sefyllfa lle y byddai pawb ar ei ennill, ac yn fy marn i, i adleisio geiriau Jenny Rathbone, beth sydd i beidio â'i hoffi yn hynny?

17:53 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm very pleased indeed to be contributing to this important debate this afternoon concluding what has been, as Llyr Gruffydd said, an inspirational inquiry by our committee. One of the standout calls made in our report is that 100 per cent of domestic energy must be met from renewable sources. Wales has enormous potential for the development of renewable energy, in turn, helping, as we've heard before, to cut emissions, to reduce fossil fuel use, to create meaningful jobs, and also to export opportunities. My own party's policy is to set a target to deliver 100 per cent of Wales's electricity needs from renewable sources by 2025. The example set by the Energiewende in Germany is indeed a compelling one, and I feel it is one that can be achieved. Much of what was learned in Germany during our visit can be applied here, but only if we are sufficiently ambitious. What was clear after our visit to Baden-Württemberg was that the debate in Germany appears not to centre on whether these targets can be met, or if they should be met, but how they can be met. That is crucial. Unfortunately, the debate has not reached that point in this country just yet, but it is remarkable, in the Baden- Württemberg context, that just last weekend the Green Prime Minister, Winfried Kretschmann, was re-elected with over 30 per cent of the vote locally, incidentally also seeing the state's liberal party, the FDP, surge to over 8 per cent. These things are not unpopular if we have the courage.

Rwy'n falch iawn o gyfrannu at y ddadl bwysig hon y prynhawn yma i orffen yr hyn a fu, fel y dywedodd Llyr Gruffydd, yn ymchwiliad ysbrydoledig gan ein pwyllgor. Un o'r galwadau sy'n sefyll allan yn ein hadroddiad yw bod yn rhaid i 100 y cant o ynni domestig ddod o ffynonellau ynni adnewyddadwy. Mae gan Gymru botensial enfawr ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy, gan helpu yn ei dro, fel rydym wedi clywed o'r blaen, i leihau allyriadau a'r defnydd o danwydd ffosil, i greu swyddi ystyrlon, a hefyd i allforio cyfleoedd. Polisi fy mhlaid yw gosod targed i ddarparu 100 y cant o anghenion trydan Cymru o ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2025. Mae'r esiampl a osodwyd gan yr Energiewende yn yr Almaen yn un rymus yn wir, ac rwy'n teimlo ei bod yn un y gellir ei chyflawni. Gellid cymhwyso llawer o'r hyn a ddysgwyd yn yr Almaen yn ystod ein hymweliad yma cyhyd â'n bod yn ddigon uchelgeisiol. Yr hyn oedd yn amlwg o'n hymweliad â Baden-Württemberg oedd ei bod yn ymddangos nad yw'r ddadl yn yr Almaen yn canolbwyntio ar ba un a ellir cyrraedd y targedau hyn, neu a ddylid eu cyrraedd, ond sut y gellir eu cyrraedd. Mae hynny'n hollbwysig. Yn anffodus, nid yw'r ddadl wedi cyrraedd y pwynt hwnnw yn y wlad hon eto, ond mae'n rhyfeddol, yng nghyd-destun Baden-Württemberg, fod y Prif Weinidog Gwyrdd, Winfried Kretschmann, wedi cael ei hailethol y penwythnos diwethaf gyda thros 30 y cant o'r bleidlais yn lleol, etholiad a welodd y gefnogaeth, gyda llaw, i blaid ryddfrydol y wladwriaeth, yr FDP, yn cynyddu i dros 8 y cant. Nid yw'r pethau hyn yn amhoblogaidd os oes gennym y dewrder.

The report also emphasises the need to prioritise the development of local and community energy. Again, we've heard some excellent examples in this Chamber already this afternoon. Central to the development of community energy is that we need to have prioritisation for grid access. That is absolutely crucial. As things currently stand, grid connections can be, as we've heard, prohibitively expensive for small-scale community energy projects. In many parts of Wales, the current grid capacity is severely constrained, but industrial energy customers are also affected by being denied the ability to grow due to that inadequacy of the grid. So, we have a double whammy for the rural community: no new income from renewable energy, but also the loss of potential new jobs.

Mae'r adroddiad hefyd yn pwysleisio'r angen i flaenoriaethu datblygiad ynni lleol a chymunedol. Unwaith eto, rydym wedi clywed rhai enghreifftiau rhagorol yn y Siambr hon eisoes y prynhawn yma. Yn ganolog i ddatblygiad ynni cymunedol, mae'r angen i ni flaenoriaethu mynediad i'r grid. Mae hynny'n gwbl hanfodol. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, gall cysylltiadau grid fod, fel y clywsom, yn rhy ddrud ar gyfer prosiectau ynni cymunedol ar raddfa fach. Mewn sawl rhan o Gymru, mae capasiti presennol y grid wedi'i gyfyngu'n ddifrifol, ond effeithir ar gwsmeriaid ynni diwydiannol hefyd pan na allant dyfu oherwydd bod y grid yn annigonol. Felly, mae'n ergyd ddwbl i'r gymuned wledig: dim incwm newydd o ynni adnewyddadwy, ond colli swyddi newydd posibl hefyd.

Energy efficiency is another key area featured in the committee's report, and I believe this belongs at the very heart of a zero-carbon economy. Improving the energy efficiency of our homes and buildings could cut energy bills, make energy more sustainable, reduce greenhouse gas emissions, and, at the same time, boost the economy in a sector with huge potential for future growth and to drive innovation. Again, my party backs ambitious statutory targets, and we would strive for a 50 per cent reduction in energy used for heating and electricity by 2030. I'm fully behind the sentiment of our committee report, that improving energy efficiency and the housing stock in Wales is, and I quote, 'the responsible thing to do'.

Mae effeithlonrwydd ynni yn faes allweddol arall sy'n cael sylw yn adroddiad y pwyllgor, ac rwy'n credu bod hyn rhan ganolog iawn o economi ddi-garbon. Gallai gwella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi a'n hadeiladau dorri biliau ynni, gwneud ynni'n fwy cynaliadwy, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, a rhoi hwb i'r economi ar yr un pryd mewn sector sydd â photensial enfawr ar gyfer twf a hyrwyddo arloesedd yn y dyfodol. Unwaith eto, mae fy mhlaid yn cefnogi targedau statudol uchelgeisiol, a byddem yn ymdrechu i sicrhau gostyngiad o 50 y cant yn yr ynni a ddefnyddir ar gyfer gwresogi a thrydan erbyn 2030. Rwy'n gwbl gefnogol i'r teimlad a fynegwyd yn adroddiad ein pwyllgor, mai gwella effeithlonrwydd ynni a'r stoc dai yng Nghymru, a dyfynnaf, 'yw'r peth cyfrifol i'w wneud'.

I would go further, however, and say that not to make this happen would frankly be irresponsible, and we need to be taking action, and we need to be doing so from today.

Byddwn yn mynd ymhellach, fodd bynnag, ac yn dweud y byddai peidio â gwneud i hyn ddigwydd yn anghyfrifol a dweud y gwir, ac mae angen i ni weithredu, ac mae angen i ni wneud hynny o heddiw ymlaen.

The final area of the report that I would like to highlight is the need for planning policy to prioritise local and community renewable energy projects. Gaining support and buy-in from local authorities can often be a barrier and an area of difficulty for community energy projects. I've spoken previously in this Chamber and elsewhere of the potential benefits of having targets for community energy generation. We heard that in the video that the Chair showed earlier. I think the duty being imposed on public bodies by the future generations Act in Wales will inevitably result, if properly enforced, in local authorities being more mindful of the need to promote green energy for our sake and for the sake of that vital battle against climate change.

Y maes olaf yn yr adroddiad yr hoffwn dynnu sylw ato yw'r angen i bolisi cynllunio flaenoriaethu prosiectau ynni adnewyddadwy lleol a chymunedol. Yn aml, gall ennill cefnogaeth ac ymrwymiad awdurdodau lleol fod yn rhwystr ac yn anodd i brosiectau ynni cymunedol. Rwyf wedi siarad o'r blaen yn y Siambr hon ac mewn mannau eraill am fanteision posibl cael targedau ar gyfer cynhyrchu ynni cymunedol. Clywsom hynny yn y fideo a ddangosodd y Cadeirydd yn gynharach. Rwy'n meddwl bod y ddyletswydd sy'n cael ei gorfodi ar gyrff cyhoeddus gan Ddeddf cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru yn arwain yn anochel, os caiff ei gorfodi'n briodol, at wneud awdurdodau lleol yn fwy ymwybodol o'r angen i hyrwyddo ynni gwyrdd er ein mwyn ni ac ar gyfer y frwydr hollbwysig yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.

I think it's also appropriate for me in this final contribution for this Assembly on the environment front to thank the Chair and Members of the committee for their work, and especially to thank our clerking team and especially the inspirational special adviser Alan Simpson, who gave us such direction and focus in our inquiry.

Rwy'n credu ei bod hefyd yn briodol i mi, yn y cyfraniad terfynol i'r Cynulliad hwn ar yr amgylchedd, ddiolch i'r Cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor am eu gwaith, ac yn arbennig i'n tîm clercio ac yn benodol i'r cynghorydd arbennig ysbrydoledig, Alan Simpson, a roddodd gymaint o gyfarwyddyd a ffocws i ni yn yr ymchwiliad.

17:58 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm grateful for the opportunity to speak in this important debate today. As a member of the committee that produced this report, this is a subject area in which I take a great deal of interest. Energy and sustainability are two issues that cut across the whole constitutional settlement in Wales, including the argument for devolution of further powers and the pioneering role of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon heddiw. Fel aelod o'r pwyllgor a gynhyrchodd yr adroddiad hwn, mae'n faes pwnc rwy'n ymddiddori llawer ynddo. Mae ynni a chynaliadwyedd yn ddau fater sy'n torri ar draws y setliad cyfansoddiadol cyfan yng Nghymru, gan gynnwys y ddadl dros ddatganoli pwerau pellach a rôl arloesol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

I would like to focus my contribution today on the particular issue of skills and the role of European funding in green technology, touching on two issues that are likely to dominate debates about the future of the Welsh economy and energy policy in the months and years ahead. The report notes that policy certainty from all areas of Government is required so that investors can identify the best long-term opportunities in renewable energy. This, in turn, will allow industry and training providers to work together in order to create jobs and skills development programmes that best suit local, regional and national labour markets. This is a golden opportunity for the Welsh Government, given that the UK Government has firmly rowed back from the renewable energy agenda—so much for its former commitment to being the greenest Government ever.

Hoffwn ganolbwyntio fy nghyfraniad heddiw ar fater penodol sgiliau a rôl arian Ewropeaidd mewn technoleg werdd, gan gyffwrdd ar ddau fater sy'n debygol o ddominyddu dadleuon am ddyfodol economi Cymru a pholisi ynni yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Mae'r adroddiad yn nodi bod angen sicrwydd polisi o bob maes Llywodraeth fel y gall buddsoddwyr nodi'r cyfleoedd hirdymor gorau ym maes ynni adnewyddadwy. Bydd hyn, yn ei dro, yn caniatáu i ddiwydiant a darparwyr hyfforddiant weithio gyda'i gilydd er mwyn creu swyddi a rhaglenni datblygu sgiliau sy'n gweddu orau i farchnadoedd llafur lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Dyma gyfle euraidd i Lywodraeth Cymru, o gofio bod Llywodraeth y DU wedi tynnu'n ôl yn bendant o'r agenda ynni adnewyddadwy—a naw wfft i'w hen ymrwymiad i fod y Llywodraeth fwyaf gwyrdd erioed.

I know that Wales's further education colleges and training providers are ready and waiting to work with industry in order to meet the skills gap that we have. There is huge potential out there. The right renewables policy programme will go a long way to realising this long term.

Gwn fod colegau addysg bellach Cymru a darparwyr hyfforddiant yn barod ac yn aros i gael gweithio gyda'r diwydiant er mwyn cau'r bwlch sgiliau sydd gennym. Mae yna botensial enfawr i'w gael. Bydd y rhaglen bolisi ynni adnewyddadwy gywir yn mynd yn bell tuag at wireddu hyn yn y tymor hir.

Another key component in terms of driving forward the smarter energy agenda would be the role of European funding. This will come not only in terms of skills and job opportunities but also in terms of existing Welsh Government schemes like Arbed, along with similar initiatives that may be developed in the future. Many of our European neighbours have led the way when it comes to community renewable energy schemes. We've already heard of the Energiewende in Germany, and Wales can learn a lot from best practice elsewhere in the European Union. Our continued membership of the EU is crucial in this regard, and I am concerned that David Cameron has not been able to confirm that any structural funds that Wales would lose out on if Britain were to leave the EU would be made up by the UK Government.

Elfen allweddol arall o ran gyrru'r agenda ynni craffach yn ei blaen fyddai rôl cyllid Ewropeaidd. Daw hwn nid yn unig mewn perthynas â sgiliau a chyfleoedd gwaith, ond hefyd mewn perthynas â chynlluniau presennol Llywodraeth Cymru fel Arbed, ynghyd â mentrau tebyg y gellir eu datblygu yn y dyfodol. Mae llawer o'n cymdogion Ewropeaidd wedi arwain y ffordd ar gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol. Rydym eisoes wedi clywed am Energiewende yn yr Almaen, a gall Cymru ddysgu llawer o arferion gorau mewn mannau eraill yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae parhad ein haelodaeth o'r UE yn hanfodol yn hyn o beth, ac rwy'n pryderu nad yw David Cameron wedi gallu cadarnhau y byddai Llywodraeth y DU yn gwneud iawn am unrhyw gronfeydd strwythurol y byddai Cymru yn eu colli pe bai Prydain yn gadael yr UE.

Deputy Llywydd, this is, of course, my final speech in this place. It would be remiss of me if I did not use this opportunity to pay tribute to a few people. I would like to thank my support staff that have worked with me during the fourth Assembly. They are Mavis Williams, Alex Still, Michelle Lewis and Jamie Pritchard. Their support and friendship remains extremely important to me. I would like to thank the First Minister for making me part of his Government during this Assembly. That is a memory that I will treasure for the rest of my life. There are many people from my three and a half years in Government that I should thank, but in particular I must thank my two private secretaries, Helen Palmer and Imelda Francombe. For me, there can be no greater honour and privilege than representing the people that I live amongst. I intend to do my very best to continue to advance their interests, although of course it will be in a different capacity. Finally, can I thank you, Deputy Llywydd, and the Llywydd for your patience and understanding?

Ddirprwy Lywydd, dyma fy araith olaf yn y lle hwn wrth gwrs. Byddai'n esgeulus ohonof pe na bawn yn defnyddio'r cyfle hwn i dalu teyrnged i ychydig o bobl. Hoffwn ddiolch i fy staff cymorth sydd wedi gweithio gyda mi yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, sef Mavis Williams, Alex Still, Michelle Lewis a Jamie Pritchard. Mae eu cefnogaeth a'u cyfeillgarwch yn parhau i fod yn hynod o bwysig i mi. Hoffwn ddiolch i'r Prif Weinidog am fy ngwneud yn rhan o'i Lywodraeth yn ystod y Cynulliad hwn. Mae hwnnw'n atgof y byddaf yn ei drysori am weddill fy mywyd. Mae llawer o bobl o fy nhair blynedd a hanner yn y Llywodraeth y dylwn ddiolch iddynt, ond yn benodol mae'n rhaid i mi ddiolch i fy nwy ysgrifenyddes breifat, Helen Palmer ac Imelda Francombe. I mi, ni cheir mwy o fraint ac anrhydedd na chynrychioli'r bobl rwy'n byw yn eu plith. Rwy'n bwriadu gwneud fy ngorau glas i barhau i hybu eu lles, er y bydd hynny'n digwydd, wrth gwrs, mewn swyddogaeth wahanol. Yn olaf, hoffwn ddiolch i chi, Ddirprwy Lywydd, a'r Llywydd am eich amynedd a'ch dealltwriaeth?

18:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister for Natural Resources, Carl Sergeant.

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Carl Sergeant.

18:02 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Again, I welcome the committee report and we should all strive to bring about a Wales where low-carbon energy is a key driver in a vibrant economy, creating good-quality jobs and communities driving forward the energy agenda and benefiting from local generation of energy. I'm very grateful for the report, and I think the incoming Government will have to give lots of consideration to this very valuable piece of work done by the committee.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Unwaith eto, croesawaf adroddiad y pwyllgor a dylem i gyd ymdrechu i greu Cymru lle y mae ynni carbon isel yn sbardun allweddol mewn economi fywiog, yn creu swyddi a chymunedau o ansawdd da, yn gyrru'r agenda ynni ac yn elwa o gynhyrchu ynni'n lleol. Rwy'n ddiolchgar iawn am yr adroddiad, ac rwy'n credu y bydd yn rhaid i'r Llywodraeth newydd roi llawer o ystyriaeth i'r gwaith gwerthfawr iawn hwn a wnaed gan y pwyllgor.

During the transition to a low-carbon economy, we must maintain a diverse energy mix in Wales that delivers an affordable, secure supply to protect the most vulnerable in society at a cost that does not threaten industry and jobs. Wales generates energy from nuclear, fossil fuel and renewable sources, employing a significant number of local people. With the prospects of further investments in large-scale projects, including Wylfa Newydd and Swansea bay tidal lagoon, Wales should derive significant prosperity from this low-carbon transition.

Yn ystod y newid i economi carbon isel, rhaid i ni gynnal cymysgedd ynni amrywiol yng Nghymru sy'n darparu cyflenwad fforddiadwy, diogel i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas am gost nad yw'n bygwth diwydiant a swyddi. Mae Cymru yn creu ynni o niwclear, tanwydd ffosil a ffynonellau adnewyddadwy, gan gyflogi nifer sylweddol o bobl leol. Gyda rhagolygon o fuddsoddiadau pellach mewn prosiectau mawr, gan gynnwys Wylfa Newydd a'r morlyn llanw ym mae Abertawe, dylai Cymru sicrhau ffyniant sylweddol o'r newid i ynni carbon isel.

Industry has repeatedly called for clarity, stability over energy policy and a realistic pace for transition. Over the last five years, we have established the necessary legislative framework and policy objectives. The wellbeing of future generations Act ensures that all our actions deliver social, economic, cultural and environmental benefits. We must continue to drive forward action on energy that delivers on the wellbeing goals.

Mae diwydiant wedi galw dro ar ôl tro am eglurder, sefydlogrwydd dros bolisi ynni a chyflymder realistig ar gyfer newid. Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol a'r amcanion polisi angenrheidiol. Mae Deddf lles cenedlaethau'r dyfodol yn sicrhau bod ein holl weithredoedd yn cyflawni buddion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae'n rhaid i ni barhau i hyrwyddo camau gweithredu ar ynni sy'n cyflawni'r nodau lles.

The environment Bill requires statutory climate change targets and carbon budgeting, and the public service boards will have an important role in translating these into local action involving energy efficiency and generation. Energy must be a fundamental consideration within local development plans. The changes to the consenting regime through the UK energy and Wales Bills and the development of a national significance regime will allow decisions on renewable energy projects to be based on the needs of the people here in Wales. Energy policy and regulation are not devolved. We must continue working with the UK Government, the grid operators and Ofgem to secure transformation in the market.

Mae Bil yr Amgylchedd yn mynnu targedau newid yn yr hinsawdd statudol a chyllidebu carbon, a bydd gan y byrddau gwasanaethau cyhoeddus rôl bwysig i'w chwarae yn trosi'r rhain yn gamau gweithredu lleol sy'n cynnwys effeithlonrwydd ynni a chynhyrchiant ynni. Rhaid i ynni fod yn ystyriaeth sylfaenol mewn cynlluniau datblygu lleol. Bydd y newidiadau i'r drefn gydsynio drwy Filiau ynni'r DU a Chymru a datblygu cyfundrefn o arwyddocâd cenedlaethol yn caniatáu i benderfyniadau ynglŷn â phrosiectau ynni adnewyddadwy fod yn seiliedig ar anghenion y bobl yma yng Nghymru. Nid yw polisi a rheoliadau ynni wedi'u datganoli. Mae'n rhaid i ni barhau i weithio gyda Llywodraeth y DU, gweithredwyr y grid ac Ofgem i sicrhau trawsnewidiad yn y farchnad.

The new energy efficiency strategy sets out a clear direction for Wales, and building standards are vital in improving energy performance. We must raise standards in a way that balances the need to reduce energy consumption with meeting the housing need. We have developed a pipeline of public sector energy projects worth around £400 million. The invest-to-save green growth finance package has committed £13 million of new funding, building on the more than £20 million previously committed by this Government. We must ensure that power networks are fit for the energy transformation that's under way already. We need to see more local ownership of generation and energy infrastructure, creating decent jobs and keeping costs down.

Mae'r strategaeth effeithiolrwydd ynni newydd yn nodi cyfeiriad clir ar gyfer Cymru, ac mae safonau adeiladu yn hanfodol er mwyn gwella perfformiad ynni. Mae'n rhaid i ni godi safonau mewn ffordd sy'n cydbwyso'r angen i leihau'r defnydd o ynni â diwallu'r angen am dai. Rydym wedi datblygu piblinell o brosiectau ynni yn y sector cyhoeddus sy'n werth tua £400 miliwn. Mae'r pecyn cyllid twf gwyrdd buddsoddi i arbed wedi darparu £13 miliwn o arian newydd, gan adeiladu ar y dros £20 miliwn a ymrwymwyd yn flaenorol gan y Llywodraeth hon. Rhaid i ni sicrhau bod rhwydweithiau pŵer yn addas ar gyfer y trawsnewidiad ynni sydd ar y gweill eisoes. Mae angen i ni weld mwy o berchnogaeth leol ar gynhyrchu ynni a'r seilwaith ynni, creu swyddi da a chadw costau'n isel.

We need to be clear about the challenges of local ownership, including the need for regulatory change and the capacity needed to manage assets effectively, and many Members raised those very important issues in the Chamber today. Energy storage—and I know Jenny Rathbone is very keen on this issue—will be valuable in areas with significant grid constraints and will play an increasingly important role in the energy system. Technology is moving very quickly, and I think there will be some solutions to that—an affordable solution to that—very quickly.

Mae angen i ni fod yn glir ynglŷn â heriau perchnogaeth leol, gan gynnwys yr angen am newid rheoleiddiol a'r capasiti sydd ei angen i reoli asedau'n effeithiol, a nododd nifer o'r Aelodau y materion pwysig hyn yn y Siambr heddiw. Bydd storio ynni—a gwn fod Jenny Rathbone yn frwd iawn ynglŷn â hyn—yn werthfawr mewn ardaloedd sydd â chyfyngiadau sylweddol o ran y grid a bydd yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn y system ynni. Mae technoleg yn symud yn gyflym iawn, ac rwy'n meddwl y cawn rai atebion i hynny—ateb fforddiadwy i hynny—yn gyflym iawn.

We are supporting innovations such as storage through our smart living programme and the Welsh Government local energy service. The service provides a higher level of grant than in Scotland or in England for the earliest stages of project development, and our loan fund is more flexible than the Community And Renewable Energy Scheme, supporting project delivery as well as construction. Our recent loan of £1.2 million to Awel Aman Tawe community wind project will bring another 4.7 MW of generation into local ownership.

Rydym yn cefnogi datblygiadau arloesol megis storio ynni drwy ein rhaglen byw'n fwy craff a gwasanaeth ynni lleol Llywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaeth yn darparu lefel uwch o grantiau nag yn yr Alban neu yn Lloegr ar gyfer y camau cyntaf o ddatblygu prosiect, ac mae ein cronfa fenthyciadau yn fwy hyblyg na'r Cynllun Ynni Cymunedol ac Adnewyddadwy, ac yn cefnogi'r modd y caiff y prosiect ei gyflawni yn ogystal â'i gynllun. Bydd ein benthyciad diweddar o £1.2 miliwn i brosiect gwynt cymunedol Awel Aman Tawe yn dod â 4.7 MW arall o gynhyrchiant i berchnogaeth leol.

Deputy Presiding Officer, we can transform the way Wales thinks about energy by continuing to work with partners to develop a clear pathway. I welcome the committee's report and it will continue to help us to deliver transition. As I said earlier, the next Government will have to review this report and take very seriously the recommendations and consider it in a fuller way, as they move on into the next journey of this Government. Thank you very much indeed.

Ddirprwy Lywydd, gallwn drawsnewid y ffordd y mae Cymru'n meddwl am ynni drwy barhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu llwybr clir. Croesawaf adroddiad y pwyllgor a bydd yn parhau i'n helpu i gyflawni'r newid. Fel y dywedais yn gynharach, bydd yn rhaid i'r Llywodraeth nesaf adolygu'r adroddiad hwn a bod o ddifrif ynglŷn â'r argymhellion a'i ystyried mewn ffordd lawnach, wrth iddynt symud ymlaen at daith nesaf y Llywodraeth hon. Diolch yn fawr iawn yn wir.

18:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

And Alun Ffred Jones to reply to the debate.

Ac Alun Ffred Jones i ymateb i'r ddadl.

18:06

## Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr iawn. Wel, dim ond ychydig o funudau sydd gen i, ond, yn y cyfraniadau y prynhawn yma, fe glywsoch chi pa mor frwd oedd yr Aelodau, a hynny ar draws y pleidiau. Rwy'n diolch iddyn nhw am eu cyfraniadau gwerthfawr. Mae'n rheidrwydd, hefyd, i minnau ddiolch i'r clercod a'r ymchwilwyr am eu gwaith proffesiynol a'u trylwyredd wrth lunio'r adroddiad yma, ac rwyf innau hefyd yn ddiolchgar iawn i Alan Simpson, ein hymgynghorydd arbenigol, am ei frwdfrydedd. Fel rwyf wedi dweud, gwaith tîm oedd hwn, ac felly rwy'n ddiolchgar iawn i'm cyd-aelodau ar y pwyllgor.

Thank you very much. I only have a few minutes, but in the contributions this afternoon, you heard just how enthusiastic Members were, and on a cross-party basis. I do thank them for their valuable contributions. I am duty-bound, also, of course, to thank the clerks and the researchers for their professional, thorough approach in drawing up this report, and I'm also very grateful to Alan Simpson, our expert adviser, for his enthusiasm. As I said, this was teamwork, and therefore I'm very grateful to my fellow committee members.

O ran y themâu sydd wedi cael eu nodi, rwy'n credu, fel y dywedodd William Powell, mae angen i bolisi cynllunio yng Nghymru chwarae rhan greiddiol os oes gennym ni unrhyw obaith o gyrraedd targedau sydd yn ein Bil amgylchedd ni ein hunain i leihau allyriadau gan o leiaf 80 y cant erbyn 2050. Mae'n rhaid, rwy'n credu, i ni flaenoriaethu prosiectau ynni adnewyddol lleol a chymunedol, ac mi ddylai'r prosiectau hynny gael hawliau datblygu a ganiateir. Mi allai hynny olygu ein bod ni eisiau anelu cyllid tuag at gynlluniau hydro, biomas, prosiectau ynni haul a gwynt yn y dyfodol, yn hytrach na phrosiectau mawr, er y bydd gan y rheini hefyd eu lle. Rydym wedi gweld llwyddiant y trawsnewid ynni yma yn yr Energiewende yn yr Almaen, ac mi oedd yr ymweliad hwnnw yn un ysbrydoledig yn wir. Yno, mae cymunedau wedi eu trawsnewid. Mae ganddyn nhw ymdeimlad gwirioneddol o berchnogaeth o ran cynhyrchu ynni, ac maent yn elwa o filiau ynni rhatach o ganlyniad i'r seilwaith ynni yn eu cymuned. Mi all Cymru hefyd gael dyfodol ynni craffach, rhatach, os oes gennym yr arweinyddiaeth i'w wireddu, a dyna'r her i'r Llywodraeth nesaf. Diolch yn fawr iawn.

In terms of the themes that have emerged, I do think, as William Powell said, that planning policy in Wales needs to play a central role if we are to have any hope of achieving the targets in our own environment Bill to reduce carbon emissions by at least 80 per cent by 2050. I think we do have to prioritise local and community renewable energy projects, and those projects should be given permitted development rights. That could mean that we channel funding towards hydro, biomass, solar and wind energy projects in future, rather than major energy projects, although they, of course, will play a role. We have seen successes in terms of this energy transformation in the Energiewende in Germany, and that visit was truly an inspiring one. There, communities are transformed. They have a real sense of ownership when it comes to energy production, and they benefit from lower energy bills as a result of the energy infrastructure in their community. Wales, too, can have a smarter, cheaper energy future if we have the drive and leadership to make it happen, and that is the challenge for the next Government. Thank you very much.

18:08

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## 12. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

## 12. Welsh Liberal Democrats Debate: The National Health Service

*Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones.*

*The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones.*

18:09

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 12 is the Welsh Liberal Democrats' debate on the NHS, and I call on Kirsty Williams to move the motion.

Eitem 12 yw dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar y GIG, a galwaf ar Kirsty Williams i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM6011 Aled Roberts

Motion NDM6011 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r sector gofal sylfaenol yng Nghymru, gyda phwysau cynyddol ar adnoddau a phoblogaeth sy'n heneiddio gyda mwy o anghenion gofal cymhleth;

1. Recognises the challenges facing the primary care sector in Wales, with increasing pressure on resources and an ageing population with more complex care needs;

2. Yn nodi bod y canran o gyllid y GIG a gaiff ei wario ar ymarfer cyffredinol wedi gostwng o 10.27 y cant yn 2005-2006 i 7.9 y cant yn 2015-2016;

2. Notes that the percentage of NHS funding spent on general practice has fallen from 10.27 per cent in 2005-2006 to 7.9 per cent in 2015-2016;

3. Yn nodi bod gan Gymru y nifer leiaf ond un o feddygon teulu yn y DU, gyda 23 y cant o feddygon teulu dros 50 oed ac anawsterau o ran hyfforddi digon o feddygon teulu i gyflawni gofynion y gweithlu yn y dyfodol; a

3. Notes that Wales has the second lowest GP coverage in the UK with 23 per cent of GPs aged over 50 and difficulties in training enough GPs to fulfil future workforce requirements; and

4. Yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

4. Calls on the next Welsh Government to:

a) cyflwyno cynllun mynediad at feddygon teulu i ariannu dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol i wella mynediad cleifion at feddygon teulu;

a) introduce an access to GPs scheme to fund innovative ways of providing primary care services to improve access to GPs for patients;

b) gwella argaeledd hyfforddiant iechyd meddwl arbenigol ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol;

b) improve the availability of specialist mental health training for health professionals;

c) adolygu gallu'r gweithlu ymarfer cyffredinol i ddiwallu anghenion cleifion;

c) review the capacity of the general practice workforce to meet the needs of patients;

d) gwella addysg y cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd priodol;

d) improve public education on appropriate health services;

e) adolygu'r gofynion gweinyddol y mae meddygon teulu yn eu hwynebu; a

e) review the administration requirements on GPs; and

f) gwella'r broses o hyrwyddo ymarfer cyffredinol fel proffesiwn.

f) improve the promotion of general practice as a profession.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

18:09

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I formally move the motion on the order paper this afternoon, and, in doing so, could I beg the indulgence of the Chamber? As this is the last minority party debate, can I thank colleagues across the Chamber for their engagement in the minority party debate process throughout the last five years? It's an important part of the workings of the National Assembly that there is dedicated time for opposition parties to be able to bring forward debates of this nature, and I think some of the best debates we've had over the last five years have been on the basis of ideas and challenge that have been brought forward through this mechanism. Can I also use this opportunity to thank the Minister for the way in which he has engaged with my group, and me, since he took up the portfolio of health and social services?

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n cynnig y cynnig ar y papur trefn yn ffurfiol y prynhawn yma, ac wrth wneud hynny, a gaf fi ymbil am faddeuant y Siambr? Gan mai hon yw'r ddadl plaid leiafrifol olaf, a gaf fi ddiolch i gyd-Aelodau ar draws y Siambr am eu hymwneud â phroses y ddadl plaid leiafrifol dros y pum mlynedd ddiwethaf? Mae'n rhan bwysig o waith y Cynulliad Cenedlaethol fod amser wedi'i neilltuo i wrthbleidiau allu cyflwyno dadleuon o'r fath, ac rwy'n credu bod rhai o'r dadleuon gorau a gawsom dros y pum mlynedd ddiwethaf wedi bod ar sail y syniadau a'r her a gyflwynwyd drwy'r mecanwaith hwn. A gaf fi hefyd ddefnyddio'r cyfle hwn i ddiolch i'r Gweinidog am y ffordd y mae wedi ymgysylltu â fy ngrŵp a minnau, ers iddo dderbyn y portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol?

Deputy Presiding Officer, there are many disadvantages to being the leader of the smallest party, one of which is that you have to pull your weight and you have to serve your time on a committee, unlike other opposition party leaders. The advantage to that, however, is that you get to choose which committee you want to be on yourself, and there was no hesitation at the beginning of these five years which committee I wanted to be on. As those people who have known and followed my time here in the Assembly will know, my greatest policy love is that of the NHS and social services, and it's been a great joy to me to be able to participate in that agenda over the last five years and to engage with the health Minister.

Ddirprwy Lywydd, ceir llawer o anfanteision yn sgil bod yn arweinydd y blaid leiaf, ac un ohonynt yw bod yn rhaid i chi dynnu eich pwysau a bod yn aelod o bwyllgor, yn wahanol i arweinwyr y gwrthbleidiau eraill. Mantais hynny, fodd bynnag, yw eich bod yn cael dewis pa bwyllgor rydych eisiau bod yn aelod ohono eich hun, ac ni fu petruso ar ddechrau'r pum mlynedd ar ba bwyllgor y dymunwn fod. Fel y bydd y bobl sy'n gyfarwydd â fy amser yma yn y Cynulliad yn gwybod, fy hoff faes polisi yw'r GIG a gwasanaethau cymdeithasol, ac mae wedi bod yn destun llawenydd mawr i mi allu cymryd rhan yn yr agenda honno dros y pum mlynedd ddiwethaf ac ymwneud â'r Gweinidog iechyd.

What I have learnt in my time in this Chamber is that, if we're to have a successful NHS that really meets the needs of people and is sustainable going forward, then we need great primary care. It is the bedrock of everything else the NHS is based on, and the bedrock of that primary care team, of course, is the GP—the general practitioner. It is those clinicians who, day in, day out, see thousands of Welsh patients the length and breadth of this country. They act as gatekeepers to secondary and tertiary care. They are, as I said, the building blocks on which a successful NHS is built. But what we do know is that, because of the ageing population of the GP workforce, because of demographic changes, it is increasingly difficult to, firstly, attract people into training to become a GP in the first place and, secondly, to recruit and retain GPs. Now, is this a unique Welsh problem? No, it is not. These issues exist across the UK, but we do need to develop Welsh solutions to address these problems. We will be supporting the Plaid Cymru amendment to the motion today that recognises the need to train, recruit and retain GP staff.

Os ydym yn mynd i gael GIG llwyddiannus sy'n diwallu anghenion pobl mewn gwirionedd ac sy'n gynaliadwy wrth symud ymlaen, yr hyn rwyf wedi'i ddysgu yn fy amser yn y Siambr hon yw bod angen gofal sylfaenol sy'n wych. Mae'n sylfaen i bopeth arall y mae'r GIG yn seiliedig arno, a sylfaen y tîm gofal sylfaenol hwnnw, wrth gwrs, yw'r meddyg teulu—yr ymarferydd cyffredinol. Y clinigwyr hynny sydd, ddydd ar ôl dydd, yn gweld miloedd o gleifion yng Nghymru ar hyd a lled y wlad hon. Maent yn gweithredu fel porthorion i ofal eilaidd a thrydyddol. Fel y dywedais, hwy yw'r blociau adeiladu y caiff GIG llwyddiannus ei godi arnynt. Ond oherwydd y boblogaeth sy'n heneiddio sydd gan y gweithlu meddygon teulu, oherwydd newidiadau demograffig, rydym yn gwybod ei bod yn gynyddol anodd denu pobl, yn gyntaf, i hyfforddi i fod yn feddyg teulu yn y lle cyntaf ac yn ail, i recriwtio a chadw meddygon teulu. Nawr, ai problem unigryw i Gymru yw hon? Nage wir. Mae'r materion hyn yn bodoli ar draws y DU, ond mae angen i ni ddatblygu atebion Cymreig i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Byddwn yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru i'r cynnig heddiw sy'n cydnabod yr angen i hyfforddi, recriwtio a chadw staff meddygon teulu.

But we also know that that is a precious resource and we need to use that precious resource wisely, Deputy Presiding Officer. We need to ensure that, when a GP sits down with a patient, they do so because it is only that particular skill set that can meet the needs of the patient before them. So, what my party believes is that, yes, we need to recruit, train and retain GPs here, but we also have to diversify the primary care workforce and ensure that GPs are routinely working alongside other healthcare professionals that help ensure that, if people do need to see a GP, they can do so promptly, in a timely fashion, and that there are other options available to patients that might better suit their needs and free up GP time to enable them to help the people only they can help.

Ond rydym hefyd yn gwybod bod hwnnw'n adnodd gwerthfawr ac mae angen i ni ddefnyddio'r adnodd gwerthfawr hwn yn ddoeth, Ddirprwy Lywydd. Mae angen i ni sicrhau, pan fydd meddyg teulu yn gweld claf, y bydd yn gwneud hynny oherwydd mai dyna'r unig set o sgiliau penodol sy'n gallu diwallu anghenion y claf o'u blaen. Felly, yr hyn y mae fy mhlaid yn ei gredu yw, oes, mae angen recriwtio, hyfforddi a chadw meddygon teulu yma, ond rhaid i ni hefyd arallgyfeirio'r gweithlu gofal sylfaenol a sicrhau bod meddygon teulu'n gweithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill fel mater o drefn i helpu i sicrhau, os yw pobl angen gweld meddyg teulu, y gallant wneud hynny'n ddi-oed, mewn modd amserol, a bod yna ddewisiadau eraill ar gael i gleifion a allai fod yn fwy addas i'w hanghenion a rhyddhau amser meddygon teulu i'w galluogi i helpu'r bobl na all neb ond hwy eu helpu.

Yesterday, I was stung by the accusation by the First Minister that you could not trust a Welsh Liberal Democrat survey. The reality is that, back in November last year, I did write to 650 GP surgeries the length and breadth of this country. If I could find an address for them, then they were written to. We asked them about some of the problems that they were experiencing in day-to-day practice. There was a 21 per cent response rate, not just one or two, but a sizeable—even for an academic like Professor Drakeford, I'm sure he'd regard a 21 per cent response rate as respectable. What that survey said is that many of those GPs were acutely aware that they were not able to offer timely appointments to their patients, they did not feel that the initiatives pursued by the Welsh Labour Government in respect of broadening opening hours had been a success and that what they did want was the opportunity to expand their primary healthcare teams, to be able to recruit perhaps a salaried GP or to work as a cluster to be able to recruit a permanent locum to enable them to plan for holidays and training and sickness on a much more secure footing, to be able to employ practice nurses, clinical pharmacists, physiotherapists, occupational therapists, counsellors and those skilled in helping people with mental health, and even social work input because of the nature of the clients that they were seeing. We want to be able to ensure that they have the opportunity to do that by directly allowing GP clusters to bid to a new fund so that, if they are able to demonstrate how that will improve access to their services, we would look to help them expand their primary healthcare team.

Ddoe, cefais fy siomi gan gyhuddiad y Prif Weinidog na allech ymddiried mewn arolwg gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru. Y realiti yw fy mod, yn ôl ym mis Tachwedd y llynedd, wedi ysgrifennu at 650 o bractisau meddygon teulu ar hyd a lled y wlad. Os gallwn ddod o hyd i gyfeiriad ar eu cyfer, roedd llythyr yn cael ei anfon atynt. Gofynnwyd iddynt am rai o'r problemau roeddent yn eu profi yn eu hymarfer o ddydd i ddydd. Cafwyd cyfradd ymateb o 21 y cant, nid un neu ddau yn unig, ond cyfradd ymateb gweddol fawr—hyd yn oed i academydd fel yr Athro Drakeford, rwy'n siŵr y byddai'n ystyried cyfradd ymateb o 21 y cant fel un barchus. Yr hyn a ddywedodd yr arolwg oedd bod llawer o'r meddygon teulu hynny'n ymwybodol iawn nad oeddent yn gallu cynnig apwyntiadau amserol i'w cleifion, nid oeddent yn teimlo bod y mentrau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Lafur Cymru i ehangu oriau agor wedi bod yn llwyddiant ac mai'r hyn roeddent ei eisiau oedd cyfle i ehangu eu timau gofal iechyd sylfaenol, er mwyn gallu recriwtio meddyg teulu cyflogedig efallai neu weithio fel clwstwr i allu recriwtio locwm parhaol er mwyn eu galluogi i gynllunio ar gyfer gwyliau a hyfforddiant a salwch ar sylfaen lawer mwy diogel, a gallu cyflogi nyrsys practis, fferyllwyr clinigol, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, cwnselwyr a rhai sydd â sgiliau mewn cynorthwyo pobl â phroblemau iechyd meddwl, a hyd yn oed mewnbwn gwaith cymdeithasol oherwydd natur y cleientiaid roeddent yn eu gweld. Rydym am allu sicrhau eu bod yn cael cyfle i wneud hynny drwy ganiatáu clystyrau meddygon teulu i wneud cais uniongyrchol i gronfa newydd ac os gallant ddangos sut y byddai hynny'n gwella mynediad at eu gwasanaethau, byddem yn ceisio'u helpu i ehangu eu tîm gofal iechyd sylfaenol.

If we can get this right, this means that pressure on our out-of-hours services and on our secondary care services will be greatly reduced. We know that sometimes people, in desperation, go to the part of the NHS where the lights are always on, and that happens to be an A&E department. You know that, if you turn up, you will be seen by someone. In the absence of a timely GP appointment, that's what many people, in a default position, do. They don't do it recklessly or with abandon, but they are desperate, often, to get some medical attention and medical help and they feel they have no other choice.

Os gallwn wneud hyn yn iawn, mae'n golygu y bydd pwysau ar ein gwasanaethau y tu allan i oriau ac ar ein gwasanaethau gofal eilaidd yn gostwng yn sylweddol. Gwyddom fod pobl weithiau, mewn anobaith, yn mynd i'r rhan o'r GIG lle y mae'r goleuadau bob amser ynghyn, sef adran damweiniau ac achosion brys, fel mae'n digwydd. Os ewch yno, fe wyddoch y cewch eich gweld gan rywun. Yn niffyg apwyntiad amserol i weld meddyg teulu, dyna y mae llawer o bobl yn ei wneud pan nad oes dewis arall. Nid ydynt yn gwneud hynny'n ddi-hid neu'n ddiofal, ond maent yn aml yn daer eisiau sylw meddygol a chymorth meddygol ac maent yn teimlo nad oes ganddynt unrhyw ddewis arall.

Speakers later on in this debate will talk about the particular challenges of primary care in north Wales and in rural areas, but I'd be very interested to hear, in this final minority party debate of this session, other parties' ideas about how we can ensure that we have the GP workforce and the primary care teams that we need to sustain our NHS into the future.

Bydd y siaradwyr yn nes ymlaen yn y ddadl yn sôn am heriau penodol gofal sylfaenol yng ngogledd Cymru ac mewn ardaloedd gwledig, ond hoffwn yn fawr glywed, yn y ddadl plaid leiafrifol derfynol yn ystod y sesiwn hon, syniadau'r pleidiau eraill ynglŷn â sut y gallwn sicrhau bod gennym y gweithlu meddygon teulu a'r timau gofal sylfaenol sydd eu hangen arnom i gynnal ein GIG yn y dyfodol.

18:16

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the amendment to the motion. I call on Elin Jones to move amendment 1, tabled in her name.

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn ei henw.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y lleoedd hyfforddi ar gyfer meddygon teulu, a sicrhau bod y rotas hyfforddiant i feddygon teulu yn cwmpasu ardaloedd gwledig a difreintiedig er mwyn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i feddygon teulu sy'n ymarfer yn yr ardaloedd hynny.*

*Calls on the Welsh Government to increase training places for GPs, and to ensure that training rotas for GPs cover rural and deprived areas in order to increase the prospects of GPs practicing in those areas.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

18:16

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno'r ddadl olaf yma ar y pwnc pwysig o ofal sylfaenol. Fe fyddwn ni'n cefnogi'r cynnig heddiw ac rwy'n cyflwyno'r gwelliant yn enw Plaid Cymru.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I thank the Welsh Liberal Democrats for tabling this final debate on the important issue of primary care. We will be supporting the motion today and I move the amendment in the name of Plaid Cymru.

Rwy'n cytuno'n llwyr fod yna argyfwng ar hyn o bryd o ran prinder o feddygon teulu mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru. Rwy'n derbyn nad yw'n gymaint o argyfwng ym mhob ardal, ond yn sicr, yn yr ardal rwy'n ei chynrychioli, mae yna bryder difrifol iawn ar hyn o bryd ymysg meddygfeydd teulu bod yna ddigonedd o ran y niferoedd o feddygon teulu yn dod drwy'r system ac yn gweithio yn y meddygfeydd erbyn hyn. Felly, mae Plaid Cymru wedi gosod uchelgais o hyfforddi a recriwtio 1,000 o feddygon ychwanegol dros gyfnod o 10 mlynedd, yn dilyn ethol Llywodraeth nesaf Cymru.

I agree entirely that there is currently a crisis in terms of the shortage of GPs in a number of areas of Wales. I do accept that there isn't as much of a crisis in all areas, but certainly in the area that I represent, there is very grave concern at the moment among those GP surgeries that there is a sufficient number of GPs coming through the system and working in our surgeries. Therefore, Plaid Cymru has put in place an ambition to train and recruit 1,000 additional doctors over a period of 10 years, following the election of the next Welsh Government.

Mae'r gyfradd isaf o feddygon y pen yn y Deyrnas Gyfunol yng Nghymru ar hyn o bryd, ac mae hynny gyda'r isaf yn yr Undeb Ewropeaidd. Dim ond ym Mwlgaria, Rwmania a Slofenia y mae'r gyfradd y pen o feddygon yn is nag ydyw yng Nghymru. Mae'n gam pwysig i ni i gychwyn ar y gwaith o gynyddu'r nifer o feddygon drwy, wrth gwrs, hyfforddi mwy o'n meddygon ni yma yng Nghymru. Rydym yn hyfforddi llai o feddygon y pen nag yn unrhyw le arall o fewn y Deyrnas Gyfunol. Mae 1,750 o fyfyrwyr meddygol mewn hyfforddiant yng Nghymru, a 4.3 y cant o fyfyrwyr meddygol y Deyrnas Gyfunol yw hynny. Wrth gwrs, rydym yn gwybod, yng Nghymru, fod 4.8 y cant o boblogaeth y Deyrnas Gyfunol yn byw. Ond os cymharwn ni hyn gyda'r Alban, mae sefyllfa Cymru yn ymddangos hyd yn oed yn waeth o ran y nifer o feddygon rydym yn mynd ati i'w hyfforddi: mae 12.6 y cant o feddygon dan hyfforddiant yn yr Alban, i'w cymharu ag 8.3 y cant o'r boblogaeth yn yr Alban. Felly, maen nhw'n hyfforddi mwy na'u siâr o ddoctoriaid yn yr Alban, lle rydym yn hyfforddi llai na'n siâr o feddygon yma yng Nghymru.

The lowest rate of doctors per capita in the UK is in Wales at present and that is among the lowest in the EU. Only in Bulgaria, Romania and Slovenia is the per captia number of doctors lower than it is in Wales. It's an important step for us to start this work of increasing the number of doctors we have by training more of those doctors here in Wales. We train fewer doctors per capita than in any other nation within the UK. There are 1,750 medical students in training in Wales, which is 4.3 per cent of the UK's medical student population, and we know that, in Wales, the population is 4.8 per cent of the UK population. But, if we compare this with Scotland, then the situation in Wales appears to be even worse in terms of the number of doctors that we train: 12.6 per cent of trainee doctors are in Scotland as compared with 8.3 per cent of the population living in Scotland. Therefore, they are training more than their share of doctors in Scotland, where we are training less than our share here in Wales.

Rwy'n credu ei bod hi nawr yn amser i ysgolion meddygol Caerdydd ac Abertawe gael cwota uchelgeisiol o dderbyn myfyrwyr o Gymru—rhai sy'n cwrdd â'r safon academaidd angenrheidiol, wrth gwrs. Mae pob tystiolaeth yn dangos—ac rydym wedi clywed yn y pwyllgor iechyd am dystiolaeth o Awstralia a'r Unol Daleithiau—os ydych yn recriwtio'ch myfyrwyr meddygol o ddalgylch eich ysgol feddygol, yna maen nhw'n llawer mwy tebygol o aros i weithio yn y gwasanaeth iechyd yn yr ardaloedd hynny, yn y rhanbarthau neu, yn ein cyd-destun ni, yn ein gwlad ni. Mae yna ddigon o alw gan ddarpar fyfyrwyr am lefydd yn ein hysgolion meddygol ni, hefyd. Yn 2014, yng Nghaerdydd, roedd 2,900 o geisiadau am 309 o lefydd yn yr ysgol feddygol. Yn Abertawe, roedd yna 800 o geisiadau am 70 o lefydd i astudio meddygaeth. Felly, mae yna ddigonedd o le i dyfu, oherwydd mae yna ddigon o alw allan yna. Mae Plaid Cymru yn sicr o'r farn hefyd bod eisiau dechrau tyfu darpariaeth addysg feddygol ym Mhrifysgol Bangor i gynyddu capasiti cenedlaethol.

I believe that it's now time for the medical schools in Cardiff and Swansea to have an ambitious quota of intake from Wales—those meeting the necessary academic standards, of course. All evidence seems to demonstrate—and we have heard on the health committee of evidence from Australia and the United States—that if you recruit your medical students from the catchment of your medical school, then they are far more likely to remain working in the health service in those particular areas or regions or, in our context, within our nation. There is sufficient demand from prospective students for places in our medical schools. In 2014, in Cardiff, there were 2,900 applications for 309 places. In the medical school in Swansea, there were 800 applications for 70 places to study medicine. So, there is sufficient room for improvement because there is plenty of demand out there. Plaid Cymru is certainly of the view that we do need to start to develop the provision of medical education at Bangor University in order to develop national capacity.

Hefyd, mae angen denu doctoriaid ifainc i hyfforddi mewn ardaloedd a meysydd lle mae'n anodd llenwi'r llefydd hyfforddi hynny. I wneud hynny, rwy'n credu bod angen, nawr, inni greu cynllun o 'golden hellos' a sicrhau bod yna gymhelliad ariannol penodol i annog darpar ddoctoriaid i lenwi'r llefydd hyfforddi gwag hynny sydd mewn nifer o ardaloedd a nifer o feysydd, yn enwedig ar gyfer meddygon teulu.

We also need to attract junior doctors to train in areas where it's difficult to fill those training posts. To do that, I do think we need to create a scheme of golden hellos in terms of ensuring that there is a financial incentive to encourage prospective doctors to actually take up those vacant training places in a number of areas and in a number of different specialisms, including GPs.

Rwy'n derbyn y ffaith bod cyflwynydd y ddadl, ac, mae'n siŵr, nifer o bobl eraill yn ystod y ddadl, yn dweud bod y gweithlu yn y sector gofal sylfaenol yn llawer ehangach, wrth gwrs, na'r gweithlu meddygol yn unig. Rwy'n derbyn hynny'n llwyr. Rwyf wedi dewis canolbwyntio heddiw ar y gweithlu meddygol, ond yn cydnabod yn llwyr mai un ffordd o leihau'r pwysau ar y meddygon eu hunain yw i ymestyn yr ystod o weithlu yn y sector gofal sylfaenol ac i gynyddu'r gweithgaredd o gwmpas y meddygon hynny. Felly, y prynhawn yma, rwy'n falch iawn o gefnogi'r cynnig a'r gwelliant.

I do accept the fact that the person who opened the debate and, I'm sure, many others who will contribute to the debate, would say that the workforce in the primary care sector is far wider than simply the medical staff. I wholly accept that. I have chosen today to concentrate on the medical aspect, but I do fully acknowledge that one way of reducing pressure on GPs is to enhance the range of support available in the primary care sector and to increase the activity around those GPs. Therefore, this afternoon, I'm very pleased to be able to support the motion and the amendment to it.

18:21

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I represent a deeply rural region. Rural areas create, of course, their own challenges in terms of GP access, GP recruitment and GP retention. So, my contribution will focus principally on these issues.

Rwy'n cynrychioli rhanbarth gwledig iawn. Mae ardaloedd gwledig yn creu, wrth gwrs, eu heriau eu hunain o ran mynediad at feddygon teulu, recriwtio meddygon teulu a chadw meddygon teulu. Felly, bydd fy nghyfraniad yn canolbwyntio'n bennaf ar y materion hyn.

Turning to the Plaid Cymru amendment, we do fully agree that the Welsh Government needs to increase training places for GPs and to ensure that training rotas for GPs cover rural and deprived areas. So, as Kirsty Williams has indicated, we will be giving our support to that amendment.

Gan droi at welliant Plaid Cymru, rydym yn cytuno'n llwyr fod angen i Lywodraeth Cymru gynyddu nifer y lleoedd hyfforddi ar gyfer meddygon teulu a sicrhau bod rotâu hyfforddiant i feddygon teulu yn cwmpasu ardaloedd gwledig a difreintiedig. Felly, fel y mae Kirsty Williams wedi datgan, byddwn yn rhoi ein cefnogaeth i'r gwelliant hwnnw.

We all know that mid and west Wales is a great place to live. Indeed, you may have seen recently in the media that an English GP recently moved over 200 miles to be near ospreys—not the rugby team, but the birds of prey at the Cors Dyfi nature reserve near Machynlleth—providing a very valuable additional resource there for that community. But mid and west Wales is also a fantastic place for a GP to work. For example, in Powys, the lack of a district general hospital also has positives. It means that GPs have to work innovatively and creatively to keep people out of the DGHs wherever possible. But, if trainees never come to train in rural areas, they will never experience how great it is, potentially, to practice in them.

Rydym i gyd yn gwybod bod canolbarth a gorllewin Cymru yn llefydd gwych i fyw. Yn wir, efallai eich bod wedi gweld yn ddiweddar ar y cyfryngau fod meddyg teulu o Loegr wedi symud dros 200 milltir yn ddiweddar er mwyn bod yn agos at y gweilch—nid y tîm rygbi, ond gweilch y pysgod, yr adar ysglyfaethus yng ngwarchodfa natur Cors Dyfi ger Machynlleth sy'n darparu adnodd ychwanegol gwerthfawr iawn ar gyfer y gymuned honno. Ond mae canolbarth a gorllewin Cymru yn lle gwych i feddyg teulu weithio hefyd. Er enghraifft, ym Mhowys, mae diffyg ysbyty cyffredinol dosbarth yn cynnwys elfennau cadarnhaol. Mae'n golygu bod yn rhaid i feddygon teulu weithio'n arloesol ac yn greadigol i gadw pobl allan o'r ysbytai cyffredinol dosbarth lle bynnag y bo'n bosibl. Ond os na ddaw hyfforddeion i hyfforddi mewn ardaloedd gwledig, ni fyddant byth yn profi pa mor wych yw gweithio ynddynt, o bosibl.

It is clear that the Welsh Government's opening hours policy has not worked. In response to our survey, much maligned in some quarters, a group of GPs stated that they were not aware of the policy and did not have the staff to extend opening hours, while one commented that there had been—and I quote—'very poor uptake in rural areas and the enhanced scheme has been pulled from many practices, because it was poor value for money'. That is why we believe our GP access scheme is fundamentally better. GPs know better than politicians how best to run their surgeries, so, our policy would have GP practices deciding how they wanted to spend the money allocated to them with the NHS overseeing applications. GPs will improve access in that way, because they know the way that would be most effective for their particular area. For example, the work of GPs, the district nurses and the social care teams in south Powys in the virtual ward project is positively keeping people at home, out of hospital and actually saving the NHS valuable resource.

Mae'n amlwg nad yw polisi oriau agor Llywodraeth Cymru wedi gweithio. Mewn ymateb i'n harolwg, a ddifrïwyd yn fawr mewn rhai mannau, dywedodd grŵp o feddygon teulu nad oeddent yn ymwybodol o'r polisi ac nid oedd ganddynt staff i ymestyn yr oriau agor, a dywedodd un—a dyfynnaf—'fod lefelau isel iawn o ddefnydd o'r gwasanaeth wedi bod mewn ardaloedd gwledig ac mae'r cynllun estynedig wedi'i dynnu'n ôl o lawer o bractisau am nad oedd yn cynnig gwerth am arian'. Dyna pam y credwn fod ein cynllun mynediad at feddygon teulu yn sylfaenol well. Mae meddygon teulu yn gwybod yn well na gwleidyddion sut i redeg eu meddygfeydd yn y ffordd orau, felly byddai ein polisi yn gadael i bractisau meddygon teulu benderfynu sut y maent yn dymuno gwario'r arian a ddyrannwyd iddynt gyda'r GIG yn goruchwylio ceisiadau. Bydd meddygon teulu yn gwella mynediad yn y ffordd honno, am eu bod yn gwybod sut i wneud hynny yn y ffordd fwyaf effeithiol ar gyfer eu hardal hwy. Er enghraifft, mae gwaith meddygon teulu, nyrsys ardal a'r timau gofal cymdeithasol yn ne Powys yn y prosiect ward rithwir yn mynd ati mewn ffordd gadarnhaol i gadw pobl yn eu cartrefi, allan o'r ysbyty ac mewn gwirionedd yn arbed adnoddau gwerthfawr i'r GIG.

Professor Longley, in his mid Wales healthcare study, called for, and I quote again,

'closer working between practices, the development of the concept of a "rural GP", an expansion of salaried GPs, and a fresh look at how to generate additional paid opportunities for GPs.'

I'd be very grateful if the Minister could update us on the latest progress in that particular area.

Before leaving that topic, I should like to pay tribute to respected Ceredigion GP, Dr William Roberts, who has contributed so much to that concept, and, indeed, to the bringing about of the healthcare study. I think he and his colleagues are much to be thanked in that respect.

Galwodd yr Athro Longley, yn ei astudiaeth ar ofal iechyd Cymru yng nghanolbarth Cymru, a dyfynnaf eto, am

gydweithio agosach rhwng meddygfeydd, datblygu'r cysyniad o "feddyg teulu gwledig", ehangu meddygon teulu cyflogedig, ac edrych o'r newydd ar sut i greu cyfleoedd ychwanegol am dâl ar gyfer meddygon teulu.

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y cynnydd diweddaraf yn yr ardal benodol honno.

Cyn gadael y pwnc, hoffwn dalu teyrnged i'r meddyg teulu mawr ei barch o Geredigion, Dr William Roberts, sydd wedi cyfrannu cymaint at y cysyniad hwnnw, ac yn wir, at sicrhau bod yr astudiaeth gofal iechyd yn digwydd. Rwy'n credu bod angen diolch yn fawr iddo ef a'i gydweithwyr yn hynny o beth.

I now want to turn briefly, maybe not surprisingly, to the issue of Europe. Wales relies heavily on the EU in terms of its NHS workforce. That includes, of course, GPs, and I, for one, am deeply concerned about the potential impact of leaving the European Union that could be had on recruitment and retention of our GPs. Has the Minister had any discussions at this stage with Welsh health boards about the potential impact of Brexit, especially with the potential unpicking that would doubtless follow of the much-valued mutual recognition of professional qualifications? There is there an issue that I think we do need to address.

Rwyf am droi yn fyr yn awr, ac efallai nad yw hynny'n syndod, at fater Ewrop. Mae Cymru yn dibynnu'n helaeth ar yr UE o ran ei weithlu GIG. Mae hynny'n cynnwys meddygon teulu, wrth gwrs, ac rwy'n pryderu'n fawr am yr effaith bosibl y gallai gadael yr Undeb Ewropeaidd ei chael ar recriwtio a chadw ein meddygon teulu. A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau ar y cam hwn gyda byrddau iechyd Cymru am effaith bosibl Prydain yn gadael yr UE, yn enwedig o ran dad-wneud y gydnabyddiaeth gyffredin a werthfawrogir yn fawr i gymwysterau proffesiynol a fyddai'n sicr o ddilyn yn sgil gadael? Mae hwnnw'n fater sydd angen i ni roi sylw iddo yn fy marn i.

Finally, I would like to pay tribute to a local GP in my own area, in Haygarth practice, Dr Pete Howard. He does a fantastic job standing up for mid Wales GPs on the various groups and bodies that he represents. He is a busy GP, but he, and others like him, has a direct input into policy making—I think that's really important—as a member of the Welsh Borders GP medical secretary, also as member of the GPC Wales and having served for a time on the LMC conference agenda committee. It's people like that, with strong voices, who understand the reality of delivering GP services in a rural area that we need to hear from, and I'm very grateful to him and others like him for the service that they give to their patients. Diolch yn fawr.

Yn olaf, hoffwn dalu teyrnged i feddyg teulu lleol yn fy ardal i, ym mhractis Haygarth, Dr Pete Howard. Mae'n gwneud gwaith gwych yn sefyll dros feddygon teulu canolbarth Cymru ar y gwahanol grwpiau a chyrff y mae'n eu cynrychioli arnynt. Mae'n feddyg teulu prysur, ond mae ef, ac eraill tebyg iddo, yn cyfrannu'n uniongyrchol at lunio polisïau—rwy'n credu bod hynny'n bwysig tu hwnt—fel ysgrifennydd meddygol Welsh Borders GP, ac aelod hefyd o Bwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru ar ôl bod yn aelod am gyfnod o bwyllgor agenda cynadleddau'r pwyllgor meddygol lleol. Pobl fel hyn, gyda lleisiau cryf, sy'n deall realiti darparu gwasanaethau meddygon teulu mewn ardal wledig, sydd angen i ni glywed ganddynt, ac rwy'n ddiolchgar iawn iddo ac eraill tebyg iddo am y gwasanaeth y maent yn ei roi i'w cleifion. Diolch yn fawr.

18:26

## Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'd like to make a short contribution on the first point of this motion. It is important that we recognise the challenges facing the primary care sector, not least because we are an ageing society and that some of us have complex care needs. Neither must we lose sight of the fact that more of us are living longer and are enjoying a healthy third and even fourth age. Much of this extended life expectancy, in my view, is down to our national health and social care services and the dedication of the workforce of these services. Thanks are also due to our voluntary sector and our independent sector too.

Hoffwn wneud cyfraniad byr ar bwynt cyntaf y cynnig hwn. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r sector gofal sylfaenol, nid yn lleiaf oherwydd ein bod yn gymdeithas sy'n heneiddio a bod gan rai ohonom anghenion gofal cymhleth. Ac ni ddylem golli golwg y chwaith ar y ffaith fod mwy ohonom yn byw'n hirach ac yn mwynhau trydydd a phedwerydd cyfnod hyd yn oed o oes iach. Mae llawer o'r disgwyliad oes estynedig hwn, yn fy marn i, yn deillio o'n gwasanaethau iechyd gwladol a'n gofal cymdeithasol ac ymroddiad gweithluoedd y gwasanaethau hyn. Diolch hefyd i'n sector gwirfoddol a'n sector annibynnol hefyd.

I know you will agree with me, Minister, that a preventative primary and community care-led NHS that is integrated with social care has to be maintained, as 90 per cent of first contacts by patients and carers with the NHS take place in primary care. The recent budget commitment to an integrated service model has reaffirmed the importance of the intermediate care fund, which supports older people to maintain their independence and remain in their own homes. The integrated family support service has long been available across all parts of Wales and involves primary care in the focus on families where children are at risk of being taken into care because of parental alcohol or substance misuse. You once said, Minister, and I quote,

Rwy'n gwybod y byddwch yn cytuno â mi, Weinidog, fod yn rhaid cynnal GIG wedi'i arwain gan ofal ataliol, gofal sylfaenol a gofal yn y gymuned sydd wedi'i integreiddio gyda gofal cymdeithasol, gan fod 90 y cant o gysylltiadau cyntaf cleifion a gofalwyr â'r GIG yn digwydd mewn gofal sylfaenol. Mae'r ymrwymiad cyllidebol diweddar i fodel gwasanaeth integredig wedi cadarnhau pwysigrwydd y gronfa gofal canolraddol, sy'n cynorthwyo pobl hŷn i gadw'n annibynnol ac i aros yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r gwasanaeth integredig cymorth i deuluoedd wedi bod ar gael ers amser ar draws pob rhan o Gymru ac yn cynnwys gofal sylfaenol yn y ffocws ar deuluoedd lle y mae plant mewn perygl o gael eu rhoi mewn gofal am fod eu rhieni'n camddefnyddio sylweddau neu alcohol. Fe ddywedoch unwaith, Weinidog, ac rwy'n dyfynnu,

'The better primary and community care services are, the more integrated they are with each other, with secondary care and with services such as social care, housing, leisure and transport, and with the third and independent sectors, the better the health and wellbeing of the people of Wales.'

'Os yw gwasanaethau sylfaenol a gofal cymunedol yn dda, maent wedi integreiddio â'i gilydd, ac wedi integreiddio â gofal eilaidd a gwasanaethau fel gofal cymdeithasol, tai, hamdden a thrafnidiaeth, y trydydd sector a'r sector annibynnol. Mae hyn oll yn cyfrannu at wella iechyd a llesiant pobl Cymru.'

Minister, it was a pleasure for me to work with you as your deputy, and I know we shared a view that we had to move away from the old medical model of care to a social one, promoting independence, not dependence.

Weinidog, roedd yn bleser gennyf weithio gyda chi fel eich dirprwy a gwn ein bod wedi rhannu barn fod yn rhaid i ni symud oddi wrth yr hen fodel meddygol o ofal i un cymdeithasol, sy'n hyrwyddo annibyniaeth, yn hytrach na dibyniaeth.

That is why I was pleased to welcome you to Gwauncaegurwen to the newly established Aman Tawe practice, where you launched the primary care workforce planning scheme for Wales. That practice now has GPs, advanced nurse practitioners, a clinical pharmacist, a strengthened group of healthcare assistants and a paramedic. In my view, this kind of general practice model—but extending, perhaps, to include social workers and voluntary sector agencies—would certainly help to meet some challenges and better support an ageing population as our needs grow more complex. It could also mean that primary care can identify carers within our communities and help to ensure that a multi-agency network is in place to meet their needs. Indeed, valuing all informal carers, in my view, is an important element of sustaining our NHS and our social care into the future.

Dyna pam roeddwn yn falch o'ch croesawu i Wauncaegurwen i bractis Aman Tawe sydd newydd ei sefydlu, lle lansiwyd y cynllun gweithlu gofal sylfaenol ar gyfer Cymru gennych. Erbyn hyn mae gan y practis hwnnw feddygon teulu, uwch-ymarferwyr nyrsio, fferyllydd clinigol, grŵp cryfach o gynorthwywyr gofal iechyd a pharafeddyg. Yn fy marn i, byddai'r math hwn o fodel ymarfer cyffredinol—ond yn ymestyn, efallai, i gynnwys gweithwyr cymdeithasol ac asiantaethau sector gwirfoddol—yn sicr yn help i ymateb i rai heriau a chefnogi poblogaeth sy'n heneiddio yn well wrth i'n hanghenion dyfu'n fwy cymhleth. Gallai hefyd olygu y gall gofal sylfaenol nodi gofalwyr yn ein cymunedau a helpu i sicrhau bod rhwydwaith amlasiantaethol ar waith i ddiwallu eu hanghenion. Yn wir, mae gwerthfawrogi pob gofalwr anffurfiol, yn fy marn i, yn elfen bwysig o gynnal ein GIG a'n gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

18:29

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth imi ganlyn Gwenda Thomas, fel un o feibion maes glo'r gogledd, a gaf i ddymuno'n dda ichi yn eich cyfnod ar ôl ymddeoliad a diolch ichi am eich gwaith fel Dirprwy Weinidog hefyd?

In following Gwenda Thomas, as one of the sons of the north Wales coalfield, may I wish you well in your period after retiring from here and also thank you for your work as Deputy Minister?

A gaf i jest gyfeirio'r Gweinidog at y pryder, wrth gwrs, sydd ymysg cleifion yn y gogledd ar hyn o bryd a thrigolion y gogledd ynglŷn â'r sefyllfa? Mae'n bwysig nad ydym ni'n ychwanegu at y pryder yna, ond wrth gwrs mae yna ffigurau wedi cael eu cyhoeddi gan y pwyllgor meddygol lleol yng ngogledd Cymru yn ystod y mis diwethaf sydd yn awgrymu bod 44 y cant o feddygon gwrywaidd yn y gogledd yn mynd i gyrraedd oedran ymddeol yn ystod y pum mlynedd nesaf. Hefyd, wrth gwrs, mae yna batrwm yn y gogledd ar hyn o bryd lle mae nifer penodol o feddygon teulu yn mynd yn feddygon rhan amser. Rwyf wedi dod ar draws hynny fel pwnc, felly, yn ystod y trafodaethau rwyf wedi eu cael efo'r pwyllgor lleol hefyd. Nid oes angen inni ailadrodd rhai o'r penawdau sydd wedi ymddangos yn y gogledd, ac rwy'n meddwl, wrth inni ystyried bod yna bum meddygfa ar hyn o bryd sydd o dan rybudd gan y meddygon teulu, yn cynnwys un yn lleol iawn imi ym Mhen-y-maes yn ardal Gwersyllt, mae yna gwestiwn yn codi ynglŷn â'r maint o drafodaethau sydd wedi cymryd lle rhwng y bwrdd iechyd a'r Llywodraeth ynglŷn â'r patrwm sydd yn cael ei ganlyn ar hyn o bryd lle mae yna ddoctoriaid cyflogedig yn cael eu penodi. Rwy'n awyddus iawn i ystyried y model sydd yn cael ei awgrymu ar hyn o bryd yn ardal Rhuddlan, er enghraifft, lle mae yna nifer fawr o bobl yn cael eu cyflogi o fewn y practis yna, ac nid wyf yn hollol sicr bod y model yna yn gynaliadwy ar draws y gogledd os bydd yna fwy a mwy o feddygon yn wynebu y fath sefyllfa, achos rwy'n ymwybodol, o ran practis Pen-y-maes yn ardal Gwersyllt, fod yr un model yn cael ei ystyried, a bod yna achos busnes yn cael ei ofyn amdano fo gan y bwrdd iechyd.

If I could just refer the Minister, of course, to the concern among patients in north Wales and residents of north Wales about the situation there. It's important that we do not add to that concern, but of course figures have been published by the local medical committee in north Wales over the past month that suggest that 44 per cent of male GPs in north Wales will attain retirement age over the ensuing five years. Of course, there is also a pattern in north Wales at present where a specific number of general practitioners become part-time GPs. I've encountered that as a topic during the discussions that I've had with the local health committee. I don't need to repeat some of the headlines that have appeared in north Wales, and I think that, considering there are five surgeries at present that are under notice by the GPs, which includes one that is very local to me in Pen-y-maes in the Gwersyllt area, a question does arise as regards how much discussion has taken place between the health board and the Government regarding the pattern that is being followed at present, where employed doctors are appointed. I am willing to consider the model that is bring proposed in the Rhuddlan area at present, for example, where a large number of people are employed within that practice, and I'm not totally certain that that model is sustainable across the whole of north Wales if more and more GPs are facing the same situation, because I am aware, from the point of view of the Pen-y-maes surgery in the Gwersyllt area, that the same model is being considered, and that a business case has been requested by the health board.

Felly, a gaf i ofyn i chi yn benodol, a ydy'r cynlluniau yna yn cael eu trafod ar lefel genedlaethol, ac a ydych chi yn gyffyrddus efo'r ffaith bod bwrdd iechyd y gogledd, o ystyried bod yna orwariant ar hyn o bryd o oddeutu £20 miliwn—? A ydy'r model y maen nhw'n ei awgrymu yn gynaliadwy dros fwy na, dywedwch, bum meddygfa ar hyn o bryd? Hefyd, o ystyried beth ddywedodd Elin Jones, mae yna, wrth gwrs, bwysau mewn rhai mannau. Nid wyf yn sicr fy mod i ar hyn o bryd yn cefnogi'r awgrym yma, ond mae yna sôn am ddeoniaeth ar gyfer y gogledd, neu ysgol feddygol ym Mhrifysgol Bangor. A gaf i ofyn ichi a oes yna gamau wedi'u cymryd ar hyn o bryd gan fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr i ddatblygu cysylltiadau efo Prifysgol Lerpwl, o achos mae yna gwynion yn y pen draw nad yw myfyrwyr meddygol o'r brifysgol yng Nghaerdydd, hwyrach, mor fodlon ag y buon nhw yn y gorffennol i drafaelio i fyny i'r gogledd?

So, may I ask you specifically whether those plans are being discussed on a national level, and whether you are comfortable with the fact that the north Wales health board, considering that there is an overspend of approximately £20 million—? Is the model that they are proposing sustainable over, perhaps, more than five surgeries at present? Also, considering the words of Elin Jones, there is of course pressure in some areas. I'm not certain at present that I support this suggestion, but there is mention of having a deanery for north Wales, or a medical school at Bangor University. May I ask you whether steps have been taken by the Betsi Cadwaladr health board to develop links with the University of Liverpool, because complaints are made that medical students from Cardiff University aren't as happy, perhaps, as they were in the past to travel up to north Wales?

Felly, rwy'n meddwl ein bod ni i gyd yn derbyn bod yna sialensiau. Mae yna sialensiau o ran y gweithlu, ac fel rhywun yn y gogledd, rydym yn awyddus iawn i weld ein bod yn cymryd y cyfle. Rwy'n meddwl bod yna gyfle o ran y gwasanaeth iechyd yma yng Nghymru ar hyn o bryd, lle mae yna gymaint o bwysau o ran Jeremy Hunt yn Lloegr, lle, os ydym ni yn creu modelau cynaliadwy ar gyfer ein gwlad, mae yna siawns inni ddenu meddygon dros y ffin, a hefyd, wrth gwrs, sicrhau bod gennym gysylltiadau sydd yn parhau efo Ewrop, er mwyn inni weld y doctoriaid a'r staff eraill o Ewrop sydd yn dod draw i ogledd Cymru ar hyn o bryd, ac er mwyn inni wneud yn sicr bod gennym ni wasanaeth o'r radd flaenaf i'r rhanbarth ar gyfer y dyfodol.

So, I think we all accept that there are great challenges. There are challenges from the point of view of the workforce, and as a resident of north Wales I believe that we are very keen to take the opportunity. I think there's an opportunity from the point of view of the health service here in Wales, where there's pressure from Jeremy Hunt in England, that if we create sustainable models for our country, there is an opportunity for us to attract doctors from across the border, and also ensure that we have links continuing with Europe in order to see doctors and other medical staff coming over to north Wales at present, and ensure that we have a first-rate service for the region in the future.

18:34 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very pleased to take part in this important debate on the future of primary care in Wales. I think that there are many very good points that have already been made in this debate, but one thing that we haven't touched on is out-of-hours services, which of course are an important feature of the landscape of primary care services here in Wales, and which are operating very well in some parts of the country, but not so well in others. I know that one of the problems that my own constituents often encounter in the north is that many of the shifts on the GP out-of-hours rotas in north Wales are not always actually filled by a GP, which means that my constituents are not always getting the level of service that they ought to. That is a significant concern, particularly when there are pressures already on emergency departments and in other parts of the unscheduled care system. I think that if we can relieve that pressure by investing a little bit more in our primary care services in order to bolster them, then that's something I certainly would be an advocate of.

Rwy'n falch iawn o gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon ar ddyfodol gofal sylfaenol yng Nghymru. Rwy'n meddwl bod llawer o bwyntiau da iawn wedi cael eu gwneud yn y ddadl hon eisoes, ond un peth nad ydym wedi'i grybwyll yw gwasanaethau y tu allan i oriau, sydd wrth gwrs yn nodwedd bwysig o dirwedd gwasanaethau gofal sylfaenol yma yng Nghymru, ac sy'n gweithredu'n dda iawn mewn rhai rhannau o'r wlad, ond heb fod mor dda mewn rhannau eraill. Rwy'n gwybod mai un o'r problemau y mae fy etholwyr yn aml yn eu hwynebu yng ngogledd Cymru yw nad yw nifer o'r sifftiau ar y rotâu meddygon teulu y tu allan i oriau bob amser yn cael eu llenwi gan feddyg teulu mewn gwirionedd, sy'n golygu nad yw fy etholwyr bob amser yn cael y lefel o wasanaeth y dylent ei chael. Mae hynny'n peri pryder sylweddol, yn enwedig pan fo pwysau eisoes ar adrannau achosion brys ac mewn rhannau eraill o'r system gofal heb ei drefnu. Os gallwn leddfu'r pwysau hwnnw drwy fuddsoddi ychydig mwy yn ein gwasanaethau gofal sylfaenol er mwyn eu cryfhau, rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth y byddwn yn sicr yn ei gefnogi.

Another thing that hasn't been touched upon, of course, is the importance of a high-quality primary care estate. There's been lots of talk about the need to diversify the workforce and make sure that there's access to, perhaps, diagnostic tests more regularly in the primary care system, and access to therapists, whether they be talking therapists, physiotherapists, occupational therapists or, indeed, some of the other allied health professionals, such as community nurses et cetera. But there hasn't been a discussion on the needs of the primary care estate in order to accommodate that, and we know that very often in many communities across Wales, there are communities that are served by premises that are, frankly, not fit for purpose for a twenty-first century health service. And whilst there's been some very welcome investment over the years in some parts of Wales, that has not extended to every community. You know, it's very much the luck of the draw, really, for many people as to whether they've got a facility that suits the purpose of a modern primary care system. I've been very fortunate over the past few years: there's been investment in a brand new health centre—the Gwrych Medical Centre in Abergele, which has been a phenomenal success. You can always tell when something works because it's very rare that I ever receive a concern or a complaint from any member of the public in relation to the services that are provided by that centre, and that's in stark contrast to some of the other unsuitable practices there are in north Wales, where they just don't have the facilities to be able to accommodate all of the people in the workforce that they want to be able to.

Peth arall sydd heb ei grybwyll, wrth gwrs, yw pwysigrwydd ystad gofal sylfaenol o safon uchel. Bu llawer o siarad am yr angen i amrywio'r gweithlu a gwneud yn siŵr fod yna fynediad, o bosibl, at brofion diagnostig mwy rheolaidd yn y system gofal sylfaenol, a mynediad at therapyddion, boed yn therapyddion siarad, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol neu rai o'r gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd, yn wir, megis nyrsys cymunedol ac yn y blaen. Ond ni chafwyd trafodaeth ar anghenion yr ystad gofal sylfaenol er mwyn ystyried hynny, ac rydym yn gwybod bod gwasanaethau yn aml yn cael eu darparu i nifer o gymunedau ledled Cymru ar safleoedd nad ydynt yn addas at y diben mewn gwasanaeth iechyd yn yr unfed ganrif ar hugain. Ac er bod rhai buddsoddiadau wedi cael croeso mawr dros y blynyddoedd mewn rhai rhannau o Gymru, nid yw hynny wedi'i ymestyn i bob cymuned. Wyddoch chi, mater o lwc yw hi i lawer o bobl, mewn gwirionedd, pa un a oes ganddynt gyfleuster sy'n addas ar gyfer system gofal sylfaenol fodern. Rwyf wedi bod yn ffodus iawn dros y blynyddoedd diwethaf: buddsoddwyd mewn canolfan iechyd newydd sbon—Canolfan Feddygol Gwrych yn Abergele, sydd wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Gallwch ddweud bob amser pan fydd rhywbeth yn gweithio gan mai anaml y byddaf yn derbyn pryder neu gŵyn gan unrhyw aelod o'r cyhoedd mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir gan y ganolfan honno, ac mae hynny'n dra gwahanol i rai o'r practisau anaddas eraill a geir yng ngogledd Cymru lle nad oes ganddynt gyfleusterau i roi lle i bob un o'r bobl yn y gweithlu fel y byddent yn dymuno ei wneud.

There's also investment under way, of course, in Colwyn Bay, in my constituency, in a brand-new facility for that town—again, very welcome indeed. I'm looking forward to that coming on-stream later this year, as are my constituents.

Mae buddsoddiadau ar y gweill hefyd, wrth gwrs, ym Mae Colwyn, yn fy etholaeth, mewn cyfleuster newydd sbon ar gyfer y dref honno—unwaith eto, buddsoddiad i'w groesawu'n fawr yn wir. Rwy'n edrych ymlaen at weld hynny'n dod yn weithredol yn ddiweddarach eleni, fel y mae fy etholwyr.

I think also we mustn't underestimate the ability of the primary care workforce to take on more responsibilities that are currently traditionally delivered in secondary care. I know that there's been some innovation through the use of GPs in the delivery of minor injuries services in some parts of Wales, and I think that that's something that perhaps could be regularised more through the GP cluster networks that now exist across the country, because I really do think that they give an opportunity to enhance some of those services—. I'll happily take an intervention.

Rwy'n credu hefyd na ddylid tanbrisio gallu'r gweithlu gofal sylfaenol i ysgwyddo rhagor o'r cyfrifoldebau a ddarperir yn draddodiadol ar hyn o bryd mewn gofal eilaidd. Gwn fod rhywfaint o arloesi wedi bod drwy ddefnyddio meddygon teulu i ddarparu gwasanaethau mân anafiadau mewn rhai rhannau o Gymru, a chredaf fod hynny'n rhywbeth y gellid ei wneud yn fwy cyson o bosibl drwy rwydweithiau clwstwr meddygon teulu sy'n bodoli erbyn hyn ar draws y wlad, oherwydd rwy'n meddwl o ddifrif eu bod yn rhoi cyfle i wella rhai o'r gwasanaethau hynny—. Rwy'n hapus i dderbyn ymyriad.

18:37

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The GP clusters are a very important step forward, but would you agree with me, Darren, that for them to be a success they really do need for their local health boards to engage with them properly and recognise their important role? Where that happens, services are developing all of the time, but where those clusters don't feel they have a good relationship and are not being listened to by the LHBs, that's when we're not realising their potential.

Mae'r clystyrau meddygon teulu yn gam pwysig iawn ymlaen, ond a fyddech yn cytuno, Darren, er mwyn iddynt lwyddo, mae gwir angen i'w byrddau iechyd lleol ymgysylltu'n briodol â hwy a chydnabod eu rôl bwysig? Lle y bo hynny'n digwydd, mae gwasanaethau'n datblygu drwy'r amser, ond lle nad yw clystyrau'n teimlo bod ganddynt berthynas dda a lle nad yw'r Byrddau Iechyd Lleol yn gwrando arnynt, dyna pryd nas gwireddir eu potensial.

18:38 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely there needs to be positive engagement, and one of the problems in north Wales over the past couple of years—and I think this has been one of the reasons it's been difficult to recruit—is because there's been a perceived lack of co-ordination and communication between the health board and local GPs. That has just soured the relationship, frankly, and made it very difficult to recruit into certain parts of the region.

Yn hollol, mae angen ymgysylltu cadarnhaol, ac un o'r problemau yng ngogledd Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf—ac rwy'n credu mai dyma un o'r rhesymau pam y mae wedi bod yn anodd recriwtio—yw'r canfyddiad o ddiffyg cydgysylltu a chyfathrebu rhwng y bwrdd iechyd a meddygon teulu lleol. Mae hynny wedi suro'r berthynas, a dweud y gwir, ac fe'i gwnaeth yn anodd iawn recriwtio i rai rhannau o'r rhanbarth.

So, I think, you know, bearing in mind the primary care estate and the need to invest in that estate, I would ask you, Minister, in your response, whether you can talk about what you're doing to make sure we've got an adequate estate, and what you're doing to ensure that out-of-hours services are consistent across the country, and that we don't have these gaps on rotas that currently exist.

Felly, rwy'n meddwl, wyddoch chi, gan gadw mewn cof yr ystad gofal sylfaenol a'r angen i fuddsoddi yn yr ystad honno, byddwn yn gofyn i chi, Weinidog, yn eich ymateb, a allwch siarad am yr hyn rydych yn ei wneud i sicrhau bod gennym ystad ddigonol, a beth rydych yn ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau y tu allan i oriau yn gyson ar draws y wlad, ac nad oes gennym fylchau yn y rotâu fel ar hyn o bryd.

18:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And I call the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.

A galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.

18:39 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. I'm very glad to have the chance to discuss primary care here on the floor of the Assembly on this, the last day of this Assembly term, because to quote the recent Organisation for Economic Co-operation and Development report, the Government's ambition in Wales is to put primary care front and centre as a force for dynamic system change. It is the bedrock, as Kirsty Williams said in opening the debate, of our NHS. Gwenda Thomas reminded us that 90 per cent of all contacts with the health service happen in primary care. Kirsty referred to thousands of appointments. Actually, probably 19 million appointments happened in primary care in Wales last year, not including any appointments for anybody under the age of 16, and not including all those appointments that happen with practice nurses and other primary care staff. It genuinely is something that operates on an industrial scale.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o gael y cyfle i drafod gofal sylfaenol yma ar lawr y Cynulliad ar ddiwrnod olaf y tymor Cynulliad hwn, oherwydd, a dyfynnu adroddiad diweddar y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, uchelgais y Llywodraeth yng Nghymru yw rhoi gofal sylfaenol yn y canol ac yn y blaen fel grym ar gyfer newid y system yn ddynamig. Dyma sylfaen ein GIG, fel y dywedodd Kirsty Williams wrth agor y ddadl. Cawsom ein hatgoffa gan Gwenda Thomas fod 90 y cant o'r holl gysylltiadau â'r gwasanaeth iechyd yn digwydd mewn gofal sylfaenol. Cyfeiriodd Kirsty at filoedd o apwyntiadau. A dweud y gwir, yn ôl pob tebyg cafwyd 19 miliwn o apwyntiadau mewn gofal sylfaenol yng Nghymru y llynedd, heb gynnwys unrhyw apwyntiadau i neb o dan 16 oed, a heb gynnwys yr holl apwyntiadau sy'n digwydd gyda nyrsys practis ac aelodau eraill o staff gofal sylfaenol. Mae'n rhywbeth sy'n gweithredu ar raddfa ddiwydiannol go iawn.

I think the last two years have been a very important period for the development of a distinctive primary care agenda here in Wales. We now have the first ever national primary care plan, a workforce strategy launched at the Amman Tawe practice, and to sit alongside it are a powerful emerging set of 64 primary care clusters across Wales, which do indeed need to mature into proper, respectful relationships with their local health boards right across Wales, and a prudent healthcare action plan, which provides the overarching context in which the primary care of the future is to be shaped.

Rwy'n meddwl bod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn gyfnod pwysig iawn ar gyfer datblygu agenda gofal sylfaenol unigryw yma yng Nghymru. Erbyn hyn mae gennym y cynllun gofal sylfaenol cenedlaethol cyntaf erioed; strategaeth ar gyfer y gweithlu a lansiwyd ym meddygfa Aman Tawe; ac i gyd-fynd â hynny, ceir cyfres bwerus o 64 o glystyrau gofal sylfaenol yn ymddangos ledled Cymru, ac yn wir, mae angen i'r berthynas rhwng y rhain a'u byrddau iechyd lleol ledled Cymru aeddfedu'n briodol a pharchus; a chynllun gweithredu gofal iechyd darbodus, sy'n darparu'r cyd-destun cyffredinol y dylid llunio gofal sylfaenol o'i fewn ar gyfer y dyfodol.

The Government side this afternoon will support the Liberal Democrats' motion and the Plaid Cymru amendment, not because we agree with every dot and comma in them, but because their general thrust and constructive intent are part of a really important effort to create consensus around this essential agenda.

Bydd ochr y Llywodraeth y prynhawn yma yn cefnogi cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol a gwelliant Plaid Cymru, nid oherwydd ein bod yn cytuno â phob dot a choma ynddynt, ond oherwydd bod eu byrdwn cyffredinol a'u bwriad adeiladol yn rhan o ymdrech wirioneddol bwysig i greu consensws ar yr agenda hanfodol hon.

We've heard a lot about challenges and those challenges are real, but neither are they unique to Wales nor to this particular point in time. Recruiting staff from outside the United Kingdom has always been part of the NHS, made more difficult during the last five years by existing policies of a Westminster Government and threatened, as Bill Powell said, in an entirely new way by those who campaign to take our nation out of the European Union.

Rydym wedi clywed llawer am heriau ac mae'r heriau hynny'n real, ond nid ydynt yn unigryw i Gymru na'r pwynt penodol hwn mewn amser. Mae recriwtio staff o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig wedi bod yn rhan o'r GIG bob amser, ac fe'i gwnaed yn fwy anodd yn ystod y pum mlynedd diwethaf gan bolisïau presennol Llywodraeth San Steffan ac fel y dywedodd Bill Powell, mae hynny wedi cael ei fygwth mewn ffordd hollol newydd gan y rhai sy'n ymgyrchu i dynnu ein gwlad allan o'r Undeb Ewropeaidd.

Twenty-three per cent of our GP workforce in Wales is aged 55 or over; 22 per cent of the same workforce is over 55 in England. Our GP coverage is somewhere between 6.5 and 6.6 GPs for every 10,000 in the population, which is identical to the coverage in England. It's not quite as high as that in Scotland, but while there are things to learn from the Scottish experience, it's also true that the rate of direct management of practices by the Scottish health service is almost twice the rate of direct management practices here in Wales.

Mae 23 y cant o'n gweithlu meddygon teulu yng Nghymru yn 55 oed neu'n hŷn; mae 22 y cant o'r un gweithlu dros 55 oed yn Lloegr. Mae gennym rywle rhwng 6.5 a 6.6 o feddygon teulu i bob 10,000 o'r boblogaeth, sy'n union yr un fath â'r ddarpariaeth yn Lloegr. Mae ychydig yn is na hynny yn yr Alban, ond er bod pethau i'w dysgu o brofiad yr Alban, mae hefyd yn wir fod cyfradd y practisau a reolir yn uniongyrchol gan y gwasanaeth iechyd yn yr Alban bron ddwywaith y gyfradd o bractisau a reolir yn uniongyrchol yma yng Nghymru.

We know that we have to work closely with those GPs working in Wales already to make the most of their skills and their commitment. That's why we've already taken action to retain the GPs that we have and to support returners: supporting those who wish to work part-time to do so; offering new ways to make a contribution through specialisation or mentoring the new generation of GPs; talking to doctors in advance of retirement about those opportunities; action on the GP performers' list; a streamlined application process and a new legislative framework from 1 March—all making it easier for GPs, based in other UK countries, to work here in Wales.

Rydym yn gwybod bod yn rhaid i ni weithio'n agos gyda'r meddygon teulu sy'n gweithio yng Nghymru eisoes i wneud y gorau o'u sgiliau a'u hymrwymiad. Dyna pam rydym eisoes wedi rhoi camau ar waith i gadw'r meddygon teulu sydd gennym ac i gynorthwyo rhai sy'n dychwelyd: cynorthwyo'r rhai sy'n dymuno gweithio'n rhan-amser i wneud hynny; cynnig ffyrdd newydd o wneud cyfraniad drwy arbenigo neu fentora'r genhedlaeth newydd o feddygon teulu; siarad â meddygon cyn iddynt ymddeol am y cyfleoedd hynny; gweithredu ar restr cyflawnwyr meddygon teulu; proses ymgeisio symlach a fframwaith deddfwriaethol newydd o 1 Mawrth—mae hyn i gyd yn ei gwneud yn haws i feddygon teulu sy'n gweithio yng ngwledydd eraill y DU weithio yma yng Nghymru.

At the same time, we have to create and recruit a new generation of GPs. We are working closely with our medical training courses in Swansea and Cardiff to widen access to medicine to students from all parts of Wales. Answering the point that was made about rotations and rotas, I'm absolutely clear with the deanery here in Wales that students in north Wales can rotate into the north-west of Wales, if that makes the training package more attractive to them and allows them to spend part of their time here with us in Wales.

Ar yr un pryd, mae'n rhaid i ni greu a recriwtio cenhedlaeth newydd o feddygon teulu. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n cyrsiau hyfforddiant meddygol yn Abertawe a Chaerdydd i ehangu mynediad i feddyginiaeth i fyfyrwyr o bob rhan o Gymru. I ateb y pwynt a wnaed am gylchdroi a rotâu, rwy'n gwbl glir gyda'r ddeoniaeth yma yng Nghymru y gall myfyrwyr yng ngogledd Cymru gylchdroi i mewn i ogledd-orllewin Cymru, os yw hynny'n gwneud y pecyn hyfforddiant yn fwy deniadol iddynt ac yn eu galluogi i dreulio rhan o'u hamser yma gyda ni yng Nghymru.

We want to persuade more medical students to become GPs. We want to persuade more GPs to make their careers here in Wales. Whether you're an existing GP or a new GP, we've taken radical actions to reduce the level of routine administration required of our general practitioner workforce.

Rydym yn awyddus i berswadio mwy o fyfyrwyr meddygol i fod yn feddygon teulu. Rydym yn awyddus i berswadio mwy o feddygon teulu i ddilyn gyrfa yma yng Nghymru. Pa un a ydych yn feddyg teulu ar hyn o bryd neu'n feddyg teulu newydd, rydym wedi rhoi camau radical ar waith i leihau lefel y gwaith gweinyddol arferol y mae'n ofynnol i'n gweithlu meddyg teulu ei wneud.

Changes to the quality outcomes framework mean that since 2014-15, 40 per cent of the total QOF points have been removed from recording bureaucratic outcomes and have been invested instead in the three-year cluster development programme—a programme that is unique to Wales and has a strong focus on strengthening GP-led multidisciplinary team working and strengthening collaborative working with both community and social services.

Mae newidiadau i'r fframwaith canlyniadau ansawdd yn golygu ers 2014-15, fod 40 y cant o gyfanswm y pwyntiau Fframwaith Canlyniadau Ansawdd wedi cael eu tynnu o gofnodi canlyniadau biwrocrataidd a'u buddsoddi yn lle hynny yn y rhaglen datblygu clwstwr tair blynedd o hyd—rhaglen sy'n unigryw i Gymru gyda ffocws cryf ar gryfhau gwaith tîm amlddisgyblaethol dan arweiniad meddygon teulu a chryfhau cydweithio gyda'r gymuned a gwasanaethau cymdeithasol.

Dirprwy Lywydd, in the few minutes I've got left, I want to focus on the emerging future of primary care here in Wales—a future that has general practitioners at its centre, but that relies as well on making full use of the wider contributions to be gathered from other clinical professionals in multidisciplinary primary care teams. In this financial year, £6 million has been made directly available to our primary care clusters. Not a fund, but direct funding. I intend to extend that fund again into the next financial year.

Ddirprwy Lywydd, yn yr ychydig funudau sydd gennyf yn weddill, rwyf am ganolbwyntio ar ddyfodol gofal sylfaenol sy'n dod i'r amlwg yma yng Nghymru— dyfodol sy'n rhoi meddygon teulu yn y canol, ond sy'n dibynnu hefyd ar wneud defnydd llawn o'r cyfraniadau ehangach sydd i'w cael gan weithwyr proffesiynol clinigol eraill mewn timau gofal sylfaenol amlddisgyblaethol. Yn y flwyddyn ariannol hon, mae £6 miliwn wedi'i ddarparu'n uniongyrchol i'n clystyrau gofal sylfaenol. Nid cronfa ydyw, ond cyllid uniongyrchol. Rwy'n bwriadu ymestyn y cyllid hwnnw eto yn y flwyddyn ariannol nesaf.

It's been hugely encouraging to see the imagination and creativity with which clusters have used that money to recruit new individuals to new roles that provide services directly to patients: the outstanding GP programme at BCU—five GPs have been employed using that money, all appointed and all in post since January of this year; the respiratory physiotherapists employed in Aneurin Bevan health board; the clinical pharmacists now employed right across Wales; the 20 extra primary care nurses and 40 extra healthcare support workers in Aneurin Bevan; the physician associates in Powys. I entirely agree that, in parts of rural Wales, we have some of the most innovative and creative primary care to be found anywhere in the United Kingdom and the mid Wales collaborative is a very important part of making sure that we gather that learning and show how being a rural practitioner has huge advantages to someone wanting to practice in that sort of location. And not simply those examples, but the OTs, the social workers, the third sector services, the advanced practice paramedics, and all the other people who we've managed to recruit into primary care in Wales.

Mae wedi bod yn galonogol iawn gweld y modd dychmygus a chreadigol y mae clystyrau wedi defnyddio'r arian hwnnw i recriwtio unigolion newydd i rolau newydd sy'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i gleifion: y rhaglen meddygon teulu ragorol ym mwrdd iechyd prifysgol Betsi Cadwaladr—cyflogwyd pum meddyg teulu gan ddefnyddio'r arian hwnnw, pob un wedi'i benodi a phob un yn ei swydd ers mis Ionawr eleni; y ffisiotherapyddion resbiradol a gyflogir ym mwrdd iechyd Aneurin Bevan; y fferyllwyr clinigol a gyflogir bellach ledled Cymru; yr 20 o nyrsys gofal sylfaenol ychwanegol a'r 40 o weithwyr cymorth gofal iechyd ychwanegol yn Aneurin Bevan; y meddygon cyswllt ym Mhowys. Cytunaf yn llwyr fod gennym, mewn rhannau o gefn gwlad Cymru, beth o'r gofal sylfaenol mwyaf arloesol a chreadigol a geir yn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig ac mae menter gydweithredol canolbarth Cymru yn rhan bwysig iawn o wneud yn siŵr ein bod yn cywain y dysgu ac yn dangos sut y ceir manteision mawr i fod yn ymarferydd gwledig i rywun sydd eisiau ymarfer yn y math hwnnw o leoliad. Ac nid yr enghreifftiau hynny'n unig, ond y Therapyddion Galwedigaethol, y gweithwyr cymdeithasol, gwasanaethau trydydd sector, yr uwch-ymarferwyr parafeddygol, a'r holl bobl eraill rydym wedi llwyddo i'w recriwtio i ofal sylfaenol yng Nghymru.

Dirprwy Lywydd, the elements in this motion and its amendment are part of the picture, but not the whole picture. We have to go on investing in primary care facilities: in Colwyn Bay, in Flint, in Blaenau Ffestiniog, in Llangollen, to take just the examples from north Wales; in Buckley in Carl Sargeant's constituency, enormous investment; in Caia Park as well—right across north Wales and right across Wales. When we put all the pieces together, then we can see a successful and sustainable future for our GPs, our practice nurses and all who work alongside them in primary care in Wales.

Ddirprwy Lywydd, mae'r elfennau yn y cynnig hwn a'i welliant yn rhan o'r darlun, ond nid dyna'r darlun cyfan. Mae'n rhaid i ni barhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau gofal sylfaenol: ym Mae Colwyn, yn y Fflint, ym Mlaenau Ffestiniog, yn Llangollen, i sôn yn unig am yr enghreifftiau yng ngogledd Cymru; buddsoddiad enfawr ym Mwcle yn etholaeth Carl Sargeant; ym Mharc Caia yn ogystal—yr holl ffordd ar draws Gogledd Cymru ac ar draws Cymru. Pan fyddwn yn rhoi'r holl ddarnau at ei gilydd, gallwn weld dyfodol llwyddiannus a chynaliadwy i'n meddygon teulu, ein nyrsys practis a phawb sy'n gweithio ochr yn ochr â hwy mewn gofal sylfaenol yng Nghymru.

18:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Eluned Parrott to reply to the debate.

Galwaf ar Eluned Parrott i ymateb i'r ddadl.

18:47

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. It's a privilege to close the last opposition debate of this Assembly term. I'd like to thank everyone who has contributed today.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'n fraint i gau dadl yr wrthblaid am y tro olaf yn ystod y tymor Cynulliad hwn. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu heddiw.

Health has been a key subject for debate in this fourth Assembly and it is no surprise. It's the one public service we feel most emotionally attached to as a society. It's the one we feel is most uniquely British—dare I say 'Welsh', given its heritage? It's a system that we are immensely proud of and rightly so. It's compassion in action. Words can't do justice to the dedication and the skill of the staff and I think we should be always mindful of that as we head into an election where health is likely to be a central issue.

Mae iechyd wedi bod yn bwnc dadl allweddol yn y Pedwerydd Cynulliad ac nid yw'n syndod. Dyma'r un gwasanaeth cyhoeddus rydym yn teimlo ynghlwm wrtho fwyaf yn emosiynol fel cymdeithas. Dyma'r un rydym yn teimlo ei fod yn fwyaf unigryw Brydeinig—a feiddiaf i ddweud 'Cymreig', o ystyried ei hanes? Mae'n system rydym yn falch aruthrol ohoni a hynny'n briodol. Dyma dosturi ar waith. Ni all geiriau wneud cyfiawnder ag ymroddiad a medr y staff ac rwy'n meddwl y dylem bob amser gofio hynny wrth i ni anelu tuag at etholiad lle y mae iechyd yn debygol o fod yn fater canolog.

But we have to recognise that the reason that health is so contentious politically is that the system is under extreme and increasing pressure. With the improvements in health care that have given us longer life spans, which we should all rejoice in of course, comes the challenge of caring for an ageing population and the resource implications that has. There are difficult questions to face now and in the future.

Ond mae'n rhaid i ni gydnabod mai'r rheswm pam y mae iechyd yn bwnc mor gynhennus yn wleidyddol yw bod y system o dan bwysau eithafol a chynyddol. Gyda'r gwelliannau mewn gofal iechyd sydd wedi rhoi bywydau hirach i ni, a dylem i gyd lawenhau yn hynny wrth gwrs, daw'r her o ofalu am boblogaeth sy'n heneiddio a goblygiadau hynny o ran adnoddau. Mae yna gwestiynau anodd i'w hwynebu yn awr ac yn y dyfodol.

That was why my party wanted to bring forward a cross-party and non-party commission on healthcare in Wales, to help us come to some agreed shared principles for the future. I hope that that opportunity will be taken up in the future and won't be lost for ever. Our motion today though focuses on primary care, where that pressure on services is being felt very keenly. In opening, Kirsty Williams set out the reasons why we feel a number of actions are necessary to help dissipate the intense pressure we are seeing in primary care.

Dyna pam roedd fy mhlaid yn awyddus i gyflwyno comisiwn trawsbleidiol a di-blaid ar ofal iechyd yng Nghymru, i'n helpu i gytuno ar egwyddorion cyffredin ar gyfer y dyfodol. Gobeithiaf y manteisir ar y cyfle hwnnw yn y dyfodol ac na chaiff ei golli am byth. Ond mae ein cynnig heddiw yn canolbwyntio ar ofal sylfaenol, lle y mae'r pwysau ar wasanaethau i'w deimlo'n enbyd. Wrth agor, nododd Kirsty Williams y rhesymau pam rydym yn teimlo bod angen nifer o gamau gweithredu i helpu i leddfu'r pwysau dwys a welwn mewn gofal sylfaenol.

A crucial aspect of this, I think, is a properly funded, access to GPs scheme to help patients get timely help. It's an issue the length and breadth of Wales, in rural communities and in the inner cities too. It's something that people are deeply, deeply concerned about. No, not every patient does need to see a GP. We have also called for improvements to the information for patients to make sure that a greater proportion of them are choosing well.

Un agwedd hanfodol ar hyn, rwy'n meddwl, yw cynllun mynediad at feddygon teulu wedi'i gyllido'n briodol i helpu cleifion i gael cymorth amserol. Mae'n broblem ar hyd a lled Cymru, mewn cymunedau gwledig ac yng nghanol dinasoedd hefyd. Mae'n rhywbeth y mae pobl yn pryderu'n arw iawn yn ei gylch. Na, nid oes angen i bob claf weld meddyg teulu. Rydym hefyd wedi galw am welliannau i'r wybodaeth i gleifion er mwyn gwneud yn siŵr fod cyfran fwy ohonynt yn dewis yn dda.

For example, the NHS Direct phone line could help signpost people effectively, but I was surprised that this helpline is not free at the point of service. In fact, there is a service charge on top of your network rate to access it and it isn't unusual for patients to have to wait 15 minutes or more for that call to be answered, let alone dealt with. The quality of advice it provides also needs to be assessed, not only in terms of safety, which is of course the most important issue, but also in terms of the effectiveness of the signposting. I have had constituents telling me that they have phoned for first aid advice for children's bumps and grazes and been told to take them to the A&E department, only to be told off by the triage nurse in A&E for having done so. These are things that need to be looked at and assessed in an honest and realistic way, to make sure that those signposting services are providing what we need from them.

Er enghraifft, gallai'r llinell ffôn Galw Iechyd Cymru helpu i gyfeirio pobl yn effeithiol, ond roeddwn yn synnu nad yw'r llinell gymorth hon yn wasanaeth rhad ac am ddim. Yn wir, ceir tâl gwasanaeth ar ben y gyfradd a godir gan eich rhwydwaith i gysylltu, ac nid yw'n anarferol i gleifion orfod aros 15 munud neu fwy i'w galwad gael ei hateb, heb sôn am ddatrys y mater y mae'r sawl sy'n ffonio yn holi yn ei gylch. Mae angen asesu ansawdd y cyngor y mae'n ei ddarparu hefyd, nid yn unig o safbwynt diogelwch, sef y mater pwysicaf, wrth gwrs, ond hefyd o ran effeithiolrwydd y modd y mae'n cyfeirio'r sawl sy'n gwneud yr alwad. Rwyf wedi cael etholwyr yn dweud wrthyf eu bod wedi ffonio am gyngor cymorth cyntaf ar gyfer ergydion a chrafiadau plant a chael cyfarwyddyd i fynd â hwy i'r adran damweiniau ac achosion brys, a chael cerydd gan y nyrs brysbennu yn yr adran damweiniau ac achosion brys am wneud hynny. Mae'r rhain yn bethau y mae angen eu hystyried a'u hasesu mewn ffordd onest a realistig, er mwyn gwneud yn siŵr fod y rhai sy'n cyfeirio at wasanaethau yn darparu'r hyn rydym ei angen ganddynt.

Another area that Kirsty Williams discussed was making sure we are prepared for future workforce needs. In that regard, we will support the Plaid Cymru amendment today on training, and I do thank Elin Jones for her contribution and her support. Elin spoke of an ambition to recruit more doctors to Wales, and I think that we would all agree with that ambition and would like to see it happen. But, boosting capacity in our higher education sector to make that happen isn't going to happen overnight. I used to recruit students to Cardiff University, to those very courses, for a living. Yes, I could fill the places, perhaps five times over, with well-qualified, enthusiastic, diligent people, who would make wonderful doctors at some point in the future. But that doesn't mean to say that I could fit them into the existing buildings to actually get their training. We have to think long term about the investment in that HE capacity. Scotland, which was mentioned, has five medical schools—well-established medical schools—in long-standing universities. We actually have only one university offering the A100 full medical degree. We have to be realistic that it takes time and it takes investment to develop the skills and the necessary capacity to boost the Swansea University Medical School to the status where it can offer the A100 degree, as well as BSc courses and graduate entry, but also to think about other options too. Creating a new medical school in Wales is a difficult and expensive thing. That's not to say it is not a journey we should go down, but it is something that we need to consider very carefully.

Maes arall a drafododd Kirsty Williams oedd gwneud yn siŵr ein bod yn barod ar gyfer anghenion y gweithlu yn y dyfodol. Yn hynny o beth, byddwn yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru heddiw ar hyfforddiant, a diolch i Elin Jones am ei chyfraniad a'i chefnogaeth. Siaradodd Elin am uchelgais i recriwtio mwy o feddygon i Gymru, ac rwy'n meddwl y byddem i gyd yn cytuno â'r uchelgais hwnnw a hoffem ei weld yn digwydd. Ond nid yw hybu capasiti yn ein sector addysg uwch i wneud i hynny ddigwydd yn mynd i ddigwydd dros nos. Roeddwn i'n arfer recriwtio myfyrwyr i Brifysgol Caerdydd, i'r union gyrsiau hynny, fel bywoliaeth. Gallwn lenwi'r llefydd, bum gwaith drosodd efallai, â phobl frwdfrydig, ddiwyd gyda chymwysterau da a fyddai'n gwneud meddygon gwych ar ryw adeg yn y dyfodol. Ond nid yw hynny'n golygu y gallwn wneud lle iddynt yn yr adeiladau a oedd ar gael iddynt gael eu hyfforddiant mewn gwirionedd. Mae'n rhaid i ni feddwl yn hirdymor am y buddsoddiad yn y capasiti addysg uwch. Mae gan yr Alban, sydd wedi'i chrybwyll, bum ysgol feddygol—ysgolion meddygol sydd wedi hen sefydlu—mewn prifysgolion hirsefydlog. Un brifysgol yn unig sydd gennym mewn gwirionedd sy'n cynnig gradd feddygol lawn A100. Mae'n rhaid i ni fod yn realistig ei bod yn cymryd amser ac mae'n galw am fuddsoddiad i ddatblygu'r sgiliau a'r capasiti angenrheidiol i hybu statws Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe fel y gall gynnig gradd A100, yn ogystal â chyrsiau BSc a mynediad i raddedigion, ond hefyd i feddwl am opsiynau eraill hefyd. Mae creu ysgol feddygol newydd yng Nghymru yn beth anodd a drud i'w wneud. Nid yw hynny'n dweud nad yw'n daith y dylem ei theithio, ond mae'n rhywbeth sydd angen i ni ei ystyried yn ofalus iawn.

But there is also a real need, I would say, for additional training for healthcare professionals already in practice, particularly in the field of mental health. If we are serious about wanting to see a nation where people with mental ill health are treated with true equality, we need to invest in training, not only to inform, but also to challenge attitudes. We should never—never—hear of patients being told that their distress is merely attention seeking, or have their pain dismissed as a cry for help. Sadly, it still does happen in our health service today. We recognise, of course, that progress is being made, but we would very much welcome more training being delivered for those who are at the coalface on a daily basis.

Ond mae yna angen go iawn hefyd, fe ddywedwn i, am hyfforddiant ychwanegol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd eisoes yn ymarfer, yn enwedig ym maes iechyd meddwl. Os ydym o ddifrif am weld cenedl lle y mae pobl sydd â salwch meddwl yn cael eu trin â gwir gydraddoldeb, mae angen i ni fuddsoddi mewn hyfforddiant, nid yn unig i addysgu, ond hefyd i herio agweddau. Ni ddylem byth—byth—glywed am bobl yn dweud wrth gleifion mai ymgais i gael sylw yn unig yw eu gofid, neu'n diystyru eu poen fel cri am gymorth. Yn anffodus, mae'n dal i ddigwydd yn ein gwasanaeth iechyd heddiw. Rydym yn cydnabod, wrth gwrs, fod cynnydd yn cael ei wneud, ond byddem yn falch iawn o weld mwy o hyfforddiant i'r rhai sydd ar y rheng flaen o ddydd i ddydd.

William Powell, in his contribution, talked about rural challenges, but also the benefits of some of the rural practices and the working arrangements that they have come to, to work in partnership and offer, by virtue of necessity, a holistic family practice solution. He also talked about how an EU exit could precipitate a crisis in our workforce. Gwenda Thomas paid tribute to the staff and the volunteers, and to how all of the services worked together to provide a healthcare service for the future. Perhaps, in return, I can pay tribute to you, Gwenda. You are a clever and gifted politician who is underestimated at our peril—so genuine and caring that disagreeing with you is almost as unthinkable as insulting your own grandmother. I have to say that you will be very much missed from this Chamber.

Yn ei gyfraniad, siaradodd William Powell am heriau gwledig, ond hefyd am fanteision rhai o'r practisau gwledig a'r trefniadau gweithio a luniwyd ganddynt er mwyn gweithio mewn partneriaeth a chynnig, o anghenraid, ateb ar ffurf practis teuluol holistaidd. Soniodd hefyd sut y gallai gadael yr UE arwain at argyfwng yn ein gweithlu. Rhoddodd Gwenda Thomas deyrnged i'r staff a'r gwirfoddolwyr, ac i'r modd y mae pob un o'r gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaeth gofal iechyd ar gyfer y dyfodol. Efallai, yn gyfnewid, y caf dalu teyrnged i chi, Gwenda. Rydych yn wleidydd clyfar a dawnus, a wiw i ni synied yn rhy isel am hynny—mor ddiffuant a gofalgar fel y byddai anghytuno â chi bron cymaint y tu hwnt i amgyffred â sarhau eich mam-gu eich hun. Rhaid i mi ddweud y bydd y Siambr hon yn gweld eich colli'n fawr iawn.

Aled Roberts, in his contribution, talked about north Wales and how there are challenges in getting people to go into training and also into practice in parts of north Wales. He talked in terms of a deanery solution for north Wales, and whether there are any discussions ongoing with universities over the border in England to help us improve our capacity in the short term, while we think about the longer term challenges. Darren talked about the importance of not only the staff being there, but having a facility to work out of that is fit for purpose and fit for the services that we want to see in the future. Clearly, if we want to see a wide variety of different healthcare professionals located in our GPs' practices, they have to be in accessible facilities, and that is something that we must consider in the grand scheme.

Yn ei gyfraniad, siaradodd Aled Roberts am ogledd Cymru a sut y ceir heriau i gael pobl i fynd am hyfforddiant a hefyd i ymarfer mewn rhannau o ogledd Cymru. Siaradodd yn nhermau ateb o'r ddeoniaeth ar gyfer gogledd Cymru, a pha un a oes unrhyw drafodaethau ar y gweill gyda phrifysgolion dros y ffin yn Lloegr i helpu i wella ein capasiti yn y tymor byr, wrth i ni ystyried yr heriau mwy hirdymor. Siaradodd Darren am bwysigrwydd nid yn unig sicrhau bod staff ar gael, ond cael cyfleuster i weithio ohono sy'n addas i'r diben ac yn addas ar gyfer y gwasanaethau rydym am eu gweld yn y dyfodol. Yn amlwg, os ydym am weld amrywiaeth eang o wahanol weithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u lleoli yn ein practisau meddygon teulu, mae'n rhaid iddynt fod mewn cyfleusterau sy'n hygyrch, ac mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei ystyried yn rhan o'r cynllun mawr.

Finally, turning to the Minister's contribution, can I thank you, Minister, for your positivity towards this motion today and the spirit in which it was intended, and for your support? You outlined very clearly that, with 19 million appointments in primary care, not including children's appointments, there is a huge task. It is a huge operation to make sure that that works and it's not surprising that this is, sometimes, where the pressure begins to show in our health service. Minister, you spoke about your future vision in primary care: a world in which inter-disciplinary teams are going to deliver a holistic service for patients that is going to give them the experience they need, a joined-up experience, from the beginning right through from the cradle to grave, if you like. Minister, we share that vision with you. We want to see a future where our NHS works effectively with social care and with other agencies. The question is now, as we move forward: will we have that commission in the new Assembly to talk about these subjects without quite so much political football kicking?

Yn olaf, i droi at gyfraniad y Gweinidog, a gaf fi ddiolch i chi, Weinidog, am eich agwedd gadarnhaol tuag at y cynnig hwn heddiw a'r ysbryd y'i bwriadwyd, ac am eich cefnogaeth? Fe amlinelloch yn glir iawn fod y dasg yn enfawr, gydag 19 miliwn o apwyntiadau mewn gofal sylfaenol, heb gynnwys apwyntiadau i blant. Mae'n orchwyl enfawr i sicrhau bod hynny'n gweithio, ac nid yw'n syndod weithiau mai dyma ble y mae'r pwysau'n dechrau dangos yn ein gwasanaeth iechyd. Weinidog, fe siaradoch am eich gweledigaeth ar gyfer gofal sylfaenol yn y dyfodol: byd lle y bydd timau rhyngddisgyblaethol yn darparu gwasanaeth holistaidd i gleifion sy'n mynd i roi'r profiad fydd ei angen arnynt, profiad cydgysylltiedig, o'r cychwyn, o'r crud i'r bedd, os mynnwch. Weinidog, rydym yn rhannu'r weledigaeth honno gyda chi. Rydym am weld dyfodol lle y mae ein GIG yn gweithio'n effeithiol gyda gofal cymdeithasol a chydag asiantaethau eraill. Y cwestiwn yn awr, wrth i ni symud ymlaen yw: a gawn ni'r comisiwn hwnnw yn y Cynulliad newydd i siarad am y pynciau hyn heb gymaint o gicio ar y bêl-droed wleidyddol?

18:55

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? No. The motion without amendment is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nac oes. Felly, derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:55

## 13. Dadl Fer: Caerfyrddin 1966 a 2016: 50 Mlynedd Sydd Wedi Newid Cymru

## 13. Short Debate: Carmarthen 1966 and 2016: 50 Years That Have Changed Wales

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 13 is the short debate, and I call on Simon Thomas to speak on the topic he has chosen.

Eitem 13 yw'r ddadl fer, a galwaf ar Simon Thomas i siarad ar y pwnc y mae wedi'i ddewis.

18:56

### Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I do feel I should be like my grandmother and say, 'Thank you all for coming.' [Laughter.] I just hope I don't have to speed date every one of you over the next 10 minutes or so.

Diolch, Ddirprwy Lywydd, ac rwy'n teimlo y dylwn fod fel fy nain a dweud, 'Diolch i chi gyd am ddod.' [Chwerthin.] Rwyf ond yn gobeithio nad oes yn rhaid i mi gael dêt cyflym â phob un ohonoch dros y 10 munud nesaf.

Ddirprwy Lywydd, rwyf wedi caniatáu, gyda'ch caniatâd chi, Bill Powell i gael munud o'r ddadl hon. Nid wyf am gymryd llawer o'r amser yn y Cynulliad, ond hoffwn ddweud ei fod yn anrhydedd i gael y cyfle i agor y ddadl olaf yn y Cynulliad hwn—ein Senedd ddeddfwriaethol lawn gyntaf. Mae wedi bod hefyd yn anrhydedd go iawn i wasanaethu yn Aelod Cynulliad yn y Cynulliad hwn ac rwyf yn diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, a'r Llywydd am lywio'n trafodion dros y pum mlynedd diwethaf mor fedrus. Diolch yn fawr i'r ddau ohonoch chi. Dyma'r tro cyntaf, wrth gwrs, yn ein hanes i Senedd Gymreig wedi'i hethol gan etholfraint ddemocrataidd i ddeddfu, a'r tro cyntaf hefyd i ni gael Llywodraeth lawn gyda phwerau eang i gynnig deddfwriaeth ac i ni graffu arni.

Deputy Presiding Officer, I have allowed Bill Powell a minute of this debate, with your permission. I'm not going to take too much of the Assembly's time, but I would like to say that it's an honour to have the opportunity to open this final debate of this Assembly—our first full legislative Senedd. It has also been a real honour to serve as an Assembly Member in this Assembly and I thank you, Deputy Presiding Officer, as well as the Presiding Officer for steering our proceedings so skilfully over the past five years. I thank both of you. This is the first time, of course, in our history that we've had a Welsh Senedd elected by democrat franchise to legislate, and this is the first time that we've had a real Government with broad powers to legislate and for us to have the opportunity to scrutinise it.

Bwriad fy nadl heddiw yw edrych yn ôl peth ar ein taith i'r funud hon, gan weld beth fedrwn ni ddysgu o hanes a sut medrwn ni arfogi ar gyfer heriau'r dyfodol.

My intention today is to look back at the journey that brought us to this point to see what we can learn from history and how we can arm ourselves for future challenges.

Mae'r rhan fwyaf yn cytuno, rwy'n credu, taw llwyddiant Gwynfor Evans, 50 mlynedd yn ôl, i ennill hen sedd Caerfyrddin mewn isetholiad, oedd y trothwy rhwng cenedlaetholdeb fel mudiad pwyso a diwylliannol a chenedlaetholdeb fel grym gwleidyddol a newidiai fywydau pobl. Mae hedyn ein Cynulliad heddiw ym mhridd Caerfyrddin y pryd hwnnw. Mae gennyf fan hyn y daflen a gyflwynodd Gwynfor Evans i etholwyr Caerfyrddin ac mae wedi bod yn fath o 'talisman' yn ystod yr etholiad hwn. Fe ddaeth Gwynfor Evans o'r trydydd safle ym mis Mawrth 1966 i ennill is-etholiad ym mis Mehefin yr un flwyddyn ac nid oedd gwleidyddiaeth Cymru'r un peth wedyn. Nid oedd gwleidyddiaeth yr Alban yr un peth wedyn, na gwleidyddiaeth Prydain gyfan. Fe gerddodd Winnie Ewing drwy ddrws a agorwyd gan Gwynfor i ennill is-etholiad Hamilton y flwyddyn ganlynol a, byth ers hynny, bu llais Plaid Cymru a'r SNP dros hunanlywodraeth yn uchel drwy Brydain.

I think most would agree that Gwynfor Evans's major success 50 years ago, in winning the old Carmarthen seat in a by-election, was the tipping point between Welsh nationalism as a pressure and cultural group and Welsh nationalism as a political force that could truly change people's lives. The seed of our Assembly was planted in the soil of Carmarthen then. Here I have the pamphlet introduced by Gwynfor Evans to the electorate in Carmarthen and it has been a talisman of sorts during this election. Gwynfor Evans came from third place in March 1966 to win the by-election in June of the same year. And Welsh politics would never be the same again, and neither would Scottish politics be the same, or the politics of the whole of the UK. Winnie Ewing walked through the door opened by Gwynfor to win the Hamilton by-election the following year and, ever since then, Plaid Cymru and the SNP's voice has been vociferous, making the case for self-government across Britain.

Bu i'r ddau isetholiad hynny newid cwrs fy mywyd innau hefyd. Oni bai amdanynt a chynrychiolaeth Plaid Cymru a'r SNP yn San Steffan yn y 1970au, ni fyddai'r refferendwm cyntaf ar ddatganoli wedi'i gynnal ar 1 Mawrth 1979. Ar gyfer y diwrnod hwnnw, fe luniais fathodyn fy hun, o fath, 'Vote Yes', i wisgo gyda fy nghenhinen bedr i'r ysgol. Roedd yr ymateb a gefais yn ystod y diwrnod hwnnw yn profi dau beth i mi: yn gyntaf oll fy mod i'n gallu bod yn ystyfnig iawn ac, yn ail, fy mod yn genedlaetholwr yn y bôn.

Those two by-elections change the course of my life too. Without them and without the Plaid Cymru and SNP representation at Westminster in the 1970s, the first devolution referendum would not have been held on 1 March 1979. In preparation for that day, I made my own badge, a 'Vote Yes' badge, which I wore to school alongside my daffodil. The response to my actions during that day proved two things to me: first of all that I could be extremely stubborn and, secondly, that I am a Welsh nationalist at heart.

Cyn bo hir, cefais gyfle i weld Gwynfor Evans am y tro cyntaf: cyfarfod cyhoeddus yn Aberdâr i drafod torri addewid y Llywodraeth Geidwadol, bryd hynny, i sefydlu sianel deledu Gymraeg. Roedd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn ysgol y merched, a oedd yn help efallai i'm denu i fynd. Ond rwy'n cofio sefyll—achos roedd yn rhaid sefyll—am awr a mwy tra areithiai Gwynfor yn uniaith Gymraeg am hanes a threftadaeth Cymru. Prin i mi ddeall degfed ran o'r araith, mae'n rhaid i mi ddweud. Yn wir, siaradodd am bob dim, ond am ddarlledu fel celfyddyd a diwydiant. Ond, wedi dweud hynny, roedd ei fygythiad i ymprydio yn gwefreiddio'r gynulleidfa ac yn rhoi min gwleidyddol i'w ddull addfwyn ac yn ennyn ynof fi hefyd yr ysfa i fynd i wleidydda.

I soon had the opportunity to see Gwynfor Evans for the very first time at a public meeting in Aberdare to discuss the Conservative Government's decision to renege on its pledge to establish a Welsh-language television channel. The meeting was held in the girls' school, which was perhaps part of the attraction for me. But I remember standing—because one had to stand—for an hour or more as Gwynfor addressed the audience in Welsh on the history and heritage of Wales. I hardly understood a tenth of it, I have to say. In truth, he spoke about everything other than broadcasting as an art form and an industry. But, having said that, his threat to go on hunger strike electrified the audience and gave his gentle tone a real political edge and engendered in me an urge to go into politics.

Newid penderfyniad y Llywodraeth a gweld sefydlu S4C oedd llwyddiant unigol mwyaf Gwynfor, yn fy marn i, ac mae'n deilwng iawn bod pencadlys S4C yn awr yn symud i dref Caerfyrddin.

The reversal of the Government's decision and the establishment of S4C was Gwynfor's greatest single achievement in my view and it's fitting that S4C's headquarters are now to move to Carmarthen.

Daeth troad y rhod y bore hwnnw ym mis Medi 1997, wrth gwrs, pan oedd canlyniad sir Gâr mor allweddol i sicrhau'r bleidlais ar gyfer 'ie' a sefydlu'r Cynulliad hwn. Roedd yr hedyn a blannwyd ym 1966 wedi egino a daear Caerfyrddin eto yn gynhaliaeth i'w dyfiant. Er, efallai, y byddai Gwynfor yr hanesydd wedi ymddiddori mwy yn y ffaith taw Pura Wallia, yr hen dywysogaeth, a gariodd y bleidlais yn y bôn.

The tide turned that morning in September 1997, of course, when the result from Carmarthen was a game changer in securing a 'yes' vote for the establishment of this Assembly. The seed planted in 1966 had germinated and the soil of Carmarthen nourished its growth, although perhaps Gwynfor the historian would have focused more on the fact that it was Pura Wallia, the old Welsh principality, that ultimately delivered that vote.

So, Deputy Presiding Officer, I think this is how we came together as an Assembly, on the shoulders of giants—not just Gwynfor, of course, but it is a particular privilege for me as a regional Assembly Member, and Carmarthen West and South Pembs candidate, to remember him.

Felly, Ddirprwy Lywydd, rwy'n credu mai fel hyn y daethom at ein gilydd fel Cynulliad, ar ysgwyddau cewri—nid Gwynfor yn unig, wrth gwrs, ond mae'n fraint arbennig i mi fel Aelod Cynulliad rhanbarthol, ac ymgeisydd dros Orllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, i gofio amdano.

This next election sees many who came here first in 1999 departing. Not all are nationalists by any means but all have served in a national cause. Our nation is more confident, more assertive and more clear-sighted than before because of their service. But we need to be, because the challenges that remain are serious and grave.

Ar ôl yr etholiad nesaf bydd llawer a ddaeth yma gyntaf yn 1999 yn ymadael. Nid yw pob un yn genedlaetholwyr o bell ffordd ond mae pob un wedi gwasanaethu dros achos cenedlaethol. Mae ein cenedl yn fwy hyderus, yn fwy pendant ac yn gweld yn gliriach nag o'r blaen oherwydd eu gwasanaeth. Ond mae angen i ni allu gwneud hynny, am fod yr heriau sy'n parhau yn ddifrifol ac yn enbyd.

Gwynfor always fought for Welsh sovereignty, not to hoard it but to share it: firstly, with the people of Wales themselves, and, secondly, to pool it with other nations. Whether it be as a British confederation or as dominion status within the Commonwealth, he sought to fight for Wales the right relationship with other nations so Wales could be internationalist and outward looking.

Roedd Gwynfor bob amser yn ymladd dros sofraniaeth Cymru, peidio â'i gadw i'n hunain ond yn hytrach ei rannu: yn gyntaf, gyda phobl Cymru eu hunain, ac yn ail, ei gyfuno gyda chenhedloedd eraill. Boed fel cydffederasiwn Prydeinig neu fel statws dominiwn o fewn y Gymanwlad, ceisiodd ymladd dros berthynas iawn i Gymru â chenhedloedd eraill, felly gallai Cymru fod yn rhyngwladol ac edrych tuag allan.

Today, I believe that common international pool of sovereignty is the European Union. Yes, we in Plaid Cymru want Wales to be a member state. But, first of all, we want to fight to keep the UK in the EU. Sharing power for common goals is immensely empowering. It doesn't rob us of our rights and freedoms; it makes us stronger and richer by sharing them with others.

Heddiw, rwy'n credu mai'r gronfa ryngwladol gyffredin honno o sofraniaeth yw'r Undeb Ewropeaidd. Ydym, rydym ni ym Mhlaid Cymru am i Gymru fod yn aelod-wladwriaeth. Ond yn gyntaf oll, rydym eisiau ymladd i gadw'r DU yn yr UE. Mae rhannu pŵer ar gyfer nodau cyffredin yn hynod o rymusol. Nid yw'n ein hamddifadu o'n hawliau a'n rhyddid; mae'n ein gwneud yn gryfach ac yn fwy cyfoethog drwy eu rhannu gydag eraill.

Fifty years ago, Governments were entranced by the white heat of technology. Nobody stopped to ask whether the price we paid for a world of resource exploitation and free movement of capital would be a potentially irreversible and catastrophic acceleration of climate change. But last month saw a century of global temperature records smashed by a 'stunning' margin, in the words of the National Aeronautics and Space Administration.

Hanner can mlynedd yn ôl, câi Llywodraethau eu swyno gan wres gwyn technoleg. Nid oedodd neb i ofyn a fyddai'r pris a dalem am fyd o gamfanteisio ar adnoddau a symud cyfalaf yn rhydd yn rhywbeth na fyddai modd ei ddad-wneud o bosibl, a chyflymu trychinebus newid yn yr hinsawdd. Ond y mis diwethaf gwelwyd canrif o gofnodion tymheredd byd-eang yn cael eu torri i raddau 'syfrdanol', yng ngeiriau Gweinyddiaeth Genedlaethol Awyrenneg a'r Gofod.

Anthropomorphic climate change is real, here to stay, and must be dealt with, but the 'Sustainable Development and Climate Change Annual Report', published only yesterday, shows that we still have a long way to go.

Mae newid yn yr hinsawdd anthropomorffaidd yn real, yma i aros, a rhaid mynd i'r afael ag ef, ond mae'r 'Adroddiad Blynyddol Datblygu Cynaliadwy a'r Newid yn yr Hinsawdd', a gyhoeddwyd ddoe ddiwethaf, yn dangos fod gennym ffordd bell i fynd.

I do look back over five years and wonder if I did enough to raise this and urge more action. The Government can examine its own conscience. In the same way, many will point to us and ask us what we've done in this Assembly. Is Wales richer, more environmentally sustainable? Are we a happier nation? Or have we simply managed a decline we had no control over in the least bad way? All this feeds in to the final challenge to our new democracy, that of lack of faith in politics itself.

Rwy'n edrych yn ôl dros bum mlynedd ac yn meddwl tybed a wneuthum ddigon i roi sylw i hyn ac i annog mwy o weithredu. Gall y Llywodraeth edrych ar ei chydwybod ei hun. Yn yr un modd, bydd llawer yn pwyntio atom ni ac yn gofyn i ni beth rydym wedi'i wneud yn y Cynulliad hwn. A yw Cymru yn gyfoethocach, yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol? A ydym yn genedl hapusach? Neu a ydym yn syml wedi rheoli dirywiad nad oedd gennym unrhyw reolaeth drosto yn y ffordd leiaf drwg? Mae hyn i gyd yn bwydo i mewn i'r her olaf i'n democratiaeth newydd, y diffyg ffydd hwnnw mewn gwleidyddiaeth ei hun.

Fifty years ago, a man could stand in a by-election and say a Welsh parliament would never have drowned Tryweryn. Thirty years ago, the same man could threaten to starve himself and change a Government policy. Today, politics is more complex, more convoluted—some would say more unaccountable. Intricate relationships between states, economies and the environment demand hard work and long slog to compromise and accommodation.

Hanner can mlynedd yn ôl, gallai dyn sefyll mewn is-etholiad a dweud na fyddai senedd yng Nghymru erioed wedi boddi Tryweryn. Ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, gallai'r un dyn fygwth llwgu ei hun a newid polisi'r Llywodraeth. Heddiw, mae gwleidyddiaeth yn fwy cymhleth, yn fwy astrus—byddai rhai'n dweud, yn fwy anatebol. Mae cymhlethdod y berthynas rhwng gwladwriaethau, economïau a'r amgylchedd yn galw am waith caled ac ymdrech hir i gyfaddawdu a chytuno.

But, for some, these seem like betrayal, especially if political parties are not honest and continue to offer the certainties of the past. So, simple, even simplistic, solutions to our ongoing problems are offered. A precipitous exit from the EU and a vague promise to end immigration is offered as a solution for no jobs, for cheap jobs, for poor public services, for motorway traffic, for lack of housing, for poor schools and for crime. A cure for all ills. A true snake oil. The only antidote to such snake oil is truth and hard slog: a determination to show that devolution can deliver for our citizens, and how working together with our European partners can protect them from the excesses of global capitalism.

Ond i rai, mae'r rhain yn ymddangos fel brad, yn enwedig os nad yw pleidiau gwleidyddol yn onest ac yn parhau i gynnig sicrwydd y gorffennol. Felly, yn syml, yn or-syml hyd yn oed, cynigir atebion i'n problemau parhaus. Cynigir cyfle peryglus i adael yr UE ac addewid niwlog i roi terfyn ar fewnfudo fel ateb i ddiffyg swyddi, i swyddi rhad, i wasanaethau cyhoeddus gwael, i draffig ar y draffordd, i ddiffyg tai, i ysgolion gwael ac i droseddau. Ateb i bob problem. Olew neidr yn wir. Yr unig wrthwenwyn i olew neidr o'r fath yw gwirionedd a gwaith caled: penderfyniad i ddangos bod datganoli yn gallu cyflawni ar gyfer ein dinasyddion, a sut y gall cydweithio gyda'n partneriaid Ewropeaidd eu diogelu rhag eithafion cyfalafiaeth fyd-eang.

I do ask myself: have we done the best we could with the tools the people of Wales gave us when they voted in 2011 to wrestle parliamentary sovereignty from London and rest it here? I enjoy legislation, and I've enjoyed the last five years, but our foremost tool is not law, it is government.

Rwy'n gofyn i mi fy hun: a ydym wedi gwneud y gorau a allem gyda'r offer a roddodd pobl Cymru i ni pan bleidleisiwyd yn 2011 i gipio sofraniaeth seneddol o Lundain a'i gadw yma? Rwy'n mwynhau deddfwriaeth, ac rwyf wedi mwynhau'r pum mlynedd ddiwethaf, ond llywodraeth, nid y gyfraith yw ein hofferyn pwysicaf.

I don't believe we've had a perfect start as a legislature, but then we've had to learn on the job and we've lacked the numbers, the space, and the information on occasion to do the job as thoroughly as I would have liked. But I feel we've made a decent start. We've used our first legislative parliament to pay proper respect to both the citizens of Wales today and those who fought so hard and committed so much to create a parliament where we could meet. Now it is over to the Government to answer for their successes or failures at the judgment that we all respect and will all accept: the Welsh general election and the Welsh ballot box. Diolch yn fawr iawn.

Nid wyf yn credu ein bod wedi cael dechrau perffaith fel deddfwrfa, ond rydym wedi gorfod dysgu yn y gwaith ac rydym wedi bod yn brin o niferoedd, y gofod, a'r wybodaeth ar adegau i wneud y gwaith mor drwyadl ag byddwn wedi hoffi. Ond rwy'n teimlo ein bod wedi gwneud dechrau da. Rydym wedi defnyddio ein senedd ddeddfwriaethol gyntaf i roi parch priodol i ddinasyddion Cymru heddiw a'r rhai a frwydrodd mor galed ac a ymrwymodd gymaint i greu senedd lle y gallem gyfarfod. Nawr, mater i'r Llywodraeth yw ateb dros eu llwyddiant neu eu methiant yn ôl y farn y byddwn i gyd yn ei pharchu ac y byddwn i gyd yn ei derbyn: etholiad cyffredinol Cymru a'r blwch pleidleisio yng Nghymru. Diolch yn fawr iawn.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair.*

*The Presiding Officer took the Chair.*

19:05 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank Simon Thomas very much for bringing forward this special debate and for having spoken so eloquently. My first political memory was coming home from school in October 1974 and seeing the image of the Guildhall in Carmarthen, with the final election of Gwynfor Evans to Westminster. Maybe I was a little precocious in my interest, but it's been great, over the last five years, to have been the first Liberal since Sir Rhys Hopkin Morris to represent Carmarthenshire, and I'm very grateful for that opportunity.

Hoffwn ddiolch yn fawr i Simon Thomas am gyflwyno'r ddadl arbennig hon ac am siarad mor huawdl. Fy nghof gwleidyddol cyntaf oedd dod adref o'r ysgol ym mis Hydref 1974 a gweld llun o'r Guildhall yng Nghaerfyrddin, gydag etholiad terfynol Gwynfor Evans i San Steffan. Efallai fy mod ychydig yn henaidd yn fy niddordeb, ond mae wedi bod yn wych, dros y pum mlynedd ddiwethaf, cael bod y Rhyddfrydwr cyntaf ers Syr Rhys Hopkin Morris i gynrychioli Sir Gaerfyrddin, ac rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle hwnnw.

As Simon said, this place is built on the shoulders of giants, and some of them were members of Plaid Cymru, and some of them were members of other parties. Two names that come to my mind are Emlyn Hooson and my great, late friend, Richard Livsey. It's been an enormous privilege to be here today, and Carmarthenshire is, as Lady Megan Lloyd George said, more a continent than a county, and I hope to have played my part in representing that county, and I hope to have the opportunity to continue to do so. Diolch yn fawr.

Fel y dywedodd Simon, mae'r lle hwn wedi ei adeiladu ar ysgwyddau cewri, ac roedd rhai ohonynt yn aelodau o Blaid Cymru, ac roedd rhai ohonynt yn aelodau o bleidiau eraill. Dau enw sy'n dod i fy meddwl yw Emlyn Hooson a fy ffrind mawr, y diweddar Richard Livsey. Mae wedi bod yn fraint enfawr bod yma heddiw, ac mae Sir Gaerfyrddin, fel y dywedodd y Fonesig Megan Lloyd George, yn fwy o gyfandir nag o sir, ac rwy'n gobeithio fy mod wedi chwarae fy rhan yn cynrychioli'r sir honno, ac rwy'n gobeithio cael y cyfle i barhau i wneud hynny. Diolch yn fawr.

19:06 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the First Minister to reply to the debate—First Minister.

Galwaf ar y Prif Weinidog i ymateb i'r ddadl—Brif Weinidog.

19:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Thank you, Llywydd.

Diolch i chi, Lywydd.

A gaf i ddiolch i Simon Thomas a hefyd William Powell am siarad, wrth gwrs, yn y ddadl hon, dadl sydd wedi bod yn eang iawn ynglŷn â natur pwnc y ddadl ei hunan? Fe wnaeth Simon Thomas ddechrau ym 1966. Nid yw ef, na minnau, yn cofio, rwy'n gwybod, yr isetholiad hwnnw—cyn i fi gael fy ngeni—ond roedd yn rhywbeth, wrth gwrs, oedd yn hanesyddol iawn yn hanes gwleidyddol Cymru.

May I thank Simon Thomas and William Powell for speaking in this debate, a debate that has been very wide ranging as regards the nature of the topic of the debate? Simon Thomas began in 1966. I don't think either of us remembers that by-election—before I was born—but it was a very historic event in the political history of Wales.

Could I thank Simon Thomas and William Powell for their contributions? Simon mentioned the 1966 by-election. Part of my family lived in the Carmarthen constituency, in Upper Brynamman, and Gwynfor Evans was their MP on two occasions. My grandfather was a very strong fan of Gwynfor Evans, and somebody who certainly was very much a supporter of his. It didn't rub off on me, as you can see. I did hear Gwynfor Evans speak and I read 'Wales Can Win', but the reaction I had was the exact opposite to the reaction that Simon Thomas had. That is the nature of politics.

A gaf fi ddiolch i Simon Thomas a William Powell am eu cyfraniadau? Crybwyllodd Simon isetholiad 1966. Roedd rhan o fy nheulu yn byw yn etholaeth Caerfyrddin, ym Mrynaman Uchaf, ac roedd Gwynfor Evans yn Aelod Seneddol ar eu rhan ar ddau achlysur. Roedd fy nhad-cu yn ffan mawr iawn o Gwynfor Evans, ac yn rhywun a oedd yn sicr yn gefnogwr cryf iddo. Ni rwbiodd i ffwrdd arnaf fi, fel y gwelwch. Clywais Gwynfor Evans yn siarad a darllenais 'Wales Can Win', ond roedd fy ymateb yn gwbl groes i ymateb Simon Thomas. Dyna yw natur gwleidyddiaeth.

But, I think it's right to say that, whilst we recognise, of course, what was a political earthquake in 1966, other parties as well have offered their contribution over the years to the process of devolution, including, of course, my own. It's fair to say that there were two strands in my own party from my own party's inception. There was a strand that saw an over-expression of nationality as a threat, as something that created barriers between people and, ultimately, of course, in the post-war settlement, would cause the welfare state that had been created to fragment to the detriment of working people. Of course, there was another strand in my party that recognised those difficulties and did not want to see the benefits of our membership of the UK removed from us but who saw that a political expression of Welshness was important in terms of it being given a dimension. We think, of course, of S.O. Davies, the Member for Merthyr Tydfil for many years, who stood as an independent Labour member when he was, I think, 82 years old, and won in 1970. We think of Cledwyn Hughes, of Jim Griffiths, of course, and many in my party—Megan Lloyd George, of course, somebody who was instrumental in the Parliament for Wales campaign—who saw that recognising that Wales should have its own political structure did not conflict with Wales's membership of the UK or, ultimately, in this present day, of the EU.

Ond rwy'n credu ei bod yn iawn i ddweud, er ein bod yn cydnabod, wrth gwrs, yr hyn a oedd yn ddaeargryn gwleidyddol yn 1966, fod pleidiau eraill hefyd wedi cynnig eu cyfraniad dros y blynyddoedd i broses datganoli, gan gynnwys, wrth gwrs, fy mhlaid fy hun. Mae'n deg dweud fod dau edefyn yn fy mhlaid fy hun o'r dechrau. Roedd yna elfen a welai orfynegiant o genedligrwydd fel bygythiad, fel rhywbeth a oedd yn creu rhwystrau rhwng pobl ac yn y pen draw, wrth gwrs, yn y setliad ar ôl y rhyfel, byddai'n achosi i'r wladwriaeth les, a oedd wedi cael ei chreu, i chwalu er afles i bobl a oedd yn gweithio. Wrth gwrs, roedd yna elfen arall yn fy mhlaid a oedd yn cydnabod yr anawsterau hynny ac nid oedd am weld manteision ein haelodaeth o'r DU yn cael eu cymryd oddi wrthym, ond a welai fod mynegiant gwleidyddol o Gymreigrwydd yn bwysig o ran rhoi dimensiwn iddo. Meddyliwn, wrth gwrs, am S.O. Davies, yr Aelod dros Ferthyr Tudful am flynyddoedd lawer, a safodd fel aelod Llafur annibynnol pan oedd, rwy'n meddwl, yn 82 mlwydd oed, ac ennill yn 1970. Meddyliwn am Cledwyn Hughes, am Jim Griffiths, wrth gwrs, ac mae llawer yn fy mhlaid—Megan Lloyd George, wrth gwrs, rhywun a oedd yn allweddol yn yr ymgyrch Senedd i Gymru—a welai nad oedd cydnabod y dylai Cymru gael ei strwythur gwleidyddol ei hun yn gwrthdaro ag aelodaeth Cymru o'r DU neu yn y pen draw, erbyn heddiw, o'r UE.

Simon Thomas has mentioned, of course, that Gwynfor Evans was somebody who was seen as a giant in his day. He is literally that now; when I drive through Talybont, I can see him in front of me, on the wall there. He's somebody who, if you drive on the A487, appears before you as you head north towards Machynlleth.

Mae Simon Thomas wedi sôn, wrth gwrs, fod Gwynfor Evans yn rhywun a gâi ei ystyried yn gawr yn ei ddydd. Mae'n llythrennol yn gawr yn awr; pan fyddaf yn gyrru drwy Dal-y-bont, gallaf ei weld o fy mlaen, ar y wal yno. Mae'n rhywun sydd, os ydych yn gyrru ar hyd yr A487, yn ymddangos o'ch blaen wrth i chi anelu i'r gogledd tuag at Fachynlleth.

In May, there are five of us on these benches who wish to return who were members of the original Labour group that came here—28 of us—in 1999. The Assembly that we entered on that day was a very different body to the one that it has become. We spent much of our time moving money around. We spent much of our time debating regulations that were wholly uncontroversial. I can see Members smiling at me who were here then who will remember the days that we spent talking about the potatoes originating in Egypt Order, the undersized whiting Order. We dealt at one point with the importation of chilli powder from—I think it was Morocco or Tunisia. These were not matters that were likely to excite the people of Wales, even though they were important matters, nor were they particularly controversial. The reason, of course, why we debated so much of this legislation is because we did not have the legislative powers that we have now.

Roedd pump ohonom ar y meinciau hyn sy'n dymuno dychwelyd ym mis Mai yn aelodau o'r grŵp Llafur gwreiddiol a ddaeth yma—28 ohonom—yn 1999. Roedd y Cynulliad y daethom iddo ar y diwrnod hwnnw'n gorff gwahanol iawn i'r un ydyw bellach. Treuliem lawer o'n hamser yn symud arian o gwmpas. Treuliem lawer o'n hamser yn trafod rheoliadau nad oeddent yn ddadleuol mewn unrhyw fodd. Gallaf weld Aelodau a oedd yma ar y pryd yn gwenu arnaf, a byddant yn cofio'r dyddiau a dreuliem yn siarad am y Gorchymyn tatws sy'n tarddu o'r Aifft, y Gorchymyn gwyniaid môr rhy fach. Buom yn ymdrin ar un adeg â mewnforio powdr tsili o Moroco neu Tunisia, rwy'n credu. Nid oedd y rhain yn faterion a oedd yn debygol o gyffroi pobl Cymru, er eu bod yn faterion pwysig, ac nid oeddent yn arbennig o ddadleuol. Y rheswm, wrth gwrs, pam y treuliem gymaint o amser yn trafod y ddeddfwriaeth hon oedd oherwydd nad oedd gennym bwerau deddfwriaethol fel sydd gennym yn awr.

We went, of course, through the process of legislative competence Orders, a process that none of us would wish to see reintroduced, but they were a stepping stone to the primary powers that we had in 2011. But what's remarkable is that, in 1997, devolution was supported by the people of Wales by a wafer-thin majority. I well remember the last opinion poll before the referendum showed a 'yes' lead of 10 per cent. That had narrowed to under 1 per cent on the day of the referendum. There are many of us who remember that evening. It's right to say that it is said that Carmarthenshire swayed the result, but Carmarthenshire simply declared last. In fact, the whole of Wales delivered the result that saw a 'yes' vote within this Assembly.

Wrth gwrs, aethom drwy broses y Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol, proses na fyddai'r un ohonom am ei gweld yn cael ei hailgyflwyno, ond roeddent yn gam tuag at y pwerau sylfaenol a gawsom yn 2011. Ond yr hyn sy'n rhyfeddol yw bod datganoli yn 1997 wedi'i gefnogi gan bobl Cymru gyda mwyafrif eithriadol o denau. Cofiaf yn dda'r pôl piniwn olaf cyn y refferendwm yn dangos bod y bleidlais 'ie' 10 y cant ar y blaen. Roedd hwnnw wedi cau i lai nag 1 y cant ar ddiwrnod y refferendwm. Mae yna lawer ohonom sy'n cofio'r noson honno. Mae'n iawn i ddweud bod Sir Gaerfyrddin wedi newid y canlyniad, ond yn syml iawn, Sir Gaerfyrddin oedd yn datgan yn olaf. Yn wir, Cymru gyfan a roddodd y canlyniad a arweiniodd at bleidlais 'ie' dros y Cynulliad hwn.

It is also correct to say that, in 1997, there were many on the Conservative benches who were opposed to the idea of devolution and of an Assembly itself. I think it's correct to acknowledge that there are many—not all; some have left this place now—who are not only comfortable with the idea of devolution and an Assembly but who have certainly supported not just the concept of devolution but it's extension over the years, and that in itself is a remarkable change.

Mae hefyd yn gywir i ddweud, yn 1997, fod llawer ar y meinciau Ceidwadol a oedd yn gwrthwynebu'r syniad o ddatganoli ac o'r Cynulliad ei hun. Rwy'n credu ei bod yn gywir cydnabod bod llawer—er nad pawb; mae rhai wedi gadael y lle hwn yn awr—sydd nid yn unig yn gyfforddus gyda'r syniad o ddatganoli a Chynulliad ond sydd yn sicr wedi cefnogi nid yn unig y cysyniad o ddatganoli ond ei ymestyniad dros y blynyddoedd, ac mae hynny ynddo'i hun yn newid rhyfeddol.

And then we saw the referendum in 2011. In 1997, it was highly questionable as to whether a referendum with the kind of powers we have now would have seen the people of Wales supporting those powers, but we saw in 2011 an overwhelming vote in favour of this institution having primary powers. I remember, on the day of the referendum, being out knocking doors in Bridgend and at 7 o'clock you couldn't get people out—it was dark and people were saying, 'You're going to win anyway.' People just assumed it was quite a natural thing to do that we should acquire the same kind of primary powers that existed already in Scotland and Northern Ireland. That's a measure of how far devolution has come, that people saw that development as entirely natural.

Ac yna gwelsom y refferendwm yn 2011. Yn 1997, roedd yn amheus iawn a fyddai refferendwm gyda'r math o bwerau sydd gennym erbyn hyn wedi ennyn cefnogaeth pobl Cymru i'r pwerau hynny, ond yn 2011 gwelsom bleidlais aruthrol o blaid rhoi pwerau sylfaenol i'r sefydliad hwn. Rwy'n cofio, ar ddiwrnod y refferendwm, bod allan yn curo ar ddrysau ym Mhen-y-bont ac am 7 o'r gloch ni allech gael pobl allan—roedd hi'n dywyll ac roedd pobl yn dweud, 'Rydych yn mynd i ennill beth bynnag.' Roedd pobl yn cymryd yn ganiataol ei fod yn beth naturiol i'w wneud, y dylem gael yr un math o bwerau sylfaenol a oedd yn bodoli eisoes yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dyna fesur o ba mor bell y mae datganoli wedi dod, fod pobl yn gweld y datblygiad hwnnw fel un hollol naturiol.

We know now that, if we look at opinion polls, those who wish to see devolution end number about 10 to 12 or maybe 13 per cent of the entire electorate. Not so long ago, that figure was closer to 40 per cent and, again, that shows how this institution has embedded itself, to my mind, in the lives of the people of Wales. We all look forward now to the election in May. Simon Thomas, in an almost Revelations-style presentation to us there, talked about the judgment of the people. We look forward to it on these benches. The last five years have gone by incredibly quickly. But, certainly, we look forward—all of us here—to that election in May and, on 6 May, I'm sure that all of us in this Chamber, bleary-eyed, will await the judgment of the people of Wales. Diolch yn fawr.

Rydym yn gwybod yn awr, os edrychwn ar arolygon barn, fod canran y rhai sy'n dymuno gweld datganoli'n dod i ben tua 10 i 12 neu efallai 13 y cant o'r etholwyr i gyd. Heb fod mor bell yn ôl, roedd y ffigur yn nes at 40 y cant ac unwaith eto, mae hynny'n dangos sut y mae'r sefydliad hwn wedi ymwreiddio, yn fy marn i, ym mywydau pobl Cymru. Rydym i gyd yn edrych ymlaen yn awr at yr etholiad ym mis Mai. Mewn cyflwyniad a oedd yn atgoffa rhywun o'r Datguddiad braidd, siaradodd Simon Thomas gynnau am farn y bobl. Rydym yn edrych ymlaen at hynny ar y meinciau hyn. Mae'r pum mlynedd diwethaf wedi mynd heibio'n anhygoel o gyflym. Ond yn sicr, rydym yn edrych ymlaen—pob un ohonom yma—at yr etholiad ym mis Mai ac ar 6 Mai, rwy'n siŵr y bydd pob un ohonom yn y Siambr hon, yn dioddef o ddiffyg cwsg, ac yn aros i glywed beth fydd barn pobl Cymru. Diolch yn fawr.

19:12

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much. It has been agreed that voting time would be immediately after the short debate, so I intend to move straight into the votes.

Diolch yn fawr iawn. Cytunwyd y byddai'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn syth ar ôl y ddadl fer, felly bwriadaf symud yn syth at y pleidleisiau.

19:13

## 14. Cyfnod Pleidleisio

## 14. Voting Time

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

### Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The only vote we have is on Stage 4 of the Public Health (Wales) Bill. I call for a vote on the motion tabled in the name of Mark Drakeford. Open the vote. Close the vote. Twenty six for, no abstentions, 26 against. Therefore, I have to cast my vote against.

Yr unig bleidlais sydd gennym yw'r un ar Gyfnod 4 o Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Mark Drakeford. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. 26 o blaid, neb yn ymatal, 26 yn erbyn. Felly, mae'n rhaid i mi ddefnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn y cynnig.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the motion.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM6015.](#)

[Result of the vote on motion NDM6015.](#)

19:13

## 15. Datganiadau i Gloi a Chludo'r Byrllysg o'r Siambr

## 15. Closing Statements and Removal of the Mace

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

### Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That concludes the Assembly's formal business, not only for today but for the fourth Assembly. We now enter a period of recess, followed by dissolution in advance of the Assembly elections on 5 May.

Dyna orffen busnes ffurfiol y Cynulliad, nid yn unig am heddiw, ond am y pedwerydd Cynulliad. Rydym bellach yn cychwyn ar gyfnod o doriad, wedi'i ddilyn gan ddiddymiad cyn etholiadau'r Cynulliad ar 5 Mai.

For many of us, this will be the last time we sit in this Chamber as Members. Being a Member of the Assembly at any time is an honour like no other. However, I think we have been particularly privileged to have been Members during this fourth Assembly.

I lawer ohonom, hwn fydd y tro diwethaf i ni eistedd yn y Siambr hon fel Aelodau. Mae bod yn Aelod o'r Cynulliad ar unrhyw adeg yn anrhydedd nad oes mo'i thebyg. Fodd bynnag, rwy'n meddwl ein bod wedi cael braint arbennig o fod yn Aelodau yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

It is easy to forget that it was only two months before the last election that the Assembly gained primary law-making powers, and I believe this Assembly has made very good use of those powers and come of age as a legislature and a parliament for Wales.

Mae'n hawdd anghofio mai dau fis yn unig cyn yr etholiad diwethaf yr enillodd y Cynulliad bwerau deddfu sylfaenol, ac rwy'n credu bod y Cynulliad hwn wedi gwneud defnydd da iawn o'r pwerau hynny ac wedi dod i oed fel deddfwrfa a senedd i Gymru.

I'd like to take this opportunity to express my thanks as Presiding Officer and on behalf of all Members to our Chief Executive and Clerk and to all our staff for their dedication and for the professional and expert support they have given us as Members. I wish everyone the very best for the future, whatever that might hold for you. Thank you all.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i fynegi fy niolch fel Llywydd ac ar ran yr holl Aelodau i'n Prif Weithredwr a Chlerc ac i'n holl staff am eu hymroddiad ac am y cymorth proffesiynol ac arbenigol y maent wedi'i roi i ni fel Aelodau. Rwy'n dymuno'r gorau i bawb ar gyfer y dyfodol, beth bynnag fydd ganddo ar eich cyfer. Diolch i chi i gyd.

I now invite the mace bearer to remove the mace and the clerk to receive it in the Cwrt—. I beg your pardon. The most important part of the day. I beg your pardon. I now call on Gwenda Thomas. [Applause.]

Gwahoddaf gludydd y byrllysg yn awr i gludo'r byrllysg o'r Siambr a'r clerc i'w dderbyn yn y Cwrt—. Mae'n ddrwg gennyf. Y rhan bwysicaf o'r dydd. Mae'n ddrwg gennyf. Galwaf yn awr ar Gwenda Thomas. [Cymeradwyaeth.]

19:15

### Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, thank you for that.

Wel, diolch am hynny.

Diolch, Lywydd. Mae’n bleser gennyf godi o fainc gefn Llafur. Rwyf wedi, rwy’n meddwl—rwy’n gobeithio—diolch i chi a’ch dirprwy a’ch rhagflaenwyr bob tro yr wyf wedi codi i siarad yn y lle yma dros y 17 mlynedd ddiwethaf. Wel, mae hwn yn ddiolch gwahanol. Hwn yw’r un olaf i mi a hwn yw’r mwyaf ei faint. Mae’n ddiolch i chi ac i’ch dirprwy am yr holl rydych wedi ei wneud i adeiladu’r sefydliad yma. Mae’n ddiolch i holl staff y Comisiwn a phawb sy’n gweithio ynddo ac ar gyfer y Cynulliad hwn. Mae’n ddiolch i’r clercod, i’r cyfieithwyr, i’r arlwywyr, i’r staff glanhau, y swyddogion diogelwch, y staff cynorthwyol ac i’r heddlu hefyd. Yn wir, mae’n ddiolch i bawb sydd wedi ein cynorthwyo fel Aelodau.

Thank you, Presiding Officer. It is a great pleasure to rise from the Labour backbench. I believe—well, I hope—that I have thanked you and your deputy and your predecessors each time that I have spoken in this place over the past 17 years. Well, this is a different type of thank you. This is the very last one from me and this is the biggest thank you of all. It is a thank you to you and your deputy for everything that you have done to build this institution. It’s a thank you to all the Commission employees and everybody working within the Commission and for this Assembly. It is a thank you to the clerks, to the interpreters and translators, the caterers, the cleaning staff, the security team, the support staff and thank you to the police too. In fact, it is a thank you to everybody who has helped us as Members.

Efallai y gellir ein cymharu ag elyrch yn gleidio’n osgeiddig ar wyneb y dŵr tra bod y padlo egnïol yn digwydd yn anweledig. Ond, wrth gwrs, gallai hyn fod yn gor-ddweud ein ceinder, gyda’r eithriad yma o’r byth teilwraidd William Graham. Fel un o’r rhai sydd wedi cael y fraint o dreulio cyfnod yn y Llywodraeth, hoffwn hefyd ddiolch i staff Llywodraeth Cymru a phawb ar y pumed llawr, a diolch yn gynnes iawn i’r gyrwyr gweinidogol: ni cheir grŵp o farchogion y ffordd mwy amyneddgar, gweddus a chwrtais.

Perhaps we could be compared to swans, gliding gracefully on the surface of the water whilst paddling furiously underneath the surface. But, of course, this could be an exaggeration of our grace, with the one exception of the ever sartorially elegant William Graham. As one of those who has had the privilege of spending a period in Government, I would also like to thank the staff of Welsh Government and everybody on the fifth floor, and a heartfelt thank you to the ministerial drivers: you will not find a more patient, decent and courteous group of knights of the road.

That day in 1999 when I first took my seat as the Labour Assembly Member for Neath seems, at one and the same time, a lifetime ago, but just a blink away. I remember so clearly the first official opening. I remember my granddaughter, Charlotte—because we had our families with us on that occasion, if you remember—she was then three years old, being in a state of considerable excitement about the royal visit. She took great pleasure in watching the Queen arrive, as she put it, in a horse and cart. [Laughter.]

Mae’r diwrnod hwnnw yn 1999 pan gymerais fy sedd am y tro cyntaf fel Aelod Cynulliad Llafur dros Gastell-nedd yn ymddangos fel oes yn ôl, ac ar yr un pryd, fel pe bai wedi digwydd ddoe. Rwy’n cofio mor glir yr agoriad swyddogol cyntaf. Rwy’n cofio fy wyres, Charlotte—oherwydd roedd ein teuluoedd gyda ni ar yr achlysur hwnnw, os cofiwch—roedd hi’n dair oed bryd hynny, ac wedi cyffroi’n fawr ynglŷn â’r ymweliad brenhinol. Cafodd bleser mawr yn gwylio’r Frenhines yn cyrraedd, fel roedd hi’n dweud, mewn ceffyl a throl. [Chwerthin.]

‘O!’, meddai hi, yn Gymraeg, ‘co’r Queen yn dod mewn ceffyl a chart.’

‘Oh!’, she said in Welsh, ‘here comes the Queen in a horse and cart.’

The road to that moment, and to this, has been circuitous, rough and sometimes potholed. There were 575 years between our last parliament and the referendum in 1979, another 30 years of waiting before the creation of the Assembly and a dozen more before law-making powers finally came to this place. That phrase—‘this place’—we have borrowed it from the Houses of Parliament, and charmingly understated though it is, I sometimes think it misses the most significant, the most fundamental feature of this Senedd.

Mae’r ffordd at y foment honno, ac at hon, wedi bod yn gwmpasog, yn arw ac weithiau’n llawn o dyllau. Roedd 575 o flynyddoedd rhwng ein senedd ddiwethaf a’r refferendwm yn 1979, 30 mlynedd arall o aros cyn sefydlu’r Cynulliad a dwsin wedyn cyn i bwerau deddfu ddod i’r lle hwn o’r diwedd. Rydym wedi benthyg yr ymadrodd hwnnw—y lle hwn—o ddau Dŷ’r Senedd, ac er mor hyfryd o gynnil ydyw, rwy’n meddwl weithiau ei fod yn methu’r nodwedd fwyaf sylfaenol, fwyaf arwyddocaol, o’r Senedd hon.

Nid y ‘lle hwn’, ond ‘ein lle’.

It’s not ‘this place’, but rather ‘our place’.

Not ‘this place’, but rather ‘our place’.

Nid y ‘lle hwn’ ydyw, ond yn hytrach ‘ein lle’.

After six centuries, we have a voice—sometimes united, sometimes fractious, but always our voice. It speaks for Wales and answers to Wales.

Ar ôl chwe chanrif, mae gennym lais—weithiau’n unedig, weithiau’n gecrus, ond bob amser ein llais ni. Mae’n siarad dros Gymru ac yn atebol i Gymru.

Putting all party politics aside, all of us here are part of the great adventure that is the building of our nation. It has been an honour and a pleasure to do my bit. I hope the social services and wellbeing Act will stand as an example of consensual law making for future Assemblies.

Gan roi pob gwleidyddiaeth plaid o'r neilltu, mae pob un ohonom yma yn rhan o antur fawr adeiladu ein cenedl. Mae wedi bod yn fraint ac yn bleser i wneud fy rhan. Rwy'n gobeithio y bydd y Ddeddf gwasanaethau cymdeithasol a llesiant yn sefyll fel enghraifft o ddeddfu cydsyniol ar gyfer Cynulliadau'r dyfodol.

And on that note I will, if you will permit me, share with you one last thought: we are all politicians, and Welsh politicians at that—debate and indeed argument are in our blood. But we are at our best, I think, when we are working together. We achieve most when we find consensus. Gerald of Wales was right: if we could be inseparable, we would be insuperable.

Ac ar y nodyn hwnnw, os caniatewch i mi, rwyf am rannu gyda chi un meddwl olaf: rydym i gyd yn wleidyddion, ac yn wleidyddion Cymreig ar hynny—mae trafod, a dadlau yn wir, yn ein gwaed. Ond rydym ar ein gorau, rwy'n meddwl, pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd. Rydym yn cyflawni fwyaf pan fyddwn yn dod o hyd i gonsensws. Roedd Gerallt Gymro yn iawn: pe gallem fod yn anwahanadwy, byddem yn anorchfygol.

The old question goes:

Mae'r hen gwestiwn yn gofyn:

'I ti heddiw, i bwy yfory?'

'I ti heddiw, i bwy yfory?'

Today is thine, whose tomorrow?

Mae heddiw'n eiddo i ti, i bwy y mae yfory'n perthyn?

I hope, and I trust, that the answer is 'All of ours'. Seventeen years have taught me that, so long as we remember that what unites us is more important than that what divides us, we will succeed. If we can do this, then, as sure as there is new grass growing on our mountains on this beautiful spring day, Wales will have a great future ahead of her.

Rwy'n gobeithio, ac yn hyderu, mai'r ateb yw 'I bawb ohonom'. Mae dwy flynedd ar bymtheg wedi dysgu i mi, cyn belled â'n bod yn cofio bod yr hyn sy'n ein huno yn bwysicach na'r hyn sy'n ein gwahanu, byddwn yn llwyddo. Os gallwn wneud hyn, yna, cyn sicred â bod glaswellt newydd yn tyfu ar ein mynyddoedd ar y diwrnod hwn o wanwyn prydferth, bydd gan Gymru ddyfodol gwych o'i blaen.

Diolch yn fawr i bawb. Iechyd da, pob hwyl, a da bo. [Cymeradwyaeth.]

Thank you, everyone. All the best, farewell, and goodbye. [Applause.]

19:21

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Gwenda. Now I call William Graham.

Diolch, Gwenda. Nawr galwaf ar William Graham.

19:21

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer, for calling me for the last time. May I commence by thanking you, Presiding Officer, and your excellent deputy, for the ways in which you've guided the affairs of the Assembly in your usual forthright but elegant style, with which you have accomplished so much for both the National Assembly and for women in Wales? Looking across the Chamber, I see at least three other Members who joined me in doing our best to persuade you to stand, those years ago, as Deputy Presiding Officer. May I say how much our confidence has been rewarded and our hopes fulfilled? We are grateful to you for your unfailing courtesy, even when faced with considerable provocation. [Laughter.] On behalf of the Welsh group, may I wish you and Derek every happiness in your retirement? Though I am presently the chairman of our pension trust, make sure you bash the pension fund. [Laughter.]

Diolch i chi, Lywydd, am fy ngalw am y tro olaf. A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i chi, Lywydd, ac i'ch dirprwy rhagorol, am y ffyrdd rydych wedi arwain materion y Cynulliad yn eich dull di-lol ond syber arferol, yr un dull ag a ddefnyddioch i gyflawni cymaint ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol ac ar gyfer menywod yng Nghymru? Wrth edrych ar draws y Siambr, rwy'n gweld o leiaf dri Aelod arall a ymunodd â mi i wneud ein gorau i'ch perswadio i sefyll, flynyddoedd maith yn ôl, fel Dirprwy Lywydd. A gaf fi ddweud cymaint y cafodd ein hyder ei wobrwyo a'n gobeithion eu cyflawni? Rydym yn ddiolchgar i chi am eich cwrteisi di-feth, hyd yn oed pan oeddech yn wynebu cryn gythrudd. [Chwerthin.] Ar ran y grŵp Cymreig, hoffwn ddymuno pob hapusrwydd i chi a Derek yn eich ymddeoliad? Er fy mod ar hyn o bryd yn gadeirydd ein hymddiriedolaeth bensiwn, sicrhewch eich bod yn gwneud tolc yn y gronfa bensiwn. [Chwerthin.]

In terms of selection, I do recall one other rather hot Sunday afternoon, some five years ago, when another subject of my encouragement apparently could not hear my mobile phone calls above the noise of his tractor. However, all proved to be well when energy expended ensured his selection as our group leader and he has endowed my party with renewed vitality and definite policy intention and has proved to me to be an effective and loyal friend.

A sôn am ddethol, rwy'n cofio un prynhawn Sul braidd yn boeth, oddeutu pum mlynedd yn ôl, pan na allai testun arall i fy anogaeth glywed fy ngalwadau ffôn dros sŵn ei dractor, mae'n debyg. Fodd bynnag, roedd pob dim yn iawn pan sicrhaodd yr ynni a ddihysbyddwyd ei fod yn cael ei ddewis yn arweinydd ein grŵp ac mae wedi cyfrannu bywiogrwydd o'r newydd a bwriad polisi pendant i'n plaid ac mae wedi bod yn ffrind effeithiol a ffyddlon i mi.

I would join with Gwenda in thanking our exceptional committee Chairs, the informative researchers and truly indispensable support staff for us all. When I last gave this speech, I mentioned to you the Latin tag 'morituri te salutent'—those about to die salute you, which is supposedly what the gladiators said when they went into the arenas of Rome for the final time. Fortunately, our election system is not quite so final.

Hoffwn ymuno â Gwenda i ddiolch i Gadeiryddion ein pwyllgorau eithriadol, yr ymchwilwyr llawn gwybodaeth a'r staff cymorth gwirioneddol anhepgor i ni i gyd. Pan roddais yr araith hon ddiwethaf, soniais wrthych am y tag Lladin 'morituri te salutent'—mae'r rhai sydd ar fin marw yn eich cyfarch, sef yr hyn, yn ôl y sôn, a ddywedai'r gladiatoriaid pan fyddent yn mynd i mewn i'r arenâu yn Rhufain am y tro olaf. Yn ffodus, nid yw ein system etholiadol cweit mor derfynol.

In the birthplace of democracy in Greece, Aristotle once wrote

Ym man geni democratiaeth yng Ngwlad Groeg, ysgrifennodd Aristoteles un tro

'there is really no other occupation in which human virtue approaches more closely the august function of the gods… no nobler motive for entering public life than the resolution not to be ruled by wicked men'.

nad oes, mewn gwirionedd, unrhyw alwedigaeth arall lle y mae rhinwedd ddynol yn dod yn agosach at swyddogaeth fawreddog y duwiau… na'r un cymhelliad mor urddasol ar gyfer mynd i fywyd cyhoeddus na'r penderfyniad i beidio â chael eu rheoli gan ddynion drwg.

Though, by their nature, these remarks tend to look back over the last 17 years, with some successes and some failures, I would remark that in the course of the Assembly no other business manager has yet lost so many motions or so many amendments. [Laughter.] Though noting that under great oaks little acorns seldom grow, I truly believe that our transformation into a Welsh Parliament will enable greater expression of political life for all our people, regardless of their political persuasion. In the current migrant crisis in eastern Europe, I trust that the new Assembly—the new Parliament—will still find time to speak out for the friendless and the dispossessed, and that it will continue to endeavour to maintain and create jobs for craftsmen of whatever gender in a tolerant and free society.

Er bod y sylwadau hyn, yn ôl eu natur, yn tueddu i edrych yn ôl dros y 17 mlynedd diwethaf, gyda rhai llwyddiannau a rhai methiannau, byddwn yn nodi, yn ystod y Cynulliad nad oes unrhyw reolwr busnes arall wedi colli cymaint o gynigion na chymaint o welliannau. [Chwerthin.] Er fy mod yn nodi mai anaml y bydd mes bach yn tyfu o dan goed derw mawr, rwy'n credu'n wirioneddol y bydd ein trawsnewidiad yn Senedd Gymreig yn sicrhau mynegiant ehangach i fywyd gwleidyddol er mwyn pawb o'r bobl, waeth beth fo'u daliadau gwleidyddol. Yn yr argyfwng ymfudo presennol yn nwyrain Ewrop, hyderaf y bydd y Cynulliad newydd—y Senedd newydd—yn dal i ddod o hyd i amser i godi llais dros y bobl sy'n ddigyfaill ac yn ddifeddiant, ac y bydd yn parhau i ymdrechu i gynnal a chreu swyddi i grefftwyr o'r ddau ryw mewn cymdeithas oddefgar a rhydd.

I cannot express how much of a privilege it has been to be a Member of this Assembly, and I take from it continued friendship across the parties, which must remain a noted feature of Welsh politics. No-one will presume that the Assembly is in any way an example of complete perfection, but it can be a genuine and sincere effort to remedy, where possible, and to bring together all those strains, so many and varied, that help to improve the lives of all the citizens of Wales. In debates, Members have spoken with the utmost conviction and with great persuasiveness. Many, however, live too intimately with their ideals, but that they are persuaded of their reality, though in truth practicality may be quite impossible. It is the lot of politicians to seek to improve the life of every individual in our charge, and this may be an impossible dream, but it's a dream we can live by, and a dream we live by is more real than the reality we ignore.

Ni allaf fynegi faint o fraint oedd bod yn Aelod o'r Cynulliad hwn, ac af ohono wedi gwneud cyfeillion parhaol ar draws y pleidiau, ac mae'n rhaid bod honno'n nodwedd nodedig o wleidyddiaeth Cymru. Ni fydd unrhyw un yn rhagdybied bod y Cynulliad mewn unrhyw ffordd yn enghraifft o berffeithrwydd cyflawn, ond gall fod yn ymdrech wirioneddol a diffuant i unioni, lle y bo modd, ac i ddod â'r holl elfennau hynny, sydd mor niferus ac amrywiol, at ei gilydd i helpu i wella bywydau holl ddinasyddion Cymru. Mewn dadleuon, mae Aelodau wedi siarad gyda'r argyhoeddiad mwyaf a chyda grym perswâd. Mae llawer, fodd bynnag, yn byw yn rhy agos at eu delfrydau, ond cânt eu perswadio o'u realiti, er efallai bod ymarferoldeb yn gwbl amhosibl mewn gwirionedd. Gwaith llawer o wleidyddion yw ceisio gwella bywyd pob unigolyn yn ein gofal, a gall fod yn freuddwyd amhosibl, ond mae'n freuddwyd y gallwn fyw wrthi, ac mae breuddwyd rydym yn byw wrthi'n fwy real na'r realiti rydym yn ei anwybyddu.

As previously, I'll leave you with my paraphrase of Shakespeare's words, supposedly spoken by the Welsh King of England, Scotland, Ireland and Wales—France intended also—Henry of Monmouth:

Fel o'r blaen, rwyf am eich gadael drwy aralleirio geiriau Shakespeare, a siaradwyd yn ôl y sôn gan Frenin Cymreig Lloegr, yr Alban, Iwerddon a Chymru—a Ffrainc yn ôl y bwriad hefyd—Harri o Fynwy:

This story shall the good man teach his son from this day to the ending of the world, but we in it shall be remembered, we few, we happy few, we band of Members, and gentlemen and gentlewomen in Wales now a-bed shall think themselves accursed they were not here, that fought with us upon election day. [Applause.]

This story shall the good man teach his son from this day to the ending of the world, but we in it shall be remembered, we few, we happy few, we band of Members, and gentlemen and gentlewomen in Wales now a-bed shall think themselves accursed they were not here, that fought with us upon election day. [Cymeradwyaeth.]

19:26

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, William. And now I call Jocelyn Davies.

Diolch yn fawr iawn, William. Ac yn awr galwaf ar Jocelyn Davies.

19:26

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Well, on behalf of the Plaid Cymru group I'd like to start by thanking everyone who has been part of the work of the Assembly over the last five years, and of course all those who work within this building, without whom we certainly could not function. I want to thank you, Presiding Officer, and your fabulous deputy, for the way you've ruled over us here and how you've represented us to the outside world. You've both been absolutely superb ambassadors.

Diolch i chi, Lywydd. Wel, ar ran grŵp Plaid Cymru hoffwn ddechrau drwy ddiolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o waith y Cynulliad dros y pum mlynedd diwethaf, ac wrth gwrs i bawb sy'n gweithio yn yr adeilad hwn, y rhai na fyddem yn gallu gweithredu hebddynt, yn bendant. Rwyf am ddiolch i chi, Lywydd, a'ch dirprwy gwych, am y modd rydych wedi llywyddu drosom yma a sut rydych wedi ein cynrychioli ni i'r byd y tu allan. Rydych wedi bod yn llysgenhadon gwirioneddol wych eich dau.

Of course, we shouldn't forget all those outside of this institution who contribute to all of our work, and I'm very grateful as well to all you Assembly Members.

Wrth gwrs, ni ddylem anghofio pawb y tu allan i'r sefydliad hwn sy'n cyfrannu at ein holl waith, ac rwy'n ddiolchgar iawn hefyd i bawb ohonoch chi, Aelodau'r Cynulliad.

Now, this Assembly term began following the endorsement of the Welsh people in that 2011 referendum, and so this has been the first term of a proper Welsh Parliament able to make its own laws without asking permission from Westminster. Even though they aren't here, I'd like to pay a tribute to both Rhodri Morgan, for agreeing to have that referendum, and to Ieuan Wyn Jones, for proposing it as an essential part of the 'One Wales' agreement, and of course, to Jane Hutt, for working with me to make that possible.

Yn awr, dechreuodd tymor y Cynulliad hwn yn dilyn cymeradwyaeth y Cymry yn refferendwm 2011, ac felly hwn oedd y tymor cyntaf y gallai Senedd Gymreig go iawn wneud ei deddfau ei hun heb ofyn caniatâd gan San Steffan. Er nad ydynt yma, hoffwn dalu teyrnged i Rhodri Morgan, am gytuno i gael y refferendwm hwnnw, ac i Ieuan Wyn Jones, am ei gynnig yn rhan hanfodol o'r cytundeb 'Cymru'n Un', ac wrth gwrs, i Jane Hutt, am weithio gyda mi i wneud hynny'n bosibl.

It has been an honour to have been part of the growth of this institution from those early days of a corporate body dealing with those potatoes-originating-from-Egypt regulations to now, when we can, if we choose, create distinctive Welsh legislation that will shape the future of our nation. We've certainly come a long way, and there have been a lot of machinations on that journey, and I've been involved in most of those—I have to say, particularly the successful machinations; but I'll keep those stories, perhaps, for another time. I know there wasn't a proper record kept, I don't think, of the order in which we took the oath in 1999, but I was in fact the first Assembly Member to be sworn in by Claire Clancy in this, our first term of our proper Parliament. So, I'm guessing that makes me the mother of this house, and of course, mothers should never have favourites, so I hope right now you're all thinking that you're my favourites, and I hope that you all feel that I've treated you well. I'll certainly miss you all, and I'll miss coming here every week, and those 8 a.m. breakfasts with the early birds, and of course I'll desperately miss my Plaid Cymru colleagues, and I know they'll miss my mother's bakestones almost as much as they'll miss me.

Mae wedi bod yn anrhydedd cael bod yn rhan o dwf y sefydliad hwn o ddyddiau cynnar y corff corfforaethol a oedd yn ymdrin â'r rheoliadau tatws yn tarddu o'r Aifft at y presennol, pan allwn, os ydym yn dewis, greu deddfwriaeth Gymreig unigryw a fydd yn llunio dyfodol ein cenedl. Rydym yn sicr wedi dod yn bell, a bu llawer o gynllwynio ar y daith honno, ac rwyf wedi bod yn rhan o'r rhan fwyaf o'r rheini—mae'n rhaid i mi ddweud, yn enwedig y cynllwynio llwyddiannus; ond cadwaf y straeon hynny, efallai, at rywdro arall. Rwy'n gwybod na chadwyd cofnod cywir, nid wyf yn credu, o'r drefn pan gymerasom y llw yn 1999, ond mewn gwirionedd, fi oedd yr Aelod Cynulliad cyntaf i gael tyngu llw gerbron Claire Clancy yn y Cynulliad hwn, tymor cyntaf ein Senedd go iawn. Felly, rwy'n dyfalu fod hynny'n fy ngwneud yn fam y tŷ hwn, ac wrth gwrs, ni ddylai mamau byth gael ffefrynnau, felly rwy'n gobeithio yn awr eich bod i gyd yn meddwl eich bod yn ffefrynnau i mi, ac rwy'n gobeithio y byddwch i gyd yn teimlo fy mod wedi eich trin yn dda. Byddaf yn sicr o weld eich colli chi i gyd, a byddaf yn gweld colli dod yma bob wythnos, a'r brecwastau 8 o'r gloch rheini gyda'r adar cynnar, ac wrth gwrs byddaf yn gweld colli fy nghyd-Aelodau ym Mhlaid Cymru, ac rwy'n gwybod y byddant yn gweld colli pice ar y maen fy mam bron cymaint ag y byddant yn gweld fy ngholli i.

Many of you, I have to say, have said some lovely things about my contribution here, and if only I'd known that before I decided to leave, things could have been so different. But looking forward to the next Assembly, we should remind ourselves of the principles that this institution was founded upon. We must remain inclusive and transparent. We must listen, and we must ensure that all decision making is accessible and open to those whom it will affect. We campaigned for a parliament, and some of us campaigned for many years for that, and now it's time for us to prove that the Assembly is mature enough to deliver meaningful benefits and to govern well. I look forward to seeing a new generation of politicians stepping forward and bringing with them new ideas and a new enthusiasm for the people of Wales. And that's me done. [Applause.]

Mae llawer ohonoch, rhaid i mi ddweud, wedi dweud rhai pethau hyfryd am fy nghyfraniad yma, a phe bawn i ond yn gwybod hynny cyn i mi benderfynu gadael, gallai pethau fod wedi bod mor wahanol. Ond wrth edrych ymlaen at y Cynulliad nesaf, dylem atgoffa'n hunain o'r egwyddorion y cafodd y sefydliad hwn ei seilio arnynt. Mae'n rhaid i ni barhau'n gynhwysol ac yn dryloyw. Mae'n rhaid i ni wrando, a rhaid i ni sicrhau bod yr holl broses o wneud penderfyniadau'n hygyrch ac yn agored i'r rhai y bydd yn effeithio arnynt. Ymgyrchasom dros senedd, a bu rhai ohonom yn ymgyrchu ers blynyddoedd lawer am hynny, a nawr mae'n bryd i ni brofi bod y Cynulliad yn ddigon aeddfed i sicrhau manteision ystyrlon ac i lywodraethu'n dda. Edrychaf ymlaen at weld cenhedlaeth newydd o wleidyddion yn camu ymlaen ac yn dod â syniadau newydd a brwdfrydedd newydd gyda hwy ar gyfer pobl Cymru. A dyna fi wedi gorffen. [Cymeradwyaeth.]

19:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I now call on Peter Black.

Galwaf yn awr ar Peter Black.

19:30 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I feel like a bit of an impostor doing this because I have no intention of voluntarily standing down. [Laughter.] But, as usual, I've been drafted in at the last minute to stand in, and I wanted to start by giving my thanks to you, Presiding Officer, and all your staff, and to all the Commission staff. I've worked as a commissioner as well as an Assembly Member for many years, and I have to say that the quality of the staff here is absolutely exceptional. They're hardworking, dedicated and committed, and they deliver a really good service for all of us, and I think that needs to be acknowledged. [Applause.] Of course, you lot always blame me for the ICT failures—[Laughter.]—but I just blame the system; it's nobody's fault, really. But, you know, we've done our best and I think the service that the Commission has delivered has been exceptional as well, and it has kept the place together, organisationally, behind the scenes. It's been very much like a lot of activity under water as people have been trying to stay afloat, and it's worked very well indeed. Of course, when you come back, you'll have a completely different Chamber to come back to as well, but that's for the next time, and I hope to be here to enjoy that.

Rwy'n teimlo fel tipyn o dwyllwr yn gwneud hyn oherwydd nad oes gennyf unrhyw fwriad o gamu i lawr yn wirfoddol. [Chwerthin.] Ond fel arfer, cefais fy nrafftio i mewn ar y funud olaf, ac roeddwn eisiau dechrau drwy ddiolch i chi, Lywydd, a'ch holl staff, ac i holl staff y Comisiwn. Rwyf wedi gweithio fel comisiynydd yn ogystal â fel Aelod Cynulliad ers blynyddoedd lawer, ac mae'n rhaid i mi ddweud bod ansawdd y staff yma yn gwbl eithriadol. Maent yn weithgar, yn ymroddedig ac yn ymrwymedig, ac maent yn darparu gwasanaeth gwirioneddol dda i bob un ohonom, a chredaf fod angen cydnabod hynny. [Cymeradwyaeth.] Wrth gwrs, rydych i gyd bob amser yn rhoi'r bai arnaf fi am y methiannau TGCh—[Chwerthin.] —ond rwyf fi'n beio'r system; nid yw'n fai ar neb, mewn gwirionedd. Ond wyddoch chi, rydym wedi gwneud ein gorau ac rwy'n credu bod y gwasanaeth y mae'r Comisiwn wedi'i ddarparu wedi bod yn eithriadol hefyd, ac mae wedi cadw'r lle gyda'i gilydd, yn sefydliadol, y tu ôl i'r llenni. Mae wedi bod yn debyg iawn i lawer o weithgarwch o dan y dŵr wrth i bobl geisio dal ati i arnofio, ac mae wedi gweithio'n dda iawn yn wir. Wrth gwrs, pan fyddwch yn dod yn ôl, bydd gennych Siambr hollol wahanol i ddod yn ôl iddi hefyd, ond mae hynny ar gyfer y tro nesaf, ac rwy'n gobeithio bod yma i fwynhau hynny.

It has, of course, been an enormous privilege to be an Assembly Member, to serve in this Assembly, as in the previous three Assemblies. This is a serious job in an increasingly influential Chamber. We've passed laws for the first time, and I've been absolutely privileged to be part of that process, and also to bring my own private Members' Bill through as well. Only two private Members' Bills have actually made it to the statute book—mine and Kirsty Williams's—and I think they will make a big difference, and I think that the legislation that we've passed in this Chamber will make a big difference. I haven't always agreed with all of it, but I really think—. [Interruption.] I was talking about the private Members' Bills this time; Ann Jones's legislation was, of course, a legislative competence Order and a Measure in the previous Assembly. [Interruption.] I should acknowledge Ann Jones's contribution as well—you can never silence Ann when she has something to say, of course. [Laughter.]

Mae wedi bod yn fraint enfawr, wrth gwrs, i fod yn Aelod Cynulliad, i wasanaethu yn y Cynulliad hwn, fel yn y tri Chynulliad blaenorol. Mae hon yn swydd ddifrifol mewn Siambr sy'n fwyfwy dylanwadol. Rydym wedi pasio deddfau am y tro cyntaf, ac rwyf wedi cael y fraint enfawr o fod yn rhan o'r broses honno, a hefyd i gyflwyno fy Mil Aelod preifat fy hun hefyd. Dau Fil Aelod preifat yn unig sydd wedi cyrraedd y llyfr statud mewn gwirionedd—fy un i ac un Kirsty Williams—ac rwy'n meddwl y byddant yn gwneud gwahaniaeth mawr, ac rwy'n meddwl y bydd y ddeddfwriaeth rydym wedi'i phasio yn y Siambr hon yn gwneud gwahaniaeth mawr. Nid wyf bob amser wedi cytuno â phob peth, ond rwy'n meddwl o ddifrif—. [Torri ar draws.] Roeddwn yn sôn am Filiau Aelodau preifat y tro hwn; Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol oedd deddfwriaeth Ann Jones wrth gwrs, a Mesur yn y Cynulliad blaenorol. [Torri ar draws.] Dylwn gydnabod cyfraniad Ann Jones yn ogystal—ni allwch byth dawelu Ann pan fydd ganddi rywbeth i'w ddweud, wrth gwrs. [Chwerthin.]

This Assembly started off with me and the Lib Dem Two, and having to stand up in front of you—standing up on my knees, if you like—and asking you to let Aled Roberts into this Chamber. Aled, of course, has now gone off to north Wales for a very urgent appointment and left me to do this—that's all the thanks I get for that. [Laughter.] But, of course, we've had a group of five here since then. It's been the smallest group, but I think we've also exercised huge influence as the smallest group as well. We've worked with the Welsh Government on legislation, on budgets and delivered a lot of the Welsh Liberal Democrat policies. I feel very proud that I've been able to contribute as part of that. As well as doing a serious job, I've actually felt that I've made a difference being in this Chamber, and I think everybody in this Chamber has made a difference in their own way to the way that Wales is being governed, and I think that's very important.

Dechreuodd y Cynulliad hwn gyda mi a'r ddau Ddemocrat Rhyddfrydol, yn gorfod sefyll o'ch blaenau—sefyll ar fy mhen-gliniau, os mynnwch—a gofyn i chi adael Aled Roberts i mewn i'r Siambr hon. Mae Aled bellach, wrth gwrs, wedi cychwyn am ogledd Cymru ar gyfer apwyntiad brys ac wedi gadael i mi wneud hyn—dyna'r diolch a gaf am hynny. [Chwerthin.] Ond wrth gwrs, rydym wedi cael grŵp o bump yma ers hynny. Dyma oedd y grŵp lleiaf, ond rwy'n credu ein bod hefyd wedi arfer dylanwad aruthrol fel y grŵp lleiaf hefyd. Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth, ar gyllidebau a chyflwyno llawer o bolisïau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Rwy'n teimlo'n falch iawn fy mod wedi gallu cyfrannu fel rhan o hynny. Yn ogystal â gwneud gwaith difrifol, rwyf wedi teimlo fy mod wedi gwneud gwahaniaeth yn y Siambr hon mewn gwirionedd, ac rwy'n meddwl bod pawb yn y Siambr hon wedi gwneud gwahaniaeth yn eu ffordd eu hunain i'r ffordd y mae Cymru'n cael ei llywodraethu, a chredaf fod hynny'n bwysig iawn.

There are many friends and colleagues who will not be re-standing, and I'll miss them when I'm back in the Chamber next time. [Laughter.] But I look forward to working with those who will come back next time and also meeting new friends and colleagues, because we're a small Chamber and whatever our political differences, we work together well, we're friends in many ways outside this Chamber, and we're able to work for the best interests of Wales. Because, at the end of the day, politicians, as I think one of the previous speakers has said, are there to deliver the best they can for the people who elect them, and we're here not for ourselves but to actually improve the lives of those we represent. And I think that will continue on to the next Chamber, and I think this Assembly will continue to grow in strength.

Mae yna lawer o ffrindiau a chyd-Aelodau na fydd yn ailsefyll, a byddaf yn gweld eu colli pan fyddaf yn ôl yn y Siambr y tro nesaf. [Chwerthin.] Ond rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r rhai a fydd yn dod yn ôl y tro nesaf a chyfarfod â ffrindiau a chyd-Aelodau newydd, gan ein bod yn Siambr fach a beth bynnag yw ein gwahaniaethau gwleidyddol, rydym yn gweithio gyda'n gilydd yn dda, rydym yn ffrindiau mewn sawl ffordd y tu allan i'r Siambr hon, ac rydym yn gallu gweithio er budd gorau Cymru. Oherwydd, yn y pen draw, fel y dywedodd un siaradwr blaenorol rwy'n credu, mae gwleidyddion yno i sicrhau'r gorau posibl i'r bobl sy'n eu hethol, ac rydym yma nid er ein mwyn ein hunain, ond i wella bywydau'r rhai rydym yn eu cynrychioli. Ac rwy'n meddwl y bydd hynny'n parhau i'r Siambr nesaf, ac rwy'n credu y bydd y Cynulliad hwn yn parhau i dyfu o ran ei nerth.

So, thank you, Presiding Officer, for giving me this opportunity, for bullying me into doing this—[Laughter.]—and I look forward to seeing you all in the next Assembly. [Applause.]

Felly, diolch i chi, Lywydd, am roi'r cyfle hwn i mi, am fy mwlio i wneud hyn— [Chwerthin.]—ac edrychaf ymlaen at eich gweld i gyd yn y Cynulliad nesaf. [Cymeradwyaeth.]

19:34

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now invite the mace bearer to remove the mace and for the clerk to receive it in the Cwrt. I invite you all to stand.

Gwahoddaf gludydd y byrllysg yn awr i gludo'r byrllysg o'r Siambr a'r clerc i'w dderbyn yn y Cwrt. Rwy'n eich gwahodd i gyd i sefyll.

*Daeth y cyfarfod i ben am 19:35.*

*The meeting ended at 19:35.*

*Cludwyd y byrllysg o'r Siambr.*

*The mace was removed from the Chamber.*